# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 06/10/2015

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Flynn
3. Statement: Welsh Government Response to the Flynn Report

4. Datganiad: Canlyniad yr Ymgynghoriadau ar y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi
4. Statement: Outcome of Land Transactions Tax and Landfill Disposals Tax Consultations

5. Datganiad: Manteision a Ddarperir drwy'r Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol
5. Statement: Benefits Delivered through the Flood and Coastal Erosion-risk Management Programme

6. Datganiad: Yr Argyfwng Ffoaduriaid
6. Statement: The Refugee Crisis

7. Datganiad: Rhoi Organau: Rhoi Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 ar Waith
7. Statement: Organ Donation: Implementing the Human Transplantation (Wales) Act 2013

8. Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Deunydd Perthnasol a Eithrir) (Cymru) 2015—i'w Gwneud o dan Adran 7 o'r Ddeddf
8. The Human Transplantation (Excluded Relevant Material) (Wales) Regulations 2015—to be Made under Section 7 of the Act

9. Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Cynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2015—i'w Gwneud o dan Adran 8 o'r Ddeddf
9. The Human Transplantation (Appointed Representatives) (Wales) Regulations 2015—to be Made under Section 8 of the Act

10. Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Personau nad yw'r Galluedd ganddynt i Gydsynio) (Cymru) 2015—i'w Gwneud o dan Adran 9 o'r Ddeddf
10. The Human Transplantation (Persons who Lack Capacity to Consent) (Wales) Regulations 2015—to be Made under Section 9 of the Act

11. Cod Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
11. The Human Tissue Authority's Code of Practice

12. Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)
12. Stage 4 Debate on the Local Government (Wales) Bill

13. Cyfnod Pleidleisio
13. Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before we start this afternoon, I'm sure Members will join me in welcoming the Speaker of the Republic of Georgia, who's brought a delegation of parliamentarians to see how things work here. So, I'm sure they'll have a very enjoyable afternoon.

Cyn i ni ddechrau y prynhawn yma, rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n ymuno â mi i groesawu Llefarydd Gweriniaeth Georgia, sydd wedi dod â dirprwyaeth o seneddwyr i weld sut mae pethau'n gweithio yma. Felly, rwy'n siŵr y byddan nhw'n cael prynhawn pleserus iawn.

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## 1. Questions to the First Minister

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the first item on the agenda, which is questions to the First Minister, and question 1 is from Kirsty Williams.

Symudwn at yr eitem gyntaf ar yr agenda nawr, sef cwestiynau i'r Prif Weinidog, a daw cwestiwn 1 gan Kirsty Williams.

### Strydoedd Mawr Lleol

### Local High Streets

13:31 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi strydoedd mawr lleol? OAQ(4)2476(FM)*

*1. What is the Welsh Government doing to support local high streets? OAQ(4)2476(FM)*

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We're supporting our high streets through a range of initiatives, including the £100 million Vibrant and Viable Places programme, through business improvement districts, through town-centre partnerships funding, and recyclable loans. A national high street campaign was held last month, showcasing events and activities the length and breadth of the nation.

Rydym ni'n cefnogi ein strydoedd mawr trwy amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid gwerth £100 miliwn, trwy ardaloedd gwella busnes, trwy bartneriaethau canol trefi, a benthyciadau ailgylchadwy. Cynhaliwyd ymgyrch stryd fawr genedlaethol y mis diwethaf, yn arddangos digwyddiadau a gweithgareddau ar hyd a lled y wlad.

13:31 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. Proposals by Powys County Council to introduce car parking charges in some towns in Brecon and Radnorshire has caused great alarm to local traders. The proposals also are to introduce car parking charges in residents' car parks, which were provided, historically, to improve road safety, and to improve congestion in some of our market towns. Your Government's own report says that councils should carry out independent impact assessments to be able to be sure that the introduction of charges—or the rate of charging—is not detrimental to local high streets. There is no evidence that Powys County Council has done that. Would you urge Powys County Council to think very carefully on the effects on some of our market towns, like Talgarth, before they introduce these charges?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae cynigion gan Gyngor Sir Powys i gyflwyno taliadau parcio ceir mewn rhai trefi ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed wedi achosi pryder mawr i fasnachwyr lleol. Mae'r cynigion hefyd i gyflwyno taliadau parcio mewn meysydd parcio preswylwyr, a ddarparwyd, yn hanesyddol, i wella diogelwch ar y ffyrdd, ac i wella tagfeydd yn rhai o'n trefi marchnad. Mae adroddiad eich Llywodraeth eich hun yn dweud y dylai cynghorau gynnal asesiadau o effaith annibynnol i allu bod yn siŵr nad yw cyflwyno taliadau—neu gyfradd y taliadau—yn niweidiol i strydoedd mawr lleol. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod Cyngor Sir Powys wedi gwneud hynny. A wnewch chi annog Cyngor Sir Powys i feddwl yn ofalus iawn am yr effeithiau ar rai o'n trefi marchnad, fel Talgarth, cyn iddyn nhw gyflwyno'r taliadau hyn?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, where parking charges are to be introduced, perhaps for the first time, I think it's important that a full assessment is made, before any such charges are proposed. If the Member tells me that that has not been done, then, of course, I'd encourage Powys—as I would encourage any other council—to consult as widely as possible and to carry out an assessment of what impact there may be on a town centre before taking further action.

Wel, lle mae taliadau parcio am gael eu cyflwyno, efallai am y tro cyntaf, rwy'n credu ei bod yn bwysig bod asesiad llawn yn cael ei gynnal, cyn i unrhyw daliadau o'r fath gael eu cynnig. Os yw'r Aelod yn dweud wrthyf nad yw hynny wedi cael ei wneud, yna, wrth gwrs, byddwn yn annog Powys—fel y byddwn yn annog unrhyw gyngor arall—i ymgynghori mor eang â phosibl ac i gynnal asesiad o ba effaith a allai fod ar ganol tref cyn cymryd camau pellach.

13:32 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the First Minister join me in congratulating Cardiff council on the vigour with which it has been pursuing the redevelopment of the Maelfa shopping centre in Llanedeyrn, which includes the best butcher in Cardiff, but which was abandoned by the previous administration? People locally are really enthusiastic about the way in which this is happening, because they recognise it is the centre of their local community.

A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i longyfarch cyngor Caerdydd ar yr egni y mae wedi ei arddangos wrth fynd ati i ailddatblygu canolfan siopa Maelfa yn Llanedeyrn, sy'n cynnwys y cigydd gorau yng Nghaerdydd, ond a gafodd ei adael heb gefnogaeth gan y weinyddiaeth flaenorol? Mae pobl yn lleol yn wirioneddol frwdfrydig am y ffordd y mae hyn yn digwydd, gan eu bod yn sylweddoli mai dyma ganol eu cymuned leol.

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, this is not a project that the Welsh Government is involved in—it's been driven forward by the city of Cardiff. I'm sure it'll be very much welcomed by local people, to see a shopping centre, which, perhaps, had seen better days in terms of its fabric, be transformed in order to provide a shopping centre that people can be proud of in Llanedeyrn and the surrounding area.

Wel, wrth gwrs, nid yw hwn yn brosiect y mae Llywodraeth Cymru yn rhan ohono—bwrwyd ymlaen ag ef gan ddinas Caerdydd. Rwy'n siŵr y bydd yn cael ei groesawu'n fawr gan bobl leol, i weld canolfan siopa, sydd, efallai, wedi gweld dyddiau gwell o ran ei adeiladwaith, yn cael ei gweddnewid i gynnig canolfan siopa y gall pobl fod yn falch ohoni yn Llanedeyrn a'r cyffiniau.

13:33 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae'n dair blynedd a hanner ers i'r Pwyllgor Menter a Busnes gyhoeddi ei adroddiad ar adfywio canol trefi, ac, fel rydych chi'n ei wybod, gwnaeth y pwyllgor 21 o argymhellion, a oedd i gyd wedi eu derbyn yn llawn neu mewn egwyddor, gan eich Llywodraeth. Yn yr amgylchiadau, a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch pa waith sydd wedi ei wneud gan eich Llywodraeth chi ers cyhoeddi'r adroddiad? Hefyd, a allwch chi ddweud wrthym ni pa argymhellion sydd bellach wedi cael eu gweithredu yn llawn gan eich Llywodraeth chi?

First Minister, it's three and a half years since the Enterprise and Business Committee published its report on town-centre regeneration and, as you know, the committee made 21 recommendations, which were all accepted either in full or in principle by your Government. Under these circumstances, can you give us an update on what work has been done by your Government since the publication of that report, and can you also tell us which recommendations have now been implemented fully by your Government?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym wedi symud ymlaen â Vibrant and Viable Places, rydym wedi symud ymlaen â'r gronfa i daclo tlodi, rydym wedi symud ymlaen ag ardaloedd gwella busnes, â phartneriaethau i ganol trefi, â chynllun benthyciadau i ganol trefi, ac, wrth gwrs, â'r ymgyrch i gefnogi ein stryd fawr. Ar ben hynny, wrth gwrs, rydym ni wedi bod yn gefnogol iawn ynglŷn â threthi busnes.

Well, yes, we've progressed with Vibrant and Viable Places, and we've progressed with the tackling poverty fund, and we're also improving businesses via the town-centre partnerships and the schemes for giving loans to town-centre. On top of that, of course, we've also been very supportive in terms of business rates.

13:34 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel y dywedodd yr Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed, mae parcio yn fater pwysig pan mae'n dod at ystyriaethau pobl o ran defnyddio'r stryd fawr. Pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o'r ymarferoldeb o gyflwyno rhaglen genedlaethol, a fyddai'n hyrwyddo cyflwyno parcio am ddim am gyfnod byr penodol mewn trefi, er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r stryd fawr?

As the Member for Brecon and Radnorshire said, parking is an important issue when it comes to people's consideration in using the high street. What assessment has the Government has made of the practicality of introducing a national programme that would promote the introduction of free parking for short periods in town centres in order to make it easier for people to make use of their high street?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, byddai'n rhaid talu am hynny yn ganolog, ond mae rhai awdurdodau lleol yn gwneud hyn yn barod, ac mae Pen-y-bont ar Ogwr yn un, er enghraifft, lle mae'n bosib parcio yn ystod rhai rhannau o'r wythnos, sydd wedi bod yn help mawr i'r dre, ac rydym yn gwybod bod awdurdodau eraill wedi ystyried yr un peth.

Of course, that would have to be paid for centrally, and some local authorities already do that, with Bridgend being one of them, where it's possible to park for some parts of the week and this has been a great boon to the town. We know that other authorities have considered the same scheme.

### Datblygu Economaidd

### Economic Development

13:35 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu economaidd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)2481(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on economic development in south-east Wales? OAQ(4)2481(FM)*

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are continuing to focus on a range of priorities to encourage economic development and we are delivering a wide range of actions that are supporting jobs, for example, through the provision of business support through Business Wales, through ICT support and transport infrastructure improvements.

Rydym ni'n parhau i ganolbwyntio ar amrywiaeth o flaenoriaethau i hybu datblygiad economaidd, ac rydym ni'n darparu amrywiaeth eang o gamau gweithredu sy'n cefnogi swyddi, er enghraifft, trwy ddarparu cymorth i fusnesau trwy Busnes Cymru, trwy gefnogaeth TGCh a gwelliannau i seilwaith trafnidiaeth.

13:36 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government does indeed have a range of strategies and policies in place to develop our economy and support spend in our local economies. Unfortunately, it seems to me that the UK Tory Government is pulling in the opposite direction, and, as an example of this, some 167,000 working families in Wales will lose out as a result of the proposed changes to the tax credit system. The Institute for Fiscal Studies estimate that the net loss per family of those families will be some £550 per year. Will you agree with me that there is real cause for concern and anger regarding the effect on individuals, families and communities and the amount of money that this will suck out of our local economies here in Wales? And, would you further agree that this is a crystal clear example of the double speak and hypocrisy of the UK Tories' supposed concern for a one-nation policy and strategy?

Yn wir, mae gan Lywodraeth Cymru amrywiaeth o strategaethau a pholisïau ar waith i ddatblygu ein heconomi a chefnogi gwariant yn ein heconomïau lleol. Yn anffodus, mae'n ymddangos i mi bod Llywodraeth Doriaidd y DU yn tynnu i'r cyfeiriad arall, ac, fel enghraifft o hyn, bydd tua 167,000 o deuluoedd sy'n gweithio yng Nghymru ar eu colled o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r system credyd treth. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif y bydd y golled net fesul teulu y teuluoedd hynny tua £550 y flwyddyn. A wnewch chi gytuno â mi bod achos gwirioneddol ar gyfer pryder a dicter ynghylch yr effaith ar unigolion, teuluoedd a chymunedau a faint o arian y bydd hyn yn ei sugno allan o'n heconomïau lleol yma yng Nghymru? Ac, a wnewch chi hefyd gytuno bod hon yn enghraifft cwbl eglur o siarad dwbl a rhagrith pryder tybiedig Torïaid y DU am bolisi a strategaeth un genedl?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The reality of the situation is that the economic difficulties that the world had to cope with beyond 2007 were caused by irresponsible financiers, and yet they are getting away scot-free; absolutely nothing is being attached to them—no responsibility for them at all and it is the low paid who are carrying the burden. Why do away with tax credits for those who are working? Why discourage people from working, as the Tories have done? There are some families who will lose up to £1,000 a year. The letters, we understand, will go out before Christmas, and the impact will come in April next year. It's another example of the Tories targeting the low-paid, hard-working people of this country.

Gwirionedd y sefyllfa yw yr achoswyd yr anawsterau economaidd y bu'n rhaid i'r byd ymdopi â nhw y tu hwnt i 2007 gan arianwyr anghyfrifol, ac eto maen nhw'n dianc heb unrhyw gosb o gwbl; nid oes dim byd o gwbl yn cael ei lynu atyn nhw—dim cyfrifoldeb iddyn nhw o gwbl, a'r rhai ar gyflogau isel sy'n ysgwyddo'r baich. Pam cael gwared ar gredydau treth i'r rhai sy'n gweithio? Pam annog pobl i beidio â gweithio, fel y mae'r Torïaid wedi ei wneud? Ceir rhai teuluoedd a fydd yn colli hyd at £1,000 y flwyddyn. Bydd y llythyrau, yr ydym ar ddeall, yn cael eu hanfon allan cyn y Nadolig, a bydd yr effaith yn dod ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Mae'n enghraifft arall o'r Torïaid yn targedu pobl y wlad hon sy'n gweithio'n galed am gyflogau isel.

13:37 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm really surprised to hear John Griffiths talking about poverty. What have you done in the last 17 years here in this place? You haven't done anything to improve the economy. Access to finance is vital if businesses in south-east Wales are to grow and thrive, First Minister. Will the First Minister update the Assembly on progress towards setting up a development bank for Wales, and does he agree with me that Finance Wales is not fit for purpose and should be abolished?

Rwy'n synnu'n fawr o glywed John Griffiths yn siarad am dlodi. Beth ydych chi wedi ei wneud yn y 17 mlynedd diwethaf yma yn y lle hwn? Nid ydych wedi gwneud dim i wella'r economi. Mae mynediad at gyllid yn hanfodol os yw busnesau yn y de-ddwyrain yn mynd i dyfu a ffynnu, Brif Weinidog. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd tuag at sefydlu banc datblygu ar gyfer Cymru, ac a yw'n cytuno â mi nad yw Cyllid Cymru yn addas i'w ddiben ac y dylid ei ddiddymu?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As the economy Minister has said, there is an announcement due during the course of the autumn in terms of how this moves forward.

Fel y mae Gweinidog yr economi wedi ei ddweud, bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud yn ystod yr hydref o ran sut y byddwn yn bwrw ymlaen â hyn.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We now move to questions from the party leaders, and, first this afternoon, we have the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:38

### Leanne Wood [Bywgraffiad] [Biography]

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Diolch, Lywydd. First Minister, yesterday, Betsi Cadwaladr health board's consultation on the future of maternity services in the north closed. What is the preferred option of the Labour Welsh Government for maternity services in the north?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, ddoe, daeth ymgynghoriad bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr ar ddyfodol gwasanaethau mamolaeth yn y gogledd i ben. Beth yw'r dewis a ffefrir gan Lywodraeth Lafur Cymru ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yn y gogledd?

13:38

### Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

For safe services, it's a matter for the board, of course, and we wait to see what the results of the consultation are. It would be wrong to prejudge that.

I gael gwasanaethau diogel, mae'n fater i'r bwrdd, wrth gwrs, ac rydym ni'n aros i weld beth yw canlyniadau'r ymgynghoriad. Ni fyddai'n iawn i ragfarnu hynny.

13:38

### Leanne Wood [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

First Minister, the preferred option of the health board involves a downgrade at Glan Clwyd, and we don't know what your preferred option is. How is your aspiration to open a neonatal intensive care centre at Glan Clwyd affected by the removal of consultant-led maternity services at that hospital? You're taking consultants away before bringing back a service that you promised would return. Isn't this a reflection, First Minister, of the mess that is happening on your watch and of your making?

Brif Weinidog, mae'r dewis a ffefrir gan y bwrdd iechyd yn cynnwys israddio yng Nglan Clwyd, ac nid ydym yn gwybod beth yw'r dewis a ffefrir gennych chi. Sut mae eich dyhead i agor canolfan gofal dwys i'r newydd-anedig yng Nglan Clwyd yn cael ei effeithio gan gael gwared ar wasanaethau mamolaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn yr ysbyty hwnnw? Rydych chi'n cymryd ymgynghorwyr i ffwrdd cyn dod â gwasanaeth yn ôl yr ydych chi wedi addo y byddai'n dychwelyd . Onid yw hwn yn adlewyrchiad, Brif Weinidog, o'r llanast sy'n digwydd o dan eich goruchwyliaeth chi ac yr ydych chi wedi ei greu?

13:39

### Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Firstly, the consultation has just closed, and no decisions have been made, as the leader of Plaid Cymru knows. The sub-regional neonatal intensive care centre will go to Glan Clwyd; it was never the intention that the SuRNICC would simply be a reflection of the current department. We all know what the problems of the current department are; they have been made very public. The SuRNICC is a wholly new operation in that regard, and the SuRNICC is moving forward. I've been in discussions with the health board over the course of the past week and I'm satisfied with the progress that is being made.

Yn gyntaf, dim ond newydd ddod i ben mae'r ymgynghoriad, ac nid oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud, fel y mae arweinydd Plaid Cymru yn ei wybod. Bydd y ganolfan is-ranbarthol ar gyfer gofal dwys i'r newydd-anedig yn mynd i Lan Clwyd; ni fwriadwyd erioed y byddai'r SuRNICC ddim ond yn adlewyrchiad o'r adran bresennol. Rydym ni i gyd yn gwybod beth yw problemau'r adran bresennol; maen nhw wedi cael eu gwneud yn gyhoeddus iawn. Mae'r SuRNICC yn weithrediad cwbl newydd yn hynny o beth, ac mae'r SuRNICC yn symud yn ei flaen. Rwyf wedi bod mewn trafodaethau gyda'r bwrdd iechyd yn ystod yr wythnos ddiwethaf ac rwy'n fodlon ar y cynnydd sy'n cael ei wneud.

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Let's not forget, First Minister—and you've already mentioned this—that maternity services are deemed unsafe in the north, and it's this Labour Government, under your watch, that has overseen the deterioration of those services over many years. You knew years ago that there were specific issues around recruitment at Glan Clwyd. Why is it that you prefer downgrading to upskilling? Why is it that you prefer the withdrawal of services rather than planning for their future? I'll ask again, First Minister: what is your vision for maternity services in the north of our country, or don't you have a vision?

Gadewch i ni beidio ag anghofio, Brif Weinidog—ac rydych chi wedi crybwyll hyn eisoes—yr ystyrir nad yw gwasanaethau mamolaeth yn ddiogel yn y gogledd, a'r Llywodraeth Lafur hon, dan eich goruchwyliaeth chi, sydd wedi goruchwylio dirywiad y gwasanaethau hynny dros flynyddoedd lawer. Roeddech chi'n gwybod flynyddoedd yn ôl bod problemau penodol yn ymwneud â recriwtio yng Nglan Clwyd. Pam mae'n well gennych chi israddio nag uwchsgilio? Pam mae'n well gennych chi ddiddymu gwasanaethau yn hytrach na chynllunio ar gyfer eu dyfodol? Gofynnaf eto, Brif Weinidog: beth yw eich gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yng ngogledd ein gwlad, neu ai'r gwirionedd yw nad oes gennych chi weledigaeth?

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The SuRNICC will go there, and we want safe services. The consultation has just closed. There would be no point having a consultation if I was to say to the leader of Plaid Cymru now, 'Well, there is a preferred view', because the reality is the consultation has just closed. There were some on her benches who urged me and urged us on these benches to disregard the difficult reports into the maternity department there, and say that some of it was nothing to do with the well-documented problems of interaction between the staff and the problems that have been caused as a result of that. We have taken action and the health board has taken action in order to resolve the situation. Once again, I reiterate that the SuRNICC will go to the Glan Clwyd site; that work is ongoing. I note her party supports, as well, the SuRNICC, and I note that they support the SuRNICC going to Glan Clwyd, and I'm sure that she will join me in welcoming the fact that progress is being made on delivering the SuRNICC at Glan Clwyd as a new department, as was always planned, that will serve all the people in the north of Wales.

Bydd y SuRNICC yn mynd yno, ac rydym ni eisiau gwasanaethau diogel. Mae'r ymgynghoriad newydd ddod i ben. Ni fyddai unrhyw bwynt cael ymgynghoriad pe byddwn i'n dweud wrth arweinydd Plaid Cymru nawr, 'Wel, mae safbwynt a ffefrir', oherwydd y gwir yw bod yr ymgynghoriad newydd ddod i ben. Roedd rhai ar ei meinciau hi a oedd yn ein hannog ni ar y meinciau hyn i ddiystyru'r adroddiadau anodd ar yr adran famolaeth yno, ac yn dweud bod rhan ohono'n ddim i'w wneud â'r problemau sydd wedi cael llawer o sylw o ryngweithio rhwng y staff a'r problemau a achoswyd o ganlyniad i hynny. Rydym ni wedi cymryd camau ac mae'r bwrdd iechyd wedi cymryd camau i ddatrys y sefyllfa. Unwaith eto, hoffwn ailadrodd y bydd y SuRNICC yn mynd i safle Glan Clwyd; mae'r gwaith hwnnw'n parhau. Sylwaf fod ei phlaid hi'n cefnogi'r SuRNICC hefyd, a sylwaf eu bod yn cefnogi'r SuRNICC yn mynd i Lan Clwyd, ac rwy'n siŵr y bydd yn ymuno â mi i groesawu'r ffaith fod cynnydd yn cael ei wneud ar ddarparu'r SuRNICC yng Nglan Clwyd fel adran newydd, fel y bwriadwyd erioed, a fydd yn gwasanaethu holl bobl y gogledd.

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, are you able to tell us how many local education authorities in Wales are currently in special measures?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, a allwch chi ddweud wrthym faint o awdurdodau addysg lleol yng Nghymru sy'n destun mesurau arbennig ar hyn o bryd?

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

For what?

Ar gyfer beth?

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

I had hoped, First Minister, that you'd be better briefed—

Roeddwn i wedi gobeithio, Brif Weinidog, y byddech chi wedi cael eich briffio'n well—

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The answer is 'none', overall.

Yr ateb yw 'dim un', yn gyffredinol.

Senedd.tv Fideo Video

13:42 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I had hoped that you would be better briefed, First Minister, after it was very apparent that your education Minister had absolutely no idea, when he was asked at the Children, Young People and Education Committee last week. But, it’s not just education authorities that are in need of help from your Government. Estyn’s most recent annual report shows that, overall, there has been a decline in the standards in Welsh primary schools. Perhaps you might be able to tell us what plans you have to improve standards for our youngest school pupils.

Roeddwn i wedi gobeithio y byddech chi wedi cael eich briffio’n well, Brif Weinidog, ar ôl iddi fod yn amlwg iawn nad oedd gan eich Gweinidog addysg unrhyw syniad o gwbl, pan ofynnwyd iddo yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yr wythnos diwethaf. Ond, nid yr awdurdodau addysg yn unig sydd angen help gan eich Llywodraeth. Dengys adroddiad blynyddol diweddaraf Estyn y bu dirywiad yn y safonau mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, yn gyffredinol. Efallai y gallech chi ddweud wrthym ni pa gynlluniau sydd gennych chi i wella safonau ar gyfer ein disgyblion ysgol ieuengaf.

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, she didn’t ask me about education; she should have phrased the question properly. But, she asked a question about standards, and the national literacy and numeracy framework—[Interruption.] The answer is ‘four’, as it happens. But, the situation is that we have the national literacy—[Interruption.] I can’t be blamed for the way questions are asked. The national literacy and numeracy framework is in place. We’re seeing literacy levels improve and numeracy levels improve, we’re seeing new schools being built across Wales, and it isn’t happening in England, of course. It didn’t happen when the Lib Dems were in Government. We’re seeing GCSE results improve, we’re seeing Schools Challenge Cymru improving our secondary schools, and we’re seeing them improve rapidly, in most cases. Education is moving forward in Wales at a good pace, and we are grateful to all those who have been involved in seeing the improvements that we have seen.

Wel, ni ofynnodd hi i mi am addysg; dylai fod wedi geirio'r cwestiwn yn iawn. Ond, gofynnodd gwestiwn am safonau, a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol—[Torri ar draws.] Yr ateb yw 'pedair', fel mae'n digwydd. Ond, y sefyllfa yw bod gennym ni’r fframwaith llythrennedd—[Torri ar draws.] Ni allaf gael fy meio am y ffordd y gofynnir cwestiynau. Mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar waith. Rydym ni’n gweld lefelau llythrennedd yn gwella a lefelau rhifedd yn gwella, rydym ni’n gweld ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu ledled Cymru, ac nid yw hynny'n digwydd yn Lloegr, wrth gwrs. Nid oedd yn digwydd pan roedd y Democratiaid Rhyddfrydol mewn Llywodraeth. Rydym ni’n gweld canlyniadau TGAU yn gwella, rydym ni’n gweld Her Ysgolion Cymru yn gwella ein hysgolion uwchradd, ac rydym ni’n eu gweld nhw’n gwella’n gyflym, yn y rhan fwyaf o achosion. Mae addysg yn symud ymlaen yng Nghymru ar gyflymder da, ac rydym ni’n ddiolchgar i bawb sydd wedi bod yn rhan o greu’r gwelliannau yr ydym ni wedi eu gweld.

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I’m not quite sure, First Minister, which bit of Estyn’s report you didn’t understand. Their conclusion is that, last year, standards in our primary schools, overall, across Wales, declined. Surely, you cannot be happy with such a report from your own inspector. One thing that I am pleased about is that there has been a narrowing in the gap, between pupils on free school meals and those who aren’t, at key stage 4. However, another thing that your education Minister had no clue about last week is that the Government’s own report into this said that the improvements are balanced against proportionately fewer free-school-meals pupils being entered into core GCSE subjects in the first place. In fact, 70 per cent of those pupils who were not entered for science GCSEs were eligible for free school meals. Would you do what the education Minister was unable to do last week and acknowledge that that is the work of your Government—the conclusions of your own Government’s report—and demonstrate what your Government is doing to understand why fewer children on free school meals are being entered for core GCSE than their peers in their classes?

Nid wyf yn hollol siŵr, Brif Weinidog, pa ddarn o adroddiad Estyn nad oeddech chi’n ei ddeall. Eu casgliad nhw yw bod safonau yn ein hysgolion cynradd y llynedd, ar y cyfan, ledled Cymru, wedi dirywio. Does bosib y gallwch chi fod yn hapus ag adroddiad o'r fath gan eich arolygydd eich hun. Un peth rwy’n falch ohono yw bod y bwlch wedi ei gulhau rhwng disgyblion sy’n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt, yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, rhywbeth arall nad oedd gan eich Gweinidog addysg unrhyw syniad amdano yr wythnos diwethaf yw bod adroddiad y Llywodraeth ei hun ar hyn wedi dweud bod y gwelliannau wedi’u cydbwyso yn erbyn llai o ddisgyblion prydau ysgol am ddim, yn gymesur, yn cael eu cofrestru ar gyfer pynciau TGAU craidd yn y lle cyntaf. Yn wir, roedd 70 y cant o'r disgyblion hynny na chawsant eu cofrestru ar gyfer TGAU gwyddoniaeth yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. A wnewch chi wneud yr hyn nad oedd y Gweinidog addysg yn gallu ei wneud yr wythnos diwethaf a chydnabod mai gwaith eich Llywodraeth chi—casgliadau adroddiad eich Llywodraeth eich hun—yw hwn a dangos beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i ddeall pam mae llai o blant sy’n derbyn prydau ysgol am ddim yn cael eu cofrestru ar gyfer TGAU craidd na'u cyfoedion yn eu dosbarthiadau?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, first of all, historically, of course, we've always entered a higher proportion of our students for GCSEs than was the case in England, and much more than was the case in Northern Ireland, which affected their results of course. What they were doing was not entering pupils who they thought were marginal in terms of whether they'd be successful, and that skewed their success rates. You can see the figures for yourself, if you want, but that's what was happening. Now, I don't want to see that happening in Wales. I would encourage schools to enter students so that they have the opportunity to get their GCSEs. I would not encourage schools, obviously, just to say, 'Well, sorry, you can't even try in the first place, because that would affect the figures', even though that's exactly what's happened in England and in Northern Ireland. I ask her again to consider the fact that we've seen many changes for the better in education in Wales, whether it is through the literacy and numeracy framework, the consortia that have overcome the weaknesses of local authorities in many, many areas, the fact that GCSE results have improved or the fact that we see schools being built all across Wales—that's something that isn't happening in England. We are more than proud of what we have delivered for education in Wales, particularly through schemes like Schools Challenge Cymru and the pupil deprivation grant—I give her and her party credit for that—that have helped so many to get the opportunities that they deserve.

Wel, yn gyntaf oll, yn hanesyddol, wrth gwrs, mae cyfran uwch o'n myfyrwyr wedi cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau TGAU nag oedd yn wir yn Lloegr erioed, a llawer mwy nag oedd yn wir yng Ngogledd Iwerddon, a oedd yn effeithio ar eu canlyniadau wrth gwrs. Yr hyn yr oedden nhw'n ei wneud oedd peidio â chofrestru disgyblion yr oeddent yn meddwl eu bod yn ymylol o ran a fyddent yn llwyddiannus, ac roedd hynny'n ystumio eu cyfraddau llwyddiant. Gallwch weld y ffigurau drosoch eich hun, os ydych yn dymuno, ond dyna beth oedd yn digwydd. Nawr, nid wyf eisiau gweld hynny'n digwydd yng Nghymru. Byddwn yn annog ysgolion i gofrestru myfyrwyr fel eu bod yn cael y cyfle i ennill eu cymwysterau TGAU. Ni fyddwn yn annog ysgolion, yn amlwg, i ddweud, 'Wel, mae'n ddrwg gennyf, ni allwch chi hyd yn oed sefyll yn y lle cyntaf, gan y byddai hynny'n effeithio ar y ffigurau', er mai dyna'n union sydd wedi digwydd yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Gofynnaf iddi unwaith eto ystyried y ffaith ein bod wedi gweld llawer o newidiadau er gwell ym myd addysg Cymru, boed hynny drwy'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, y consortia sydd wedi goresgyn gwendidau awdurdodau lleol mewn llawer iawn o ardaloedd, y ffaith bod canlyniadau TGAU wedi gwella neu'r ffaith ein bod yn gweld ysgolion yn cael eu hadeiladu ledled Cymru gyfan—mae hynny'n rhywbeth nad yw'n digwydd yn Lloegr. Rydym ni'n fwy na balch o'r hyn yr ydym ni wedi ei gyflawni ar gyfer addysg yng Nghymru, yn enwedig trwy gynlluniau fel Her Ysgolion Cymru a'r grant amddifadedd disgyblion—rwy'n rhoi clod iddi hi a'i phlaid am hynny—sydd wedi helpu cymaint i gael y cyfleoedd maen nhw'n eu haeddu.

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:45 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv
Fideo Video

Presiding Officer, I make a declaration of interest as I am a partner in an agricultural business that operates under the common agricultural policy rules and support payments.

Lywydd, rwy'n gwneud datganiad o fuddiant gan fy mod i'n bartner mewn busnes amaethyddol sy'n gweithredu o dan reolau a thaliadau cymorth y polisi amaethyddol cyffredin.

First Minister, many Members went outside this building this afternoon to stand shoulder to shoulder with National Farmers Union members who were here with their campaign about the clock is running and time is running out to save our agricultural industry. You have the ability to get support payments into agricultural businesses the length and breadth of Wales. Can you confirm exactly what the Government's timetable for delivery is on support payments in what is a critical year when commodity prices have been so low?

Brif Weinidog, aeth llawer o Aelodau y tu allan i'r adeilad hwn y prynhawn yma i sefyll ysgwydd yn ysgwydd ag aelodau Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a oedd yma gyda'u hymgyrch yn nodi bod y cloc yn rhedeg ac amser yn mynd yn brin i achub ein diwydiant amaethyddol. Mae'r gallu gennych chi i gael taliadau cymorth i fusnesau amaethyddol ar hyd a lled Cymru. A allwch chi gadarnhau beth yn union yw amserlen y Llywodraeth ar gyfer cyflawni o ran taliadau cymorth yn y flwyddyn hollbwysig hon pan fo prisiau nwyddau wedi bod mor isel?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, our aim is, of course, to make payments as early as possible. The window opens on 1 December and I know that calls have been made to pay, or at least part pay, earlier. I can tell the leader of the opposition that the EU council of farm Ministers did approve Commission proposals to relax some controls before advance payments can be made from 16 October. They don't quite go far enough yet to allow us to utilise the provision. The rules concerning on-the-spot controls have been relaxed—that much is true—but all administrative checks and controls must be completed before any advance payments are released. But, as we have always done, we will continue to pay at the earliest possible opportunity and Welsh farmers know that that's something they've been able to rely on in the past.

Gallaf, ein nod, wrth gwrs, yw gwneud taliadau cyn gynted â phosibl. Mae'r ffenestr yn agor ar 1 Rhagfyr a gwn fod galwadau wedi cael eu gwneud i dalu, neu dalu'n rhannol o leiaf, yn gynharach. Gallaf ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid bod cyngor Gweinidogion fferm yr UE wedi cymeradwyo cynigion y Comisiwn i lacio rhai rheolaethau cyn y gellir gwneud taliadau ymlaen llaw o 16 Hydref. Nid ydynt yn mynd yn ddigon pell hyd yn hyn i'n caniatáu ni i ddefnyddio'r ddarpariaeth. Mae'r rheolau'n ymwneud â rheolaethau yn y fan a'r lle wedi eu llacio—mae cymaint â hynny'n wir—ond mae'n rhaid cwblhau pob archwiliad a rheolaeth weinyddol cyn i unrhyw daliadau ymlaen llaw gael eu rhyddhau. Ond, fel yr ydym ni wedi ei wneud erioed, byddwn yn parhau i dalu ar y cyfle cyntaf posibl ac mae ffermwyr Cymru yn gwybod bod hynny'n rhywbeth y maen nhw wedi gallu dibynnu arno yn y gorffennol.

13:47 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What is vitally important, because it's a new scheme this year, is that the money hits bank accounts as soon as possible. There is a contradiction in what you've said today in that the Deputy Minister has ruled out categorically any early payment under the rules that do allow for that payment to commence from October onwards. There has been speculation, and the Deputy Minister has alluded to this, about part payments. In a written response to my colleague Paul Davies, there was an indication of a 50 per cent part payment being made by the Welsh Government. I notice that a Welsh Government spokesperson today is saying that between 70 per cent and 80 per cent now is the Welsh Government's aim, with the balance to be paid by the end of June next year. I hope you can understand from the points that I've put to you why many farmers and representatives of farmers the length and breadth of Wales are somewhat confused as to the progress Welsh Government is making in implementing the new scheme. Can you clear up, once and for all, how much of a payment will be made from 1 December, assuming that the Deputy Minister's assertion is correct that you will not exercise the early payment criteria? And, how soon will you be making the balance of payments, because the end of June is the end date when you'll be able to do that?

Yr hyn sy'n hanfodol bwysig, gan ei fod yn gynllun newydd eleni, yw bod yr arian yn cyrraedd cyfrifon banc cyn gynted â phosibl. Mae gwrthddweud yn yr hyn yr ydych chi wedi ei ddweud heddiw gan fod y Dirprwy Weinidog wedi dweud yn sicr na fydd unrhyw daliad cynnar yn cael ei wneud o dan y rheolau sy'n caniatáu i'r taliad hwnnw ddechrau o fis Hydref ymlaen. Bu sïon, ac mae'r Dirprwy Weinidog wedi cyfeirio at hyn, am daliadau rhannol. Mewn ymateb ysgrifenedig i fy nghyd-Aelod, Paul Davies, roedd awgrym o daliad rhannol o 50 y cant yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru. Sylwaf fod llefarydd Llywodraeth Cymru heddiw yn dweud mai rhwng 70 y cant ac 80 y cant yw nod Llywodraeth Cymru erbyn hyn, gyda'r gweddill yn cael ei dalu erbyn diwedd mis Mehefin y flwyddyn nesaf. Rwy'n gobeithio y gallwch chi ddeall o'r pwyntiau yr wyf wedi eu gwneud i chi pam mae llawer o ffermwyr a chynrychiolwyr ffermwyr ar hyd a lled Cymru braidd yn ddryslyd ynghylch y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran gweithredu'r cynllun newydd. A allwch chi egluro, unwaith ac am byth, faint o daliad fydd yn cael ei wneud o 1 Rhagfyr, gan dybio bod honiad y Dirprwy Weinidog yn gywir na fyddwch yn rhoi'r meini prawf taliadau cynnar ar waith? A, pa mor fuan fyddwch chi'n talu gweddill y taliadau, gan mai diwedd Mehefin yw'r dyddiad olaf y byddwch chi'n gallu gwneud hynny?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, we will look to pay as much as we can on 1 December and to pay as much of the balance as possible—all of it actually—before June. At this stage, it's difficult to give an exact figure. It is a new system: that's right. We're moving, of course, to an area-based payments system. Our understanding is that no other nation in the UK is paying in October either. So, clearly, there are issues that affect all of us that make it difficult to pay early, but the intention is, of course, to pay as much as possible as soon as possible after 1 December.

Wel, byddwn yn ceisio talu cymaint ag y gallwn ar 1 Rhagfyr a thalu cymaint o'r gweddill â phosibl—y cwbl a dweud y gwir—cyn mis Mehefin. Mae'n anodd rhoi union ffigur ar hyn o bryd. Mae'n system newydd: mae hynny'n iawn. Rydym ni'n symud, wrth gwrs, i system taliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd. Ein dealltwriaeth ni yw nad oes unrhyw wlad arall yn y DU yn talu ym mis Hydref ychwaith. Felly, yn amlwg, ceir materion sy'n effeithio ar bob un ohonom ni sy'n ei gwneud yn anodd talu'n gynnar, ond y bwriad, wrth gwrs, yw talu cymaint â phosibl cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Rhagfyr.

13:48 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I'd be grateful if a statement or some reassurance could come forward at the earliest opportunity to confirm how much that part payment will be and I'm sure many farm businesses would as well, because it is critical in their planning, given that commodity prices are so low, First Minister. But, one plank that does support farm businesses is the rural development plan. There is some confusion over its implementation, but, in particular, one of the calls that has come from the farming unions is for a small capital grants scheme to be made available so that projects can be undertaken on farms that wouldn't involve a spend of £40,000 or above, which is the current criteria. Will you commit the Government to look into creating a small capital grants scheme that not only just benefits farms, but also benefits many rural businesses that supply the services to those farms and would be eligible under the rural development plan with the schemes that you could bring forward?

Wel, byddwn yn ddiolchgar pe gallai datganiad gael ei wneud neu rywfaint o sicrwydd gael ei roi ar y cyfle cyntaf i gadarnhau faint fydd y taliad rhannol hwnnw ac rwy'n siŵr y byddai llawer o fusnesau fferm yn ddiolchgar hefyd, gan ei fod yn hollbwysig yn eu cynllunio, o gofio bod prisiau nwyddau mor isel, Brif Weinidog. Ond, un peth sydd yn cefnogi busnesau fferm yw'r cynllun datblygu gwledig. Ceir rhywfaint o ddryswch ynghylch ei weithrediad, ond, yn arbennig, un o'r galwadau sydd wedi dod gan yr undebau ffermio yw i gynllun grantiau cyfalaf bach fod ar gael fel y gellir ymgymryd â phrosiectau ar ffermydd na fyddai'n golygu gwario £40,000 neu fwy, sef y meini prawf presennol. A wnewch chi ymrwymo'r Llywodraeth i ystyried creu cynllun grantiau cyfalaf bach sydd nid yn unig o fudd i ffermydd, ond hefyd o fudd i nifer o fusnesau gwledig sy'n cyflenwi'r gwasanaethau i'r ffermydd hynny a fyddai'n gymwys o dan y cynllun datblygu gwledig gyda'r cynlluniau y gallech chi eu cyflwyno?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The scheme that the leader of the opposition is outlining sounds very much like Farming Connect. That's operated for some years.

Mae'r cynllun y mae arweinydd yr wrthblaid yn ei amlinellu yn swnio'n debyg iawn i Gyswllt Ffermio. Mae hwnnw wedi bod yn gweithredu ers rhai blynyddoedd.

13:49 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Capital—

Cyfalaf—

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He mentions capital payments. With the rural development plan, the rural development plan has farming at its core, but it also includes other rural businesses as well. What I can say to him is, of course, we're prepared to be flexible to see how effective any particular scheme as part of the rural development plan can be. He and I will both know that the big challenge that has always been there, certainly for the last 15 or 16 years for farming, is sustainability and being able to exist as businesses and to increase their income in the future. Sometimes that means diversification, sometimes it means looking at the way that they husband their animals, looking at particular breeds, looking at particular fat content, particularly with regard to lambs, and, of course, there are a number of issues about looking at whether we can increase the size of mountain lambs using Suffolk Texel tups—I'm going back to my rural affairs days now, as you can see. But, anyway, the point I'm trying to make is that we will look at any scheme that will be of assistance and will be effective in helping farming to become more sustainable in the future.

Mae'n sôn am daliadau cyfalaf. Gyda'r cynllun datblygu gwledig, mae ffermio wrth wraidd y cynllun datblygu gwledig, ond mae hefyd yn cynnwys busnesau gwledig eraill. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrtho, wrth gwrs, yw ein bod yn barod i fod yn hyblyg er mwyn gweld pa mor effeithiol y gall unrhyw gynllun penodol fod yn rhan o'r cynllun datblygu gwledig. Bydd y ddau ohonom ni'n gwybod mai'r her fawr sydd wedi bod yno erioed, yn sicr ers 15 neu 16 mlynedd i ffermio, yw cynaliadwyedd a'r gallu i fodoli fel busnesau ac i gynyddu eu hincwm yn y dyfodol. Mae hynny weithiau'n golygu arallgyfeirio, weithiau mae'n golygu edrych ar y ffordd y maen nhw'n hwsmona eu hanifeiliaid, edrych ar fridiau penodol, edrych ar gynnwys braster penodol, yn enwedig o ran ŵyn, ac, wrth gwrs, ceir nifer o faterion o ran ystyried pa un a allwn ni gynyddu maint ŵyn mynydd gan ddefnyddio hyrddod Suffolk Texel—rwy'n mynd yn ôl i fy nyddiau materion gwledig nawr, fel y gwelwch. Ond, ta waeth, y pwynt rwy'n ceisio ei wneud yw y byddwn ni'n ystyried unrhyw gynllun a fydd o gymorth ac a fydd yn effeithiol o ran helpu ffermio i fod yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol.

13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is Keith Davies.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr, a daw cwestiwn 3 gan Keith Davies.

### Cymraeg i Oedolion

### Welsh for Adults

13:50 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

*3. Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i ganolfannau Cymraeg i oedolion? OAQ(4)2486(FM)[W]*

*3. What support does the Welsh Government provide to Welsh-for-adults centres? OAQ(4)2486(FM)[W]*

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym yn ariannu'r sector tua £10 miliwn bob blwyddyn. Mae gwaith ar y gweill i ad-drefnu'r sector, a fydd yn cael ei arwain a'i ariannu drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o Awst 2016. Ar ben hyn, rydym wedi buddsoddi £2.5 miliwn o arian cyfalaf mewn canolfannau iaith i ddarparu lleoliadau i bobl ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

We fund the sector approximately £10 million each year. Work is progressing to restructure the sector, which will be led and funded by Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol from August 2016. We have also invested £2.5 million capital funding in language centres to provide locations for people to learn and use Welsh.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Fel y gwyddoch, Brif Weinidog, mae canolfan Y Lle yn Llanelli yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc. A fyddai'r Llywodraeth yn barod i edrych ar y rheolau fel bod mentrau cymdeithasol fel Clwb y Bont ym Mhontypridd a Chanolfan Soar ym Merthyr yn gallu derbyn arian i wneud yr un peth ag y mae Y Lle yn ei wneud yn Llanelli?

As you know, First Minister, Y Lle centre in Llanelli offers social opportunities for young people. Would the Government be willing to look at the rules and regulations so that social enterprises such as Clwb y Bont in Pontypridd and Canolfan Soar in Merthyr can receive funding to do the same thing as Y Lle are currently doing in Llanelli?

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym ni'n moyn, wrth gwrs, sicrhau bod yna fwy o lefydd fel Y Lle yn agor ar draws Cymru. Rydym ni'n moyn sicrhau bod pobl yn gallu mynd i lefydd lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried fel iaith arferol, ac nid yn cael ei hystyried fel rhywbeth anarferol. Ac mewn rhai rhannau o Gymru, wrth gwrs, rwy'n gwybod bod hynny'n wir. Rwyf wedi bod i Y Lle yn Llanelli. Un o'r pethau roedd pobl yn eu dweud wrthyf yn y fan yna oedd ei fod wedi bod yn help mawr o ran cefnogi a hybu pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad lle mae'r Gymraeg yn hollol arferol i'w defnyddio. Felly, rydym yn edrych ymlaen i weld mwy o'r canolfannau hyn yn agor ar draws Cymru.

Well, of course, we wish to ensure that more places such as Y Lle open across the whole of Wales. We want to ensure that people can go to centres where the Welsh language is used as the norm and not considered to be something that is unusual. We know that in some parts of Wales that that is the case. I've been to visit Y Lle in Llanelli. One of the things that people told me there was that it's been of great assistance in supporting and assisting young people to use the Welsh language in a location where it's totally practical and normal to use the Welsh language. We look forward to seeing more of those centres opening throughout Wales.

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

A allaf ofyn i chi, Brif Weinidog, am y llefydd yng Nghymru lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei iwsio'n arferol? Sut ydych chi yn sicrhau bod pob canolfan yn y lle cywir i ddarparu ymyriad mwy priodol ym mhob cymuned benodol, yn hytrach na chael eu lleoli i fod yn gyfleus i'r sefydliadau academaidd eu hunain?

May I ask you, First Minister, about those areas where the Welsh language isn't used as the majority language? How do you ensure that all the centres are located correctly to provide the most appropriate intervention in all communities, rather than being located for the convenience of the academic institutions themselves?

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae Llanelli yn un lle, wrth gwrs. Rydym yn ystyried ceisiadau eraill ynglŷn â Chaerfyrddin, er enghraifft, hefyd. Rydym ni'n moyn sicrhau bod y canolfannau ar gael mewn rhannau o Gymru lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio ar yr hewl, a rhai rhannau o Gymru lle nad oes dim Cymraeg yn cael ei defnyddio ar yr hewl. Y nod yw sicrhau bod yna un lle lle mae pobl yn gallu mynd, yn enwedig pobl ifanc, lle maen nhw'n gallu defnyddio'r Gymraeg fel iaith hollol naturiol mewn man, ac ymfalchïo yn y ffaith eu bod nhw yn gallu defnyddio'r iaith.

Llanelli is one location, of course, and we are considering other bids—Carmarthen, for instance. We want to ensure that the centres are available in parts of Wales where Welsh is the language of the street and in some other areas where Welsh is not language of the street. But, the aim is to ensure that there is a venue that people can attend, particularly young people, where they can use Welsh completely naturally at a venue and also take pride in the fact that they're able to use the language.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n croesawu'r gweithgareddau mewn llefydd megis Y Lle yn Llanelli, ac agoriad swyddogol Yr Atom cyn bo hir yng Nghaerfyrddin hefyd. Ond, o droi at yr endid cenedlaethol rydych chi wedi ei sefydlu ar gyfer dysgu Cymraeg i oedolion, a fedrwch chi gadarnhau bod yna ohirio o bron i flwyddyn o ran lansio a gweithredu'r endid hwnnw, bod y rhesymoli roeddech chi wedi addo ddim eto wedi digwydd, a bod yna oedi wedi bod yn y system? Pa hyder sydd gyda chi nawr fod pawb yn mynd i gydweithio mewn gweledigaeth gytûn ar gyfer dysgu Cymraeg i oedolion?

I welcome activities in places such as Y Lle in Llanelli, and the official opening of Yr Atom in Carmarthen that is to take place soon. But, turning to the national entity that you have established for Welsh for adults, can you confirm that there's been a delay of almost a year in launching and operating that entity, that the rationalisation that you had pledged hasn't taken place, and that there have been delays in the system? What confidence do you have now that everyone will collaborate with an agreed vision for teaching Welsh to adults?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf yn credu bod unrhyw fath o oedi wedi digwydd yn y fan hyn. Ar 12 Mai, fe wnaeth y Gweinidog ddweud bod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi bod yn llwyddiannus ynglŷn â chael grant er mwyn iddynt allu sefydlu Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac mae'r gwaith yna yn dal I barhau gyda nhw a'n swyddogion ni. Mae gyda ni, wrth gwrs, y canolfannau Cymraeg I oedolion hefyd sydd wedi gwneud gwaith da ers 2006. Hefyd, rydym ni'n moyn sicrhau bod y canolfannau iaith yn cael grantiau cyfalaf yn y pen draw hefyd. Felly, mae'r gwaith yn dal I fwrw ymlaen, I ddefnyddio'r term hwnnw, ynglŷn â sicrhau bod yr endid yn cael ei sefydlu, ac hefyd I sicrhau bod y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan y Drindod Dewi Sant yn mynd ymlaen mewn ffordd briodol.

I don't believe that any delay has taken place. On 12 May, the Minister stated that the University of Wales Trinity St David had been successful in securing the grant in order to establish the Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol—the national learning centre—and that work is continuing with them and our officials. And, we've also got the Welsh-for-adults centres that have been doing very good work since 2006. Also, of course, we want to ensure that the language centres receive capital grants ultimately too. So, the work is ongoing, if I could put it like that, in order to ensure that the entity is established and also to ensure that the work done by Trinity St David does proceed in an appropriate manner.

### Treftadaeth Cymru

### Welsh Heritage

13:55 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y gorau o effaith treftadaeth Cymru ar yr economi? OAQ(4)2474(FM)*

*4. How does the Welsh Government maximise the effect of Welsh heritage on the economy? OAQ(4)2474(FM)*

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We know that the heritage that we have contributes greatly to our national brand and we know that translates into jobs and wealth.

Rydym ni'n gwybod bod y dreftadaeth sydd gennym ni'n cyfrannu'n fawr at ein brand cenedlaethol ac rydym ni'n gwybod bod hynny'n troi'n swyddi a chyfoeth.

13:55 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, you're correct, and Welsh heritage can have a major impact on the economy of north-east Wales, provided it involves organisations, ranging from Llangollen railway to Greenfield Valley Heritage Park to Brymbo Heritage Group, in designing the visitor offer. I've been asked by Brymbo Heritage Group to extend an invitation to you to visit them and look at the great work they're doing. I hope you'll respond affirmatively, but look forward to your answer.

Wel, wrth gwrs, rydych chi'n gywir, a gall treftadaeth Cymru gael effaith fawr ar economi'r gogledd-ddwyrain, cyn belled â'i fod yn cynnwys sefydliadau, yn amrywio o reilffordd Llangollen i Barc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas i Grŵp Treftadaeth Brymbo, wrth gynllunio'r cynnig i ymwelwyr. Gofynnwyd i mi gan Grŵp Treftadaeth Brymbo i'ch gwahodd chi i ymweld â nhw ac edrych ar y gwaith gwych maen nhw'n ei wneud. Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n rhoi ateb cadarnhaol, ond edrychaf ymlaen at eich ateb.

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I will certainly try to do that, and I will look at my diary to see if I can visit in the near future.

Byddaf yn sicr yn ceisio gwneud hynny, a byddaf yn edrych ar fy nyddiadur i weld a allaf i ymweld yn y dyfodol agos.

13:55 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, many countries and parts of Europe have a levy on hotel rooms, for example, in order to fund and promote the tourist economy that is so important and can be so valuable to Wales. In order for us to do that, of course, we'd have to have the devolution of fiscal powers, which goes against the judgment in the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill, more recently. Is the issue of the devolution of fiscal powers, as recommended in a command paper in 2014, something that you'll be raising with the Secretary of State for Wales, as part of the Wales Bill and the proposed new devolution settlement?

Brif Weinidog, mae gan lawer o wledydd a rhannau o Ewrop ardoll ar ystafelloedd mewn gwestai, er enghraifft, er mwyn ariannu a hybu'r economi dwristiaeth sydd mor bwysig ac a all fod mor werthfawr i Gymru. Er mwyn i ni wneud hynny, wrth gwrs, byddai'n rhaid i ni gael datganoli pwerau cyllidol, sy'n mynd yn groes i'r dyfarniad yn y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru), yn fwy diweddar. A yw'r mater o ddatganoli pwerau cyllidol, fel yr argymhellwyd mewn papur gorchymyn yn 2014, yn rhywbeth y byddwch chi'n ei godi gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn rhan o Fil Cymru a'r setliad datganoli newydd arfaethedig?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, it's certainly right to say that there will be the ability for Welsh Government to be able to raise—to create—new taxes, but only with the agreement of the UK Government. We're not at that stage yet; we need some progress on fair funding first. We look forward to that happening as part of the spending review. We've been promised it for a long time; we haven't seen it delivered as yet. Once we understand what our financial footing is, then, of course, further consideration can be given to what further revenue-raising powers would be appropriate.

Wel, mae'n sicr yn iawn i ddweud y bydd gan Lywodraeth Cymru y gallu i godi—creu—trethi newydd, ond dim ond gyda chytundeb Llywodraeth y DU. Nid ydym ni ar y cam hwnnw eto; mae angen rhywfaint o gynnydd ar ariannu teg arnom ni yn gyntaf. Edrychwn ymlaen at weld hynny'n digwydd yn rhan o'r adolygiad o wariant. Mae wedi cael ei addo i ni ers amser maith; nid ydym ni wedi ei weld yn cael ei gyflwyno eto. Unwaith y byddwn yn deall beth yw ein sylfaen ariannol, yna, wrth gwrs, gellir rhoi ystyriaeth bellach i ba bwerau codi refeniw eraill fyddai'n briodol.

13:57 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

O gofio penderfyniad y Llywodraeth i ddileu CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru ac awgrym adroddiad Dr Haydn Edwards ar ran y Llywodraeth ei hun i greu tri chorff rhanbarthol i gefnogi amgueddfeydd lleol, sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynnal a datblygu amgueddfeydd lleol yng Nghymru i'r dyfodol, o gofio eu rôl bwysig o fewn y diwydiant twristiaeth?

Given the Government's decision to abolish CyMAL: Museums Archives and Libraries Wales and the suggestion in Dr Haydn Edwards' report on behalf of the Government itself to create three regional bodies to support local museums, how does the Government intend to sustain and develop local museums in Wales for the future, given their important role within the tourism industry?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, rŷm ni'n gwybod pa mor bwysig yw amgueddfeydd lleol; rŷm ni'n gwybod eu bod nhw'n gallu creu storïau i ymwelwyr, nad ydynt yn cael eu rhoi gan amgueddfeydd mawr. Mae yna broject, wrth gwrs, rŷm ni'n ei ariannu ar hyn o bryd, sef project twristiaeth etifeddiaeth. Mae hwnnw'n rhywbeth sy'n mynd i helpu o ran etifeddiaeth yng Nghymru, a sicrhau ein bod ni'n gallu cefnogi cofebion, hefyd, yng Nghymru er mwyn gallu sicrhau eu bod nhw mewn cyflwr da. So, rŷm ni wedi bod yn gweithio'n agos gydag amgueddfeydd er mwyn sicrhau eu bod nhw mewn sefyllfa lle maen nhw'n gallu gwasanaethu'r gymuned leol yn y pen draw.

Well, we all understand how important local museums are because we know they can create stories or narratives for visitors, which isn't the case with the larger museums. There is a project that we're funding at the moment, which is the heritage tourism scheme. That will assist with the showcasing of the heritage of Wales and it means that we can also support the memorials in Wales and ensure that they are all in a good condition. So, we've been working closely with the museums in order to ensure that they're in a position where they can serve the local community ultimately.

13:58 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the most recent Visit Wales surveys indicate that castles and historic attractions have overtaken beaches in terms of being the No. 1 destination here in Wales. In this context, and given the fact that there's an update to the cultural tourism action plan 2012-15 soon to be available to us, what more can the Welsh Government do to support cultural and heritage tourism to such iconic venues as Carreg Cennen, Harlech and, indeed, Strata Florida, given that recent indications are that they are somewhat underperforming and have been under-promoted, despite their intrinsic beauty?

Brif Weinidog, mae arolygon diweddaraf Croeso Cymru yn dangos bod cestyll ac atyniadau hanesyddol wedi goddiweddyd traethau fel y prif gyrchfan yma yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, ac o ystyried y ffaith y bydd diweddariad i'r cynllun gweithredu ar dwristiaeth ddiwylliannol 2012-15 ar gael i ni'n fuan, beth arall all Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth i leoliadau eiconig fel Carreg Cennen, Harlech ac, yn wir, Ystrad Fflur, o gofio mai'r arwyddion diweddar yw eu bod yn tanberfformio braidd ac nad ydynt wedi cael eu hyrwyddo'n ddigonol, er gwaethaf eu harddwch cynhenid?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, first of all, we have the museum accreditation scheme, which helps to raise standards within museums as well. In terms of cultural tourism and cultural heritage, we have the heritage tourism project, funded by EU and Welsh Government. The idea is to improve visitor facilities and interpretation at monuments. We know, for example, that our castles are hugely important in terms of their visitor numbers: Conwy comes at the top, followed closely by Caernarfon. Carreg Cennen, a place I know very, very well, unfortunately doesn't feature in the top 10, but is nevertheless somewhere I'd encourage people to visit.

Wel, yn gyntaf oll, mae gennym y cynllun achredu amgueddfeydd, sy'n helpu i godi safonau mewn amgueddfeydd hefyd. O ran twristiaeth ddiwylliannol a threftadaeth ddiwylliannol, mae gennym y prosiect twristiaeth treftadaeth, a ariennir gan yr UE a Llywodraeth Cymru. Y syniad yw gwella cyfleusterau i ymwelwyr a dehongliadau ar gyfer henebion. Gwyddom, er enghraifft, fod ein cestyll yn hynod bwysig o ran nifer yr ymwelwyr â nhw: Conwy sydd ar y brig, wedi'i ddilyn yn agos gan Gaernarfon. Yn anffodus, nid yw Carreg Cennen, man rwy'n ei adnabod yn dda iawn, iawn, ddim yn ymddangos yn y 10 uchaf, ond mae'n rhywle y byddwn yn annog pobl i ymweld ag ef, serch hynny.

We know that having the castle there is one thing; having the interpretation is another. When I went to Harlech castle, back in July, I was impressed by what was being done there to help visitors to understand the way the castle operated and to interpret the lives of the people within the castle. So, having those facilities, multimedia facilities, is absolutely crucial to develop people's understanding of what the castles once did.

Rydym ni'n gwybod bod cael y castell yno yn un peth; mae cael y dehongliad yn rhywbeth arall. Pan es i i gastell Harlech, yn ôl ym mis Gorffennaf, gwnaeth yr hyn a oedd yn cael ei wneud yno i helpu ymwelwyr ddeall y ffordd y mae'r castell yn gweithredu ac i ddehongli bywyd y bobl o fewn y castell gryn argraff arnaf. Felly, mae cael y cyfleusterau hynny, cyfleusterau amlgyfrwng, yn gwbl hanfodol i ddatblygu dealltwriaeth pobl o'r hyn yr oedd y cestyll yn ei wneud ar un adeg.

### Cyflymu Cymru

### Superfast Cymru

13:59 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Cyflymu Cymru? OAQ(4)2489(FM)[W]*

*5. Will the First Minister make a statement on Superfast Cymru? OAQ(4)2489(FM)[W]*

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

O ran argaeledd band eang cyflym iawn, mae Cymru eisoes yn arwain y ffordd ymhlith y gwledydd datganoledig. Erbyn hyn, mae 79 y cant o eiddo yn gallu cael band eang cyflym iawn drwy raglen Cyflymu Cymru a darpariaeth fasnachol.

Wales already leads the way among the devolved nations on the availability of superfast broadband, with 79 per cent of premises now able to access it across Superfast Cymru and commercial roll-outs.

14:00 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae cyflwyno band llydan Cyflymu Cymru, wrth gwrs, wedi cael ei gohirio mewn rhai ardaloedd gwledig, ac mi ges i ohebiaeth gan eich Llywodraeth chi oedd yn cadarnhau, ac rwy'n dyfynnu:

The introduction of Superfast Cymru has been delayed in some rural areas, and I received correspondence from your Government that confirmed, and I quote:

‘The resources are needed to focus on higher yielding numbers of premises.’

‘The resources are needed to focus on higher yielding numbers of premises.’

Onid yw hynny’n profi, o dan eich Llywodraeth chi, pan fo’n dod i gyflwyno band llydan, bod cymunedau gwledig ar waelod y rhestr?

Doesn’t that prove, under your Government, when it comes to introducing broadband, that rural communities are at the bottom of the list?

14:00

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, pe byddai hynny’n wir, ni fyddai cymunedau fel Gwernogle, er enghraifft, yn cael band eang. Byddem ni mewn sefyllfa lle byddai pentrefi gwledig heb unrhyw fand eang o gwbl. Rydym yn gwybod yn nêt, pe byddai’r farchnad yn rheoli hyn, na fyddai band eang o gwbl y tu fas i fand tenau yn y de, a band yn y gogledd. Felly, rydym ni wedi ariannu band eang; rydym ni’n gweld llawer iawn o ardaloedd gwledig nawr gyda band eang cyflym iawn. Mae 79 y cant yn uchel iawn o’i gymharu â gwledydd eraill yn Ewrop. Y nod yw, wrth gwrs, cyrraedd y targed o 96 y cant o dan y cynllun Cyflymu Cymru.

Well, if that was true, then communities such as Gwernogle, for example, wouldn’t receive broadband. We would be in a situation where rural villages wouldn’t have any broadband at all. We know full well that, if the market were to control this, there wouldn’t be any broadband outside a thin band in south Wales, and a band in north Wales. So, we have funded broadband; we see very many rural areas with superfast broadband now. Seventy-nine per cent is very high compared to other countries in Europe. The aim, of course, is to attain the target of 96 per cent under the Superfast Cymru scheme.

14:01

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, there have been concerns about the value for money of Superfast Cymru. Yes, those areas that it has reached are getting the service that they need, but there are large areas, rural areas particularly, as Llyr Gruffydd mentioned, that aren’t getting the service that they would expect. Do you think there’s been an over-reliance on the fibre-to-cabinet technology, and would the Welsh Government look at ways of perhaps providing more innovative solutions to rural notspots?

Brif Weinidog, bu pryderon ynghylch gwerth am arian Cyflymu Cymru. Ydy, mae’r ardaloedd hynny y mae wedi eu cyrraedd yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt, ond mae ardaloedd mawr, ardaloedd gwledig, yn enwedig, fel y soniodd Llyr Gruffydd, nad ydynt yn cael y gwasanaeth y byddent yn ei ddisgwyl. A ydych chi'n meddwl y bu gorddibyniaeth ar y dechnoleg ffibr i gabinet, ac a wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o ddarparu atebion mwy arloesol ar gyfer mannau gwan gwledig efallai?

14:01

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There will need to be innovative solutions. There are some areas where fibre-to-cabinet won’t work. They will need solutions such as satellite connections. We know that 4 per cent will be very difficult, if not impossible, to reach via Superfast Cymru. When the Member said that he questions the value of Superfast Cymru, I don’t know whether he means that he doesn’t agree with it, but, certainly, what we have seen is a roll-out of broadband to areas of Wales that would never have had broadband if it wasn’t for the proactive work carried out by Welsh Government.

Bydd angen cael atebion arloesol. Ceir rhai ardaloedd lle na fydd ffibr i gabinet yn gweithio. Bydd angen atebion fel cysylltiadau lloeren arnynt. Rydym ni’n gwybod y bydd 4 y cant yn anodd iawn, os nad yn amhosibl, i’w gyrraedd trwy Gyflymu Cymru. Pan ddywedodd yr Aelod ei fod yn cwestiynu gwerth Cyflymu Cymru, nid wyf yn gwybod a yw'n golygu nad yw'n cytuno ag ef, ond, yn sicr, yr hyn yr ydym ni wedi ei weld yw cyflwyno band eang i ardaloedd yng Nghymru na fyddai fyth wedi cael band eang oni bai am y gwaith rhagweithiol a wnaed gan Lywodraeth Cymru.

14:02 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, it seems to me that one of the persisting problems in the Superfast Cymru project has been that interrelationship between the Superfast Cymru roll-out and the commercial roll-out, particularly in the behaviour of BT in a market where they are a Government-sponsored wholesaler, a commercial wholesaler and a retailer operating in the same market. The result has been that residents in places such as Penylan and Pengam Green in Cardiff have been left hanging for a decision as to whether they'll be released from BT's commercial programme into Superfast Cymru, suffering speeds of as little as 0.5 Mbps, in some instances, for years now, without actually having a resolution. Wouldn't you agree, actually, that there is a conflict of interests here that is an issue? I'm just wondering if the Welsh Government have got some controls in that contract that allow them to monitor the commercial activity of BT whilst they are delivering this programme alongside their own work.

Brif Weinidog, mae'n ymddangos i mi mai un o broblemau parhaus prosiect Cyflymu Cymru fu'r rhyngberthynas honno rhwng cyflwyno Cyflymu Cymru a'r cyflwyniad masnachol, yn enwedig o ran ymddygiad BT mewn marchnad lle maen nhw'n gyfanwerthwr a noddir gan y Llywodraeth, yn gyfanwerthwr masnachol ac yn fanwerthwr sy'n gweithredu yn yr un farchnad. Y canlyniad fu bod trigolion mewn mannau fel Pen-y-lan a Pengam Green yng Nghaerdydd wedi cael eu gadael yn hongian am benderfyniad ynghylch a fyddant yn cael eu rhyddhau o raglen fasnachol BT i mewn i Gyflymu Cymru, yn dioddef cyflymderau o gyn lleied â 0.5 Mbps, mewn rhai achosion, ers blynyddoedd bellach, heb gael datrysiad. Oni fyddech chi'n cytuno, mewn gwirionedd, bod gwrthdaro buddiannau yma sy'n creu problem? Rwy'n meddwl tybed a oes gan Lywodraeth Cymru reolaethau yn y contract hwnnw sy'n ei galluogi i fonitro gweithgarwch masnachol BT tra ei fod yn darparu'r rhaglen hon ochr yn ochr â'i waith eu hunain.

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Penylan has a particular technical problem, for some reason, in Cardiff, where there's an issue with connection to the exchange. It makes it look like a rural area when, in fact, it's in the middle of Cardiff, and there are issues surrounding Penylan particularly, which she's referred to, that will need to be resolved by BT. Given the fact that Penylan, in exchange terms, is almost a rural area, then, clearly, BT will need to make a decision very quickly as to whether it's seen as part of the commercial roll-out or whether it's part of Superfast Cymru, but we have ensured that we can get best value out of Superfast Cymru, that we are not subsidising what the market would otherwise deliver—that's not what Superfast Cymru is designed to achieve, of course. But she is right about Penylan; there is a particular technical issue that exists there that will need to be resolved.

Mae gan Ben-y-lan broblem dechnegol benodol, am ryw reswm, yng Nghaerdydd, lle ceir problem gyda chysylltiad â'r gyfnewidfa. Mae'n gwneud iddi edrych fel ardal wledig pan ei bod yng nghanol Caerdydd mewn gwirionedd, a cheir problemau yn ymwneud â Phen-y-lan yn arbennig, y mae hi wedi cyfeirio atynt, y bydd angen i BT eu datrys. O ystyried y ffaith fod Pen-y-lan, o ran cyfnewidfa, bron yn ardal wledig, yna, yn amlwg, bydd angen i BT wneud penderfyniad yn gyflym iawn o ran pa un a yw'n ei ystyried yn rhan o'r cyflwyniad masnachol neu a yw'n rhan o Gyflymu Cymru, ond rydym ni wedi sicrhau y gallwn ni gael y gwerth gorau allan o Gyflymu Cymru, nad ydym yn rhoi cymhorthdal ar gyfer yr hyn y byddai'r farchnad yn ei ddarparu fel arall—nid dyna mae Cyflymu Cymru wedi ei gynllunio i'w gyflawni, wrth gwrs. Ond mae hi'n iawn am Ben-y-lan; ceir problem dechnegol benodol sy'n bodoli yno y bydd angen ei datrys.

## Velothon Cymru 2016

## Velothon Wales 2016

14:04 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyfraniad Llywodraeth Cymru at Velothon Cymru 2016? OAQ(4)2490(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's input into Velothon Wales 2016? OAQ(4)2490(FM)*

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. Following delivery of a safe and successful event, Welsh Government commissioned a full and independent review to address the issues that were raised. Taking account of that review, we are engaged in detailed discussions with the event organisers and the relevant local authorities ahead of a final decision regarding next year's event.

Gwnaf. Ar ôl darparu digwyddiad diogel a llwyddiannus, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad llawn ac annibynnol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Gan gymryd yr adolygiad hwnnw i ystyriaeth, rydym yn cymryd rhan mewn trafodaethau manwl gyda threfnwyr y digwyddiad a'r awdurdodau lleol perthnasol cyn gwneud penderfyniad terfynol am ddigwyddiad y flwyddyn nesaf.

14:04 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the First Minister for his reply. I'm grateful to him also for previous replies on this subject. What I would ask today is: would he publish, in time, a detailed timetable of engagement with those people likely to be affected on whether there is a necessity still for full road closure or whether rolling road closure would be more appropriate? It is essential that this work is carried out as soon as possible so that next year's velothon is a real world-beating event for Wales.

Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ateb. Rwy'n ddiolchgar iddo hefyd am atebion blaenorol ar y pwnc hwn. Yr hyn y byddwn yn ei ofyn heddiw yw: a wnaiff ef gyhoeddi, mewn amser, amserlen fanwl o ymgysylltiad â'r bobl hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio o ran a oes angen cau ffyrdd yn llawn o hyd neu a fyddai cau ffyrdd ar sail dreigl yn fwy priodol? Mae'n hanfodol bod y gwaith hwn yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl fel bod velothon y flwyddyn nesaf yn ddigwyddiad sydd wir o'r radd flaenaf i Gymru.

14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, this is a matter primarily for the organisers, but I do take on board what he says. It is important that people are aware of what the plans are long before the event takes place. We will look to ensure that the organisers do just that.

Wel, mater i'r trefnwyd yw hwn yn bennaf, ond rwyf yn derbyn yr hyn y mae'n ei ddweud. Mae'n bwysig bod pobl yn ymwybodol o beth yw'r cynlluniau ymhell cyn cynnal y digwyddiad. Byddwn yn ceisio sicrhau bod y trefnwyr yn gwneud yn union hynny.

14:05 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister—First Minister, sorry—we're assured that this year's velothon in Wales generated a lot of income for south-east Wales and for charity—a little bit of controversy as well, of course. As much as I support extra income coming to south-east Wales, to be fair, what efforts will the Welsh Government make to direct the velothon to different regions of Wales to generate additional income there?

Weinidog—Brif Weinidog, mae'n ddrwg gen i—rydym yn cael ein sicrhau bod velothon eleni yng Nghymru wedi cynhyrchu llawer o incwm i'r de-ddwyrain ac i elusennau—ychydig bach o ddadlau, hefyd, wrth gwrs. Er fy mod i'n cefnogi incwm ychwanegol yn dod i'r de-ddwyrain, i fod yn deg, pa ymdrechion fydd Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i gyfeirio'r velothon i wahanol rannau o Gymru i gynhyrchu incwm ychwanegol yno?

14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The velothon, of course, will look at where it wants to go. It's its choice as to which part of Wales it goes to. Of course, it is right to say that, as a Government, we would then look to support that. We know there are a number of events take place all across Wales that we support as a Government, from the Llyn Peninsula down to Pembrokeshire, through Breconshire and, of course, in the south-east and north-east as well. If there is an opportunity for the velothon to go elsewhere in Wales, that's something, of course, we'd look to explore with them.

Bydd y velothon, wrth gwrs, yn edrych ar ble y mae eisiau mynd. Ei ddewis ef yw pa ran o Gymru y mae'n mynd iddi. Wrth gwrs, mae'n iawn i ddweud, fel Llywodraeth, y byddem yn ceisio cefnogi hynny wedyn. Rydym ni'n gwybod y cynhelir nifer o ddigwyddiadau ledled Cymru yr ydym ni'n eu cefnogi fel Llywodraeth, o Ben Llŷn i lawr i Sir Benfro, trwy Sir Frycheiniog ac, wrth gwrs, yn y de-ddwyrain a'r gogledd-ddwyrain hefyd. Os oes cyfle i'r velothon fynd i rywle arall yng Nghymru, mae hynny'n rhywbeth, wrth gwrs, y byddem yn ceisio ei archwilio gyda nhw.

### Targedau Adeiladu Tai

### House Building Targets

14:06 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dargedau adeiladu tai Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2475(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's house building targets? OAQ(4)2475(FM)*

14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are seeing good progress on house building across all tenures. We delivered 6,890 affordable homes in the first three years of this administration, against our target of 10,000. We will be able to announce further progress towards this target shortly.

Rydym ni'n gweld cynnydd da o ran adeiladu tai ar draws pob deiliadaeth. Darparwyd 6,890 o dai fforddiadwy gennym yn ystod tair blynedd gyntaf y weinyddiaeth hon, yn erbyn ein targed o 10,000. Byddwn yn gallu cyhoeddi rhagor o gynnydd tuag at y targed hwn cyn bo hir.

14:06 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. On 21 September, your Minister for communities issued a statement in which she outlined the housing supply pact between the Welsh Government and the Home Builders Federation. Amongst the commitments for the Welsh Government was to identify the most important barriers to private housing supply in Wales. I met with a number of small house builders yesterday in my own region and they raised a number of issues with me, including the cost of publicly owned land, the difficulty of accessing finance, the fact that solicitors' fees are very expensive, particularly in terms of local authority searches, the failure of statutory undertakers to work together, and the excessive charges that they impose on the small builders. Can I ask you: what aspect of those particular problems is being addressed as part of this pact?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Ar 21 Medi, cyhoeddodd eich Gweinidog cymunedau ddatganiad pryd yr amlinellodd y cytundeb cyflenwi tai rhwng Llywodraeth Cymru a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi. Ymhlith yr ymrwymiadau i Lywodraeth Cymru oedd nodi'r rhwystrau pwysicaf i gyflenwi tai preifat yng Nghymru. Cefais gyfarfod â nifer o adeiladwyr tai bychain ddoe yn fy rhanbarth fy hun a chodwyd nifer o faterion gyda mi ganddynt, gan gynnwys cost tir sy'n eiddo cyhoeddus, yr anhawster o gael gafael ar gyllid, y ffaith fod ffioedd cyfreithwyr yn ddrud iawn, yn enwedig o ran chwiliadau awdurdod lleol, methiant ymgymerwyr statudol i weithio gyda'i gilydd, a'r ffioedd gormodol y maent yn eu codi ar yr adeiladwyr bach. A gaf i ofyn i chi: pa agwedd ar y problemau penodol hynny sy'n cael sylw yn rhan o'r cytundeb hwn?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, there are some issues there that can't be addressed by Government—solicitors' fees being one of them. With regard to statutory undertakers, of course, where we once had three in Wales, namely the Forestry Commission, the Countryside Council for Wales and, of course, the Environment Agency, we now have one, which has streamlined the process in terms of the necessary consents.

Wel, ceir rhai materion na all y Llywodraeth fynd i'r afael â nhw—ffioedd cyfreithwyr yn un ohonynt. O ran ymgymerwyr statudol, wrth gwrs, roedd gennym ni dri yng Nghymru ar un adeg, sef y Comisiwn Coedwigaeth, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac, wrth gwrs, Asiantaeth yr Amgylchedd, un sydd gennym erbyn hyn, sydd wedi symleiddio'r broses o ran y caniatâd angenrheidiol.

Again, in terms of the price of publicly owned land, much of it depends on who owns it, of course. Some of it might be Welsh Government land and some of it might be land owned by local authorities, but I do understand that the finances have to add up for small builders before they make that kind of investment. What I can say is that we do have a house builders' engagement programme. It was established to—I use that dreaded word—'engage' with house builders and industry representatives from across the private sector and to identify issues that were a problem for them. It does include developers operating in Wales and the industry representative body. So, if there are difficulties, I would encourage more builders to raise their concerns via that forum as well.

Unwaith eto, o ran pris tir sy'n eiddo cyhoeddus, mae llawer ohono'n dibynnu ar bwy sy'n berchen arno, wrth gwrs. Efallai y bydd rhywfaint ohono'n dir Llywodraeth Cymru ac efallai y bydd rhywfaint ohono'n dir sy'n eiddo i awdurdodau lleol, ond rwy'n deall bod yn rhaid i'r cyllid wneud synnwyr i adeiladwyr bach cyn iddyn nhw wneud y math hwnnw o fuddsoddiad. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod gennym raglen ymgysylltu ag adeiladwyr tai. Fe'i sefydlwyd i—rwy'n ddefnyddio'r gair bondigrybwyll yna—'ymgysylltu' ag adeiladwyr tai a chynrychiolwyr y diwydiant o bob rhan o'r sector preifat ac i nodi materion a oedd yn broblem iddyn nhw. Mae'n cynnwys datblygwyr sy'n gweithredu yng Nghymru a'r corff sy'n cynrychioli'r diwydiant. Felly, os oes anawsterau, byddwn yn annog mwy o adeiladwyr i godi eu pryderon drwy'r fforwm hwnnw hefyd.

14:08 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, following the Welsh Government consultation earlier this year on the local development plan process review and publication of the new LDP regulations, will you outline the timetable for the publication of the revised LDP manual that is now overdue?

Brif Weinidog, yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn gynharach eleni ar yr adolygiad o'r broses cynllun datblygu lleol a chyhoeddi'r rheoliadau CDLl newydd, a wnewch chi amlinellu'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r llawlyfr CDLl diwygiedig sy'n hwyr erbyn hyn?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That's something that we are working on, of course, but we expect local authorities to produce their LDPs in good time. There are some local authorities that have not done that. That adds to huge confusion for developers and the general public. It also means that it becomes very difficult for people to understand what land is going to be used for over a 10-year period.

Mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n gweithio arno, wrth gwrs, ond rydym ni'n disgwyl i awdurdodau lleol gynhyrchu eu CDLlau mewn da bryd. Ceir rhai awdurdodau lleol nad ydynt wedi gwneud hynny. Mae hynny'n ychwanegu at ddryswch enfawr i ddatblygwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae hefyd yn golygu ei bod yn mynd yn anodd iawn i bobl ddeall pa dir sy'n mynd i gael ei ddefnyddio am gyfnod o fwy na 10 mlynedd.

The irony of the legislation for many years was that, when it came to development plans, there was a requirement for local authorities to produce such plans, whether it was structure plans for counties, local plans for the borough authorities—subsequently of course, unitary development plans and LDPs—but no sanction if plans were not produced. Ceredigion, if I remember, didn't have a plan—if it ever had a plan; but, certainly, it didn't have a plan for many, many years. The upshot was that developers didn't know whether they'd get planning permission; the planning system was capricious, because there were no established guidelines, and we expect local authorities to follow the established guidelines as we look to see whether there is a need to review those that already exist.

Eironi'r ddeddfwriaeth am flynyddoedd lawer oedd, o ran cynlluniau datblygu, ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu cynlluniau o'r fath, pa un a oeddent yn gynlluniau strwythur ar gyfer siroedd, yn gynlluniau lleol ar gyfer yr awdurdodau bwrdeistref—wedi hynny, wrth gwrs, cynlluniau datblygu unedol a CDLlau—ond dim cosbau os na chynhyrchwyd cynlluniau. Nid oedd gan Geredigion gynllun, os rwy'n cofio—os y bu ganddo gynllun erioed; ond, yn sicr, nid oedd ganddo gynllun am flynyddoedd lawer iawn. Y canlyniad oedd nad oedd datblygwyr yn gwybod pa un a fyddent yn cael caniatâd cynllunio; roedd y system gynllunio'n fympwyol, gan nad oedd unrhyw ganllawiau sefydledig, ac rydym ni'n disgwyl i awdurdodau lleol ddilyn y canllawiau sefydledig wrth i ni edrych i weld a oes angen adolygu'r rheini sydd eisoes yn bodoli.

## Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Pobl Hŷn

## International Older Person's Day

14:09 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i nodi'r diwrnod rhyngwladol ar gyfer pobl hŷn? OAQ(4)2479(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on actions taken by the Welsh Government to note international older person's day? OAQ(4)2479(FM)*

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Welsh Government provides funding for the Commissioner for Older People in Wales and older people strategy co-ordinators. A number of events were held across Wales, including the Say No to Ageism campaign, which was launched by the commissioner.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a chydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ledled Cymru, gan gynnwys ymgyrch Na i Oedraniaeth, a lansiwyd gan y comisiynydd.

14:09 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that response, First Minister. I'm sure you share my concern that a third of older people in Wales have experienced some form of ageism. What is the Welsh Government doing to recognise the role of older people in Wales and, in particular, older carers?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwy'n siŵr eich bod yn rhannu fy mhryder bod traean yr unigolyn hŷn yng Nghymru wedi dioddef rhyw fath o ragfarn ar sail oedran. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gydnabod swyddogaeth pobl hŷn yng Nghymru, a gofalwyr hŷn yn arbennig?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As a Government, we value the contribution of older people. We know that they make up a substantial number of volunteers in the community who do a lot of good work. We know, and I am somebody who knows this personally, the help they give to young families in terms of childcare, and so we know older people are there to help younger people and to pass on their experience. What are we doing in order to help carers? We have the carers strategy, of course. We have the commitment set out in the older people strategy and, in July 2014, we issued the declaration of rights for older people in Wales—that's very clear about what is expected of public services in Wales to ensure older people receive the support and services that they need whilst, of course, ensuring their dignity and rights are protected.

Fel Llywodraeth, rydym ni'n gwerthfawrogi cyfraniad pobl hŷn. Rydym ni'n gwybod eu bod nhw'n gyfran sylweddol o'r gwirfoddolwyr yn y gymuned sy'n gwneud llawer o waith da. Rydym ni, ac rwy'n rhywun sy'n gwybod hyn yn bersonol, yn ymwybodol o'r cymorth y maen nhw'n ei roi i deuluoedd ifanc o ran gofal plant, ac felly rydym ni'n gwybod bod pobl hŷn yno i helpu pobl ifanc ac i rannu eu profiad. Beth ydym ni'n ei wneud i helpu gofalwyr? Mae gennym ni'r strategaeth gofalwyr, wrth gwrs. Mae gennym ni'r ymrwymiad a nodir yn y strategaeth pobl hŷn ac, ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddwyd y datganiad o hawliau pobl hŷn yng Nghymru—mae hwnnw'n eglur iawn am yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt gan, wrth gwrs, sicrhau bod eu hurddas a'u hawliau'n cael eu hamddiffyn.

14:10 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to also put on record my support for the older people's commissioner's campaign Say No to Ageism, and I think everybody in this Chamber would agree that ageism has no place in twenty-first century Wales. But, of course, the office of the older people's commissioner is an extremely important part of holding Government and public authorities to account for their delivery against those rights for older people that we, quite rightly, enshrined in Welsh law. Given that, what assurances can you provide to the Chamber today that the older people's commissioner's budget will not be cut in your forthcoming budget settlement?

Hoffwn roi ar goedd hefyd fy nghefnogaeth i ymgyrch Na i Oedraniaeth y comisiynydd pobl hŷn, ac rwy'n meddwl y byddai pawb yn y Siambr hon yn cytuno nad oes unrhyw le i ragfarn ar sail oedran yng Nghymru yr unfed ganrif ar hugain. Ond, wrth gwrs, mae swydd y comisiynydd pobl hŷn yn rhan eithriadol o bwysig o ddwyn y Llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus i gyfrif am eu cyflawniad yn erbyn yr hawliau hynny ar gyfer pobl hŷn a ymgorfforwyd gennym, yn gwbl briodol, yng nghyfraith Cymru. O gofio hynny, pa sicrwydd allwch chi ei roi i'r Siambr heddiw na fydd cyllideb y comisiynydd pobl hŷn yn cael ei thorri yn eich setliad cyllideb sydd ar fin cael ei gyhoeddi?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Let's see what your party provides us with in the spending review, shall we? Then we can have a further discussion on this. Look, the older people's commissioner will have a budget that's appropriate in order for the duties of the commissioner to be discharged. We understand that. We have a very good record when it comes to supporting older people, whether it is the establishment of the commissioner, through to the strategy, through to the carers strategy. But let's wait and see what kind of support the UK Government is willing to give to Welsh older people.

Gadewch i ni weld beth fydd eich plaid yn ei roi i ni yn yr adolygiad o wariant, ie? Yna gallwn ni gael trafodaeth bellach ar hyn. Edrychwch, bydd gan y comisiynydd pobl hŷn gyllideb sy'n briodol er mwyn i ddyletswyddau'r comisiynydd gael eu cyflawni. Rydym ni'n deall hynny. Mae gennym ni hanes da iawn o ran cefnogi pobl hŷn, boed hynny'n gyflwyno swydd y comisiynydd, hyd at y strategaeth, hyd at y strategaeth ar gyfer gofalwyr. Ond gadewch i ni aros i weld pa fath o gefnogaeth mae Llywodraeth y DU yn barod i'w roi i bobl hŷn yng Nghymru.

14:12 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in your draft equality objectives, published in July, you outlined wanting to tackle differences in employment between various groups and parts of society. Do you agree that a particularly hard place to be is over 50 and unemployed or recently redundant? How do you plan to put meat on the bones of your equality plan so as to ensure that older people have equal access to employment opportunities, please?

Brif Weinidog, yn eich amcanion cydraddoldeb drafft, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, amlinellwyd gennych eich bod yn awyddus i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn cyflogaeth rhwng gwahanol grwpiau a rhannau o gymdeithas. A ydych chi'n cytuno bod pobl sydd dros 50 oed ac yn ddi-waith neu wedi'u diswyddo yn ddiweddar mewn sefyllfa arbennig o anodd? Sut ydych chi'n bwriadu rhoi cig ar esgyrn eich cynllun cydraddoldeb er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd cyflogaeth, os gwelwch yn dda?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, through training. I mean, it's been the case for some time that people over 50 have found it difficult to get employment, particularly when they've been in long-term employment in a particular job. We saw that when the mining industry was wrecked; we saw that with the mass redundancies amongst the steelworkers in the 1980s. We are moving to an era where people need to have training on a regular basis throughout their lives—we talk about lifelong learning and we've done that in terms of making sure that people have access to that lifelong learning and to that training. Above all, employers now, if they have older people, have people who are used to the disciplines of work, who can offer the benefit of experience and, particularly, of course, the ability to train those younger in the disciplines needed in the workforce.

Wel, trwy hyfforddiant. Hynny yw, bu'n wir ers cryn amser bod pobl dros 50 oed wedi ei chael hi'n anodd cael gwaith, yn enwedig pan fyddant wedi bod mewn cyflogaeth hirdymor mewn swydd benodol. Gwelsom hynny pan chwalwyd y diwydiant glo; gwelsom hynny â'r diswyddiadau lu ymhlith y gweithwyr dur yn y 1980au. Rydym ni'n symud i gyfnod lle mae angen i bobl gael hyfforddiant yn rheolaidd trwy gydol eu bywydau—rydym ni'n sôn am ddysgu gydol oes ac rydym ni wedi gwneud hynny o ran gwneud yn siŵr bod gan bobl fynediad at y dysgu gydol oes a'r hyfforddiant hwnnw. Yn fwy na dim, mae gan gyflogwyr erbyn hyn, os oes ganddyn nhw bobl hŷn, pobl sydd wedi arfer â disgyblaeth gweithio, sy'n gallu cynnig y fantais o brofiad ac, yn arbennig, wrth gwrs, y gallu i hyfforddi'r rhai iau yn y disgyblaethau sydd eu hangen yn y gweithlu.

## Darparwyr Gwasanaethau Cyhoeddus

## Public Service Providers

14:13 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ba mor hir y dylai darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ei gymryd i ymateb i gwynion? OAQ(4)2482(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on how long public service providers should take to respond to complaints? OAQ(4)2482(FM)*

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Public service providers in Wales have their own individual complaints procedures, but the ombudsman recommends that providers adopt the model complaints policy, which suggests complaints are considered within 20 working days. Some complaints, of course, will take longer, because of their complexity.

Mae gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru eu gweithdrefnau cwynion unigol eu hunain, ond mae'r ombwdsmon yn argymell bod darparwyr yn mabwysiadu'r polisi cwynion enghreifftiol, sy'n awgrymu bod cwynion yn cael eu hystyried o fewn 20 diwrnod gwaith. Bydd rhai cwynion, wrth gwrs, yn cymryd mwy o amser, oherwydd eu cymhlethdod.

14:13 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that response. I wrote to the ambulance service on behalf of a constituent in June. Her daughter had seven epileptic fits in a local park, a rapid response paramedic called a code red, but it took the ambulance an hour to arrive from Porth to Glynneath, where there is an ambulance station. When they rung my office to update me last week, some three months after my letter, we were told that a draft response had been compiled—finally. Furthermore, the service is experiencing a backlog of complaints, they tell me, and they had prioritised my complaint because I was an Assembly Member. Does the First Minister agree that this is an unacceptable amount of time for my constituent to wait for an answer over this poor service, and what is his Government doing about ensuring that people who contact public services have a response in a timely fashion?

Diolch am yr ateb yna. Ysgrifennais at y gwasanaeth ambiwlans ar ran etholwr ym mis Mehefin. Cafodd ei merch saith o ffitiau epileptig mewn parc lleol, galwodd parafeddyg ymateb cyflym god coch, ond cymerodd yr ambiwlans awr i gyrraedd o Borth i Lyn-nedd, lle y mae gorsaf ambiwlans. Pan wnaethant ffonio fy swyddfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi yr wythnos diwethaf, tua thri mis ar ôl fy llythyr, fe'n hysbyswyd bod ymateb drafft wedi cael ei lunio—o'r diwedd. Ar ben hynny, mae gan y gwasanaeth ôl-groniad o gwynion, mae'n fy hysbysu, ac roedd wedi blaenoriaethu fy nghwyn i gan fy mod i'n Aelod o'r Cynulliad. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod hwn yn gyfnod annerbyniol o amser i fy etholwr aros am ateb ynglŷn â'r gwasanaeth gwael hwn, a beth mae ei Lywodraeth yn ei wneud ynghylch sicrhau bod pobl sy'n cysylltu â gwasanaethau cyhoeddus yn cael ymateb prydlon?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, it's very difficult to comment on an individual complaint, given the fact that she has knowledge that I don't have access to. Nevertheless, she raises, of course, an important issue. If I could ask her to write to the health Minister, I'm sure then she will get a detailed response.

Wel, mae'n anodd iawn gwneud sylwadau ar gŵyn unigol, o ystyried y ffaith bod ganddi wybodaeth nad yw ar gael i mi. Serch hynny, mae hi'n codi mater pwysig, wrth gwrs. Pe gallwn i ofyn iddi ysgrifennu at y Gweinidog iechyd, rwy'n siŵr y bydd hi'n cael ymateb manwl wedyn.

14:14 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, handling a complaint in a sensitive and timely manner is of critical importance when patients find that they have an issue, and it can help mitigate some of the circumstances that led to the complaint in the first place if the answer's dealt with in a timely manner. Abertawe Bro Morgannwg did have a pretty lamentable record in dealing with complaints, but what is your assessment, First Minister, of health boards across Wales in the way they are dealing with complaints and, more importantly, the resource that they put into dealing with those complaints, because very often they're seen as the Cinderella part of the service that they have to deliver?

Yn amlwg, mae ymdrin â chwyn mewn ffordd sensitif a phrydlon yn hollbwysig pan fydd cleifion yn canfod bod ganddynt broblem, a gall helpu i liniaru rhai o'r amgylchiadau a arweiniodd at y gŵyn yn y lle cyntaf os ymdrinnir â'r ateb yn brydlon. Roedd gan Abertawe Bro Morgannwg hanes braidd yn druenus o ymdrin â chwynion, ond beth yw eich asesiad chi, Brif Weinidog, o fyrddau iechyd ledled Cymru o ran y ffordd y maen nhw'n ymdrin â chwynion ac, yn bwysicach, yr adnoddau y maen nhw'n eu neilltuo i ymdrin â'r cwynion hynny, oherwydd yn aml iawn, maen nhw'n cael eu hystyried fel y rhan Cinderella o'r gwasanaeth y mae'n rhaid iddyn nhw ei ddarparu?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, they're not, for a number of reasons. I think that part of the problem is that there's been a tendency in the past for LHBs—indeed, all public authorities—to treat a complaint as a potential legal action. That, of course, then kicks off a very formal process. Of course, most people are not interested in legal action and are not interested in compensation; they want an explanation or an apology where things go wrong. So, we encourage LHBs to take a more informal approach to dealing with complaints where that is appropriate, particularly where people just don't want to go down that line.

Wel, nid ydynt, am nifer o resymau. Rwy'n meddwl mai rhan o'r broblem yw y bu tuedd yn y gorffennol i BILlau—pob awdurdod cyhoeddus yn wir—i drin cwyn fel camau cyfreithiol posibl. Mae hynny wedyn, wrth gwrs, yn dechrau proses ffurfiol iawn. Wrth gwrs, nid oes gan y rhan fwyaf o bobl ddiddordeb mewn achos cyfreithiol ac nid oes ganddyn nhw ddiddordeb mewn iawndal; esboniad neu ymddiheuriad maen nhw ei eisiau pan fo pethau'n mynd o chwith. Felly, rydym ni'n annog Byrddau Iechyd Lleol i fabwysiadu dull mwy anffurfiol o ymdrin â chwynion pan fo hynny'n briodol, yn arbennig pan nad yw pobl eisiau dilyn y trywydd hwnnw.

In terms of ABMU, he is right to say, for example, that at the Princess of Wales Hospital there was a time that its complaints record was not up to the required standard. That has changed. We have seen that ABMU had the largest reduction in complaints in 2014-15, partly due to the deployment of a patient advice and liaison service. They are dealing with a greater number of informal concerns at source. So, instead of standing back and thinking, 'This is bound to end up in court', there's a proactive approach to make sure that people's complaints are dealt with in a timely and appropriate manner.

O ran PABM, mae'n iawn i ddweud, er enghraifft, y bu adeg yn Ysbyty Tywysoges Cymru pan nad oedd ei hanes o ran cwynion yn cyrraedd y safon ofynnol. Mae hynny wedi newid. Rydym ni wedi gweld y cafwyd y gostyngiad mwyaf i nifer y cwynion yn 2014-15 yn PABM, yn rhannol oherwydd y defnydd o wasanaeth cyngor a chydgysylltu â chleifion. Maen nhw'n ymdrin â nifer fwy o bryderon anffurfiol wrth eu ffynhonnell. Felly, yn hytrach na sefyll yn ôl a meddwl, 'Mae hyn yn siŵr o fynd i'r llys', ceir dull rhagweithiol o sicrhau yr ymdrinnir â chwynion pobl yn brydlon ac yn briodol.

### Polisi Ynni Adnewyddadwy

### Renewable Energy Policy

14:16 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)2483(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on renewable energy policy in Wales? OAQ(4)2483(FM)*

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Our policies are set out in 'Energy Wales: A Low Carbon Transition' and 'Planning Policy Wales'. A further written statement in June and the publication in July of 'Green Growth Wales: Local Energy' explain our vision for future energy systems in Wales, and the key role of renewable energy.

Gwnaf. Mae ein polisïau wedi'u cyflwyno yn 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' a 'Polisi Cynllunio Cymru'. Mae datganiad ysgrifenedig pellach ym mis Mehefin a chyhoeddi 'Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol' ym mis Gorffennaf yn egluro ein gweledigaeth ar gyfer systemau ynni yn y dyfodol yng Nghymru, a swyddogaeth allweddol ynni adnewyddadwy.

14:16 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for that response, First Minister, and I am pleased that the Welsh Government takes a much more positive attitude towards this matter than the Conservative UK Government, which increasingly seems to be turning its back on renewable energy, not content with cutting the feed-in tariff rates for small-scale solar panel installations. Only last week, we heard about how the Department of Energy and Climate Change is dragging its feet about the funding that it's due to provide to the proposed Swansea bay tidal lagoon. First Minister, will you agree with me that, given Wales is surrounded on three sides by seawater, tidal energy is something to be explored as fully as possible? An do you agree with me that, in terms of the Irish sea, we should seek to work closely with the Irish Government and higher education institutions so that there can be a maximum sharing of ideas and expertise?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog, ac rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn cymryd agwedd llawer mwy cadarnhaol tuag at y mater hwn na Llywodraeth Geidwadol y DU, sy'n ymddangos yn gynyddol fel ei bod yn troi ei chefn ar ynni adnewyddadwy, heb fod yn fodlon â thorri'r cyfraddau tariff cyflenwi trydan ar gyfer gosodiadau paneli solar ar raddfa fach. Dim ond yr wythnos diwethaf, clywsom sut y mae'r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd yn llusgo ei thraed o ran y cyllid y disgwylir iddi ei ddarparu ar gyfer morlyn llanw arfaethedig bae Abertawe. Brif Weinidog, a wnewch chi gytuno â mi, o ystyried bod Cymru wedi ei hamgylchynu ar dair ochr gan ddŵr y môr, bod ynni'r llanw yn rhywbeth i'w archwilio mor llwyr â phosibl? Ac a ydych chi'n cytuno â mi, o ran môr Iwerddon, y dylen ni geisio gweithio'n agos gyda Llywodraeth Iwerddon a sefydliadau addysg uwch fel y gellir rhannu syniadau ac arbenigedd cymaint â phosibl?

14:17

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the difficulty is that the UK Government seem to have no idea what their energy policy is. I hear this from developers themselves. They just want to know what's happening and want some certainty. They know that solar panels have had their subsidies cut; they know that feed-in tariffs have been cut; they know that onshore wind is not in favour with the UK Government; there's no strike price on the tidal lagoon; and we've seen the money that's had to be made available with regard to Hinkley Point in terms of that being able to proceed. There needs to be far more certainty than this. From our point of view, you're quite right that there's tremendous potential for marine energy resources around Wales, and great potential not just to create energy but to create jobs as well. But at the moment, everything has been delayed because of the lack of agreement over the strike price, and that's down to the fact that there's a completely directionless position at the moment that's being exhibited by the UK Government.

Wel, yr anhawster yw ei bod yn ymddangos nad oes gan Lywodraeth y DU unrhyw syniad beth yw ei pholisi ynni. Rwy'n clywed hyn gan ddatblygwyr eu hunain. Y cwbl maen nhw ei eisiau yw cael gwybod beth sy'n digwydd a rhywfaint o sicrwydd. Maen nhw'n gwybod y torrwyd cymorthdaliadau ar gyfer paneli solar; maen nhw'n gwybod bod tariffau cyflenwi trydan wedi cael eu torri; maen nhw'n gwybod nad yw Llywodraeth y DU o blaid ynni'r gwynt; nid oes pris streic ar y morlyn llanw; ac rydym ni wedi gweld yr arian y bu'n rhaid ei roi ar gael yng nghyswllt Hinkley Point o ran y gallu i fwrw ymlaen â hynny. Mae angen cael llawer mwy o sicrwydd na hyn. O'n safbwynt ni, rydych chi yn llygad eich lle bod potensial aruthrol o ran adnoddau ynni morol o amgylch Cymru, a photensial mawr nid yn unig i greu ynni, ond i greu swyddi hefyd. Ond ar hyn o bryd, mae popeth wedi ei oedi oherwydd y diffyg cytundeb am y pris streic, ac mae hynny oherwydd y ffaith bod safbwynt cwbl ddigyfeiriad yn cael ei arddangos ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU.

Senedd.tv
Fideo Video

14:18

## Russell George Bywgraffiad Biography

I declare an interest as a Powys county councillor. First Minister, last month the UK Government announced the outcome of the conjoined public inquiry on the mid Wales connection project and windfarms. In contrast to what your Government has said, it's not a decision made in Westminster; it is a victory for local democracy as the UK Government upheld the original decision of the local representatives of Powys County Council. Now, as powers are devolved to the Welsh Government, will you ensure that decisions are made as close as possible to local people?

Rwy'n datgan buddiant fel cynghorydd sir ym Mhowys. Brif Weinidog, fis diwethaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus cyfunol i brosiect cyswllt y canolbarth a ffermydd gwynt. Yn wahanol i'r hyn y mae eich Llywodraeth chi wedi ei ddweud, nid yw'n benderfyniad a wneir yn San Steffan; mae'n fuddugoliaeth i ddemocratiaeth leol wrth i Lywodraeth y DU gadarnhau penderfyniad gwreiddiol cynrychiolwyr lleol Cyngor Sir Powys. Nawr, gan fod pwerau wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, a wnewch chi sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mor agos â phosibl i bobl leol?

Senedd.tv
Fideo Video

14:19

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the decision wasn't taken by the local authority, nor can it be, given the current settlement with regard to planning and energy. It's a hypothetical question, as he knows full well. We want to see energy devolved. It's something, in fairness, that the UK Government has not objected to, but it does rather make the point that I made many times to him and others that this wasn't a matter for the Welsh Government. It was a matter for the UK Government. People were protesting outside this building, and I said then, 'It's the UK Government that will take the final decision'. That was the reality of it. The issue of the Welsh Government and technical advice note 8 was always a red herring.

Wel, ni wnaed y penderfyniad gan yr awdurdod lleol, ac ni all hynny ddigwydd, o ystyried y setliad presennol o ran cynllunio ac ynni. Mae'n gwestiwn damcaniaethol, fel y mae'n ei wybod yn iawn. Rydym ni i gyd eisiau gweld ynni'n cael ei ddatganoli. Mae'n rhywbeth, a bod yn deg, nad yw Llywodraeth y DU wedi ei wrthwynebu, ond mae braidd yn gwneud y pwynt a wneuthum lawer gwaith iddo ef ac eraill nad oedd hwn yn fater i Lywodraeth Cymru. Roedd yn fater i Lywodraeth y DU. Roedd pobl yn protestio y tu allan i'r adeilad hwn, a dywedais bryd hynny, 'Llywodraeth y DU fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol'. Dyna oedd gwirionedd y sefyllfa. Mater o godi sgwarnog oedd Llywodraeth Cymru a nodyn cyngor technegol 8 erioed.

Senedd.tv
Fideo Video

14:19

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Dafydd Elis-Thomas.

Dafydd Elis-Thomas.

Senedd.tv
Fideo Video

14:19

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr, Fonesig Lywydd. Dylwn ddatgan diddordeb fel un sy'n byw 20m uwchlaw'r afon Conwy.

Thank you, Dame Presiding Officer. I should declare an interest as one who lives 20m above the Conwy river.

Senedd.tv
Fideo Video

Yn fy nhyb i, Brif Weinidog, mae yna lai o frwdfrydedd y dyddiau hyn tuag at ynni gwynt mewndirol, a hefyd tuag at ynni hydro canolig. A yw'r Prif Weinidog yn monitro'n ofalus beth sydd yn digwydd i'r agweddau yma o'r diwydiant, yn enwedig o ystyried effaith polisi cyllido, a diffyg polisi cynllunio effeithlon Llywodraeth y Deyrnas Unedig tuag at yr hyn sy'n digwydd?

In my view, First Minister, there is less enthusiasm these days for onshore wind energy, and also towards medium-sized hydro developments. Is the First Minister carefully monitoring what is happening to these aspects of the industry, particularly bearing in mind the impact of the fiscal policy and lack of effective planning policy of the UK Government in terms of what's happening in this area?

14:20

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Y broblem yw hyn: heb fod pobl yn gwybod beth yw'r 'strike price', mae'n anodd wedyn i weld beth yw'r model cyllidol ynglŷn â buddsoddi. Mae hwn yn broblem i bawb, bach a mawr, sydd eisiau buddsoddi yn y rhwydwaith ynni yma yng Nghymru. Mae'n rhaid cael gweledigaeth ynglŷn â'r ffordd ymlaen i Brydain Fawr. Nid oes un gennym ni ar hyn o bryd. Mae'n rhaid inni wybod beth yn gwmws yw cynllun y Deyrnas Unedig. Heb hynny, mae'n anodd iawn i ni, fel Llywodraeth, ystyried beth yw'r ffordd ymlaen ynglŷn â Chymru, o achos y ffaith ein bod mewn sefyllfa mor wahanol i'r Alban.

The problem is this: without people knowing what the strike price is, it's difficult to see what funding model would be best for investment. This is a problem for all schemes, whether they are large or small, and the people who want to invest in the network in Wales. We must have a vision as regards the way forward for the whole of the United Kingdom. We don't have one at the moment. We must know what the plan is for the United Kingdom, because without that, it's very difficult for us as a Government to consider the way forward for Wales, because of the fact that we're in such a different position to Scotland.

14:21

# 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

# 2. Business Statement and Announcement

Y Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister. We now move to item 2, which is the business statement and announcement. I call on the Minister, Jane Hutt.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad a chyhoeddiad busnes. Galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

14:21

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

There are two changes to report to the business statement for this week. The First Minister will make a statement on the Welsh Government's response to the Flynn report today. The Minister for Public Services has postponed the motion for a debate on Stage 4 of the Local Government (Wales) Bill. Business for the next weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Mae dau newid i'w hadrodd i'r datganiad busnes ar gyfer yr wythnos hon. Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Flynn heddiw. Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gohirio'r cynnig am ddadl ar Gyfnod 4 Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Mae busnes ar gyfer yr wythnosau nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:21

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I draw the Chamber's attention to my earlier declaration in First Minister's questions. Leader of the House, is it possible, notwithstanding the answer the First Minister gave in First Minister's questions, to have a detailed statement from the Deputy Minister for Farming and Food in relation to the Government's delivery of the basic payment scheme, and importantly, the percentages of delivery of support under that scheme into land-based businesses? It is vital that there's a clear timeline for businesses to understand how this money will be delivered. As I said, notwithstanding the answers the First Minister gave, at the moment I do not believe a statement has been forthcoming over the exact timelines that the Government is working to. We are only some six or seven weeks away from the opening of the official window on 1 December. The Government could have started on 1 October and chose not to, but the industry, and businesses, need clarity on this issue.

Tynnaf sylw'r Siambr at fy natganiad cynharach yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog. Arweinydd y Tŷ, a yw'n bosibl, er gwaethaf yr ateb a roddodd y Prif Weinidog yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, cael datganiad manwl gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd o ran darpariaeth y Llywodraeth o'r cynllun taliadau sylfaenol, ac yn bwysig, canrannau'r ddarpariaeth o gymorth o dan y cynllun hwnnw i fusnesau ar y tir? Mae'n hanfodol bod llinell amser eglur i fusnesau ddeall sut y bydd yr arian hwn yn cael ei ddarparu. Fel y dywedais, er gwaethaf yr atebion a roddodd y Prif Weinidog, nid wyf yn credu ar hyn o bryd bod datganiad wedi cael ei wneud ar yr union amserlenni y mae'r Llywodraeth yn gweithio yn unol â nhw. Dim ond tua chwech neu saith wythnos ydym ni o agor y ffenestr swyddogol ar 1 Rhagfyr. Gallai'r Llywodraeth fod wedi dechrau ar 1 Hydref a dewisodd beidio â gwneud hynny, ond mae'r diwydiant, a busnesau, angen eglurder ar y mater hwn.

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, the Deputy Minister has kept key interests and, indeed, spokespeople informed of developments. Of course, it's clear that, as the First Minister said, we remain committed to making part payments as early as possible in the CAP payment window, which opens on 1 December.

Wel, wrth gwrs, mae'r Dirprwy Weinidog wedi bod yn hysbysu rhai â buddiannau allweddol ac, yn wir, llefarwyr am unrhyw ddatblygiadau. Wrth gwrs, mae'n amlwg, fel y dywedodd y Prif Weinidog, ein bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i wneud taliadau rhannol mor gynnar â phosibl yng nghyfnod talu'r PAC, sy'n dechrau ar 1 Rhagfyr.

14:22 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Rhondda Cynon Taf and my constituency, Pontypridd, are likely to become a desert of justice under the Tory Government's proposals to close the last magistrates' court in that area, and indeed in many other parts of Wales. This is a matter of such importance—access to justice and equality and social justice in Wales. Will the Government make time available for a debate on this important issue?

Weinidog, mae Rhondda Cynon Taf a fy etholaeth i, Pontypridd, yn debygol o ddod yn anialwch o gyfiawnder dan gynigion y Llywodraeth Doriaidd i gau'r llys ynadon olaf yn yr ardal honno, ac yn wir mewn llawer o rannau eraill o Gymru. Mae hwn yn fater mor bwysig—mynediad at gyfiawnder a chydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. A wnaiff y Llywodraeth roi amser ar gael ar gyfer dadl ar y mater pwysig hwn?

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Mick Antoniw raises a very important point, and of course closures of courts are not just in your constituency, but across Wales, and will have a major impact. Of course, this is about adverse impacts on access to justice that the UK Government's proposed court closure programme would have on Pontypridd and other constituencies. It is still at the consultation stage, but we are submitting a full response to highlight our deep concerns about the effects on citizens and communities.

Wel, mae Mick Antoniw yn codi pwynt pwysig iawn, ac wrth gwrs mae llysoedd yn cau nid yn unig yn eich etholaeth chi, ond ledled Cymru, a bydd yn cael effaith fawr. Wrth gwrs, mae hyn yn ymwneud â'r effeithiau andwyol ar fynediad at gyfiawnder y byddai rhaglen cau llysoedd arfaethedig Llywodraeth y DU yn eu cael ar Bontypridd ac etholaethau eraill. Mae'n dal yn y cyfnod ymgynghori, ond rydym ni'n cyflwyno ymateb llawn i dynnu sylw at ein pryderon dwys am yr effeithiau ar ddinasyddion a chymunedau.

14:23 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tybed a fedrwn ni gael dadl yn amser y Llywodraeth ar unrhyw ddatblygiadau sydd wedi bod yn digwydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont. Rwy'n gofyn nawr oherwydd, dros y penwythnos, fe wnes i gael newyddion gan etholwr, ac fe wnaethon nhw ddweud wrthyf eu bod nhw'n rhoi pobl oedrannus mewn i gadeiriau yn hytrach na'u cadw ar wardiau oherwydd eu bod nhw'n trio rhoi pobl o A&E mewn i'r wardiau yma oherwydd nad ydynt eisiau cyhoeddusrwydd yn sgil y rhesi o ambiwlansys a oedd yn aros y tu allan i'r ysbytai. Yn ôl beth rwy'n ei ddeall, mae hyn wedi dod o weinyddwyr ac nid gan y nyrsys, ac mae'r nyrsys yn trio stopio hynny rhag digwydd oherwydd eu bod yn cydnabod na ddylai pobl hŷn fod yn eistedd mewn cadeiriau pan ddylent fod mewn gwlâu. A allwn ni gael datganiad gan eich Llywodraeth chi ynglŷn â'r sefyllfa yma er mwyn inni ddeall yn iawn beth sydd yn digwydd yn yr ysbyty?

I wonder if we could have a debate in Government time on any developments that have taken place at the Princess of Wales Hospital in Bridgend. I'm asking now, because over the weekend I was told by a constituent that they are putting elderly people into chairs rather than keeping them on wards, because they were trying to shift people from A&E into these wards because they didn't want publicity surrounding the ambulances waiting outside the hospital. As I understand, this has happened because of administrators rather than nurses, and the nurses are trying to stop this from happening because they recognise that older people shouldn't be sitting in chairs when they should be in beds. Can we have a statement from your Government on this situation so that we can fully understand what's happening at that hospital?

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, the concerns that are raised by constituents in response to the kind of situation that you say may have occurred have to be raised with the health board, and I'm sure that you will do that.

Yn amlwg, mae'n rhaid codi'r pryderon sy'n cael eu codi gan etholwyr mewn ymateb i'r math o sefyllfa yr ydych chi'n dweud y gallai fod wedi digwydd gyda'r bwrdd iechyd, ac rwy'n siŵr y byddwch chi'n gwneud hynny.

14:24 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, unfortunately this past weekend we saw another fatality involving a motorbike on Welsh roads following the death of a passenger at the Waterloo bridge at Betws-y-Coed. You'll be aware that last year's figures show that motorcycle-related deaths had reached a seven-year high, and there is hardly a weekend that goes by without the reports of either another casualty or severe injury. I wonder whether the Minister for transport would be willing to provide us with an update on what steps are being taken to address the issue of motorcycling safety, and especially the impact that has on communities that can feel very unsafe and can be greatly disturbed by the anti-social motorcycling of some people who use our roads.

Weinidog, gwelsom farwolaeth arall yn ymwneud â beic modur ar ffyrdd Cymru y penwythnos diwethaf yn anffodus, yn dilyn marwolaeth teithiwr ar y bont Waterloo ym Metws-y-Coed. Byddwch yn ymwybodol bod ffigurau'r llynedd yn dangos bod marwolaethau'n gysylltiedig â beiciau modur wedi cyrraedd eu nifer uchaf ers saith mlynedd, a phrin y mae penwythnos yn mynd heibio heb adroddiadau o farwolaeth neu anaf difrifol arall. Tybed a fyddai'r Gweinidog trafnidiaeth yn fodlon rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater o ddiogelwch beicio modur, ac yn enwedig yr effaith y mae hynny'n ei chael ar gymunedau sy'n gallu teimlo'n anniogel iawn ac y gall beicio modur gwrthgymdeithasol rhai pobl sy'n defnyddio ein ffyrdd darfu'n sylweddol arnynt.

Secondly, could I ask for a statement from the Minister for Communities and Tackling Poverty? The Minister committed £60,000 of Welsh Government money in June of this year to investigate the economics of the park home industry. I'd be grateful to hear what that work will entail and whether she has any intention of addressing the much-vexed issue of the 10 per cent commission rate within the industry. It's of huge concern to many park home residents, and I'd be grateful if the Minister could give us an update on whether she intends to take action with regard to commission rates. Thank you.

Yn ail, a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi? Ymrwymodd y Gweinidog £60,000 o arian Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin eleni i ymchwilio i economeg y diwydiant cartrefi mewn parciau. Byddwn yn ddiolchgar o glywed yr hyn y bydd y gwaith hwnnw'n ei gynnwys ac a oes ganddi unrhyw fwriad o fynd i'r afael â mater hynod ddadleuol y gyfradd comisiwn o 10 y cant yn y diwydiant. Mae'n destun pryder mawr i lawer o breswylwyr cartrefi mewn parciau, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni o ran a yw'n bwriadu cymryd camau o ran cyfraddau comisiwn. Diolch.

14:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Kirsty Williams for both of those questions. Clearly, fatalities as a result of motorbike accidents are something that we all, of course, take very seriously, and the Minister has taken this up in terms of motorbike safety. She will update Members on her actions.

Diolchaf i Kirsty Williams am y ddau gwestiwn yna. Yn amlwg, mae marwolaethau o ganlyniad i ddamweiniau beiciau modur yn rhywbeth yr ydym i gyd, wrth gwrs, yn eu cymryd o ddifrif, ac mae'r Gweinidog wedi rhoi sylw i hyn o ran diogelwch beicio modur. Bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y camau a gymerwyd ganddi.

The economics of park homes are, clearly, something that affects many Assembly Members across the Chamber, and I will confirm the action that the Minister for Communities and Tackling Poverty is taking in terms of updating Members on this review.

Mae economeg cartrefi mewn parciau yn amlwg yn rhywbeth sy'n effeithio ar lawer o Aelodau'r Cynulliad ar draws y Siambr, a byddaf yn cadarnhau'r camau y mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi'n eu cymryd o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad hwn i'r Aelodau.

14:26 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week, I received an e-mail notification of an official engagement that is to be undertaken by the First Minister to Control Techniques in my Montgomeryshire constituency. I should say that the visit to Montgomeryshire by the First Minister is very welcome indeed. In the e-mail, the First Minister's private office apologises for the short notice. I was aware of this visit some weeks ago, and there's no excuse, I don't think, for informing local Members at such short notice. Only this morning, I received a further notification of a visit with just three days' notice, again apologising. I have raised this with you before and I have written to the First Minister. I would be grateful if you could intervene to ensure that the process is improved.

Weinidog, yr wythnos diwethaf, derbyniais hysbysiad e-bost o ymweliad swyddogol y bydd y Prif Weinidog yn ei wneud â Control Techniques yn fy etholaeth i yn Sir Drefaldwyn. Dylwn ddweud bod yr ymweliad â Sir Drefaldwyn gan y Prif Weinidog yn cael ei groesawu'n fawr. Yn yr e-bost, mae swyddfa breifat y Prif Weinidog yn ymddiheuro am y byr-rybudd. Roeddwn i'n ymwybodol o'r ymweliad hwn rai wythnosau yn ôl, a does dim esgus, yn fy marn i, am roi gwybod i Aelodau lleol ar gymaint o fyr-rybudd. Dim ond y bore yma, cefais hysbysiad arall o ymweliad gyda dim ond tri diwrnod o rybudd, yn ymddiheuro unwaith eto. Rwyf wedi codi hyn gyda chi o'r blaen ac rwyf wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymyrryd i sicrhau bod y broses yn cael ei gwella.

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm glad you did welcome the fact the First Minister was visiting your constituency. Of course, there is a protocol, which we seek to abide by, and we will look at that in terms of notifications.

Rwy'n falch eich bod wedi croesawu'r ffaith fod y Prif Weinidog yn ymweld â'ch etholaeth. Wrth gwrs, ceir protocol, rydym ni'n ceisio cadw ato, a byddwn yn edrych ar hynny o safbwynt hysbysiadau.

14:27 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can we have a Government statement on the Electoral Commission's warning that voters risk being left off the electoral register for next year's Assembly elections? The UK Government has brought forward a deadline to complete the move to a new voter registration system from December 2016 to December 2015. As of May, 70,000 Welsh voters had not been transferred, according to the Electoral Commission. Voters who have not been processed when the deadline passes will be taken off the electoral register and they must re-register themselves, thus putting the onus on the individual. This also coincides with the data that are going to be used to redraw the electoral boundaries by this Government, and it will, in turn, undoubtedly have a figure much lower than the figure of people who currently reside within those boundaries. There are two parts to this, of course, Minister. Not only will this disenfranchise those voters, but it has the potential to significantly affect individuals' lives, because if they're not on the register, they will find that they won't get any access to credit in any form whatsoever, including a mortgage.

Weinidog, a allwn ni gael datganiad gan y Llywodraeth ar rybudd y Comisiwn Etholiadol bod pleidleiswyr mewn perygl o gael eu gadael oddi ar y gofrestr etholiadol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf? Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r newid i system cofrestru pleidleiswyr newydd o fis Rhagfyr 2016 i fis Rhagfyr 2015. Ym mis Mai, roedd 70,000 o bleidleiswyr Cymru nad oeddent wedi eu trosglwyddo, yn ôl y Comisiwn Etholiadol. Bydd pleidleiswyr nad ydynt wedi cael eu prosesu pan fydd y terfyn amser yn mynd heibio yn cael eu cymryd oddi ar y gofrestr etholiadol a bydd yn rhaid iddyn nhw ail-gofrestru eu hunain, gan roi'r cyfrifoldeb ar yr unigolyn felly. Mae hyn hefyd yn cyd-daro â'r data sy'n mynd i gael ei ddefnyddio gan y Llywodraeth hon i ail-lunio'r ffiniau etholiadol, a bydd hynny, yn ei dro, yn golygu heb amheuaeth ffigur llawer is na nifer y bobl sy'n byw o fewn y ffiniau hynny ar hyn o bryd. Ceir dwy ran i hyn, wrth gwrs, Weinidog. Nid yn unig y bydd hyn yn difreinio'r pleidleiswyr hynny, ond mae ganddo'r potensial i effeithio'n sylweddol ar fywydau unigolion, oherwydd os nad ydynt ar y gofrestr, byddant yn canfod na fyddant yn cael unrhyw fynediad at gredyd o unrhyw fath o gwbl, gan gynnwys morgais.

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, and I very much thank Joyce Watson for drawing this to our attention this afternoon, because the Welsh Government did fully support the Electoral Commission's position that the carry-over of registered voters from one year to the next should be allowed to continue to the next register in December 2016, giving more time for the new system of individual registration to bed in. I'm sure that disappointment will be shared about the UK Government's decision not to delay the final transition to individual voter registration until after the Assembly elections. Of course, as Joyce Watson says, this does mean that there's a possibility that many eligible voters could be removed from registers, ahead of the Assembly election next year, also increasing pressure on the electoral registration officers, should people have to rush to register in time for the election. So, we'll be doing all in our power to encourage maximum levels of registration, and obviously urge all Assembly Members, and their political organisations, to take this up.

Ie, ac rwy'n diolch yn fawr iawn i Joyce Watson am dynnu ein sylw at hyn y prynhawn yma, gan fod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi safbwynt y Comisiwn Etholiadol yn llawn y dylid caniatáu i'r broses o gario pleidleiswyr cofrestredig drosodd o un flwyddyn i'r llall barhau tan y gofrestr nesaf ym mis Rhagfyr 2016, gan roi mwy o amser i'r system newydd o gofrestru unigol ymsefydlu. Rwy'n siŵr y bydd y siom ynghylch penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio ag oedi'r newid terfynol i gofrestru pleidleiswyr unigol tan ar ôl etholiadau'r Cynulliad yn cael ei rannu. Wrth gwrs, fel y dywed Joyce Watson, mae hyn yn golygu bod posibilrwydd y gallai llawer o bleidleiswyr cymwys gael eu tynnu oddi ar gofrestri, cyn etholiad y Cynulliad y flwyddyn nesaf, gan gynyddu'r pwysau hefyd ar y swyddogion cofrestru etholiadol, pe byddai'n rhaid i bobl ruthro i gofrestru mewn pryd ar gyfer yr etholiad. Felly, byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i annog cymaint â phosibl o gofrestriadau, ac yn amlwg yn annog holl Aelodau'r Cynulliad, a'u sefydliadau gwleidyddol, i wneud hynny hefyd.

14:30 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I refer back to the questions from my colleague Alun Ffred Jones to the First Minister regarding museums services? Increasingly, museums and libraries are being supported in our communities by a wealth of voluntary effort—people giving of their time and effort to ensure that they remain open, and remain sources of local education, but also local pride and local culture. On Saturday, I visited Tenby Museum & Art Gallery—the oldest independent museum in Wales, I think; I have to say that—and was very impressed by what they were seeking to do there. I think the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism has visited Tenby museum pretty recently.

A gaf i gyfeirio'n ôl at y cwestiynau gan fy nghyd-aelod, Alun Ffred Jones i'r Prif Weinidog am wasanaethau amgueddfeydd? Yn gynyddol, mae amgueddfeydd a llyfrgelloedd yn cael eu cefnogi yn ein cymunedau gan gyfoeth o ymdrech gwirfoddol—pobl sy'n rhoi o'u hamser a'u hymdrech i sicrhau eu bod yn aros ar agor, ac yn parhau i fod yn ffynonellau addysg lleol, ond hefyd yn destun balchder lleol a diwylliant lleol. Ddydd Sadwrn, ymwelais ag Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod—yr amgueddfa annibynnol hynaf yng Nghymru, rwy'n credu; mae'n rhaid i mi ddweud hynny—a gwnaeth yr hyn maen nhw'n ceisio ei wneud yno argraff fawr arnaf i. Rwy'n meddwl bod y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi ymweld ag amgueddfa Dinbych-y pysgod yn gymharol ddiweddar.

What was clear is that they wanted to work in a regional way, they wanted to work with other museums, in Pembrokeshire and beyond, they wanted to benefit from their own experience, which they already shared with other museums, and also perhaps have a more regional infrastructure in place, under whatever replaces CyMAL, in a way that then ensures that we have a national museums policy, but then local flexibility, and local expertise and professionalism. Because if you continue to rely on volunteers always—we've seen this in the libraries service—you have to have professionals there to set the standards, to set the direction, and to ensure things are delivered. So, will there be further statements from the Government around the vision for regional museum support, and how an independent museum, as well as publicly owned museums, can fit into that?

Yr hyn oedd yn amlwg yw eu bod eisiau gweithio mewn ffordd ranbarthol, roedden nhw eisiau gweithio gydag amgueddfeydd eraill, yn Sir Benfro a thu hwnt, roedden nhw eisiau elwa ar eu profiad eu hunain, y maen nhw eisoes yn ei rannu gydag amgueddfeydd eraill, ac efallai hefyd cyflwyno seilwaith mwy rhanbarthol, o dan beth bynnag fydd yn disodli CyMAL, mewn ffordd a fydd yn sicrhau wedyn bod gennym bolisi amgueddfeydd cenedlaethol, ond yna hyblygrwydd lleol, ac arbenigedd a phroffesiynoldeb lleol. Oherwydd os byddwch chi'n parhau i ddibynnu ar wirfoddolwyr bob amser—rydym ni wedi gweld hyn yn y gwasanaeth llyfrgelloedd—mae'n rhaid i chi gael gweithwyr proffesiynol yno i osod y safonau, i bennu'r cyfeiriad, ac i sicrhau bod pethau'n cael eu cyflawni. Felly, a fydd rhagor o ddatganiadau gan y Llywodraeth ynghylch y weledigaeth ar gyfer cymorth rhanbarthol i amgueddfeydd, a sut y gall amgueddfa annibynnol, yn ogystal ag amgueddfeydd sy'n eiddo cyhoeddus, gyd-fynd â hynny?

14:31 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I'm pleased to have the opportunity to follow up on the response by the First Minister to the earlier question this afternoon. We do estimate the annual impact of museums on the tourist economy to be approximately £128 million, and it is through specialist staff in our museums, archives and libraries division that practical advice and support to museums across Wales is given. And also we administer the museum accreditation scheme, and that is about raising standards, investing more than £1.6 million in grants to the museum sector since 2011.

Wel, rwy'n falch o gael y cyfle i ddilyn ar yr ymateb gan y Prif Weinidog i'r cwestiwn cynharach y prynhawn yma. Rydym ni'n amcangyfrif mai tua £128 miliwn yw effaith flynyddol amgueddfeydd ar yr economi dwristiaeth a thrwy staff arbenigol yn ein hisadran amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd y rhoddir cyngor a chymorth ymarferol i amgueddfeydd ledled Cymru. Ac rydym ni hefyd yn gweinyddu'r cynllun achredu amgueddfeydd, a chodi safonau yw diben hwnnw, gan fuddsoddi mwy na £1.6 miliwn mewn grantiau i'r sector amgueddfeydd ers 2011.

14:32 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, when I and a group of cross-party AMs went to Westminster with the then transport Minister, Carl Sargeant, to lobby for the electrification of the Valleys lines, it was on the basis that every one of the Valleys lines would be electrified. And to quote from the Welsh Government's own business case,

Weinidog, pan es i a grŵp o ACau trawsbleidiol i San Steffan gyda'r Gweinidog trafnidiaeth ar y pryd, Carl Sargeant, i lobïo ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, roedd ar y sail y byddai pob un o reilffyrdd y Cymoedd yn cael ei thrydaneiddio. Ac i ddyfynnu o achos busnes Llywodraeth Cymru ei hun,

'The South Wales Valleys are seen as a single entity both in economic and transport terms. ...Therefore, the case for electrification of the Valley Lines rail network is...on the basis that all lines are included from Ebbw Vale to Maesteg and with the Vale of Glamorgan line also included.'

Ystyrir Cymoedd De Cymru fel un endid o ran economi a thrafnidiaeth. ... Felly, mae'r achos dros drydaneiddio rhwydwaith rheilffyrdd y Cymoedd...ar y sail bod pob rheilffordd yn cael ei chynnwys o Lynebwy i Faesteg gan gynnwys rheilffordd Bro Morgannwg hefyd.

Well, as we know, the delivery plan is not complete. The Vale of Glamorgan line, and Barry lines, in your own constituency, are missing. The Maesteg line is missing. The Penarth line is missing. The Ebbw Vale line is missing. There is no obvious plan as to what is happening there, and no assurance has been given, when questioning the First Minister, or the Minister for transport, that those lines will be electrified, as promised, and as outlined in the Welsh Government's own business case. Could I please request an urgent debate, in Government time, on the future of Valleys lines electrification, on the basis that we are clearly in a different situation, and clearly the metro project is contingent upon the successful completion of that in its entirety?

Wel, fel y gwyddom, nid yw'r cynllun cyflenwi yn gyflawn. Mae rheilffordd Bro Morgannwg, a rheilffordd y Barri, yn eich etholaeth eich hun, ar goll. Mae rheilffordd Maesteg ar goll. Mae rheilffordd Penarth ar goll. Mae rheilffordd Glynebwy ar goll. Nid oes cynllun amlwg o ran yr hyn sy'n digwydd yno, ac ni roddwyd unrhyw sicrwydd, wrth holi'r Prif Weinidog, na'r Gweinidog trafnidiaeth, y bydd y rheilffyrdd hynny'n cael eu trydaneiddio, fel yr addawyd, ac fel yr amlinellir yn achos busnes Llywodraeth Cymru ei hun. A gaf i ofyn os gwelwch yn dda am ddadl frys, yn amser y Llywodraeth, ar ddyfodol trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, ar y sail ein bod ni'n amlwg mewn sefyllfa wahanol, ac yn amlwg mae'r prosiect metro yn amodol ar gwblhau hwnnw'n llwyddiannus yn ei gyfanrwydd?

14:33

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not only has the case been made, but it was won by the Welsh Labour Government. What is clear is that now we need clarity, and, of course, we will get that in forthcoming statements.

Nid yn unig y mae'r achos wedi ei wneud, ond fe'i henillwyd gan Lywodraeth Lafur Cymru. Yr hyn sy'n eglur yw bod angen eglurder arnom nawr, ac, wrth gwrs, byddwn yn cael hynny mewn datganiadau sydd ar ddod.

14:34

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, two things: in First Minister's questions earlier, William Graham asked a question about the velothon. I was less than reassured by the answer. The velothon has a lot going for it, but I am concerned that we are in danger of drifting into another event next year—in future years—where the organisation causes problems, which distract from the very real potential that an event like that has. So, could we have a statement from the Welsh Government on how you are liaising with the organisers of events like that, to ensure that those problems are ironed out?

Weinidog, dau beth: yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog yn gynharach, gofynnodd William Graham gwestiwn am y velothon. Ni chefais fy nghalonogi rhyw lawer gan yr ateb. Mae llawer o bethau cadarnhaol am y velothon, ond rwy'n pryderu ein bod mewn perygl o lithro i ddigwyddiad arall y flwyddyn nesaf—ym mlynyddoedd y dyfodol—lle mae'r trefnu'n achosi problemau, sy'n tynnu oddi wrth y gwir botensial sydd gan ddigwyddiad fel hwn. Felly, a allem ni gael datganiad gan Lywodraeth Cymru ar sut yr ydych chi'n trafod â threfnwyr digwyddiadau fel hyn, i sicrhau bod y problemau hynny'n cael eu datrys?

Secondly, and more positively, on Sunday night, I attended Usk in Bloom annual awards ceremony. The First Minister was good enough to visit Usk in Bloom back during the summer—very much appreciated. They have won Wales in Bloom for the thirty-fourth year running now. So, I think it would be good if we have a statement from the Welsh Government on how you are supporting events like Wales in Bloom, which do a lot for community spirit, and harnessing the potential that communities have across Wales, for the benefit of everyone—tourists included.

Yn ail, ac yn fwy cadarnhaol, es i seremoni wobrwyo flynyddol Usk in Bloom nos Sul. Roedd y Prif Weinidog yn ddigon caredig i ymweld ag Usk in Bloom yn ôl yn ystod yr haf—a werthfawrogwyd yn fawr iawn. Maen nhw wedi ennill Cymru yn ei Blodau am y bedwaredd flwyddyn ar ddeg ar hugain yn olynol nawr. Felly, rwy'n meddwl y byddai'n beth da pe gallem ni gael datganiad gan Lywodraeth Cymru ar sut yr ydych chi'n cefnogi digwyddiadau fel Cymru yn ei Blodau, sy'n gwneud llawer dros ysbryd cymunedol, a harneisio'r potensial sydd gan gymunedau ledled Cymru, er budd pawb—gan gynnwys twristiaid.

14:35

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The First Minister gave a very full answer as far as what will be, I'm sure, forthcoming, a very successful velothon event, with organisers listening very carefully to what Nick Ramsay has to say about this, and recognising that we have got real opportunities for this and lessons to be learnt. On the second point, of course, Wales in Bloom, and Usk in Bloom in particular—and I know you're very proud of that, Nick Ramsay, in your constituency—is an important way in which people can engage and deliver on the beauties of their local environment.

Rhoddodd y Prif Weinidog ateb llawn iawn cyn belled â'r hyn a fydd, rwy'n siŵr, yn dod, sef digwyddiad velothon llwyddiannus iawn, gyda'r trefnwyr yn gwrando'n ofalus iawn ar yr hyn sydd gan Nick Ramsay i'w ddweud am hyn, ac yn cydnabod bod gennym gyfleoedd gwirioneddol ar gyfer hyn a gwersi i'w dysgu. Ar yr ail bwynt, wrth gwrs, mae Cymru yn ei Blodau, ac Usk in Bloom yn benodol—a gwn eich bod yn falch iawn o hynny, Nick Ramsay, yn eich etholaeth—yn ffordd bwysig y gall pobl gymryd rhan a chyflawni o ran harddwch eu hamgylchedd lleol.

14:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:35

## 3. Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Flynn

## 3. Statement: Welsh Government Response to the Flynn Report

Y

Senedd.tv
Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the First Minister on the Welsh Government response to the Flynn report. First Minister.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Prif Weinidog am ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Flynn. Brif Weinidog.

14:35

### Carwyn Jones

Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Llywydd. At the end of the last session, I spoke in this Chamber after having published Dr Margaret Flynn's report, 'In Search of Accountability'. In that statement, I promised to return to the Chamber in this session to set out the response to that report.

Diolch, Lywydd. Ar ddiwedd y sesiwn diwethaf, siaradais yn y Siambr hon ar ôl cyhoeddi adroddiad Dr Margaret Flynn, 'In Search of Accountability'. Yn y datganiad hwnnw, gwnes addewid i ddychwelyd i'r Siambr yn y sesiwn hon i nodi'r ymateb i'r adroddiad hwnnw.

Llywydd, this is a report that questions how we view older people in our society. Older people have great strengths: experience, resilience, skills, and often a lifetime of service and compassion. They are often the volunteers, the advisers, the carers, the funders or the teachers in our communities. They are people in charge of their own lives. Our interventions as a society, as a Government, must therefore start with the question, 'How can we support this person to remain in control of his or her own life, and in charge of the decisions that affect him or her?' In the past, a different approach has been taken. Things have been done to older people, believing they didn't know best; believing decisions could be made on their behalf. That approach was understandable, but it was wrong.

Lywydd, mae hwn yn adroddiad sy'n cwestiynu sut yr ydym yn edrych ar bobl hŷn yn ein cymdeithas. Mae gan bobl hŷn gryfderau sylweddol: profiad, cydnerthedd, sgiliau, ac yn aml oes o wasanaeth a thrugaredd. Nhw yn aml yw'r gwirfoddolwyr, y cynghorwyr, y gofalwyr, yr arianwyr neu'r athrawon yn ein cymunedau. Maent yn bobl sy'n rheoli eu bywydau eu hunain. Felly, mae'n rhaid i'n hymyraethau ni fel cymdeithas, fel Llywodraeth, ddechrau â'r cwestiwn, 'Sut y gallwn ni gefnogi'r unigolyn hwn i barhau i reoli ei fywyd neu ei bywyd ei hun, a bod yn gyfrifol am y penderfyniadau sy'n effeithio arno neu arni?' Yn y gorffennol, roedd gennym agwedd wahanol. Mae pethau wedi cael eu gwneud i bobl hŷn, gan gredu nad nhw oedd yn gwybod orau; gan gredu y gellid gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Roedd yr agwedd honno'n ddealladwy, ond roedd yn anghywir.

Here in Wales, we have, I believe, led the world in our forward-thinking agenda for older people—our strategy for older people, Ageing Well, the cross-sector partnership of government and public and third sector agencies in Wales, the post of commissioner itself. These are not one-off interventions, but part of this Government's vision for older people. A vision that refuses to define older people by their weaknesses, but by their strengths. But there are times when older people need support. Sometimes this will be just a bit of help, enough to get the person back on their feet, or to allow them to continue their lives in their own community and homes. But, sometimes, this intervention is more significant, and perhaps ongoing.

Yma yng Nghymru, rydym, yn fy marn i, wedi arwain y byd â'n hagenda flaengar ar gyfer pobl hŷn—ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn, Heneiddio'n Dda, y bartneriaeth draws-sector rhwng y llywodraeth ac asiantaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru, swydd y comisiynydd ei hun. Nid ymyraethau untro yw'r rhain, ond rhan o weledigaeth y Llywodraeth hon ar gyfer pobl hŷn. Gweledigaeth sy'n gwrthod diffinio pobl hŷn yn ôl eu gwendidau, ond yn ôl eu cryfderau. Ond ar adegau, mae angen cefnogaeth ar bobl hŷn. Weithiau, dim ond ychydig o gymorth fydd hyn, digon i gael unigolion yn ôl ar eu traed, neu i ganiatáu iddynt barhau â'u bywydau yn eu cymuned a'u cartrefi eu hunain. Ond, weithiau, mae'r ymyrraeth hon yn fwy sylweddol, ac yn barhaus o bosib.

And let me be clear: when older people need such care and support, our approach is one of a shared endeavour, using all the resources available in whatever sector, but, importantly, delivered through public service values. That was at the heart of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. It was at the heart of establishing clear safeguarding and protection in law for adults. It was at the heart of our tough decision to protect social care budgets in this administration. It was at the heart of the intermediate care fund, placing £50 million and more to support innovative community-based models of care. But because we recognise that care and support are part of our public services, it is important that we acknowledge when things go wrong and do all we can to learn from that. And things do go wrong. Flynn may be related to events a decade or more ago, but 'Trusted to Care' and Tawel Fan are reminders that we must maintain our vigilance, to review our systems and continue to reiterate our fundamental principles and confirm our values. That's why it's important for me to report on our response to the Flynn review.

A dewch imi fod yn glir: pan fydd angen gofal a chymorth o'r fath ar bobl hŷn, mae ein hymagwedd yn un o ymdrech ar y cyd, gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ym mha bynnag sector, ond, yn bwysig, byddwn yn cyflawni hynny'n unol â gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus. Dyna oedd wrth wraidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd hynny wrth wraidd sefydlu diogelu ac amddiffyn clir dan y gyfraith ar gyfer oedolion. Roedd wrth wraidd ein penderfyniad anodd i ddiogelu cyllidebau gofal cymdeithasol yn y weinyddiaeth hon. Roedd wrth wraidd y gronfa gofal canolraddol, a ddarparodd £50 miliwn a mwy i gefnogi modelau gofal arloesol yn y gymuned. Ond oherwydd ein bod yn cydnabod bod gofal a chymorth yn rhan o'n gwasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod pan aiff pethau o chwith ac yn gwneud popeth y gallwn i ddysgu o hynny. Ac mae pethau'n mynd o chwith. Efallai fod Flynn yn ymwneud â digwyddiadau ddegawd neu fwy yn ôl, ond mae 'Ymddiried mewn Gofal' a Tawel Fan yn ein hatgoffa bod yn rhaid inni barhau i fod yn wyliadwrus, adolygu ein systemau a pharhau i ailadrodd ein hegwyddorion sylfaenol a chadarnhau ein gwerthoedd. Dyna pam mae'n bwysig fy mod yn adrodd ar ein hymateb i adolygiad Flynn.

Let me start, Llywydd, with the four recommendations that are directed to the Welsh Government or the NHS. I have today published a line-by-line response to these recommendations on the Welsh Government's website. Where these lie within our powers, we accept them without hesitation. On the first recommendation—we accept fully that recommendation. We will use our new powers in the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill to lead the planning and design of the sector. The Minister for Health and Social Services will establish his care homes steering group on a permanent footing to bring together the sector and those from outside, to help to shape the future of social care provision. We will ensure that all social care managers are registered, and, of course, we will establish meaningful indicators of the health and social care sectors, starting, as we have committed throughout this Government, with the outcomes achieved for individuals.

Dewch imi ddechrau, Lywydd, â'r pedwar argymhelliad sydd wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru neu'r GIG. Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi ymateb llinell wrth linell i'r argymhellion hyn ar wefan Llywodraeth Cymru. Pan fo'r rhain o fewn ein pwerau, rydym yn eu derbyn heb betruso. O ran yr argymhelliad cyntaf—rydym yn derbyn yr argymhelliad hwnnw'n llawn. Byddwn yn defnyddio ein pwerau newydd yn y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) i arwain y gwaith o gynllunio a dylunio'r sector. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn sefydlu ei grŵp llywio cartrefi gofal ar sail barhaol er mwyn dwyn ynghyd y sector a'r rhai o'r tu allan, i helpu i lunio dyfodol darpariaeth gofal cymdeithasol. Byddwn yn sicrhau bod pob rheolwr gofal cymdeithasol wedi'i gofrestru, ac, wrth gwrs, byddwn yn sefydlu dangosyddion ystyrlon ar gyfer y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddechrau, fel yr ydym wedi ymrwymo iddo drwy gydol y Llywodraeth hon, â'r canlyniadau a gyflawnir ar gyfer unigolion.

The second recommendation deals with pressure ulcers. The Welsh Government accepts this recommendation. We will introduce a new system to record and publish incidents of avoidable pressure damage in care homes and increase the support available to address failings in the system. A phased programme of work will be undertaken to introduce a new reporting system with information published transparently for all to see.

Mae'r ail argymhelliad yn ymdrin â briwiau pwyso. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Byddwn yn cyflwyno system newydd i gofnodi a chyhoeddi digwyddiadau o niwed pwyso y gellid bod wedi ei osgoi mewn cartrefi gofal ac yn cynyddu'r cymorth sydd ar gael i ymdrin â methiannau yn y system. Byddwn yn ymgymryd â rhaglen raddol o waith i gyflwyno system adrodd newydd lle caiff gwybodaeth ei chyhoeddi'n dryloyw i bawb ei gweld.

The third recommendation relates to POVA, the protection of vulnerable adult system that all public services in Wales currently employ. The Welsh Government accepts this recommendation. We are reviewing the POVA system and we will put in place revised processes.

Mae'r trydydd argymhelliad yn ymwneud â POVA, y system amddiffyn oedolion agored i niwed y mae'r holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ei defnyddio ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn adolygu'r system POVA a byddwn yn rhoi prosesau diwygiedig ar waith.

The sixth recommendation is the final one directed to the Welsh Government or the NHS. It relates to the notification of deaths to the coroner, which is a non-devolved matter which rests with the Ministry of Justice. I have, therefore, written to the Secretary of State to bring the Flynn review report to his attention and will ask him for a response to this recommendation, which I will publish in due course alongside the others on our website.

Y chweched argymhelliad yw'r un olaf sydd wedi'i gyfeirio at Lywodraeth Cymru neu'r GIG. Mae'n ymwneud â hysbysu'r crwner am farwolaethau, mater i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, nad yw wedi ei ddatganoli. Rwyf, felly, wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i dynnu ei sylw at adroddiad adolygiad Flynn a byddaf yn gofyn iddo am ymateb i'r argymhelliad hwn; byddaf yn cyhoeddi'r ymateb hwnnw maes o law ochr yn ochr â'r lleill ar ein gwefan.

Llywydd, as I have previously noted, eight out of the 12 recommendations made by Dr Flynn related to non-devolved bodies. Members will be aware I wrote to all those named in those recommendations asking for a response in July. I have published these responses alongside a written statement today. I'm delighted to report that most of these recommendations will be taken forward as Dr Flynn set out.

Lywydd, fel yr wyf wedi'i nodi eisoes, mae wyth o'r 12 o argymhellion a wnaeth Dr Flynn yn ymwneud â chyrff nad ydynt wedi'u datganoli. Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod wedi ysgrifennu at bawb a enwir yn yr argymhellion hynny i ofyn am ymateb ym mis Gorffennaf. Rwyf wedi cyhoeddi'r ymatebion hynny ochr yn ochr â datganiad ysgrifenedig heddiw. Rwyf wrth fy modd i ddweud y byddwn yn gweithredu ar y rhan fwyaf o'r argymhellion hyn fel y'u nodwyd gan Dr Flynn.

I won't dwell, Llywydd, on those responses in detail, but I think it is important for me to say I'm aware of the very real frustration amongst families with regard to the response from the Crown Prosecution Service. I know that the families were both surprised by the speed of the response—on the same day as the report was published in the media—and the refusal to reconsider the case. I know the families continue to ask why so few have been held accountable. I know that Lorraine, her sisters and other families are here today, with us, and I hope they take can take some comfort from the reply from the coroner, who indicates he is pursuing inquests, as Dr Flynn recommended, where he has jurisdiction.

Ni wnaf ymhelaethu, Lywydd, ar yr ymatebion hynny'n fanwl, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig imi ddweud fy mod yn ymwybodol o'r rhwystredigaeth wirioneddol ymysg teuluoedd o ran yr ymateb gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Rwy'n gwybod bod y teuluoedd wedi'u synnu gan gyflymder yr ymateb—ar yr un diwrnod ag y cyhoeddwyd yr adroddiad yn y cyfryngau—yn ogystal â'r gwrthodiad i ailystyried yr achos. Rwy'n gwybod bod y teuluoedd yn dal i ofyn pam y cafodd cyn lleied o bobl eu dwyn i gyfrif. Rwy'n gwybod bod Lorraine, ei chwiorydd a theuluoedd eraill yma heddiw, gyda ni, ac rwy'n gobeithio y bydd ymateb y crwner yn eu cysuro i raddau; mae'n dweud ei fod yn rhoi sylw i gwestau, fel yr argymhellodd Dr Flynn, lle mae ganddo awdurdodaeth.

Beyond the recommendations the Minister for Health and Social Services has written to the six Welsh adult safeguarding boards that this Government established under the Social Services and Well-being (Wales) Act to consider the report, and to facilitate a wider regional consideration. We have suggested regional events to help this process, and have made available Government money to support them. I'm also pleased to say that Dr Flynn has agreed to attend each of these events. Llywydd, I will, of course, publish the six reports on our website, but let me be very clear with the Assembly: there's no hiding place for those who deliver substandard care to frail elderly people in Wales. They want, and deserve, the highest standards of respect at all times, and where issues arise, we deal with them robustly.

Y tu hwnt i'r argymhellion, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ysgrifennu at y chwe bwrdd diogelu oedolion yng Nghymru a sefydlwyd gan y Llywodraeth hon o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i ystyried yr adroddiad, ac i hwyluso ystyriaeth ranbarthol ehangach. Rydym wedi awgrymu digwyddiadau rhanbarthol i helpu'r broses hon, ac wedi darparu arian y Llywodraeth i'w cefnogi. Rwyf hefyd yn falch o ddweud bod Dr Flynn wedi cytuno i fod yn bresennol ym mhob un o'r digwyddiadau hyn. Lywydd, byddaf, wrth gwrs, yn cyhoeddi'r chwe adroddiad ar ein gwefan, ond dewch imi fod yn glir iawn gyda'r Cynulliad: does dim lle i guddio i bobl sy'n darparu gofal is na'r safon i bobl oedrannus a bregus yng Nghymru. Mae arnynt eisiau, ac maent yn haeddu, y safonau uchaf o ran parch bob amser, a phan fo problemau'n codi, ein bod yn ymdrin â nhw'n gadarn.

Dr Flynn has set down a powerful marker for the future, where we see older people as vital and important contributors to society's wellbeing. That's what we must take from this tragedy: a renewed dedication to the very best for our communities, for our older people and ultimately for all of us here in Wales.

Mae Dr Flynn wedi nodi marciwr pwerus ar gyfer y dyfodol, lle'r ydym yn ystyried bod pobl hŷn fel cyfranwyr hanfodol a phwysig i les cymdeithas. Dyna'r hyn y mae'n rhaid i ni ei ddysgu o'r drasiedi hon: ymroddiad o'r newydd i'r gorau un ar gyfer ein cymunedau, ar gyfer ein pobl hŷn ac yn y pen draw, ar gyfer pawb ohonom yma yng Nghymru.

14:43 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm most grateful to the First Minister for his statement this afternoon, which takes us that much further forward, and I would offer support from these benches on all those recommendations that you are going to implement, and clearly we'll keep you under scrutiny that they are implemented, and within a reasonable period.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma, sy'n mynd â ni gymaint â hynny ymhellach ymlaen, ac rwyf yn cynnig cefnogaeth o'r meinciau hyn ar yr holl argymhellion hynny yr ydych yn mynd i'w gweithredu, ac yn amlwg byddwn yn parhau i graffu i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith, ac o fewn cyfnod rhesymol.

It's worth reiterating how this came about. The families of older people described the wrong and indifferent care home practices that harmed their relatives—this was as early as 1995—and said that the organisational practices they witnessed were inadequate in terms of attending to older people's frailty, chronic illness, deteriorating health, mental distress and pain, and the nursing that was promised was not delivered. The families perceived inattentiveness with such basics as hydration, nutrition, physical comfort, personal hygiene, unexplained injuries and deep pressure ulcers, which their relatives suffered at the abandonment of common humanity, a reflection of the unchecked greed of those businesses and homes concerned.

Mae'n werth ailadrodd sut y digwyddodd hyn. Roedd teuluoedd pobl hŷn yn disgrifio'r arferion anghywir a difater mewn cartrefi gofal a oedd yn niweidio eu perthnasau—roedd hyn mor gynnar ag 1995—ac yn dweud bod yr arferion sefydliadol yr oeddent yn dyst iddynt yn annigonol o ran rhoi sylw i eiddilwch, salwch cronig, iechyd yn dirywio, cyfyngder meddwl a phoen pobl hŷn, ac nad oedd y nyrsio a addawyd yn cael ei ddarparu. Roedd y teuluoedd yn cael argraff o ddiffyg sylw i bethau mor sylfaenol â hydradu, maeth, cysur corfforol, hylendid personol, anafiadau heb esboniad amdanynt a briwiau pwysau dwfn; roedd eu perthnasau'n dioddef y rhain oherwydd diffyg dyngarwch cyffredin, adlewyrchiad o drachwant diatal y busnesau a'r cartrefi dan sylw.

First Minister, from your own background, can you give any more information on the recommendation that Dr Flynn makes that the Crown Prosecution Service's assertion that the Operation Jasmine case would have fallen on the basis of a lack of evidence of causation should have been tested by a jury? Many of the families very strongly feel that this should have been the case and what should have actually happened. Respectfully, I would remind you that there were 63 deaths, some of which occurred during the commencement of Operation Jasmine—a fairly amazing event when they were under scrutiny at that time. We know that Care Forum Wales has said the review into this investigation highlighted abhorrent cases of neglect that must never be allowed to happen again. There are still questions to answer, First Minister, and I know you'll join with me in saying that this is not an attack on private homes, who do a wonderful job through our national health service in placements throughout Wales. But, there are questions to answer. You've made a very definite start and we hope to keep this under review, and we look to you and your Ministers to give further reports in due course.

Brif Weinidog, o'ch cefndir eich hun, a allwch chi roi rhagor o wybodaeth am argymhelliad Dr Flynn y dylai rheithgor fod wedi cael cyfle i wrthbrofi honiad Gwasanaeth Erlyn y Goron y byddai achos Operation Jasmine wedi methu ar sail diffyg tystiolaeth o achosiaeth? Mae llawer o'r teuluoedd yn cytuno'n gryf iawn â hynny ac yn teimlo mai dyna ddylai fod wedi digwydd mewn gwirionedd. Gyda pharch, byddwn yn eich atgoffa y bu 63 o farwolaethau, a rhai ohonynt wedi digwydd yn ystod cychwyn Operation Jasmine—digwyddiad eithaf anhygoel a hwythau'n destun craffu ar y pryd. Gwyddom fod Fforwm Gofal Cymru wedi dweud bod yr adolygiad i'r ymchwiliad hwn wedi tynnu sylw at achosion ffiaidd o esgeulustod na allwn byth adael iddynt ddigwydd eto. Mae cwestiynau i'w hateb o hyd, Brif Weinidog, ac rwy'n gwybod y gwnewch ymuno â mi i ddweud nad ymosodiad ar gartrefi preifat yw hyn; maen nhw'n gwneud gwaith rhagorol drwy ein gwasanaeth iechyd gwladol mewn lleoliadau ledled Cymru. Ond, mae yna gwestiynau i'w hateb. Rydych wedi gwneud dechrau pendant iawn ac rydym yn gobeithio parhau i adolygu hyn, a byddwn yn disgwyl cael adroddiadau pellach gennych chi a'ch Gweinidogion maes o law.

14:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I'm grateful to the Member for his comments. The response of the CPS is deeply unsatisfactory to my mind. To respond within a matter of hours via the media, it seems, is not a way that I or any of us in this Chamber would wish our relatives to be treated. It has echoes, I'm afraid, of situations that have existed in the past, and the CPS's response was not adequate. We've had, in fairness, responses from both the police and the coroner's office, both of which are not devolved, but their responses have been timely and they have responded in good time. That is not the case with the CPS.

Wel, rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am ei sylwadau. Mae ymateb Gwasanaeth Erlyn y Goron yn anfoddhaol iawn yn fy marn i. Nid yw ymateb o fewn rhai oriau drwy'r cyfryngau, mae'n ymddangos, yn ffordd y byddwn i na neb arall ohonom yn y Siambr hon yn dymuno i'n perthnasau gael eu trin. Mae'n adleisio, yn anffodus, sefyllfaoedd sydd wedi bodoli yn y gorffennol, ac nid oedd ymateb Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ddigonol. Rydym wedi cael, er tegwch, ymatebion gan yr heddlu a swyddfa'r crwner, ac nid yw'r naill na'r llall o'r rhain wedi'i ddatganoli, ond mae eu hymatebion wedi bod yn amserol ac maent wedi ymateb mewn da bryd. Nid yw hynny'n wir am Wasanaeth Erlyn y Goron.

It does raise a wider problem for us and that is that it's very difficult to hold a public inquiry, not that this was a public inquiry, or to have an investigation at times in Wales because non-devolved bodies are not required to co-operate. It does not exist in England, Scotland or Northern Ireland and it is a particular problem for us in Wales. It was a problem in the case of poor young Robbie Powell. It's a problem again, and, in the report, Members will see what Dr Flynn has to say about that. This is not a day for politics particularly, but this is why there is a problem that some of these agencies are not devolved. At the very least, Welsh Government should be empowered to require non-devolved agencies to co-operate with an inquiry or into an investigation. That is not the case. There was a point-blank refusal with young Robbie Powell on the part of non-devolved bodies to co-operate. The report speaks for itself in that regard. I make no further point, but it is an issue that will need to be resolved in order to make sure that we can have full confidence in the future in reviews. I have confidence in this review, but we must avoid any suggestion of that happening in the future.

Mae'n codi problem ehangach inni, sef ei bod yn anodd iawn cynnal ymchwiliad cyhoeddus, nid bod hwn yn ymchwiliad cyhoeddus, neu i ymchwilio weithiau yng Nghymru, gan nad yw'n ofynnol i gyrff nad ydynt wedi'u datganoli i gydweithio. Nid yw'n bodoli yn Lloegr, yr Alban na Gogledd Iwerddon ac mae'n broblem benodol i ni yng Nghymru. Roedd yn broblem yn achos y bachgen Robbie Powell druan. Mae'n broblem unwaith eto, ac, yn yr adroddiad, bydd yr Aelodau'n gweld beth sydd gan Dr Flynn i'w ddweud am hynny. Nid yw hwn yn ddiwrnod i wleidyddiaeth yn arbennig, ond dyma pam mae'n broblem nad yw rhai o'r asiantaethau hyn wedi'u datganoli. O leiaf, dylai Llywodraeth Cymru gael y grym i'w gwneud yn ofynnol i asiantaethau nad ydynt wedi'u datganoli i gydweithio ag ymholiad neu ymchwiliad. Nid oes gennym y grym hwnnw. Yn achos y bachgen Robbie Powell, gwnaeth cyrff nad ydynt wedi'u datganoli wrthod yn llwyr â chydweithio. Mae'r adroddiad yn siarad drosto'i hun yn hynny o beth. Nid oes gennyf bwynt pellach i'w wneud, ond mae'n fater y bydd angen ei ddatrys er mwyn gwneud yn siŵr y gallwn ymddiried yn llawn mewn adolygiadau yn y dyfodol. Mae gennyf hyder yn yr adolygiad hwn, ond mae'n rhaid inni osgoi unrhyw awgrym y gallai hynny ddigwydd yn y dyfodol.

With regard to what happens to strengthen the process, well, of course, the Member will be aware of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill. It does set out new standards and how they will be enforced. In particular, there will be measures taken to make sure that we don't end up in a situation where there are repetitive notices issued to care homes. We'd rather that action is taken sooner, and that Bill will provide the opportunity to ensure that some of the weaknesses identified by Dr Flynn over many years can then be addressed.

O ran yr hyn sy'n digwydd i gryfhau'r broses, wel, wrth gwrs, bydd yr Aelod yn ymwybodol o Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Mae'n amlinellu safonau newydd a sut y cânt eu gorfodi. Yn benodol, bydd mesurau'n cael eu cymryd i wneud yn siŵr nad ydym yn diweddu mewn sefyllfa lle caiff hysbysiadau ailadroddus eu cyflwyno i gartrefi gofal. Byddai'n well gennym weld camau'n cael eu cymryd yn gynharach, a bydd y Bil hwnnw'n rhoi'r cyfle i sicrhau y gallwn wedyn unioni rhai o'r gwendidau a nodwyd gan Dr Flynn dros flynyddoedd lawer.

14:48

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, I ought to put on the record that my great uncle was a resident in one of the homes in question in 2002 and 2003, but he does not feature in any investigation or, in fact, in this report. When Dr Flynn's report was first published in July this year, the reaction from all parties here, of course, was shock at the severity of the mistreatment and the neglect suffered by the older people living in the care homes in question, and shame, I think, that the safeguards that should've been in place had failed over and over again. At the time, I thanked the First Minister for commissioning the report to provide some sense of justice for the families, something which our criminal justice system has failed to do. Now, his statement today highlights that complex and slow-moving legal procedures are continuing to block families' access to information, and I can understand why in a way, but I want to extend my great sympathy to the families and thank them again for their tenacity and determination in seeking answers. It was particularly disappointing, I think, to hear the Director of Public Prosecutions' decision not to refer the case to the special crime division again, but I am sure that the First Minister would agree that, despite that refusal, we should do what we can to respond to the report's findings.

Lywydd, dylwn roi ar y cofnod bod fy hen ewythr yn byw yn un o'r cartrefi dan sylw yn 2002 a 2003, ond nid yw ef yn ymddangos mewn unrhyw ymchwiliad nac, yn wir, yn yr adroddiad hwn. Pan gyhoeddwyd adroddiad Dr Flynn gyntaf ym mis Gorffennaf eleni, yr ymateb gan bob plaid yma, wrth gwrs, oedd sioc o ran pa mor ddifrifol oedd y gamdriniaeth a'r esgeulustod a ddioddefodd y bobl hŷn a oedd yn byw yn y cartrefi gofal dan sylw, a chywilydd, rwy'n meddwl, bod y mesurau diogelu a ddylai fod wedi bod ar waith wedi methu dro ar ôl tro. Ar y pryd, diolchais i'r Prif Weinidog am gomisiynu'r adroddiad i ddarparu rhyw deimlad o gyfiawnder i'r teuluoedd, rhywbeth y mae ein system cyfiawnder troseddol wedi methu â'i wneud. Nawr, mae ei ddatganiad heddiw yn tynnu sylw at y gweithdrefnau cyfreithiol cymhleth ac araf sy'n parhau i rwystro teuluoedd rhag cael gafael ar wybodaeth, a gallaf ddeall pam mewn ffordd, ond hoffwn estyn fy nghydymdeimlad llwyr â'r teuluoedd a diolch iddynt unwaith eto am eu dycnwch a'u penderfyniad wrth geisio cael atebion. Roedd yn arbennig o siomedig, rwy'n meddwl, clywed penderfyniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i beidio â chyfeirio'r achos at yr isadran troseddau arbennig eto, ond rwy'n siŵr y byddai'r Prif Weinidog yn cytuno, er gwaethaf y gwrthodiad hwnnw, y dylem wneud popeth yn ein gallu i ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad.

Now, concerns about other care homes run by Dr Das go back decades. His position as a doctor and his near monopoly over services in the area made the local authority almost powerless to act. In fact, what we find here is that their interventions have prolonged the problem. So, First Minister, how can we ensure that the intelligence that exists about concerns around specific organisations are acted upon effectively? One of the key messages from the report was the inadequacy of measures to address the dangers of conflicts of interest when doctors are company directors of residential and nursing homes. So, can I ask the First Minister to keep the Assembly updated on any outcomes of any meetings with the General Medical Council and NHS Wales to identify ways in which these conflicts of interest can be dealt with? I would also be interested in hearing the outcome of the Welsh Government's discussion with the Law Commission and would ask you to keep us updated on that.

Nawr, mae pryderon am gartrefi gofal eraill a oedd yn cael eu rhedeg gan Dr Das yn mynd yn ôl ddegawdau. Roedd ei sefyllfa fel meddyg a'i fonopoli bron dros wasanaethau yn yr ardal yn golygu bod yr awdurdod lleol bron yn ddi-rym i weithredu. Yn wir, yr hyn yr ydym yn ei weld yma yw bod eu hymyriadau wedi peri i'r broblem bara'n hirach. Felly, Brif Weinidog, sut y ni sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol ar y gudd-wybodaeth sy'n bodoli am bryderon am sefydliadau penodol? Un o negeseuon allweddol yr adroddiad oedd annigonolrwydd mesurau i ymdrin â pheryglon gwrthdaro buddiannau pan fydd meddygon yn gyfarwyddwyr cwmni mewn cartrefi preswyl a nyrsio. Felly, a gaf i ofyn i'r Prif Weinidog barhau i ddiweddaru'r Cynulliad am unrhyw ganlyniadau o unrhyw gyfarfodydd gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a GIG Cymru i ganfod ffyrdd o ymdrin â'r gwrthdaro buddiannau hwn? Hoffwn hefyd glywed canlyniad trafodaeth Llywodraeth Cymru â Chomisiwn y Gyfraith a gofynnaf ichi barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynny.

Would the First Minister support measures to have those external organisations who are subject to the recommendations in the report perhaps appear before the appropriate Assembly committee to give us greater detail on how they are going to implement the changes that need to be made, so that we can effectively monitor the recommendations to those other than the Assembly Government?

A fyddai'r Prif Weinidog yn cefnogi mesurau i fynnu bod y sefydliadau allanol hynny sy'n destun yr argymhellion yn yr adroddiad efallai yn ymddangos gerbron y pwyllgor priodol yn y Cynulliad i roi mwy o fanylion inni am sut y maent yn mynd i weithredu'r newidiadau y mae angen eu gwneud, er mwyn inni allu monitro'n effeithiol yr argymhellion i rai heblaw Llywodraeth y Cynulliad?

I was interested to hear the First Minister's statement mention that the Minister for Health and Social Services is currently researching how issues around pay and conditions impact on the quality of services, so I don't think you'll be too surprised when I ask where we are on the banning of zero-hours contract for care workers, which I'm sure has an impact here. And you'll recall that I'm keen to see the development of a simple checklist for families, so that they can judge if residential settings have the ethos that we want to see for vulnerable people, and whether you've been able to give that any more thought so that families can feel that they're aware of signals that could act as warning signs for them.

Roedd yn ddiddorol clywed datganiad y Prif Weinidog yn nodi bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd yn ymchwilio i sut y mae materion yn ymwneud â thâl ac amodau yn effeithio ar ansawdd gwasanaethau, felly nid wyf yn meddwl y bydd gymaint â hynny o syndod i chi fy nghlywed yn gofyn ble yr ydym ni o ran gwahardd contractau dim oriau ar gyfer gweithwyr gofal; rwy'n siŵr bod hynny'n cael effaith yma. A byddwch yn cofio fy mod yn awyddus i weld datblygu rhestr wirio syml ar gyfer teuluoedd, er mwyn iddynt allu barnu a oes gan leoliadau preswyl yr ethos yr hoffem ei weld ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, a pha un a ydych wedi gallu meddwl mwy am hynny fel y gall teuluoedd deimlo eu bod yn ymwybodol o arwyddion a allai fod yn arwyddion rhybudd iddynt.

And, just lastly, Presiding Officer, one of the lessons Dr Flynn highlights in her report is that scandals fix nothing permanently, and I think that certainly is true. So, I would urge the Welsh Government to take every action to ensure that the impetus isn't lost after the initial shock and shame from this report diminish, and you will certainly have our full support for your actions.

A, dim ond i orffen, Lywydd, un o'r gwersi y mae Dr Flynn yn tynnu sylw atynt yn ei hadroddiad yw nad yw sgandalau'n trwsio dim byd yn barhaol, ac rwy'n credu bod hynny'n sicr yn wir. Felly, byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i gymryd pob cam posibl i sicrhau nad yw'r ysgogiad yn cael ei golli ar ôl i sioc a chywilydd cychwynnol yr adroddiad hwn gilio, a byddwn ni'n sicr yn eich cefnogi'n llawn yn yr hyn y byddwch yn ei wneud.

14:52

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Could I thank the Member for her observations? With regard to the Law Commission, there is a recommendation that is particularly for them, as the Member will know, and we will continue to work with the Law Commission to see how the law can change in this regard.

A gaf i ddiolch i'r Aelod am ei sylwadau? O ran Comisiwn y Gyfraith, mae un argymhelliad yn arbennig ar eu cyfer nhw, fel y bydd yr Aelod yn ei wybod, a byddwn yn parhau i weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith i weld sut y gellir newid y gyfraith yn hyn o beth.

She mentions particularly the issue of GPs and conflicts of interest. This is something that we have considered long and hard. As part of our discussions, I can say to the Member that we have considered whether the Assembly would have the power to prevent GPs having an inappropriate financial interest, as we would see it, in care homes and the obvious conflict of interest that that represents. As with so many things, this falls in an area we think is potentially devolved. Whether it will be in a few years is a different matter, but we think it's an area where there is a potential for legislation, and she is absolutely right to point out the monopolistic position that this particular GP has been in, and, of course, the position of the GP and ownership of a home.

Mae'n sôn yn arbennig am feddygon teulu a gwrthdaro buddiannau. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi'i ystyried yn fanwl. Yn rhan o'n trafodaethau, gallaf ddweud wrth yr Aelod ein bod wedi ystyried a fyddai gan y Cynulliad y pŵer i atal meddygon teulu rhag bod â buddiant ariannol amhriodol, fel y byddem ni yn ei weld, mewn cartrefi gofal a'r gwrthdaro buddiannau amlwg y mae hynny'n ei gynrychioli. Fel gyda chynifer o bethau, mae hyn mewn maes yr ydym yn meddwl y gallai fod wedi'i ddatganoli. Mae pa un a fydd wedi'i ddatganoli ymhen rhai blynyddoedd yn fater gwahanol, ond rydym ni'n credu ei fod yn faes lle mae potensial i ddeddfu, ac mae hi yn llygad ei lle i dynnu sylw at y sefyllfa fonopolistaidd y bu'r meddyg teulu penodol hwn ynddi, ac, wrth gwrs, y sefyllfa o fod yn feddyg teulu ac yn berchenog cartref.

We will need to work with the GMC first of all to identify ways to see whether any conflicts of interest can be managed, and whether it is sufficient—and I'm not convinced that it is—simply to declare a conflict of interest. That's a start for us; I suspect we need to go further than that. What this sad series of cases has shown is that an obvious conflict of interest, to my mind, is not picked up and not recognised. Often, families are not aware of it and what it might mean, and we must make sure that that conflict of interest never arises in the future with regard to any further GPs. So, it is something that we are certainly aware of.

Bydd angen inni weithio gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn gyntaf oll i ganfod ffyrdd o weld a ellir rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau, ac a yw'n ddigonol—ac nid wyf yn argyhoeddedig ei fod—i ddim ond datgan gwrthdaro buddiannau. Dyna gychwyn inni; rwy'n amau bod angen inni fynd ymhellach na hynny. Yr hyn y mae'r gyfres drist hon o achosion wedi'i ddangos yw bod gwrthdaro buddiannau amlwg, yn fy marn i, heb gael ei weld a heb gael ei gydnabod. Yn aml, nid yw teuluoedd yn ymwybodol ohono a'r hyn y gallai ei olygu, ac mae'n rhaid inni wneud yn siŵr na fydd y gwrthdaro buddiannau hwnnw byth yn codi yn y dyfodol o ran unrhyw feddygon teulu eraill. Felly, mae'n rhywbeth yr ydym yn sicr yn ymwybodol ohono.

In terms of pay, this is something that we want to move towards, particularly with regard to zero-hours contracts. We look forward to being in a position to look to do that, with hopefully clarification of the devolution settlement to the benefit of the people of Wales.

O ran tâl, mae hyn yn rhywbeth yr hoffem symud tuag ato, yn enwedig o ran contractau dim oriau. Rydym yn edrych ymlaen at fod mewn sefyllfa i geisio gwneud hynny, gyda, gobeithio, eglurhad ar y setliad datganoli er budd pobl Cymru.

In terms of training, we know that training is critical. We will invest £8 million in social care training for staff in all sectors, and we'll reflect on how that money can be best deployed as part of the consideration of this report.

O ran hyfforddiant, rydym yn gwybod bod hyfforddiant yn hanfodol. Byddwn yn buddsoddi £8 miliwn mewn hyfforddiant gofal cymdeithasol i staff ym mhob sector, a byddwn yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r arian hwnnw wrth ystyried yr adroddiad hwn.

There is an issue, I believe, that needs to be identified, and I suspect it is by the UK Government, with regard to directors' liability. Too often, to my mind, it is the staff on the ground and sometimes the managers who are held responsible where the directors seem to escape. And I don't believe the law is right in terms of the responsibilities of directors, particularly with regard to their need to be more proactive in a way that a home is run. That, I suspect, sadly, is not devolved as company law, but nevertheless there is an issue for the UK Government as well.

Mae mater, rwy'n credu, y mae angen ei nodi, ac rwy'n amau mai Llywodraeth y DU ddylai wneud hynny, o ran atebolrwydd cyfarwyddwyr. Yn rhy aml, yn fy marn i, staff ar lawr gwlad ac weithiau y rheolwyr sy'n cael eu dwyn i gyfrif, ac mae'n ymddangos bod y cyfarwyddwyr yn dianc. Ac nid wyf yn credu bod y gyfraith yn iawn o ran cyfrifoldebau cyfarwyddwyr, yn enwedig o ran yr angen iddynt fod yn fwy rhagweithiol o ran sut y caiff cartref ei redeg. Rwy'n amau, yn anffodus, nad yw hynny wedi'i ddatganoli fel cyfraith cwmnïau, ond serch hynny, mae yna fater i Lywodraeth y DU yn ogystal.

On the issue that she's raised in terms of how we can be sure this doesn't happen again, well, again, I point to the regulation and inspection Bill. It does contain proposals in order to make sure that enforcement action is taken more quickly, and, of course, it looks to prevent manipulation of the rules, if I can put it this way, as well. It does set out a number of ways accountability can be reformed. It does talk about the statutory role of a responsible individual—member of the board, of course—of the providers who have certain duties, such as visiting, appointing a manager and reporting on performance, and it's a matter, then, for the inspectorate to agree whether or not that person is a suitable person. Whether that goes far enough in terms of the responsibilities and liabilities of directors is a matter for the UK Government, but that is as far as we can take it.

O ran y mater y mae hi wedi'i godi o ran sut y gallwn fod yn siŵr na fydd hyn yn digwydd eto, wel, unwaith eto, rwy'n tynnu sylw at y Bil rheoleiddio ac arolygu. Mae'n cynnwys cynigion i wneud yn siŵr bod camau gorfodi'n cael eu cymryd yn gyflymach, ac, wrth gwrs, mae'n ceisio atal camddefnyddio'r rheolau, os caf ei roi felly, hefyd. Mae'n nodi nifer o ffyrdd y gellir diwygio atebolrwydd. Mae'n sôn am swyddogaeth statudol unigolyn cyfrifol—aelod o'r bwrdd, wrth gwrs—y darparwyr sydd â dyletswyddau penodol, megis ymweld, penodi rheolwr ac adrodd ar berfformiad, ac yna, mater i'r arolygiaeth yw cytuno a yw'r unigolyn hwnnw'n unigolyn addas. Mater i Lywodraeth y DU yw dweud a yw hynny'n mynd yn ddigon pell o ran cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfarwyddwyr, ond dyna cyn belled ag y gallwn ni fynd ag ef.

Dr Flynn's report has fed into the Bill itself. Logically, there was no point in having a Bill and then taking no notice of what a serious review, then, revealed, and the Bill itself will look to address many of these issues in the future. But, the common theme here is the failure by a number of agencies to take action quickly and to deal with a situation that was becoming ever-clearer over time. And, ultimately, of course, justice has been prevented, because nobody has been held responsible in the criminal courts for what has happened. Once again, I say to the CPS, and indeed to the DPP, you must look at this again. It is simply not sufficient after a few hours to dismiss this report, and the CPS must take a long, hard look at themselves and ask the question as to whether they have truly served the community with the way they've dealt with their response.

Mae adroddiad Dr Flynn wedi cyfrannu at y Bil ei hun. Wrth reswm, nid oedd unrhyw bwynt cael Bil ac yna peidio â chymryd unrhyw sylw o'r hyn a ddatgelodd adolygiad difrifol, ar y pryd, a bydd y Bil ei hun yn ceisio ymdrin â llawer o'r materion hyn yn y dyfodol. Ond, y thema gyffredin yma yw methiant gan nifer o asiantaethau i gymryd camau cyflym ac ymdrin â sefyllfa a oedd yn dod yn gliriach a chliriach dros gyfnod o amser. Ac, yn y pen draw, wrth gwrs, mae cyfiawnder wedi cael ei atal, gan nad oes neb wedi cael ei ddwyn i gyfrif yn y llysoedd troseddol am yr hyn sydd wedi digwydd. Unwaith eto, rwy'n dweud wrth Wasanaeth Erlyn y Goron, ac yn wir wrth y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, mae'n rhaid ichi edrych ar hyn eto. Nid yw'n ddigonol i ddiystyru'r adroddiad hwn ar ôl ychydig oriau, ac mae'n rhaid i Wasanaeth Erlyn y Goron edrych yn ofalus iawn arnynt eu hunain a gofyn a yw'r ffordd y maent wedi ymdrin â'u hymateb yn wirioneddol wedi gwasanaethu'r gymuned.

14:56

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could I thank the First Minister for his statement this afternoon and for fulfilling his promise to this Chamber that he would come back with a full Government response to the shocking findings of the Flynn report? The passage of time, First Minister, I'm sure you would agree with me, makes those findings no less shocking and sobering. First Minister, I hear very clearly what you have said about the role of the CPS and the DPP. We've seen, in recent weeks, the DPP make different decisions about high-profile cases, where, initially, they had first said they would not take action. Would you agree with me that the lives of these vulnerable, elderly, Welsh Valleys citizens are equally as valuable as the suffering of other people, perhaps in more high-profile cases that have seen the DPP change its mind and take action, and that these individuals and their families deserve the same respect and the same action?

A gaf i ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma ac am gadw ei addewid i'r Siambr hon y byddai'n dod yn ôl gydag ymateb llawn gan y Llywodraeth i ganfyddiadau dychrynllyd adroddiad Flynn? Nid yw treigl amser, Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi, yn gwneud y canfyddiadau hynny'n ddim llai brawychus a sobreiddiol. Brif Weinidog, rwy'n clywed yn glir iawn yr hyn yr ydych wedi'i ddweud am waith Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Rydym wedi gweld, yn yr wythnosau diwethaf, y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau gwahanol am achosion proffil uchel, lle, yn wreiddiol, roeddent wedi dweud y tro cyntaf na fyddent yn gweithredu. A ydych chi'n cytuno â mi bod bywydau'r dinasyddion oedrannus, agored i niwed hyn yn y Cymoedd yr un mor werthfawr â dioddefaint pobl eraill, efallai mewn achosion â phroffil uwch lle mae'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus wedi newid eu meddwl a gweithredu, a bod yr unigolion hyn a'u teuluoedd yn haeddu yr un parch a'r un camau gweithredu?

If I could turn to the Government's response, could I firstly say I welcome very much the decision by the Government to establish, on a permanent footing, the care home steering group? I think it's very important that there continues to be a strong dialogue between Welsh Government and those who are involved in delivering care on the ground. You will be aware that, in recommendation 1 of the Flynn report, it talked about

Os caf i droi at ymateb y Llywodraeth, a gaf i ddweud yn gyntaf fy mod yn croesawu'n fawr y penderfyniad gan y Llywodraeth i sefydlu, ar sail barhaol, y grŵp llywio cartrefi gofal? Credaf ei bod yn bwysig iawn bod deialog gref yn parhau rhwng Llywodraeth Cymru a'r bobl hynny sy'n ymwneud â darparu gofal ar lawr gwlad. Byddwch yn ymwybodol bod argymhelliad 1 adroddiad Flynn, yn sôn am

‘directly addressing issues such as pay and working conditions’.

ymdrin yn uniongyrchol â materion fel tâl ac amodau gwaith.

Now, you will be aware of the Westminster Government’s announcement on the so-called—so-called—living wage. Now, that impacts hugely on many sectors, including the care sector. Now, whilst everyone would want people working in the care sector to be paid appropriately, could I ask you, given the fact that many people living in residential care are state funded—are not self-funders but are state funded by local authorities—what discussions has the Welsh Government had with providers of residential care about how they will meet their new obligations with regard to pay, and what that will translate to in terms of fees charged to local authorities? And, have you had any discussions with the Westminster Government that would lead you to believe that, having made this announcement—i.e. passing the cost because of political sleight of hand, absolving themselves of responsibility in terms of working tax credit, passing that cost on to business—we would be likely to see any additional resources coming from Westminster, to be able to ensure that fee levels can keep pace and can reflect the new, higher wages that people quite rightly, quite rightly, will earn in the sector? But, obviously, that has a massive impact on social care budgets here in Wales, and I’m sure any right-thinking Government in Westminster would have thought about this before making that announcement.

Nawr, byddwch yn ymwybodol o gyhoeddiad Llywodraeth San Steffan am yr honedig—yr honedig—gyflog byw. Nawr, mae hynny'n cael effaith aruthrol ar lawer o sectorau, gan gynnwys y sector gofal. Nawr, tra byddai pawb eisiau i bobl sy'n gweithio yn y sector gofal gael eu talu’n briodol, a gaf i ofyn i chi, o ystyried y ffaith bod llawer o bobl sy'n byw mewn gofal preswyl yn cael eu hariannu gan y wlad—ddim yn hunan-arianwyr ond wedi’u hariannu gan awdurdodau lleol y wlad—pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda darparwyr gofal preswyl ynghylch sut y byddant yn bodloni eu rhwymedigaethau newydd o ran tâl, a beth fydd hynny’n ei olygu o ran y ffioedd a godir ar awdurdodau lleol? Ac, a ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth San Steffan a fyddai'n rhoi lle ichi i gredu, ar ôl gwneud y cyhoeddiad hwn—h.y. pasio’r gost oherwydd triciau gwleidyddol, gan ryddhau eu hunain o gyfrifoldeb o ran credyd treth gwaith, a phasio’r gost honno i fusnesau—y byddem yn debygol o weld unrhyw adnoddau ychwanegol yn dod o San Steffan, i allu sicrhau bod lefelau ffioedd yn gallu aros yn briodol ac yn gallu adlewyrchu’r cyflogau newydd, uwch y bydd pobl yn gwbl briodol, yn gwbl briodol, yn eu hennill yn y sector? Ond, yn amlwg, mae hynny’n cael effaith enfawr ar gyllidebau gofal cymdeithasol yma yng Nghymru, ac rwy'n siŵr y byddai unrhyw Lywodraeth gall yn San Steffan wedi meddwl am hyn cyn gwneud y cyhoeddiad hwnnw.

Could I also ask you, then, about the issues around zero-hours contracts? You said—and I listened very carefully—to Jocelyn Davies that you can’t do anything about zero-hours contracts until, potentially, there is some devolution of these matters down from Westminster. Could I help you out? You don’t have to wait for devolution from Westminster; you could actually take action in this regard, if you were to implement recommendation 1, bullet point 4, which says:

A gaf i ofyn ichi hefyd, felly, am y materion ynghylch contractau dim oriau? Dywedasoch—a gwrandewais yn ofalus iawn—wrth Jocelyn Davies na allwch wneud unrhyw beth am gontractau dim oriau tan, o bosibl, y caiff y materion hyn eu datganoli i raddau o San Steffan. A gaf i eich helpu yn y fan yma? Nid oes yn rhaid ichi aros am ddatganoli o San Steffan; gallech chi mewn gwirionedd wneud rhywbeth am hyn, pe byddech yn gweithredu argymhelliad 1, pwynt bwled 4, sy'n dweud:

‘develops credible quality indicators to inform strategic planning for health and social care’.

datblygu dangosyddion ansawdd credadwy i lywio cynllunio strategol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

One of your quality indicators could indeed be the use of zero-hours contracts. Therefore, we don’t need any further devolution from Westminster to act in this regard, and would you consider that?

Yn wir, gallai defnyddio contractau dim oriau fod yn un o'ch dangosyddion ansawdd. Felly, nid oes angen unrhyw ddatganoli pellach o San Steffan arnom i weithredu yn hyn o beth, ac a fyddech chi’n ystyried hynny?

That recommendation also leads me to the issue of the fact that we have to take greater notice and cognisance of local government commissioning policy. The Minister for Health and Social Services will be well aware that I have amendments down to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill going through that will make it absolutely crystal clear that local authorities should be inspected on the quality of their commissioning arrangements in this field, and I do so out of bitter experience with Powys County Council with regard to domiciliary care services. Would you agree with me that we do need to pay closer attention to how local authorities and the NHS commission care of this kind and that they should be inspected on the way in which they do so?

Mae’r argymhelliad hwnnw hefyd yn fy arwain at y ffaith bod yn rhaid inni gymryd mwy o sylw o bolisi comisiynu llywodraeth leol. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol iawn fod gen i welliannau wedi’u gosod i'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn mynd drwodd a fydd yn ei gwneud yn gwbl glir y dylid arolygu awdurdodau lleol ar ansawdd eu trefniadau comisiynu yn y maes hwn, ac rwy’n gwneud hynny o brofiad chwerw gyda Chyngor Sir Powys o ran gwasanaethau gofal yn y cartref. A ydych chi’n cytuno â mi bod angen inni dalu mwy o sylw i sut y mae awdurdodau lleol a'r GIG yn comisiynu gofal o'r math hwn ac y dylid eu harolygu ar y ffordd y maent yn gwneud hynny?

Can I move to recommendation 2? You said that you will phase in a new reporting system for deep ulcers. Could I ask you what the timescales are for the phasing in of that system? The Welsh Government obviously recognises the importance of this, but could I have some further details on what the phasing in actually means and when we will be in a system where all deep pressure ulcers will be reported? Could you clarify—? Again, the Flynn report says quite clearly that public health should be required to report those incidences of deep pressure ulcers to the Care and Social Services Inspectorate Wales. Will that be the case in the new system that you are developing? I'd be grateful to have clarity on that.

A gaf i droi at argymhelliad 2? Dywedasoch y byddwch yn cyflwyno'n raddol system adrodd newydd ar gyfer briwiau dwfn. A gaf i ofyn i chi beth yw'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r system honno? Mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd hyn, ond a gaf i rai manylion pellach am wir ystyr cyflwyno'n raddol a phryd y bydd gennym system lle yr adroddir am bob briw pwysau dwfn? A wnewch chi egluro—? Unwaith eto, mae adroddiad Flynn yn dweud yn hollol glir y dylai fod yn ofynnol i iechyd cyhoeddus roi gwybod am yr achosion hynny o friwiau pwysau dwfn i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. A fydd hynny'n wir yn y system newydd yr ydych yn ei datblygu? Byddwn yn ddiolchgar o gael eglurhad am hynny.

Finally, if I could turn to recommendation 3, which is the protection of vulnerable adults, Flynn, again, says very clearly that a POVA investigation has to result in action—a review of the care plan or a care assessment. Your statement says that there will be action recorded in care plans. Could you clarify that, in accepting recommendation 3, any POVA investigation will result in a comprehensive review of either a care assessment or a care plan before that action is simply recorded? Thank you.

Yn olaf, os caf droi at argymhelliad 3, sef amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, mae Flynn, unwaith eto, yn dweud yn glir iawn bod yn rhaid i ymchwiliad POVA arwain at weithredu—adolygu'r cynllun gofal neu'r asesiad o ofal. Mae eich datganiad yn dweud y caiff camau eu cofnodi mewn cynlluniau gofal. A wnewch chi gadarnhau, wrth dderbyn argymhelliad 3, y bydd unrhyw ymchwiliad POVA yn arwain at adolygiad cynhwysfawr naill ai o asesiad gofal neu o gynllun gofal cyn i'r camau hynny gael eu cofnodi'n syml? Diolch.

15:03

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

A number of detailed questions there. I hope I've caught them all. First of all, the passage of time doesn't help, clearly, as far as the relatives are concerned, as she has said. It's particularly unhelpful in that there is still a sense that justice has not fully been done as yet. Yes, we have had this investigation, but we know of the well-documented problem with regard to a potential prosecution. What troubles me is that I would expect the Crown Prosecution Service to give a full reconsideration of this case, not dismiss it—

Mae nifer o gwestiynau manwl yn y fan yna. Rwy'n gobeithio fy mod wedi eu dal i gyd. Yn gyntaf oll, nid yw treigl amser yn helpu, yn amlwg, cyn belled ag y mae perthnasau dan sylw, fel y mae hi wedi'i ddweud. Mae'n arbennig o ddigymorth bod yr ymdeimlad yn parhau na chafwyd cyfiawnder llawn hyd yma. Ydym, rydym wedi cael yr ymchwiliad hwn, ond mae gennym gryn dystiolaeth o broblem o ran erlyniad posibl. Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw y byddwn yn disgwyl i Wasanaeth Erlyn y Goron ailystyried yr achos hwn yn llawn, nid ei ddiystyru—

15:04

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Inaudible.]

[Anghlywadwy.]

15:04

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues.]—they did—not dismiss it within a few hours. That is not showing respect, in my view, towards the families, nor indeed to this institution, if I'm honest about it. I think they should have been far more detailed in the investigation that they carried out. I would urge them once again to reconsider their hasty decision, apparently not based on a full consideration of the facts over an appropriate period of time.

[Yn parhau.]—gwnaethon nhw—nid ei ddiystyru o fewn ychydig oriau. Nid yw hynny'n dangos parch, yn fy marn i, tuag at y teuluoedd, nac yn wir tuag at y sefydliad hwn, os wyf yn onest am y peth. Rwy'n credu y dylent fod wedi cynnal ymchwiliad llawer manylach. Byddwn yn eu hannog unwaith eto i ailystyried eu penderfyniad brysiog, nad oedd, mae'n debyg, yn seiliedig ar ystyriaeth lawn o'r ffeithiau dros gyfnod priodol.

In terms of pay and in terms of the living wage, the difficult scenario is this: nobody would disagree with the concept of the living wage—of course not—but the tax credits system is paid for by the taxpayer through the UK Government. If that's no longer in place and the shift then is towards the payment of a living wage, then the cost then is on the employer, and it has been raised with me by people who are running care homes. They have to shoulder the cost. The danger then is, well, not the danger, but the natural reaction would then be to look for further public funding from Welsh Government. It's a direct transfer of responsibility to employers and the Welsh Government where, previously, the UK Government paid. So, yes, the principle is agreed, but the effect might be to see fees go up; it might be to see greater pressure on the budget of the Welsh Government whereas the UK Government's budget is diminished. She's quite right to point that out.

O ran tâl ac o ran y cyflog byw, y sefyllfa anodd yw hon: fyddai neb yn anghytuno â chysyniad cyflog byw—wrth gwrs na fyddent—ond trethdalwyr sy'n talu am y system credydau treth drwy Lywodraeth y DU. Os nad yw honno ar waith mwyach a bod y symudiad wedyn tuag at dalu cyflog byw, y cyflogwr fydd yn talu'r gost, ac mae pobl sy'n rhedeg cartrefi gofal wedi sôn am hyn wrthyf. Nhw sy'n gorfod ysgwyddo'r gost. Y perygl wedyn yw, wel, nid y perygl, ond yr ymateb naturiol wedyn fyddai chwilio am gyllid cyhoeddus pellach gan Lywodraeth Cymru. Mae'n trosglwyddo cyfrifoldeb yn uniongyrchol i gyflogwyr a Llywodraeth Cymru pan, yn flaenorol, Llywodraeth y DU oedd yn talu. Felly, ydw, rwy'n cytuno â'r egwyddor, ond efallai mai'r effaith fydd gweld ffioedd yn cynyddu; efallai mai'r effaith fydd gweld mwy o bwysau ar gyllideb Llywodraeth Cymru tra bod cyllideb Llywodraeth y DU yn cael ei lleihau. Mae hi'n hollol iawn i dynnu sylw at hynny.

She raised an interesting suggestion in terms of the quality indicators. We had looked at non-legislative routes for this. It's fair to say that to get a Bill through the Assembly between now and May, even taking into account challenges from the UK Government, would be exceptionally difficult, but there may well be, as she's pointed out, other ways to ensure that we see zero-hours contracts removed, certainly in time, from this sector. She certainly makes a valid point in terms of commissioning arrangements with regard to local government that we will need to investigate further in order to provide a level of reassurance.

Cododd hi awgrym diddorol o ran y dangosyddion ansawdd. Roeddem wedi edrych ar lwybrau heblaw llwybrau deddfwriaethol ar gyfer hyn. Mae'n deg i ddweud y byddai'n eithriadol o anodd cael Bil drwy'r Cynulliad rhwng nawr a mis Mai, hyd yn oed wrth ystyried heriau gan Lywodraeth y DU, ond gallai fod, fel y mae hi wedi'i nodi, ffyrdd eraill o sicrhau ein bod yn gweld dileu contractau dim oriau, yn sicr mewn amser, o'r sector hwn. Mae hi'n sicr yn gwneud pwynt dilys o ran trefniadau comisiynu yng nghyswllt llywodraeth leol y bydd angen inni ymchwilio ymhellach iddynt er mwyn darparu lefel o sicrwydd.

In terms of pressure ulcers, yes, it is a recommendation that pressure ulcers should be part of a new monitoring and reporting system. We do accept that, as I said. A phased programme of work will now be undertaken to ensure a new reporting system, so that monthly incidences can be reported. That information will be published on a public-facing website. Public Health Wales would be involved in that development to ensure both the observatory function and the service improvement function are utilised in the new arrangements. In undertaking that work, the European Pressure Ulcer Advisory Panel definitions will be used. So, we want to make sure that the system is at the cutting edge in terms of ensuring that people can have confidence in the way that pressure ulcers are reported, at least. I will provide more information in writing to the Member in terms of the timescale for delivery of that, but it goes without saying that we want this delivered as quickly as possible.

O ran briwiau pwyso, ydy, mae'n argymhelliad y dylai briwiau pwyso fod yn rhan o system fonitro ac adrodd newydd. Rydym yn derbyn hynny, fel y dywedais. Bydd rhaglen waith fesul cam nawr yn cael ei dilyn i sicrhau system adrodd newydd, fel y gellir adrodd am achosion yn fisol. Caiff y wybodaeth honno ei chyhoeddi ar wefan sydd ar gael i'r cyhoedd. Byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â'r datblygiad hwnnw i sicrhau bod y swyddogaeth arsylwi a'r swyddogaeth gwella gwasanaeth yn cael eu defnyddio yn y trefniadau newydd. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwnnw, byddwn yn defnyddio diffiniadau'r Panel Cynghori Ewropeaidd ar Friwiau Pwyso. Felly, rydym am wneud yn siŵr bod y system ar flaen y gad o ran sicrhau y gall pobl fod yn hyderus yn y ffordd y mae briwiau pwyso yn cael eu hadrodd, o leiaf. Byddaf yn rhoi mwy o wybodaeth yn ysgrifenedig i'r Aelod o ran yr amserlen ar gyfer cyflwyno hynny, ond afraid dweud yr hoffem gyflwyno hyn cyn gynted â phosibl.

In terms of the response she raised about POVA, again, part of this is dealt with through the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. It does provide a stronger framework to protect vulnerable adults; it will improve safeguarding practice and it does, of course, direct health boards and other relevant organisations to report where adults are suspected of experiencing or being at risk of abuse or neglect. That is a positive requirement that is upon them. The conclusion of the safeguarding inquiry must then be recorded in an individual's care and support plan, including what safeguarding and associated action will be taken and by whom to deliver improved outcomes for that individual. We look then, of course, to develop and refine guidance over time in order for that to happen.

O ran yr ymateb a gododd hi am POVA, unwaith eto, ymdrinnir â rhan o hyn drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n darparu fframwaith cryfach i amddiffyn oedolion agored i niwed; bydd yn gwella arfer diogelu ac mae, wrth gwrs, yn cyfeirio byrddau iechyd a sefydliadau perthnasol eraill i adrodd am achosion lle maent yn amau bod oedolion yn profi cam-drin neu esgeulustod neu mewn perygl o hynny. Mae hwnnw'n ofyniad cadarnhaol sydd arnynt. Yna, mae'n rhaid cofnodi casgliad yr ymchwiliad diogelu yng nghynllun gofal a chymorth unigolyn, gan gynnwys pa gamau diogelu a chamau cysylltiedig a gymerir a gan bwy i gyflawni canlyniadau gwell i'r unigolyn hwnnw. Rydym yna yn gobeithio, wrth gwrs, datblygu a mireinio canllawiau dros amser er mwyn i hynny ddigwydd.

So, there's no question that with regard to an individual's care, any POVA investigation will form an integral part of any care plan an individual may have and people can be assured that, where such an investigation takes place, the public body involved needs to be proactive in ensuring the problem is identified and then, of course, an investigation to take place.

Felly, does dim cwestiwn, o ran gofal unigolyn, y bydd unrhyw ymchwiliad POVA yn ffurfio rhan annatod o unrhyw gynllun gofal a allai fod gan unigolyn a gellir sicrhau pobl, pan fydd ymchwiliad o'r fath yn digwydd, bod angen i'r corff cyhoeddus dan sylw fod yn rhagweithiol wrth sicrhau bod y broblem yn cael ei nodi, ac yna, wrth gwrs, bod ymchwiliad yn digwydd.

15:08

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch, Brif Weinidog.

15:08

## 4. Datganiad: Canlyniad yr Ymgynghoriadau ar y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

## 4. Statement: Outcome of Land Transactions Tax and Landfill Disposals Tax Consultations

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 4, which is a statement by the Minister for Finance and Government Business on the outcome of the land transactions tax and landfill disposals tax consultations—Jane Hutt.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am ganlyniad yr ymgynghoriadau am y dreth trafodion tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi -Jane Hutt.

15:08

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

My statement today provides me with the opportunity to update Members on the progress that we have made along the path towards the devolution of tax powers for Wales, and to highlight the key issues for the future.

Mae fy natganiad heddiw yn rhoi'r cyfle imi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd yr ydym wedi'i wneud tuag at ddatganoli pwerau trethi i Gymru, ac i dynnu sylw at y materion allweddol ar gyfer y dyfodol.

In November 2013, the UK Government announced that they agreed the majority of the recommendations made by the Silk commission in its first report, in particular the devolution of stamp duty land tax and landfill tax to Wales.

Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn cytuno â'r rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaeth comisiwn Silk yn e adroddiad cyntaf, yn enwedig datganoli treth tir toll stamp a threth tirlenwi i Gymru.

Two years on, and almost halfway to the April 2018 target date when the new devolved taxes will take effect, we have made excellent progress. We have undertaken three consultations on tax collection and management, land transaction tax, and landfill disposals tax. In total, we received over 350 responses to these consultations. We've developed a strong network of stakeholders, including my tax advisory group, which includes representation from the Bevan Foundation, the Wales Council for Voluntary Action, the Welsh Local Government Association, business groups, social partners and tax and law professionals. We're making good progress developing capability within the Welsh treasury on tax analysis, forecasting, tax policy and operational policy, and building key relationships with other bodies in these areas of tax, including in particular Her Majesty's Revenue and Customs, Natural Resources Wales and the Land Registry.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, a bron i hanner ffordd at y dyddiad targed Ebrill 2018 pan fydd y trethi datganoledig newydd yn dod i rym, rydym wedi gwneud cynnydd ardderchog. Rydym wedi cynnal tri ymgynghoriad ar gasglu a rheoli trethi, treth trafodion tir, a threth gwarediadau tirlenwi. Cawsom gyfanswm o dros 350 o ymatebion i'r ymgynghoriadau hyn. Rydym wedi datblygu rhwydwaith cryf o randdeiliaid, gan gynnwys fy ngrŵp cynghori ar dreth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Sefydliad Bevan, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, grwpiau busnes, partneriaid cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol ym meysydd treth a chyfraith. Rydym yn gwneud cynnydd da i ddatblygu gallu o fewn trysorlys Cymru ym meysydd dadansoddi treth, rhagfynegi, polisi treth a pholisi gweithredol, ac i feithrin cysylltiadau allweddol â chyrff eraill yn y meysydd treth hyn, gan gynnwys yn arbennig Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gofrestrfa Tir.

I have also introduced the first Welsh tax legislation, the Tax Collection and Management (Wales) Bill, into the Assembly, which is currently in Stage 1 scrutiny led by the Finance Committee. The committee, and the Assembly more widely, have an important contribution to make to the process of devolving taxes to Wales, and I value the constructive approach being taken.

Rwyf hefyd wedi cyflwyno deddfwriaeth treth gyntaf Cymru, y Bil Casglu a Rheoli Treth (Cymru), i mewn i'r Cynulliad, sydd ar hyn o bryd yn destun craffu Cyfnod 1 dan arweiniad y Pwyllgor Cyllid. Mae gan y pwyllgor, a'r Cynulliad yn ehangach, gyfraniad pwysig i'w wneud at y broses o ddatganoli trethi i Gymru, ac rwy'n gwerthfawrogi'r dulliau adeiladol sy'n cael eu defnyddio.

It will be for the next Government to introduce the legislation on the land transaction tax and landfill disposals tax. On 15 September, I published summaries of the responses to the LTT and LDT consultations. I have been clear throughout this process that I am committed to developing taxes that are fair to businesses and individuals; provide stability and certainty for taxpayers; are simple, with clear rules that seek to minimise compliance and administration costs; and support growth and jobs and, in turn, help to tackle poverty. There will be no change for change's sake. I am pleased that this approach met with strong support throughout the consultations.

Mater i'r Llywodraeth nesaf fydd cyflwyno'r ddeddfwriaeth ar y dreth trafodion tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi. Ar 15 Medi, cyhoeddais grynodebau o'r ymatebion i ymgynghoriadau'r dreth trafodion tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi. Rwyf wedi bod yn glir drwy gydol y broses hon fy mod yn ymrwymedig i ddatblygu trethi sy'n deg i fusnesau ac i unigolion; sy'n darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr; sy'n syml, gyda rheolau clir sy'n ceisio lleihau costau cydymffurfio a gweinyddu; ac sy'n cynorthwyo twf a swyddi ac, yn eu tro, yn helpu i drechu tlodi. Ni fydd unrhyw newid er mwyn newid. Rwy'n falch bod yr ymagwedd hon wedi cael cefnogaeth gref drwy gydol yr ymgynghoriadau.

For land transaction tax, I have proposed that the current UK approach to partnerships, trusts and companies, and reliefs and exemptions, would be broadly retained. These are familiar to businesses and tax professionals, and I recognise the benefits of consistency for businesses in Wales. However, there are some areas where land transaction tax could be more suited to Welsh circumstances. For example, there may be opportunities to adjust the treatment of leases on non-residential as well as residential transactions. This could be an important simplification of the tax. Welsh Government officials will be exploring the case for making these changes with stakeholders over the coming months, with a view to the matter being considered by the next Government.

Ar gyfer y dreth trafodion tir, rwyf wedi cynnig cadw dull gweithredu presennol y DU o ran partneriaethau, ymddiriedolaethau a chwmnïau, a gostyngiadau ac eithriadau, i raddau helaeth. Mae'r rhain yn gyfarwydd i fusnesau a gweithwyr treth proffesiynol, ac rwy'n cydnabod manteision cysondeb i fusnesau yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd gallai treth trafodion tir fod yn fwy addas i amgylchiadau Cymru. Er enghraifft, efallai y ceir cyfleoedd i addasu sut yr ymdrinnir â phrydlesi ar drafodion amhreswyl yn ogystal â thrafodion preswyl. Gallai hyn fod yn ffordd bwysig o symleiddio'r dreth. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn edrych ar yr achos o blaid gwneud y newidiadau hyn gyda rhanddeiliaid dros y misoedd nesaf, gyda golwg ar i'r Llywodraeth nesaf ystyried y mater.

The next Government will wish to consider and decide on the taxes and bands for land transaction tax. I anticipate these will be agreed much closer to April 2018, to take into account the prevailing economic conditions at that time. The next Government will equally make a decision on landfill disposals tax rates. I recognise the consultation responses highlighting the benefits of consistency with England on LDT rates.

Bydd y Llywodraeth nesaf yn dymuno ystyried y trethi a'r bandiau ar gyfer treth trafodion tir a gwneud penderfyniad. Rwy'n rhagweld y cytunir y rhain yn llawer agosach at fis Ebrill 2018, er mwyn gallu ystyried yr amodau economaidd a fydd yn bodoli bryd hynny. Bydd y Llywodraeth nesaf, yn yr un modd, yn gwneud penderfyniad am gyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi. Rwy'n cydnabod bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at fanteision cysondeb â Lloegr ar gyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi.

Welsh tax revenue will contribute to the public finances that fund Welsh public services. We must meet our social commitments and pay taxes responsibly. Irresponsible tax avoidance undermines our social fabric and should not be tolerated. It is absolutely critical that the Welsh revenue authority has appropriate powers to address tax avoidance. There was wide support for this in responses to both the land transaction tax and landfill disposals tax consultations. It will be for the next Government to legislate on a Welsh tax-avoidance rule, but Welsh Government officials will gather further views in the coming months to help inform the detail of this rule, including on any role for a disclosure regime.

Bydd refeniw treth Cymru yn cyfrannu at y cyllid cyhoeddus sy'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n rhaid inni fodloni ein hymrwymiadau cymdeithasol a thalu trethi'n gyfrifol. Mae osgoi treth mewn modd anghyfrifol yn tanseilio ein gwead cymdeithasol ac ni ddylid ei oddef. Mae'n gwbl hanfodol bod gan awdurdod refeniw Cymru bwerau priodol i ymdrin ag osgoi talu treth. Cafwyd cefnogaeth eang i hyn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriadau ar y dreth trafodion tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi. Mater i'r Llywodraeth nesaf fydd deddfu ar reol osgoi treth i Gymru, ond bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn casglu barn bellach yn y misoedd nesaf er mwyn helpu i lywio manylion y rheol hon, gan gynnwys pa un a oes lle i unrhyw drefn ddatgelu.

There are some, equally, who illegally evade paying the correct amount of tax. The evasion of UK landfill tax in particular is a real and significant issue and is something that we must address as we develop landfill disposals tax. First, the Welsh revenue authority should have the most appropriate tools to deal robustly with tax evasion. I can confirm my expectation that, subject to the passage of the Tax Collection and Management (Wales) Bill, the next Government will need to undertake appropriate consultation on the scope and scale of any criminal powers before deciding whether to make regulations.

Yn yr un modd, mae rhai pobl yn torri’r gyfraith drwy efadu talu'r swm cywir o dreth. Mae osgoi talu treth tirlenwi y DU yn arbennig yn broblem wirioneddol a sylweddol, ac mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ymdrin ag ef wrth inni ddatblygu treth gwarediadau tirlenwi. Yn gyntaf, dylai fod gan awdurdod refeniw Cymru yr offer mwyaf priodol i ymdrin yn gadarn ag osgoi talu treth. Gallaf gadarnhau fy mod yn disgwyl, yn amodol ar basio’r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), y bydd angen i'r Llywodraeth nesaf gynnal ymgynghoriad priodol ar gwmpas a graddfa unrhyw bwerau troseddol cyn penderfynu a ddylid gwneud rheoliadau.

Secondly, I have confirmed that I will explore options to extend the definition of a landfill site to include illegal deposits of waste within the scope of the tax. This approach was widely supported in our consultation, and would provide an additional financial deterrent to illegal waste activity. This is a key feature of the new Scottish landfill tax, and the Welsh Government will be observing developments in Scotland closely on this.

Yn ail, rwyf wedi cadarnhau y byddaf yn edrych ar ddewisiadau i ymestyn y diffiniad o safle tirlenwi i gynnwys gadael gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwmpas y dreth. Cafwyd cefnogaeth eang i’r ymagwedd hon yn ein hymgynghoriad, a byddai'n darparu rhwystr ariannol ychwanegol i weithgarwch gwastraff anghyfreithlon. Mae hyn yn un o nodweddion allweddol treth tirlenwi newydd yr Alban, a bydd Llywodraeth Cymru yn arsylwi yn ofalus y datblygiadau yn yr Alban o ran hyn.

Finally, I took a wide range of views on the future of the landfill communities fund when landfill tax is devolved to Wales. I would support establishing an LDT communities scheme in Wales when landfill tax is devolved, though it will be for the next Government to take this forward. It would be possible to allocate a proportion of LDT revenue to support community wellbeing initiatives that have an environmental focus and will include biodiversity and waste-minimisation projects. It would be important to align this with the wellbeing goals established in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which seek to secure a prosperous, healthier and resilient Wales. This will further support jobs growth and tackling poverty, which are at the heart of my tax principles.

Yn olaf, cefais amrywiaeth eang o safbwyntiau am ddyfodol y gronfa cymunedau tirlenwi pan gaiff treth tirlenwi ei datganoli i Gymru. Byddwn yn cefnogi'r cynnig i sefydlu cynllun cymunedau ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru pan gaiff treth tirlenwi ei datganoli, er mai’r Llywodraeth nesaf fydd yn bwrw ymlaen â hyn. Byddai'n bosibl dyrannu cyfran o refeniw’r dreth gwarediadau tirlenwi i gefnogi mentrau lles cymunedol sydd â phwyslais amgylcheddol ac a fydd yn cynnwys prosiectau bioamrywiaeth a lleihau gwastraff. Byddai'n bwysig cyd ochri hyn â’r nodau lles a sefydlwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ceisio sicrhau Cymru ffyniannus, iachach a chydnerth. Bydd hyn yn rhoi mwy o gymorth i dwf swyddi a threchu tlodi, sydd wrth wraidd fy egwyddorion treth.

I’m pleased with the level of interest and commitment that there has been in an LDT communities scheme, and I’m keen to explore how to maximise the amount of funding that reaches communities affected by LDT. I will, therefore, be looking very carefully at developing a simple and effective administrative model that retains a link to the landfill operator. The Welsh Government will be engaging widely with a range of interested stakeholders on a future LDT communities scheme over the coming months, including issues such as the 10-mile rule, as well as understanding impact and success of the scheme.

Rwy'n falch â lefel y diddordeb a'r ymrwymiad sydd wedi bod mewn cynllun cymunedau ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi, ac rwy'n awyddus i archwilio sut i gynyddu’r swm o arian sy'n cyrraedd cymunedau y mae’r dreth gwarediadau tirlenwi yn effeithio arnynt. Byddaf, felly, yn edrych yn ofalus iawn ar ddatblygu model gweinyddol syml ac effeithiol sy'n cadw cyswllt â’r gweithredwr safle tirlenwi. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu’n helaeth dros y misoedd nesaf gydag ystod o randdeiliaid sydd â diddordeb ynglŷn â chynllun cymunedau ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi yn y dyfodol, gan gynnwys materion megis y rheol 10 milltir, yn ogystal â deall effaith a llwyddiant y cynllun.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i’r Gadair am 15.15.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15.15.*

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

I will keep the Assembly and the Finance Committee fully informed of progress, in particular through the Welsh Government's first annual report on the implementation and operation of Part 2 of the Wales Act 2014, which is due at the end of 2015. I hope to be able to provide more information on our work to set in train the new Welsh revenue authority. As a first step towards the new WRA, I intend to publish a consultation early in 2016 to take people's views on taxpayer culture and engagement, to help set the context for the development of a taxpayers' charter in due course. I look forward to hearing your views on these matters.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf lawn i'r Cynulliad a'r Pwyllgor Cyllid am gynnydd, yn enwedig drwy adroddiad blynyddol cyntaf Llywodraeth Cymru ar sefydlu a gweithredu Rhan 2 Deddf Cymru 2014, a ddylai fod gennym erbyn diwedd 2015. Rwy'n gobeithio gallu rhoi mwy o wybodaeth am ein gwaith i sefydlu awdurdod refeniw newydd Cymru. Fel cam cyntaf tuag at yr awdurdod newydd hwnnw, rwy'n bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad yn gynnar yn 2016 i gael barn pobl ar ddiwylliant trethdalwyr ac ymgysylltu â hwy, i helpu i osod y cyd-destun ar gyfer datblygu siarter trethdalwyr maes o law. Edrychaf ymlaen at glywed eich barn ar y materion hyn.

15:15

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Minister for her statement, or update, today? I don't think anyone could accuse you of not keeping the Assembly in the loop in terms of updates on the devolution of the different taxes.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad, neu ei diweddariad, heddiw? Nid wyf yn credu y gallai unrhyw un eich cyhuddo o beidio â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am ddatganoli y gwahanol drethi.

The devolution of tax powers is probably the biggest change in the devolution settlement since the establishment of the Assembly. As you pointed out, we are now half way to the devolution tax deadline of 2018, since Silk reported back in 2013. In your statement, you mentioned the Welsh treasury function and the development of that. Could you give us some more details on how that is going? I think you're right; tax analysis and forecasting are going to be absolutely crucial to all of this. The consequences of it not being right don't bear thinking about. The relationship between the Welsh Government on the one hand, the Welsh revenue authority and HMRC on the other—they're all going to be critical as well. I appreciate that, at the moment, the legislation to establish a WRA is still being scrutinised by the Finance Committee, but it is critical that the scrutiny of the WRA is got right.

Datganoli pwerau treth, yn ôl pob tebyg, yw'r newid mwyaf i'r setliad datganoli ers sefydlu'r Cynulliad. Fel y dywedasoch, rydym nawr hanner ffordd at ddyddiad cau datganoli treth yn 2018, ers adroddiad Silk yn 2013. Yn eich datganiad, soniasoch am swyddogaeth trysorlys Cymru a datblygu honno. A wnewch chi roi rhagor o fanylion inni am sut mae hynny'n dod yn ei flaen? Rwy'n credu eich bod yn iawn; bydd dadansoddi a rhagfynegi treth yn gwbl hanfodol i hyn i gyd. Hoffwn i ddim meddwl am ganlyniadau peidio â gwneud hyn yn iawn. Mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ar y naill law, awdurdod refeniw Cymru a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar y llall—bydd y rheini i gyd yn hollbwysig hefyd. Rwy'n sylweddoli, ar hyn o bryd, bod y ddeddfwriaeth i sefydlu awdurdod refeniw i Gymru yn dal i fod yn destun craffu gan y Pwyllgor Cyllid, ond mae'n hanfodol ein bod yn craffu'n briodol ar yr awdurdod.

I think it would be useful if the Welsh revenue authority was scrutinised in some way by the Assembly as a whole—I'd be interested in your thoughts on this—rather than just working through your department. I think that if the Assembly—the Plenary—had a role, that would be helpful, however that could be structured.

Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd yn craffu ar awdurdod refeniw Cymru mewn rhyw ffordd—hoffwn glywed eich barn chi am hyn—yn hytrach na dim ond gweithio drwy eich adran. Rwy'n meddwl, pe byddai gan y Cynulliad—y Cyfarfod Llawn—ran i'w chwarae, y byddai hynny o gymorth, sut bynnag y gellid strwythuro hynny.

I think that you are doing things the right way round by introducing legislation for the Welsh revenue authority first before you finalise details of the taxes. They didn't do it that way round in Scotland, and they got into all sorts of problems. So, I think, in that approach, you're doing that right.

Rwy'n meddwl eich bod yn gwneud pethau yn y drefn iawn drwy gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer awdurdod refeniw Cymru yn gyntaf, cyn ichi gadarnhau manylion y trethi. Ni wnaed hynny yn y drefn honno yn yr Alban, a chawsant bob math o drafferthion. Felly, rwy'n credu, o ran y dull hwnnw, eich bod yn gwneud hynny'n iawn.

I welcome the re-confirmation that you will not support change for change's sake. Will you please stick to that mantra, Minister? The Finance Committee held a stakeholder group a couple of weeks ago, and it was clear to me and other members of the committee that there was a fair deal of concern about the potential for confusion, particularly along the border. So, I think that businesses will appreciate it if, where possible, the tax regimes on each side of the border are the same. I know that you've said that that is your intention, but I would urge you to stick to it.

Rwy'n croesawu'r ailgadarnhau na wnewch chi gefnogi newid er mwyn newid. A wnewch gadw at y mantra hwnnw, os gwelwch yn dda, Weinidog? Cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid grŵp rhanddeiliaid wythnos neu ddwy yn ôl, ac roedd yn amlwg i mi ac i aelodau eraill y pwyllgor bod cryn dipyn o bryder am y potensial ar gyfer dryswch, yn enwedig ar hyd y ffin. Felly, rwy'n meddwl y bydd busnesau'n gwerthfawrogi, pan fo modd, pe byddai'r cyfundrefnau treth ar y ddwy ochr i'r ffin yr un fath. Rwy'n gwybod eich bod wedi dweud mai dyna yw eich bwriad, ond byddwn yn eich annog i gadw at hynny.

In terms of the individual taxes that you've mentioned—the land transaction tax and the landfill tax—again, will you take into account—. Well, in terms of the stamp duty replacement, will you take into account properties near the border? We don't want a situation where the higher band of LTT is significantly higher than across the border in England and could discourage the purchase of houses on one side of the border vis-à-vis the other. I know that that's all development that's in the future, but that is one concern that's been mentioned to me.

O ran y trethi unigol yr ydych wedi sôn amdanynt—y dreth trafodion tir a'r dreth tirlenwi—unwaith eto, a wnewch chi ystyried—. Wel, o ran y dreth stamp newydd, a wnewch chi ystyried eiddo sy'n agos at y ffin? Nid ydym yn dymuno bod mewn sefyllfa lle mae band uwch y dreth trafodion tir yn sylweddol uwch nag ar draws y ffin yn Lloegr; gallai hynny annog prynu tai ar un ochr i'r ffin vis-à-vis y llall. Rwy'n gwybod bod y datblygiadau hyn i gyd yn y dyfodol, ond mae hynny'n un pryder yr a grybwyllwyd wrthyf.

On landfill disposals tax—I'm sure Mike Hedges will be talking about this later if he's taking part in the statement—we don't want waste tourism. Again, the border is a critical issue. We need to make sure that the landfill disposals tax that we have here doesn't lead to people trying to get rid of their landfill elsewhere. It's an interesting tax, as you know, because it is, of course, trying to abolish itself in the long term. Have you spoken with the UK Government about this? We don't want a situation where there is a disincentive on a future Welsh Government not to eliminate landfill tax because it would lose revenue.

O ran y dreth gwarediadau tirlenwi—rwy'n siŵr y bydd Mike Hedges yn siarad am hyn yn nes ymlaen os yw'n cymryd rhan yn y datganiad—dydyn ni ddim eisiau twristiaeth gwastraff. Unwaith eto, mae'r ffin yn fater hollbwysig. Mae angen inni wneud yn siŵr nad yw'r dreth gwarediadau tirlenwi sydd gennym yma yn arwain at bobl yn ceisio cael gwared ar eu defnydd tirlenwi mewn mannau eraill. Mae'n dreth ddiddorol, fel y gwyddoch, oherwydd mae hi, wrth gwrs, yn ceisio dileu ei hun yn y tymor hir. A ydych chi wedi siarad â Llywodraeth y DU ynglŷn â hyn? Nid ydym yn dymuno bod mewn sefyllfa lle mae anghymhelliad ar Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i beidio â dileu'r dreth dirlenwi oherwydd y byddai'n colli refeniw.

Finally, Deputy Presiding Officer, can you focus on tax evasion, not tax avoidance? That was a point that was made to us during the stakeholder group on the Finance Committee. There is a world of difference between evasion and avoidance, and sometimes I think they are confused. I know the legislation setting up the Welsh revenue authority is hoping to clarify this. Buying a smaller house to avoid a higher rate of stamp duty or its replacement could be seen as avoidance, but, clearly, that's not what you're talking about when you're talking about criminality in terms of tax evasion. So, please will you make sure that that is clear? We'll do our best on the Finance Committee to scrutinise that element of the legislation.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, a allwch chi ganolbwyntio ar efadu trethi, nid osgoi trethi? Roedd hwnnw'n bwynt a wnaethpwyd inni yn ystod y grŵp rhanddeiliaid ar y Pwyllgor Cyllid. Mae byd o wahaniaeth rhwng efadu ac osgoi, ac weithiau rwy'n meddwl dryswch yn eu cylch. Rwy'n gwybod bod y ddeddfwriaeth i sefydlu awdurdod refeniw Cymru yn gobeithio egluro hyn. Gellid ystyried bod prynu tŷ llai i osgoi cyfradd uwch o dreth stamp neu beth bynnag a ddaw yn ei lle yn osgoi, ond, yn amlwg, nid dyna beth ydych chi'n sôn amdano wrth sôn am droseddu wrth efadu trethi. Felly, a wnewch chi wneud yn siŵr bod hynny'n glir os gwelwch yn dda? Fe wnawn ni ein gorau ar y Pwyllgor Cyllid i graffu ar yr elfen honno o'r ddeddfwriaeth.

Thank you for your statement today. This is a very important development for the Assembly, and I don't need to tell you that we need to get it right.

Diolch am eich datganiad heddiw. Mae hwn yn ddatblygiad pwysig iawn i'r Cynulliad, a does dim angen i mi ddweud wrthych bod angen inni ei wneud yn iawn.

15:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Nick Ramsay. Of course we are very involved, or you're very involved at the moment, in the scrutiny of Stage 1 of the Tax Collection and Management (Wales) Bill, and I think it's important, of course, that I do respond more fully at the end of Stage 1, alongside reports of the committees, as far as the Bill is concerned. I think, on your point about developing the capability of the Welsh Treasury, it's clear that that is a priority, and, as I said in my opening statement, this is about capability for forecasting tax policy and operational policy and tax analysis, but it's very much about building those key relationships that we will have, not just with HMRC, but Land Registry, Natural Resources Wales, and, indeed, also ensuring that those are robust in terms of future partnership engagement in terms of delivery.

Diolch yn fawr, Nick Ramsay. Wrth gwrs, rydym yn chwarae rhan fawr, neu rydych chi'n chwarae rhan fawr ar hyn o bryd, yn y broses o graffu ar Gyfnod 1 y Bil Casglu a Rheoli Trethu (Cymru), ac rwy'n credu ei bod yn bwysig, wrth gwrs, fy mod yn ymateb yn llawnach ar ddiwedd Cyfnod 1, ynghyd ag adroddiadau'r pwyllgorau, cyn belled ag y mae'r Bil dan sylw. Rwy'n meddwl, o ran eich pwynt am ddatblygu gallu Trysorlys Cymru, ei bod yn amlwg bod hynny'n flaenoriaeth, ac, fel y dywedais yn fy natganiad agoriadol, mae hyn yn ymwneud â gallu i ragfynegi polisi treth a pholisi gweithredol a dadansoddiadau treth, ond mae hefyd yn ymwneud ag adeiladu'r perthnasoedd allweddol hynny a fydd gennym, nid yn unig â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ond â'r Gofrestrfa Tir, â Chyfoeth Naturiol Cymru, ac, yn wir, sicrhau hefyd bod y rheini'n gadarn o ran ymgysylltu mewn partneriaeth yn y dyfodol ar gyfer cyflawni.

Of course, as you know through the scrutiny of the Bill, the Welsh revenue authority is progressing in terms of the opportunities we have to set this up, and, ahead of the Stage 1 debate on the general principles of the Tax Collection and Management (Wales) Bill, I will provide the Assembly with an update, for example, on work to establish collection and management arrangements. That, of course, follows on from the fact that I've indicated my preferred approach in terms of partnership arrangements with HMRC and Natural Resources Wales, but I will be able to report to the Assembly, as I said, ahead of the Stage 1 debate, which will be important in terms of looking at initial estimates of set-up and operating costs.

It's also very important in terms of consistency and border issues, as you say, that we continue our discussions. Indeed, our tax advisory group is meeting next week. We're continuing to work closely with businesses, tax experts and other interested stakeholders, and, of course, have also met with groups and organisations like the north Wales committee of the Confederation of British Industry, for example—north-east Wales particularly—in terms of those border issues. But officials are also working very closely with other Government departments, and, of course, in terms of the UK Government, that is crucial, and, of course, following on from and learning from the Scottish experience.

You raise the important issue of tax avoidance and tax evasion, and I think, if you look again at the development of my Welsh tax avoidance rule, the fact is that tax avoidance is unacceptable at all times. I've asked officials to prepare the groundwork for the next Government, so that measures can be introduced to counter any unacceptable tax avoidance activity in the devolved taxes, and we have to make sure, for example, in terms of landfill disposals tax, that we don't end up with tax avoidance by inappropriate use of exemptions and reliefs, so we're exploring this issue further with tax experts to determine our approach, and also making sure in terms of the opportunities that we have that we look at issues around investigative powers. I think, in terms of LDT, we will, of course, as I've said, take a robust stance against tax evasion and avoidance, but we also have to look very carefully at the powers that we will have, and I think it is important perhaps to reflect on the point that we need to look carefully at the implications the next Wales Bill will have for the competence of the Assembly to legislate in the future about a sensible enforcement system for the collection and management of Welsh taxes. We've yet to see, of course, a full version of the draft Wales Bill, but, when it's published, we will be studying it very closely to ensure that the proposed reservation model wouldn't prevent the Assembly from legislating on these matters, or create unnecessary ambiguity.

Wrth gwrs, fel y gwyddoch drwy graffu ar y Bil, mae awdurdod refeniw Cymru yn cael ei ddatblygu o ran y cyfleoedd sydd gennym i drefnu hyn, a, cyn y ddadl Cyfnod 1 am egwyddorion cyffredinol y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad, er enghraifft, am waith i sefydlu trefniadau casglu a rheoli. Mae hynny, wrth gwrs, yn dilyn ymlaen o'r ffaith fy mod wedi nodi'r dull yr wyf yn ei ffafrio o ran trefniadau partneriaeth gyda Chyllid a Thollau EM a Chyfoeth Naturiol Cymru, ond byddaf yn gallu adrodd i'r Cynulliad, fel y dywedais, cyn dadl Cyfnod 1, a fydd yn bwysig o ran edrych ar amcangyfrifon cychwynnol o gostau sefydlu a gweithredu.

Mae hefyd yn bwysig iawn o ran materion cysondeb a ffiniau, fel y dywedwch, ein bod yn parhau â'n trafodaethau. Yn wir, mae ein grŵp cynghori ar dreth yn cwrdd yr wythnos nesaf. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda busnesau, arbenigwyr treth a rhanddeiliaid eraill sydd â budd, ac, wrth gwrs, rydym hefyd wedi cwrdd â grwpiau a sefydliadau fel pwyllgor Cydffederasiwn Diwydiant Prydain y gogledd, er enghraifft—y gogledd-ddwyrain yn benodol—o ran y materion hynny o ran y ffin. Ond mae swyddogion hefyd yn gweithio'n agos iawn gydag adrannau eraill y Llywodraeth, ac, wrth gwrs, o ran Llywodraeth y DU, mae hynny'n hanfodol, ac, wrth gwrs, dilyn ymlaen o brofiad yr Alban a dysgu oddi wrtho.

Rydych yn sôn am y mater pwysig o osgoi trethi ac efadu trethi, ac rwy'n credu, os edrychwch chi eto ar ddatblygiad fy rheol osgoi treth i Gymru, y ffaith yw bod osgoi treth yn annerbyniol bob amser. Rwyf wedi gofyn i swyddogion baratoi'r seiliau ar gyfer y Llywodraeth nesaf, fel y gallant gyflwyno mesurau i atal unrhyw weithgaredd osgoi treth annerbyniol yn y trethi datganoledig, ac mae'n rhaid inni wneud yn siŵr, er enghraifft, o ran y dreth gwarediadau tirlenwi, na fydd gennym sefyllfa osgoi treth yn y pen draw drwy ddefnyddio eithriadau a rhyddhad yn amhriodol, felly rydym yn archwilio'r mater hwn ymhellach gydag arbenigwyr treth i benderfynu ar ein dulliau, gan wneud yn siŵr hefyd o ran y cyfleoedd sydd gennym ein bod yn edrych ar faterion yn ymwneud â phwerau ymchwilio. Rwy'n credu, o ran y dreth gwarediadau tirlenwi, y byddwn, wrth gwrs, fel yr wyf wedi'i ddweud, yn cymryd safiad cadarn yn erbyn efadu ac osgoi trethi, ond bydd yn rhaid inni hefyd edrych yn ofalus iawn ar y pwerau a fydd gennym, ac rwy'n meddwl ei bod efallai'n bwysig i ni fyfyrio ar y pwynt bod angen inni edrych yn ofalus ar oblygiadau'r Bil Cymru nesaf i gymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y dyfodol am system orfodi synhwyrol ar gyfer casglu a rheoli trethi Cymru. Nid ydym eto, wrth gwrs, wedi gweld fersiwn llawn o'r Bil Cymru drafft, ond, pan gaiff ei gyhoeddi, byddwn yn ei astudio'n fanwl iawn i sicrhau na fyddai'r model pwerau a gedwir arfaethedig yn atal y Cynulliad rhag deddfu ar y materion hyn, nac yn creu amwysedd diangen.

15:24

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch am y diweddariad diwethaf yma ar ddatganoli'r trethi yma. Nid ydynt yn codi arian sylweddol, ond mae'n bwysig ein bod yn gwneud hyn mewn ffordd drefnus, fel paratoad ar gyfer datblygiadau mwy sylweddol nes ymlaen. O ran treth gwarediadau tirlenwi, mae'r cynigion am y dreth yma yn eithaf syml, ac ni fyddai Plaid Cymru am wneud dim yn sylweddol wahanol I Loegr yn y tymor byr. Rydym ni wedi clywed gan randdeiliaid, wrth gwrs, am y problemau a allai godi petai hynny yn digwydd.

Thank you for this latest update on devolved taxes. They don't raise significant income, but it's important that we do this in an orderly manner, in preparation for more significant developments at a later date. In terms of landfill disposals tax, the proposals for this tax are quite simple, and Plaid Cymru wouldn't do anything significantly different to England in the short term. We've heard from stakeholders, of course, about some of the problems that could arise if that were to be the case.

Mewn egwyddor, rydym ni'n cefnogi'r cynnig i wyro peth refeniw i gynllun cymunedol, ac yn nodi bod hyn yn boblogaidd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ond, wrth gwrs, mae hyn, mewn ffordd, yn rhyw fath o ymrwymiad gwario, gan wybod y cefndir ariannol yr ydych yn gweithio arno fel Llywodraeth. A gawn ni, felly, glywed gan y Gweinidog pa fath o refeniw mae hi'n rhagweld bydd yn cael ei gyfeirio at gronfa gymunedol?

In principle, we support the proposal to vire some revenue to community schemes, and we note that this is popular in the responses to the consultation, but, of course, this, in a way, is some kind of spending commitment, bearing in mind the financial climate in which you are working as a Government. Can we hear from the Government, therefore, what kind of revenue she anticipates will be vired to a community fund of this kind?

O ran treth trafodion tir, yn amlwg mae datblygu treth trafodion tir yn hynod ddeniadol yn lle treth stamp, a bydd hyn yn agor cyfleoedd polisi sylweddol yn y dyfodol, er bod y sgôp, efallai, wedi'i gyfyngu ryw ychydig oherwydd bod newidiadau wedi digwydd yn Lloegr yn dilyn y cynigion, wrth gwrs, yn yr Alban. Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fel petaen nhw'n cefnogi datganoli'r dreth yma, ond, fel roeddwn yn ei ddweud, yn bryderus am amrywiadau tymor byr. Bydd yn rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru edrych eto ar gyfraddau Lloegr yn 2018 i weld a oes yna le i newid y bandiau a'r cyfraddau.

In terms of a land transaction tax, clearly the development of a land transaction tax is very attractive as a replacement for stamp duty, and this will provide significant policy opportunities in future, although the scope is perhaps a little limited as a result of changes that have occurred in England following the proposals made in Scotland. It appears that most of the respondents seem to support the devolution of this tax, but, as I was saying, they are concerned about short-term variations. The next Welsh Government will have to look again at the English rates in 2018 in order to see whether there is scope for altering the bands and the rates.

O ran y cwestiynau sydd gen i, a oes gan y Gweinidog unrhyw bryderon am ddyfodol cofrestru tir, sydd yn dal i gael ei wneud ar sail Cymru a Lloegr, ac a fydd yn gweithio i ofalu y bydd map swyddogol yn pennu eiddo preswyl a dibreswyl sydd yng Nghymru? Yn ail, mae'r Gweinidog wedi gweithio ar y cynigion hyn yn unig o safbwynt cyllid cyhoeddus; nid ydym wedi clywed llawer gan weddill y Llywodraeth am bolisi tai nac yn benodol am beth mae'r Llywodraeth am wneud ar berchnogaeth tai. A ydy'r Gweinidog yn gweithio gyda'i chydweithwyr ar fodelu effaith treth stamp ar brynwyr tro cyntaf ac a fyddai lliniaru peth o'r gost honno yn ddefnydd da o arian cyhoeddus ai peidio? Yn olaf, bydd treth trafodion tir yn amrywio'n arw o ran perfformiad, yn unol â newidiadau yn y farchnad dai, a bydd treth stamp, wrth gwrs—. Oherwydd yr amrywiadau hynny, mi allai hynny greu trafferthion yn y dyfodol. Felly, beth ydych chi'n rhagweld yn y dyfodol fydd cyfraniad y dreth arbennig hon pan ddaw i rym yma yng Nghymru? Diolch.

In terms of my questions, does the Minister have any concerns about the future of land registration, which is still done on an England-and-Wales basis, and will she be working to ensure that an official map will note the residential and non-residential properties in Wales? Secondly, the Minister has worked on these proposals only from the point of view of public funding; we haven't heard much from the rest of Government on housing policy or specifically on what the Government intends to do in relation to home ownership. Is the Minister working with her fellow Ministers on modelling the impact of stamp duty on first-time buyers, and would mitigating some of that cost be a good use of public funds? Finally, land transaction tax will vary a great deal in terms of performance, in line with fluctuations in the housing market, and stamp duty, of course—. Because of those variations, that could create some difficulties in the future. So, what do you anticipate that the contribution of this particular tax will be when it comes into force in Wales? Thank you.

15:27

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Alun Ffred Jones for his comments and questions, indicating their views, the views of Plaid Cymru, in terms of the direction of travel in terms of policy development. I think it's very helpful to have the views about the landfill communities fund, which, actually, received a huge amount of response in terms of the consultation—widespread support for how we might use some of the LDT revenue to enhance community wellbeing. This, as I said, would be through a community scheme, and we're looking at how we could develop that. The introduction, of course, of such a scheme would be for the next Welsh Government.

Diolch i Alun Ffred Jones am ei sylwadau a'i gwestiynau, yn nodi eu safbwyntiau, safbwyntiau Plaid Cymru, ynglŷn â'r cyfeiriad teithio o ran datblygu polisi. Rwy'n meddwl ei bod yn ddefnyddiol iawn cael y safbwyntiau am y gronfa cymunedau tirlenwi, a gafodd, a dweud y gwir, lawer iawn o ymateb o ran yr ymgynghoriad—cefnogaeth eang i sut y gallem ddefnyddio rhywfaint o refeniw'r dreth gwarediadau tirlenwi i wella lles cymunedol. Byddai hyn, fel y dywedais, drwy gynllun cymunedol, ac rydym yn edrych ar sut y gallem ddatblygu hynny. Wrth gwrs, mater i Lywodraeth nesaf Cymru fyddai cyflwyno cynllun o'r fath.

We do need a simple and effective administrative model, and, looking at some of the responses to the consultation, there are decisions to be made about the percentage of revenue allocated to the scheme, as you say. Of course, there are issues that are raised about, for example, the 10-mile rule, match funding, and other administrative costs, which, of course, is why we're looking for a simple administrative model.

Mae arnom angen model gweinyddol syml ac effeithiol, ac, o edrych ar rai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae penderfyniadau i'w gwneud ynglŷn â chanran y refeniw a ddyrennir i'r cynllun, fel y dywedwch. Wrth gwrs, mae materion yn cael eu codir am, er enghraifft, y rheol 10 milltir, arian cyfatebol, a chostau gweinyddol eraill, sef, wrth gwrs, pam yr ydym yn chwilio am fodel gweinyddol syml.

I think also, just in terms of your point about land transaction tax and the changes that have taken place, which, of course, have removed the slab model—indeed, of course, Scotland had already made that change, so have had to adjust those—it is for the next Government to consider rates and bands, as I've said, and also look at reliefs, any new reliefs for land transaction tax. This, of course, then engages us with discussions, as we have already undertaken, not just with house builders but with housing policy issues arising. Of course, this is, again, for a future Government. But I think the consultation responses are very clear in the desire for consistency, with SDLT, to ensure a smooth transition to the new land transaction tax. So, at this point, I have retained the existing SDLT reliefs and exemptions. And I think, in terms of the introduction of new reliefs, we have to, again, be aware of the fact that this could have impacts, which could have the impact of actually being unpredictable as a result, in terms of costs and benefits, to the revenue.

Rwy'n meddwl hefyd, dim ond o ran eich pwynt am dreth trafodion tir a'r newidiadau sydd wedi digwydd, sydd, wrth gwrs, wedi dileu'r model slab—yn wir, wrth gwrs, roedd yr Alban eisoes wedi gwneud y newid hwnnw, felly bu'n rhaid iddynt eu haddasu—mai mater i'r Llywodraeth nesaf fydd ystyried cyfraddau a bandiau, fel yr wyf wedi'i ddweud, a hefyd edrych ar ryddhad, unrhyw ryddhad newydd ar gyfer y dreth trafodion tir. Mae hyn, wrth gwrs, yna'n ein harwain i drafodaethau, fel yr ydym eisoes wedi'u cynnal, nid yn unig gydag adeiladwyr tai, ond gyda materion polisi tai sy'n codi. Wrth gwrs, mae hyn, unwaith eto, yn fater i Lywodraeth yn y dyfodol. Ond rwy'n credu bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn glir iawn o ran yr awydd am gysondeb, gyda threth dir y dreth stamp, i sicrhau trosglwyddiad didrafferth i'r dreth trafodion tir newydd. Felly, ar hyn o bryd, rwyf wedi cadw rhyddhadau ac eithriadau presennol treth dir y dreth stamp. Ac rwy'n meddwl, o ran cyflwyno rhyddhad newydd, bod yn rhaid inni, unwaith eto, fod yn ymwybodol o'r ffaith y gallai hyn gael effeithiau, a allai gynnwys bod yn anrhagweladwy mewn gwirionedd o ganlyniad, o ran costau a manteision, i'r refeniw.

It's interesting that we've just had recent information on stamp duty land tax receipts in Wales for 2014-15 totalling £170 million, up £25 million, or 17 per cent, on the previous year. And, of course, this does reflect activity in the housing market and business confidence. But it is very volatile, the tax, in terms of having fallen by more than half over the recession. So, in terms of a future source of funding, this will need further careful management. But we do have to look at the issues around land registration, as you say, ongoing discussions with the Land Registry, but also to look at our powers, roles and responsibilities in relation to land registration. And, certainly, I'll be able to report back on that as we progress in the Tax Collection and Management (Wales) Bill.

Mae'n ddiddorol bod ein bod newydd gael gwybodaeth ddiweddar am gyfanswm o £170 miliwn o dderbyniadau treth tir y dreth stamp yng Nghymru ar gyfer 2014-15, i fyny £25 miliwn, neu 17 y cant, ar y flwyddyn flaenorol. Ac, wrth gwrs, mae hyn yn adlewyrchu'r gweithgarwch yn y farchnad dai a hyder busnesau. Ond mae'r dreth yn gyfnewidiol iawn, o ran ei bod wedi gostwng gan dros hanner yn ystod y dirwasgiad. Felly, o ran ffynhonnell cyllid yn y dyfodol, bydd angen rheoli hyn yn ofalus ymhellach. Ond mae'n rhaid inni edrych ar y materion sy'n ymwneud â chofrestru tir, fel y dywedwch, trafodaethau parhaus gyda'r Gofrestrfa Tir, ond hefyd edrych ar ein pwerau, ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau o ran cofrestru tir. Ac, yn sicr, byddaf yn gallu adrodd yn ôl ar hynny wrth inni fwrw ymlaen â'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru).

15:31

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I echo your views, Minister, that the Welsh revenue authority needs appropriate powers to address tax avoidance. We all have stories in our constituencies about fly-tipping being a major problem, and, as we tighten up the disposal of residual waste, as opposed to that which is separated for recycling, and having been involved last week in the Finance Committee's scrutiny of the Tax Collection and Management (Wales) Bill, I wondered what consideration has been given to strengthening the powers of Natural Resources Wales to deal robustly with tax evasion of landfill disposals tax. If so, should it be included in the Tax Collection and Management (Wales) Bill, or might it be included in the Environment (Wales) Bill, which is about to start its second Stage? I wondered what discussions you'd had with the Minister for Natural Resources on this.

Ategaf eich sylwadau, Weinidog, bod angen i awdurdod refeniw Cymru gael pwerau priodol i ymdrin ag osgoi treth. Mae gennym i gyd straeon yn ein hetholaethau am broblem fawr tipio anghyfreithlon, ac, wrth inni dynhau ar waredu gwastraff gweddilliol, yn hytrach na gwastraff sy'n cael ei wahanu i'w ailgylchu, ac ar ôl ymwneud yr wythnos diwethaf â gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Fil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), roeddwn yn meddwl tybed pa ystyriaeth a roddwyd i gryfhau pwerau Cyfoeth Naturiol Cymru i ymdrin yn gadarn ag efadu talu'r dreth gwarediadau tirlenwi. Os cafodd hyn ei ystyried, a ddylid ei gynnwys yn y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), ynteu a ellid ei gynnwys yn y Bil yr Amgylchedd (Cymru), sydd ar fin cychwyn ei ail Gyfnod? Roeddwn yn meddwl tybed pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol am hyn.

15:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I thank Jenny Rathbone for those questions? I have already announced, as I'm sure she is aware, that Natural Resources Wales is my preferred partner for the delegation of the Welsh revenue authority's compliance and enforcement role for landfill disposals tax, and, obviously, discussions with the Minister for Natural Resources—. The point of that is the fact that Natural Resources Wales has a very clear knowledge and understanding of Welsh landfill sites, and I believe it will be of significant benefit, in the administration of the new landfill disposals tax, for them to have this role, in terms of compliance and enforcement, and, indeed, to consider working with them, to ensure that —and, I would say, not just NRW, but local authorities as well—to make sure they're properly supported and incentivised, in relation to LDT compliance and enforcement.

A gaf i ddiolch i Jenny Rathbone am y cwestiynau yna? Rwyf eisoes wedi cyhoeddi, fel yr wyf yn siŵr ei bod yn gwybod, mai Cyfoeth Naturiol Cymru yw fy newis bartner ar gyfer dirprwyo swyddogaeth cydymffurfio a gorfodi awdurdod refeniw Cymru ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi, ac, yn amlwg, mae trafodaethau gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol—. Pwynt hynny yw'r ffaith bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru wybodaeth a dealltwriaeth glir iawn o safleoedd tirlenwi yng Nghymru, ac rwy'n credu y bydd o fudd sylweddol, o ran gweinyddu'r dreth gwarediadau tirlenwi newydd, iddynt hwy wneud y gwaith hwn, o ran cydymffurfio a gorfodi, ac, yn wir, i ystyried gweithio gyda hwy, i sicrhau—a, byddwn yn dweud, nid dim ond Cyfoeth Naturiol Cymru, ond awdurdodau lleol hefyd—i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cefnogi a'u cymell yn briodol, o ran cydymffurfio â'r dreth gwarediadau tirlenwi a'i gorfodi.

15:33 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I first of all thank you for the statement? These are very important measures, on which we need to take a very cautious and sensible approach, and I think that we are on the right track, in terms of making sure that we're fully prepared to take on these duties. You have, nevertheless, already highlighted the volatility of the land transaction tax, and also, of course, there are dangers around landfill tax as well, given that the objective is to reduce the amount of tax we take, and that we have to, therefore, negotiate a very sensible buy-out, if you like, from the Welsh Government, in terms of our block grant. So, I don't envy you in terms of those particular tasks, but we'll obviously be scrutinising you on this over the next few months.

Weinidog, a gaf i yn gyntaf oll ddiolch ichi am y datganiad? Mae'r rhain yn fesurau pwysig iawn, ac mae angen inni gymryd ymagwedd ofalus a synhwyrol iawn tuag atynt, ac rwy'n meddwl ein bod ar y trywydd iawn, o ran gwneud yn siŵr ein bod yn gwbl barod i ymgymryd â'r dyletswyddau hyn. Rydych chi, serch hynny, eisoes wedi tynnu sylw at anwadalrwydd y dreth trafodion tir, a hefyd, wrth gwrs, mae peryglon yn ymwneud â'r dreth tirlenwi hefyd, o ystyried mai'r amcan yw lleihau swm y dreth a gymerwn, a bod yn rhaid inni, felly, negodi pryniant synhwyrol iawn, os mynnwch, gan Lywodraeth Cymru, o ran ein grant bloc. Felly, nid wyf yn eiddigeddus ohonoch o ran y tasgau penodol hynny, ond byddwn yn amlwg yn craffu arnoch ynglŷn â hyn dros y misoedd nesaf.

I just wanted to raise a few issues that have arisen as a result of the scrutiny of the Bill currently going through the Finance Committee. I think Nick Ramsay has already mentioned the issue around the scrutiny of the Welsh revenue authority, and I think it's important that a committee of this Assembly is responsible for that scrutiny process. I think that gives an appropriate check and balance in terms of how that is managed, and I hope that you'll take that on board as you develop your proposals. I think, equally, when we took evidence on the Wales Audit Office, we believed, at that time, as a Finance Committee, that there was a need for a non-executive quorum on their board, to help to get an oversight and proper scrutiny within their processes. I think a similar provision would be advantageous in terms of the Welsh revenue authority as well, to make sure that there is proper oversight within that board by making sure that any meetings need to have a certain number of non-executive members there to carry out that scrutiny.

Hoffwn godi rhai materion sydd wedi codi o ganlyniad i graffu ar y Bil sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy'r Pwyllgor Cyllid. Rwy'n meddwl bod Nick Ramsay eisoes wedi sôn am y mater yn ymwneud â chraffu ar awdurdod refeniw Cymru, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig mai un o bwyllgorau'r Cynulliad hwn sy'n gyfrifol am y broses graffu honno. Credaf fod hynny'n rhoi gwiriad a chydbwysedd priodol o ran sut mae hynny'n cael ei reoli, ac rwy'n gobeithio y gwnewch ystyried hynny wrth ichi ddatblygu eich cynigion. Rwy'n meddwl, yn yr un modd, pan gawsom dystiolaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ein bod yn credu, ar y pryd, fel Pwyllgor Cyllid, bod angen cworwm anweithredol ar eu bwrdd, i helpu i gael goruchwyliaeth a chraffu priodol o fewn eu prosesau. Rwy'n meddwl y byddai darpariaeth debyg o fantais i awdurdod refeniw Cymru hefyd, er mwyn sicrhau goruchwyliaeth briodol o fewn y bwrdd hwnnw drwy sicrhau bod yn rhaid i unrhyw gyfarfodydd gynnwys nifer penodol o aelodau anweithredol i wneud y craffu hwnnw.

The big issue though, which concerned me, in terms of the evidence we took, was around HMRC, who I thought, when they gave evidence to committee, were very unprepared in terms of what they're taking on in relation to Wales. It was quite obvious that they haven't thought through what a tailored service will be for Wales in terms of collecting the taxes. In particular, they hadn't thought through Welsh-language provision and how they would deal with enquiries in the Welsh language, and there were issues in terms of them thinking they could rely on their office in Birmingham to deal with stamp duty and other matters—and, presumably, with landfill disposals tax as well—when, clearly, a number of people accessing their service will want to have a local enquiry office, and also, access those enquiries through the Welsh language. So, that's a matter which I just wanted to highlight, and I'm sure that when the committee comes to publish its report, it will also highlight those issues for you. I hope that you can bear that in mind when you come to respond to that report.

Y prif fater, fodd bynnag, a oedd yn peri pryder imi, o ran y dystiolaeth a gawsom, oedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi; roeddwn yn meddwl, wrth iddynt roi tystiolaeth i'r pwyllgor, nad oeddent yn barod iawn o ran yr hyn y maent yn ymgymryd ag ef o ran Cymru. Roedd yn gwbl amlwg nad ydynt wedi meddwl yn ofalus am beth fydd gwasanaeth wedi'i deilwra ar gyfer Cymru o ran casglu'r trethi. Yn benodol, nid oeddent wedi meddwl yn ofalus am ddarpariaeth Gymraeg a sut y byddent yn ymdrin ag ymholiadau yn y Gymraeg, ac roeddent yn meddwl y gallent ddibynnu ar eu swyddfa yn Birmingham i ymdrin â'r dreth stamp a materion eraill—ac, yn ôl pob tebyg, â threth gwarediadau tirlenwi hefyd—er, yn amlwg, bydd nifer o bobl sy'n defnyddio eu gwasanaeth yn awyddus i gael swyddfa ymholiadau leol, a hefyd, i gael gwneud yr ymholiadau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, mae hynny'n fater yr oeddwn am dynnu sylw ato, ac rwy'n siŵr, pan ddaw'r pwyllgor i gyhoeddi ei adroddiad, y bydd hefyd yn tynnu eich sylw at y materion hynny. Rwy'n gobeithio y gallwch gadw hynny mewn cof pan fyddwch yn ymateb i'r adroddiad hwnnw.

15:36

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Peter Black. One of the things that we need to do is for me to share with you openly and transparently the work that we have to do before the next Government takes some fairly critical decisions. We can't wait for that; we have to make sure that we're ready for the target date and that the amount of preparation that we've undertaken means that we can meet that target date in an orderly manner. I think you said 'cautious' and 'sensible'; I think maybe other Members have said 'measured'. It has to be orderly in terms of preparation. So, really, for me, a lot of this is about confirming a direction of travel on some key policy issues. They will be considered again by the next Government, but the approach taken now does enable the next Government to introduce some legislation on a land transaction tax and a landfill disposals tax early on in the next term to meet the deadline of 2018 for the new Welsh taxes to go live. But, it does give an opportunity, I hope, for Assembly Members to provide views on the policy directions that I'm indicating. And, of course, this really does apply particularly to rates and bands for the land transaction tax and landfill disposals tax, but very much informed by feedback from consultation.

Diolch yn fawr, Peter Black. Un o'r pethau y mae angen inni ei wneud yw i mi rannu â chi yn agored ac yn dryloyw y gwaith y mae'n rhaid inni ei wneud cyn i'r Llywodraeth nesaf wneud rhai penderfyniadau hollbwysig. Ni allwn aros am hynny; mae'n rhaid inni wneud yn siŵr ein bod yn barod am y dyddiad targed a bod y gwaith paratoi yr ydym wedi ymgymryd ag ef yn golygu y gallwn gyrraedd y dyddiad targed hwnnw mewn ffordd drefnus. Rwy'n credu eich bod wedi dweud 'gofalus' a 'synhwyrol'; rwy'n meddwl efallai bod Aelodau eraill wedi dweud 'pwyllog'. Mae'n rhaid iddo fod yn drefnus o ran paratoi. Felly, mewn gwirionedd, i mi, mae llawer o hyn yn fater o gadarnhau cyfeiriad teithio ar rai materion polisi allweddol. Bydd y Llywodraeth nesaf yn eu hystyried eto, ond mae'r agwedd a gymerir yn awr yn galluogi'r Llywodraeth nesaf i gyflwyno rhywfaint o ddeddfwriaeth ar dreth trafodion tir a threth gwarediadau tirlenwi yn gynnar yn y tymor nesaf er mwyn bodloni'r dyddiad cau, sef 2018, pryd y bydd trethi newydd Cymru yn mynd yn fyw. Ond, mae yn rhoi cyfle, rwy'n gobeithio, i Aelodau'r Cynulliad roi sylwadau am y cyfarwyddiadau polisi yr wyf yn eu nodi. Ac, wrth gwrs, mae hyn wir yn arbennig o berthnasol i gyfraddau a bandiau'r dreth trafodion tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, ond yn bendant yn seiliedig ar adborth o'r ymgynghoriad.

There are a number of matters that you raise, which I believe are for me to respond to at the end of Stage 1, when I receive reports from committees in terms of the development of the Welsh revenue authority. I'm interested—as you are taking evidence, for example, from HMRC—to hear those points that you have raised today, and I've already said that I do want to update the Assembly on work, which I would particularly relate to the partnership arrangements that I've indicated with HMRC, for example, and Natural Resources Wales. But, I will, as I've said, be providing an update on that before the Stage 1 debate.

Rydych yn codi nifer o faterion, yr wyf yn credu y dylwn ymateb iddynt ar ddiwedd Cyfnod 1, pan fyddaf yn cael adroddiadau gan bwyllgorau ynglŷn â datblygiad awdurdod refeniw Cymru. Mae gen i ddiddordeb—gan eich bod yn cymryd tystiolaeth, er enghraifft, gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi—mewn cael clywed y pwyntiau hynny yr ydych wedi'u codi heddiw, ac rwyf eisoes wedi dweud yr hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am waith, a fyddai'n enwedig yn ymwneud â'r trefniadau partneriaeth yr wyf wedi'u nodi gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, er enghraifft, a Chyfoeth Naturiol Cymru. Ond, byddaf, fel yr wyf wedi'i ddweud, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny cyn dadl Cyfnod 1.

15:38 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It's nice to see consensus breaking out in here. I welcome the statement by the Minister. Putting the two taxes in context, landfill tax provides about £50 million a year, but if recycling and reuse rates increase, which I think most of us would like to see happen, the amount will drop—perhaps the only tax where the aim is to receive nothing. Stamp duty land tax is one of the most volatile of all taxes. It peaked at £235 million; it dropped to £100 million, and now it's roughly halfway between at £175 million—not caused by any action of the Welsh Government. If landfill disposals tax is substantially different to England, it could lead to substantial cross-border movement of waste, and I don't think anybody would like to see that happening. So, we are very much constrained, whatever we set the tax at, to be very close to what is set in England.

Mae'n braf gweld consensws yn dodi'r amlwg yma. Rwy'n croesawu'r datganiad gan y Gweinidog. I roi'r ddwy dreth mewn cyd-destun, mae treth tirlenwi'n darparu tua £50 miliwn y flwyddyn, ond os bydd cyfraddau ailgylchu ac ailddefnyddio'n cynyddu, a chredaf y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn hoffi gweld hynny'n digwydd, bydd y swm yn gostwng—efallai yr unig dreth lle mai'r nod yw peidio â derbyn dim. Treth tir y dreth stamp yw un o'r trethi mwyaf anwadal ohonynt i gyd. Ar ei uchaf, roedd yn £235 miliwn; gostyngodd i £100 miliwn, ac erbyn hyn mae tua hanner ffordd rhwng y ddau, sef £175 miliwn—ni achoswyd hynny gan unrhyw beth a wnaeth Llywodraeth Cymru. Os yw'r dreth gwarediadau tirlenwi yn sylweddol wahanol i Loegr, gallai arwain at lawer o symud gwastraff dros y ffin, ac nid wyf yn credu y byddai unrhyw un yn hoffi gweld hynny'n digwydd. Felly, rydym wedi ein cyfyngu i raddau helaeth, pa bynnag lefel o dreth y byddwn yn ei osod, i fod yn agos iawn at yr hyn a osodir yn Lloegr.

I have two questions for the Minister. What is the process that needs to be followed to extend the definition of landfill tax to include illegal deposits? I think that most of us know of areas that have been dumped on by people, and sometimes with the landowner's connivance. If some action could be taken against that, I think it would perhaps solve some of our illegal dumping problems.

Mae gennyf ddau gwestiwn i'r Gweinidog. Beth yw'r broses y mae angen ei dilyn i ymestyn y diffiniad o dreth tirlenwi i gynnwys tipio anghyfreithlon? Rwy'n credu bod y rhan fwyaf ohonom yn gwybod am ardaloedd lle mae pobl wedi dympio yno, ac weithiau gyda chefnogaeth dawel y tirfeddiannwr. Pe gellid cymryd rhai camau yn erbyn hynny, rwy'n meddwl y byddai efallai'n datrys rhai o'n problemau o ran dympio anghyfreithlon.

The second question is: the community scheme was brought in initially to provide some financial support to local communities when they suffered the disadvantage of having a landfill site in their area. They had a problem, sometimes with flies, but always with lots of traffic movement as the refuse lorries came in to dump the refuse. I looked at a site in my own constituency, and 10 miles from that takes you well past Briton Ferry and Baglan, two areas that are totally unaffected by the landfill site in St Thomas. So, would it be possible to consider reducing the distance from 10 miles? I'd like it to be three, but would be happy with five. Really, when you go that far away, quite often, they are totally unaffected by it. For the site in Pontardawe, for example, pleased as I am, places in Morriston can actually claim because they're within the 10-mile limit. I'm very pleased that some of the organisations I belong to have had money from it—I'm not sure whether I need to declare an interest in that, or not—but the reality is that they haven't actually had any of the problems of lorries, because it's been collecting Neath Port Talbot's refuse.

Yr ail gwestiwn yw: pwrpas y cynllun cymunedol i ddechrau oedd darparu rhywfaint o gymorth ariannol i gymunedau lleol pan eu bod yn dioddef anfantais o fod â safle tirlenwi yn eu hardal. Roeddent yn cael problem, weithiau gyda phryfed, ond bob amser gyda llawer o symudiadau traffig wrth i'r lorïau sbwriel ddod i mewn i ddympio'r sbwriel. Edrychais ar safle yn fy etholaeth fy hun, ac mae 10 milltir o'r fan honno yn mynd â chi'n bell heibio i Lansawel a Baglan, dwy ardal nad ydynt yn teimlo effaith y safle tirlenwi yn St Thomas o gwbl. Felly, a fyddai'n bosibl ystyried lleihau'r pellter o 10 milltir? Hoffwn iddo fod yn dair, ond byddwn yn hapus gyda phump. Mewn gwirionedd, pan eich bod yn mynd mor bell â hynny i ffwrdd, yn aml iawn, does dim effaith o gwbl. Ar gyfer y safle ym Mhontardawe, er enghraifft, er fy mod yn falch, mae rhai lleoedd yn Nhreforys yn gallu hawlio am eu bod o fewn y terfyn 10 milltir. Rwy'n falch iawn bod rhai o'r sefydliadau yr wyf yn perthyn iddynt wedi cael arian o hyn—nid wyf yn siŵr a oes angen imi ddatgan buddiant yn hynny ai peidio—ond y gwir yw nad ydynt mewn gwirionedd wedi cael dim problemau â lorïau, gan eu bod wedi bod yn casglu sbwriel Castell-nedd Port Talbot.

15:41 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mike Hedges for his points and for his questions. Of course, the volatility is very clear of these taxes, and Peter Black made that point as well. I think, on your issues around illegal waste, you know that we're looking carefully at the Scottish approach to include illegal deposits of waste within the scope of the tax. This does, potentially, offer an increased financial deterrent against illegal waste activity. We're exploring that option further to see how it could be applied in Wales. Of course, that has come back from stakeholders as well, saying that including illegal deposits of waste within the scope of the tax demonstrates that that behaviour isn't acceptable and will need to be addressed. But, it's clear that we have to, again, look further at this in terms of the implications of including that—for the next Government, of course—in a Bill.

Diolch i Mike Hedges am ei bwyntiau ac am ei gwestiynau. Wrth gwrs, mae anwadalwch y trethi hyn yn glir iawn, a gwnaeth Peter Black y pwynt hwnnw hefyd. Rwy'n meddwl, ar eich materion yn ymwneud â gwastraff anghyfreithlon, eich bod yn gwybod ein bod yn edrych yn ofalus ar ddull yr Alban i gynnwys tipio gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwmpas y dreth. Mae hyn, o bosibl, yn cynnig mwy o ataliad ariannol yn erbyn gweithgarwch gwastraff anghyfreithlon. Rydym yn edrych ar y dewis hwnnw yn fanylach i weld sut y gellid ei ddefnyddio yng Nghymru. Wrth gwrs, mae hynny wedi dod yn ôl gan randdeiliaid hefyd, sy'n dweud bod cynnwys tipio gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwmpas y dreth yn dangos nad yw'r ymddygiad hwnnw'n dderbyniol ac y bydd angen rhoi sylw iddo. Ond, mae'n amlwg bod yn rhaid inni, unwaith eto, edrych ar hyn yn fanylach o ran goblygiadau cynnwys hynny—ar gyfer y Llywodraeth nesaf, wrth gwrs—mewn Bil.

On your second point, I've already mentioned the fact that we have to look very carefully about the current provisions in terms of a landfill tax. In the suggestions of our moving forward with the landfill communities fund, we have consulted widely on these issues. I think the issue of whether we need to use the 10-mile rule is one of those question marks, because, of course, if we want to be more strategic about the way we allocate that funding, that is not always appropriate or, indeed, actually addressing the adverse impact of living by a landfill site, which I hope, as we progress with waste management, will be less of an issue in terms of living by a landfill site, in any case.

O ran eich ail bwynt, rwyf eisoes wedi sôn am y ffaith bod yn rhaid inni edrych yn ofalus iawn ar y darpariaethau presennol o ran treth tirlenwi. Yn yr awgrymiadau ein bod yn symud ymlaen â'r gronfa cymunedau tirlenwi, rydym wedi ymgynghori'n eang ar y materion hyn. Rwy'n meddwl bod y cwestiwn o ba un a oes angen inni ddefnyddio'r rheol 10 milltir yn un o'r marciau cwestiwn hynny, oherwydd, wrth gwrs, os ydym am fod yn fwy strategol am y ffordd yr ydym yn dyrannu'r cyllid hwnnw, nid yw hynny bob amser yn briodol nac, mewn gwirionedd, yn ymdrin ag effaith andwyol byw wrth safle tirlenwi, a fydd, rwy'n gobeithio, wrth inni symud ymlaen gyda rheoli gwastraff, yn llai o broblem o ran byw wrth safle tirlenwi, beth bynnag.

15:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Can I say to Members that, for the next two statements, I've got lots of speakers, and they're very topical and important issues, as the previous statements have been? I would be helped if we can quicken the pace, because I do want to involve as many Members as possible.

Diolch, Weinidog. A gaf i ddweud wrth yr Aelodau bod gen i lawer o siaradwyr ar gyfer y ddau ddatganiad nesaf, sydd yn faterion cyfoes a phwysig iawn, fel y datganiadau blaenorol? Byddai o gymorth imi pe gallem gyflymu, oherwydd hoffwn gynnwys cynifer o Aelodau â phosibl.

15:43

## 5. Datganiad: Manteision a Ddarperir drwy'r Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

## 5. Statement: Benefits Delivered through the Flood and Coastal Erosion-risk Management Programme

Y

Senedd.tv Fideo Video

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 5 is a statement by the Minister for Natural Resources on benefits delivered through the flood and coastal erosion-risk management programme. I call the Minister, Carl Sargeant.

Mae eitem 5 yn ddatganiad gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol ar fuddion a ddarperir drwy'r rhaglen rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Galwaf ar y Gweinidog, Carl Sargeant.

15:43 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv
Fideo Video

With winter approaching, now is a good time to update the Assembly on the significant benefits that are being delivered to the people of Wales through the flood and coastal erosion-risk management programme. A fundamental aim of the programme is to protect the people of Wales from the risks associated with flooding. So, I am pleased to share that 3,800 properties will see their flood risk significantly reduced through schemes being completed this autumn and winter. Communities all across Wales are benefitting, with schemes being completed at Rhyl, Dolgellau, Risca, Cardiff, Borth, Beaumaris and along the Severn estuary. I've visited a number of these communities recently and have seen first-hand the work involved in progressing these schemes. However, they are only a small selection of the overall flood and coast programme that will be delivered by the end of this Government.

Gan fod y gaeaf yn agosáu, mae nawr yn amser da i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ar y manteision sylweddol sy'n cael eu darparu i bobl Cymru drwy'r rhaglen rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Nod sylfaenol y rhaglen yw amddiffyn pobl Cymru rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd. Felly, rwy'n falch o rannu y bydd 3,800 o dai yn gweld eu risg llifogydd yn gostwng yn sylweddol drwy gynlluniau sy'n cael eu cwblhau yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Mae cymunedau ar draws Cymru yn elwa, gan fod cynlluniau yn cael eu cwblhau yn y Rhyl, Dolgellau, Rhisga, Caerdydd, Borth, Biwmares ac ar hyd aber afon Hafren. Rwyf wedi ymweld â nifer o'r cymunedau hyn yn ddiweddar ac wedi gweld yn uniongyrchol y gwaith sy'n gysylltiedig â datblygu'r cynlluniau hyn. Fodd bynnag, dim ond detholiad bach ydynt o'r rhaglen gyffredinol llifogydd a'r arfordir fydd yn cael ei chyflwyno erbyn diwedd y Llywodraeth hon.

We are investing over £240 million to protect people from the risks of flooding and coastal erosion. This has been complemented by £47 million from the European regional development fund. This major investment is directly contributing towards achieving our wellbeing goals under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, through building a more resilient and prosperous Wales of cohesive communities. Not only have more than 12,000 properties, including 10,700 homes, benefited from increased protection from the risks of flooding, this investment has led to an estimated 930 jobs having been supported or created across Wales through the programme to date. I have mentioned the important contribution we have received from the ERDF and it's important to highlight the success that has been achieved through this funding. We've almost doubled our predicted target on the number of flood-risk management schemes being supported. In turn, these schemes have tripled the predicted number of properties at reduced flood risk. In total, over 8,960 properties, as well as infrastructure and major transport links, have benefited from increased protection from flooding thanks to the effective use of European funding.

Rydym yn buddsoddi dros £240 miliwn i amddiffyn pobl rhag risgiau llifogydd ac erydu arfordirol. Mae hyn wedi'i ategu gan £47 miliwn o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop. Mae'r buddsoddiad mawr hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflawni ein nodau lles o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, trwy adeiladu Cymru fwy gwydn a ffyniannus o gymunedau cydlynol. Nid yn unig y mae mwy na 12,000 eiddo, gan gynnwys 10,700 o gartrefi, wedi elwa o fwy o amddiffyniad rhag y peryglon o lifogydd, ond mae'r buddsoddiad hwn wedi arwain at amcangyfrif o 930 o swyddi wedi cael eu cefnogi neu eu creu ledled Cymru drwy'r rhaglen hyd yn hyn. Rwyf wedi sôn am y cyfraniad pwysig yr ydym wedi ei gael gan yr ERDF ac mae'n bwysig tynnu sylw at y llwyddiant sydd wedi cael ei gyflawni drwy'r arian hwn. Rydym bron wedi dyblu ein targed a ragwelwyd ar nifer y cynlluniau rheoli risg llifogydd sy'n cael eu cefnogi. Yn eu tro, mae'r cynlluniau hyn wedi treblu'r nifer a ragwelir o eiddo sydd mewn llai o berygl llifogydd. Yn gyfan gwbl, mae dros 8,960 o eiddo, yn ogystal â seilwaith a chysylltiadau trafnidiaeth mawr, wedi elwa o fwy o amddiffyniad rhag llifogydd, diolch i'r defnydd effeithiol o gyllid Ewropeaidd.

The flood-risk management programme provides a vital contribution to Wales's ability to deal with extreme weather. The winter of 2013-14 saw some of the worst storm conditions the Welsh coastline has experienced in over 20 years. Following these storms, I asked Natural Resources Wales to undertake a coastal review to ensure that we learned lessons and maximised the future resilience of our communities to such extreme weather. This review produced a delivery plan earlier this year containing 47 recommendations, which ranged from improving our flood forecasting, to increasing our community resilience and adapting our coastal communities to better withstand the impacts of climate change. Work has progressed well through the year and by the end of the month we will have 21 of the 47 recommendations complete, with at least 40 to be completed by the end of this financial year.

Mae'r rhaglen rheoli risg llifogydd yn gwneud cyfraniad hanfodol i allu Cymru i ddelio â thywydd eithafol. Gwelodd gaeaf 2013-14 rai o'r amodau storm gwaethaf y mae arfordir Cymru wedi'u profi mewn dros 20 mlynedd. Yn dilyn y stormydd hyn, gofynnais i Gyfoeth Naturiol Cymru gynnal adolygiad arfordirol er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi ac yn cynyddu gwytnwch ein cymunedau i'r eithaf yn y dyfodol i dywydd eithafol o'r fath. Cynhyrchodd yr adolygiad hwn gynllun cyflenwi yn gynharach eleni yn cynnwys 47 o argymhellion, a oedd yn amrywio o wella ein gallu i ragweld llifogydd, i gynyddu gwytnwch cymunedol ac addasu ein cymunedau arfordirol i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn well. Mae gwaith wedi symud ymlaen yn dda drwy'r flwyddyn ac erbyn diwedd y mis bydd 21 o'r 47 o argymhellion wedi'u cwblhau, a bydd o leiaf 40 yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Defences remain vital in managing the risks from flooding and coastal erosion, but as the coastal review and our national strategy outline, they are not the entire story. We must manage our natural resources effectively and use our improving knowledge of flooding to make better decisions in managing the land and directing new development. Our new flood maps, launched by NRW in July will help us to do this, as well as making it easier for the public to understand the risks they face. We will continue to build community resilience, both through raising awareness of flooding and preparing flood plans to reduce the impact on lives and property. NRW, local authorities and Dŵr Cymru Welsh Water are also encouraging volunteers in our communities to become flood wardens. I recently visited Beaumaris, and saw for myself the crucial role that flood wardens play in the community.

Mae amddiffynfeydd yn parhau i fod yn hanfodol wrth reoli'r risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol. Ond fel yr amlinellir yn adolygiad yr arfordir a'n strategaeth genedlaethol, nid dyna'r stori gyfan. Mae'n rhaid i ni reoli ein hadnoddau naturiol yn effeithiol a defnyddio ein gwybodaeth well o lifogydd i wneud penderfyniadau gwell wrth reoli'r tir a chyfarwyddo datblygiad newydd. Bydd ein mapiau llifogydd newydd, a lansiwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf yn ein helpu i wneud hyn, yn ogystal â'i gwneud yn haws i'r cyhoedd ddeall y risgiau y maent yn eu hwynebu. Byddwn yn parhau i adeiladu gwytnwch cymunedol, drwy godi ymwybyddiaeth o lifogydd a pharatoi cynlluniau llifogydd i leihau'r effaith ar fywydau ac eiddo. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a Dŵr Cymru Welsh Water hefyd yn annog gwirfoddolwyr yn ein cymunedau i fod yn wardeiniaid llifogydd. Yn ddiweddar, ymwelais â Biwmares, a gwelais drosof fy hun y rhan hanfodol y mae wardeiniaid llifogydd yn ei chwarae yn y gymuned.

So, as we look to the future, although the level of public sector budgets are, of course, uncertain, we can point to a significant amount of work that is already under way. Climate change will mean that some of our coastal communities, such as Fairbourne in Gwynedd, will need our long-term support in facing significant adaptation as the sea levels rise and the associated risks to life and property become untenable. To this end, we are aiming to appoint a researcher this month to work alongside the local authority and the community to ensure that the current good practice at Fairbourne is collected and used across Wales wherever possible. Also, key to the future of coastal communities is the £150 million coastal risk management programme, which I announced with the finance Minister in December of last year. Like the core flood programme, we are framing this work in the context of the future generations Act—thinking long term, working strategically, with a transformative vision and actively seeking wider social, economic and cultural benefits in what we deliver. Thank you.

Felly, wrth i ni edrych at y dyfodol, er bod lefel y cyllidebau yn y sector cyhoeddus, wrth gwrs, yn ansicr, gallwn bwyntio at lawer iawn o waith sydd eisoes ar y gweill. Bydd newid yn yr hinsawdd yn golygu y bydd angen cefnogaeth tymor hir ar rai o'n cymunedau arfordirol, megis y Friog yng Ngwynedd, wrth iddynt wynebu addasiadau sylweddol pan fydd lefel y môr yn codi ac wrth i'r risgiau sy'n gysylltiedig â bywyd ac eiddo ddod yn anghynaladwy. I'r perwyl hwn, rydym yn anelu i benodi ymchwilydd y mis hwn i weithio ochr yn ochr â'r awdurdod lleol a'r gymuned i sicrhau bod yr arfer da presennol yn y Friog yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio ar draws Cymru lle bynnag y bo modd. Hefyd, yn allweddol i ddyfodol cymunedau arfordirol yn y rhaglen rheoli risg arfordirol y mae'r £150 miliwn, a gyhoeddais gyda'r Gweinidog Cyllid ym mis Rhagfyr y llynedd. Fel yn achos y rhaglen llifogydd craidd, rydym yn fframio'r gwaith hwn yng nghyd-destun Deddf cenedlaethau'r dyfodol—gan feddwl yn y tymor hir, gweithio'n strategol, gyda gweledigaeth drawsnewidiol a chwilio am fanteision cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ehangach yn yr hyn a ddarparwn. Diolch.

15:48

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I rise to respond, on behalf of the opposition in the Assembly, just to your statement, Minister. I'm very grateful to you for you bringing this statement in advance of the winter. We know that the winter very often in Wales brings extremely wet weather and that, combined with high tides and onshore winds in particular, our coastal communities and, indeed, many of our inland communities can be at increased risk of flooding.

Rwy'n codi i ymateb, ar ran yr wrthblaid yn y Cynulliad, dim ond i'ch datganiad, Weinidog. Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am ddod â'r datganiad hwn cyn y gaeaf. Rydym yn gwybod bod y gaeaf yn aml iawn yng Nghymru yn dod â thywydd eithriadol o wlyb ac, ynghyd â llanw uchel a gwyntoedd ar y tir yn benodol, gall ein cymunedau arfordirol ac, yn wir, llawer o'n cymunedau mewndirol fod mewn perygl cynyddol o lifogydd.

I want to welcome in particular the investment that's gone into my own constituency in recent years, along parts of the coast in places like Kinmel Bay, which suffered in the storms that you referenced in your statement. That community has now been afforded a much greater degree of protection, which, of course, has been welcomed by businesses and local residents in that area. I know that you commented on a list of other communities that have been afforded additional protections as well. But as is always the case, much more can be done and it's much better for communities if action can be taken in advance to protect them from flooding rather than the reaction that we see very often in the wake of flooding and the confusion that can be so often caused.

Rwyf am groesawu yn arbennig y buddsoddiad sydd wedi ei wneud i fy etholaeth fy hun yn y blynyddoedd diwethaf, ar hyd rhannau o'r arfordir mewn llefydd fel Bae Cinmel, a ddioddefodd yn y stormydd yr oeddech yn cyfeirio atynt yn eich datganiad. Mae'r gymuned honno bellach wedi cael llawer mwy o amddiffyniad, sydd, wrth gwrs, wedi cael ei groesawu gan fusnesau a thrigolion lleol yn yr ardal honno. Gwn eich bod wedi gwneud sylwadau ar restr o gymunedau eraill sydd wedi cael amddiffyniadau ychwanegol hefyd. Ond fel sy'n wir bob amser, gellir gwneud llawer mwy ac mae'n llawer gwell i gymunedau os gellir gweithredu o flaen llaw i'w diogelu rhag llifogydd yn hytrach na'r adwaith a welwn yn aml iawn yn sgil llifogydd a'r dryswch a ellir ei achosi mor aml.

There are a few things that I just wanted to touch on, if I may, Minister. You didn't say a great deal about the importance of protecting our key infrastructure in Wales. And you'll be aware that some of the coastal flood defences protect important assets, such as the north Wales railway line that goes through Old Colwyn in my constituency, and, indeed, the A55 network is perilously close to the flood defences in that same area. And those flood defences, particularly in Old Colwyn, have been undermined in recent years as a result of storms and high tides. I wonder if you can say specifically what action you are taking as a Minister to help to co-ordinate a response to that, so that those defences in that particular area can have the investment that they need, which is so important to the north Wales area in particular.

Mae ychydig o bethau yr oeddwn yn awyddus i sôn amdanynt, os caf, Weinidog. Doeddech chi ddim yn dweud llawer am bwysigrwydd diogelu ein seilwaith allweddol yng Nghymru. A byddwch yn ymwybodol bod rhai o'r amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol yn diogelu asedau pwysig, megis rheilffordd y gogledd sy'n mynd drwy Hen Golwyn yn fy etholaeth i, ac, yn wir, mae rhwydwaith yr A55 yn beryglus o agos at yr amddiffynfeydd rhag llifogydd yn yr un ardal. Ac mae'r amddiffynfeydd rhag llifogydd hynny, yn enwedig yn Hen Golwyn, wedi cael eu tanseilio yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i stormydd a llanw uchel. Tybed a allwch chi ddweud yn benodol pa gamau yr ydych yn eu cymryd fel Gweinidog i helpu i gydlynu'r ymateb i hynny, fel y gall yr amddiffynfeydd hynny yn yr ardal benodol honno gael y buddsoddiad y mae ei hangen arnynt, sydd mor bwysig i ardal y gogledd yn arbennig.

If you could also, Minister, perhaps just comment on our proposals that we've put forward over a number of years now for a blue belt policy to be applied to pieces of land around our coast and other important waterways that are at risk of flooding. I'm obviously aware of the work that Natural Resources Wales does in producing maps that are regularly updated in accordance with changing flood risk, but I do think this policy has some merit and I'm sure that you do as well. And perhaps there is some way of achieving some improvements in the planning system to ensure that there's greater recognition for flood risk through the introduction of that sort of planning policy statement. I think it is time to refresh our planning policies in relation to flood-risk management, and that might give an opportunity to do just that.

Os gallech hefyd, Weinidog, efallai dim ond gwneud sylwadau ar y cynigion yr ydym wedi eu cyflwyno dros nifer o flynyddoedd bellach am bolisi gwregys glas i'w gymhwyso i ddarnau o dir o amgylch ein harfordir a'n dyfrffyrdd pwysig eraill sydd mewn perygl o lifogydd. Rwy'n amlwg yn ymwybodol o'r gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud mewn cynhyrchu mapiau sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd yn unol â'r newid risg o lifogydd, ond rwy'n credu bod gan y polisi hwn rywfaint o werth ac rwy'n siŵr eich bod chithau hefyd. Ac efallai bod rhyw ffordd o gyflawni rhai gwelliannau yn y system gynllunio er mwyn sicrhau bod mwy o gydnabyddiaeth ar gyfer perygl llifogydd trwy gyflwyno'r math hwnnw o ddatganiad polisi cynllunio. Rwy'n meddwl ei bod yn bryd adnewyddu ein polisïau cynllunio mewn perthynas â rheoli risg llifogydd, a gallai hynny roi cyfle i wneud hynny.

I'm very concerned as well, Minister, about opportunities for affordable insurance for some people in Wales. There are people in my own constituency who find it difficult to get affordable insurance because of flood risk in their areas, and whilst I'm aware that there have been historic agreements between the Association of British Insurers and the UK Government in return for the investment that's been made in flood defences, some of these have now expired. New arrangements are in place from 2015 with the Flood Re scheme, but there are some limitations to that scheme. Newer homes, for example, which have been developed post 2009 are not covered by the scheme. Buy-to-let properties, which may well be important in terms of the supply of affordable homes across Wales, are not included in that scheme, and nor indeed are businesses included in that affordable insurance scheme. And I wonder what discussions you might have had with the Association of British Insurers and others to help to overcome that particular challenge, because I do think that we can perhaps lead the way with the insurance industry by brokering our own agreements with them.

Rwy'n bryderus iawn hefyd, Weinidog, am y cyfleoedd ar gyfer yswiriant fforddiadwy i rai pobl yng Nghymru. Mae pobl yn fy etholaeth i sy'n ei chael yn anodd cael yswiriant fforddiadwy oherwydd perygl llifogydd yn eu hardaloedd, ac er fy mod yn ymwybodol y bu cytundebau hanesyddol rhwng Cymdeithas Yswirwyr Prydain a Llywodraeth y DU yn gyfnewid am y buddsoddiad sydd wedi cael ei wneud mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd, mae rhai o'r rhain bellach wedi dod i ben. Mae trefniadau newydd ar waith o 2015 ymlaen gyda'r cynllun Flood Re, ond mae rhai cyfyngiadau i'r cynllun hwnnw. Nid yw cartrefi mwy newydd, er enghraifft, sydd wedi cael eu datblygu ar ôl 2009, yn rhan o'r cynllun. Nid yw eiddo prynu i osod, a all yn hawdd fod yn bwysig o ran y cyflenwad o dai fforddiadwy ledled Cymru, yn cael eu cynnwys yn y cynllun, ac yn wir nid yw busnesau yn cael eu cynnwys yn y cynllun yswiriant fforddiadwy. Ac rwy'n meddwl tybed pa drafodaethau y gallech fod wedi'u cael â Chymdeithas Yswirwyr Prydain ac eraill i helpu i oresgyn y sialens arbennig honno, gan fy mod yn meddwl y gallwn o bosibl arwain y ffordd gyda'r diwydiant yswiriant trwy froceru ein cytundebau ein hunain gyda nhw.

Just finally, Minister, you talked about the need to consider the potential for wider economic benefits from some of the investment that's going into flood defences and our flood-risk management network. Clearly, there have been some significant benefits in my own constituency, in places like Colwyn Bay, from the investment that's already taken place. But I wonder also what other potential benefits might be derived from some combined investment with those private enterprises that are trying to develop tidal lagoons around Wales. We know that there's going to be a significant flood protection benefit from the tidal lagoon in Swansea, and there are proposals also to have a tidal lagoon off the coast of north Wales, which will afford a large part of the coast with enormous levels of protection that they might not otherwise be able to achieve. I wonder, Minister, whether a little bit of priming the pump from the Welsh Government in terms of some financial support to those projects might go a long way to delivering some improvements for our communities. Thank you.

Yn olaf, Weinidog, soniasoch am yr angen i ystyried y potensial ar gyfer manteision economaidd ehangach o rywfaint o'r buddsoddiad sy'n mynd i mewn i amddiffynfeydd rhag llifogydd a'n rhwydwaith rheoli risg llifogydd. Yn amlwg, cafwyd rhai manteision sylweddol yn fy etholaeth i, mewn llefydd fel Bae Colwyn, o'r buddsoddiad sydd eisoes wedi digwydd. Ond tybed hefyd pa fanteision posibl eraill a allai ddeillio o rywfaint o fuddsoddiad cyfun gyda'r mentrau preifat hynny sy'n ceisio datblygu môr-lynnoedd llanw o gwmpas Cymru. Rydym yn gwybod y bydd budd amddiffyn rhag llifogydd sylweddol o'r morlyn llanw yn Abertawe, ac mae cynigion hefyd i gael morlyn llanw oddi ar arfordir y gogledd, a fydd yn rhoi lefelau enfawr o amddiffyniad i ran fawr o'r arfordir na fyddent fel arall efallai yn gallu ei gyflawni. Tybed, Weinidog, a allai ychydig o ysgogi twf gan Lywodraeth Cymru o ran rhywfaint o gymorth ariannol i'r prosiectau hynny fynd yn bell i gyflawni rhai gwelliannau ar gyfer ein cymunedau. Diolch.

15:54

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his questions and contribution this afternoon. As the Member is aware, £240 million over the lifetime of this Government has been invested in flood defences, and I'm aware also of his constituents; I remember it well in north Wales when I was working with the emergency services around Tywyn, and the incidents that were devastating for communities and the impact they can have, both for coastal and urban flooding. If you have had an experience of that, it lasts a lifetime in terms of that process.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau a'i gyfraniad y prynhawn yma. Fel y mae'r Aelod yn ymwybodol, mae £240 miliwn yn ystod oes y Llywodraeth hon wedi cael ei fuddsoddi mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd, ac rwy'n ymwybodol hefyd o'i etholwyr; rwy'n ei gofio yn dda yn y gogledd pan oeddwn yn gweithio gyda'r gwasanaethau brys o amgylch Tywyn, a'r digwyddiadau a oedd yn ddinistriol i gymunedau a'r effaith y gallant ei chael, ar gyfer llifogydd arfordirol a threfol. Os ydych chi wedi cael profiad o hynny, mae'n parhau am oes o ran y broses honno.

Some of the issues that the Member raised were around risk management—both the shoreline management plans and the flood and coastal erosion-risk management plans, which look specifically around the coastal areas of Wales, about where infrastructure sometimes plays a part in terms of those flood defences. I know, working with Edwina Hart on some of the programmes around Network Rail and some of the activities around some of our significant, major infrastructures, they do play, sometimes, a part in that flood and coastal defence. So, it is something that we are very aware of.

Roedd rhai o'r materion a gododd yr Aelod yn ymwneud â rheoli risg—y cynlluniau rheoli traethlin a'r cynlluniau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol, sy'n edrych yn benodol o amgylch ardaloedd arfordirol Cymru, ynghylch lle mae seilwaith weithiau yn chwarae rhan o ran yr amddiffynfeydd hynny rhag llifogydd. Rwy'n gwybod, drwy weithio gydag Edwina Hart ar rai o'r rhaglenni ynghylch Network Rail a rhai o'r gweithgareddau o amgylch rhai o'n seilweithiau sylweddol, mawr, maent weithiau yn chwarae rhan yn yr amddiffyn llifogydd ac arfordir hynny. Felly, mae'n rhywbeth yr ydym yn ymwybodol iawn ohono.

The Member raised an interesting prospect of a blueprint, which I think he made reference to, in terms of flooding intelligence and flood planning. I think we're pretty much covered in terms of technical advice note 15. There is an irony in this process, because I often get letters from many constituents objecting to developments on flood issues; I also get letters from constituents and Members saying that they should allow them to be developed in a flood plain as well. But we are very robust in TAN 15, and I will stand by that document very clearly, because I do think, as the Member's witnessed, where planning decisions have been made badly or poorly informed, we have, sometimes, catastrophic events in terms of flood risk, so I won't relax that process. But I'm interested in his views, in terms of developing a further added element to TAN 15, possibly—if the Member has any views on that.

Cododd yr Aelod syniad diddorol o lasbrint, rwy'n meddwl y gwnaeth gyfeirio ato, o ran gwybodaeth llifogydd a chynllunio llifogydd. Rwy'n meddwl ein bod yn iawn yn nhermau nodyn cyngor technegol 15. Mae eironi yn y broses hon, gan fy mod yn aml yn cael llythyron gan lawer o etholwyr yn gwrthwynebu datblygiadau ar faterion llifogydd; rwyf hefyd yn cael llythyrau gan etholwyr ac Aelodau yn dweud y dylent ganiatáu iddynt gael eu datblygu mewn gorlifdir hefyd. Ond rydym yn gadarn iawn yn TAN 15, a byddaf yn glynu wrth y ddogfen honno yn glir iawn, gan fy mod yn meddwl, fel y tystiodd yr Aelod, lle mae penderfyniadau cynllunio wedi'u gwneud yn wael neu ar sail gwybodaeth wael, rydym, weithiau, yn cael digwyddiadau trychinebus o ran perygl o lifogydd, felly ni fyddaf yn ymlacio'r broses honno. Ond mae gennyf ddiddordeb yn ei farn, o ran datblygu elfen ychwanegol ymhellach at TAN 15, o bosibl—os oes gan yr Aelod unrhyw sylwadau ar hynny.

Flood insurance: the Member's right to raise this issue. This is a UK Government-led scheme. I have had discussions with the UK on this flood scheme because I also share the concerns about the businesses or buildings that aren't covered by this scheme, and I think there is some more that could potentially be done. In fact, Elin Jones wrote to me recently on an issue regarding businesses in her constituency, about how we could develop that programme, and I have raised it with them. I will try to seek further clarity from the Minister and will, of course, let the Chamber know, in respect of that.

Yswiriant rhag llifogydd: mae'r Aelod yn iawn i godi'r mater hwn. Mae hwn yn gynllun a arweinir gan Lywodraeth y DU. Rwyf wedi cael trafodaethau gyda'r DU ar y cynllun llifogydd hwn oherwydd fy mod hefyd yn rhannu'r pryderon am y busnesau neu adeiladau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn, ac rwy'n meddwl bod rhywfaint yn fwy a allai o bosibl gael ei wneud. Yn wir, ysgrifennodd Elin Jones ataf yn ddiweddar ar fater yn ymwneud â busnesau yn ei hetholaeth, ynghylch sut y gallem ddatblygu'r rhaglen honno, ac rwyf wedi codi hyn gyda hwy. Byddaf yn ceisio eglurhad pellach gan y Gweinidog, a byddaf, wrth gwrs, yn rhoi gwybod i'r Siambr am hynny.

The final point the Member raised was about other additional benefits from developments around this. I absolutely agree with the Member. Things like the Swansea tidal lagoon may offer added value, such as walks and fitness opportunities for constituents, or visitors' attractions. So, it's not just a flood defence or an energy scheme; actually there's more to be developed there. I think ensuring through the planning system that we have early intervention, so we can talk about these issues and consider the wellbeing of future generations Act and the principle of development of new schemes, is something that I'm keen for my department to pursue.

Y pwynt olaf a gododd yr Aelod oedd am fuddion ychwanegol eraill o ddatblygiadau o gwmpas hyn. Cytunaf yn llwyr â'r Aelod. Gall pethau fel y morlyn llanw yn Abertawe gynnig gwerth ychwanegol, fel teithiau cerdded a chyfleoedd ffitrwydd i etholwyr, neu atyniadau ymwelwyr. Felly, nid dim ond amddiffyn rhag llifogydd neu gynllun ynni ydyw; mewn gwirionedd mae mwy i gael ei ddatblygu yno. Rwy'n credu bod sicrhau drwy'r system gynllunio fod gennym ymyrraeth gynnar, fel y gallwn siarad am y materion hyn ac ystyried Deddf lles cenedlaethau'r dyfodol a'r egwyddor o ddatblygu cynlluniau newydd, yn rhywbeth rwy'n awyddus i fy adran i ei ganlyn.

15:57

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In actual fact, I agree with, very much, what my colleague Darren Millar has just said. My constituency isn't far along the coast. In fact, I was driving through your constituency, and those areas you mentioned, very recently, and envying some of the work that's been carried out there.

Mewn gwirionedd, rwy'n cytuno, yn fawr iawn, â'r hyn y mae fy nghydweithiwr, Darren Millar newydd ei ddweud. Nid yw fy etholaeth y ymhell ar hyd yr arfordir. A dweud y gwir, roeddwn yn gyrru drwy eich etholaeth, a'r mannau hynny a grybwyllwyd gennych, yn ddiweddar iawn, ac yn genfigennus o rywfaint o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yno.

I make no bones about it, I'm going to ask two questions about my constituency. The first is on coastal flooding, which I raised with you soon after it happened. You know that there are parts of my constituency—Point of Ayr, Talacre, Mostyn, Bagillt and Flint—that only escaped serious flooding because of a change in the wind direction; it was by the skin of their teeth. They were identified as near-miss locations. You know we can't rely on luck to play a part in the future, and though they're quite small, compared with some areas, it's just as devastating, and as risky if people are flooding. So, firstly, I would like to have your assurances, now, that you will continue to look at these areas. Darren actually mentioned the fact that by improving the infrastructure, like the railway lines, you can help these areas as well. So, can I ask that they are contained in the risk management programme?

Heb unrhyw lol, rwy'n mynd i ofyn dau gwestiwn am fy etholaeth. Mae'r cyntaf ynghylch lifogydd arfordirol, a godais gyda chi yn fuan ar ôl iddo ddigwydd. Rydych chi'n gwybod bod rhannau o fy etholaeth i—y Parlwr Du, Talacre, Mostyn, Bagillt a Fflint—a lwyddodd i ddianc rhag llifogydd difrifol dim ond oherwydd newid yng nghyfeiriad y gwynt; roedd drwy groen eu dannedd. Cawsant eu hadnabod fel lleoliadau lle bu bron i lifogydd ddigwydd. Rydych yn gwybod na allwn ddibynnu ar lwc i chwarae rhan yn y dyfodol, ac er eu bod nhw'n eithaf bach, o'u cymharu â rhai ardaloedd, mae'r un mor ddinistriol, a'r un mor beryglus os yw pobl yn cael llifogydd. Felly, yn gyntaf, hoffwn gael eich sicrwydd, yn awr, y byddwch yn parhau i edrych ar yr ardaloedd hyn. Gwnaeth Darren mewn gwirionedd grybwyll y ffaith y byddwch, drwy wella'r seilwaith, fel y rheilffyrdd, yn gallu helpu'r ardaloedd hyn hefyd. Felly, a gaf i ofyn eu bod yn cael eu cynnwys yn y rhaglen rheoli risg?

Now I'm moving inland, and I make no apology for that either. The Mold flood alleviation plan has been going on, I think, longer than I've been an Assembly Member. Flooding always happens there, it obviously affects certain houses, and we know why it happens. But, again, I'd like to know that there is some resilient plan to stop this happening, because it is devastating for the people who live there. You also know that there are some people who can't occupy parts of the homes they live in. So, can I ask you: will you say now what you know about this, and can you write to me and tell me what is happening?

Nawr rwyf yn symud i ganol y tir, ac nid wyf yn ymddiheuro am hynny ychwaith. Mae cynllun lliniaru llifogydd yr Wyddgrug wedi bod yn digwydd, rwy'n meddwl, am yn hirach nag yr wyf i wedi bod yn Aelod o'r Cynulliad. Mae llifogydd bob amser yn digwydd yno, mae'n amlwg yn effeithio ar rai tai, ac rydym yn gwybod pam ei fod yn digwydd. Ond, unwaith eto, hoffwn i wybod bod rhyw gynllun cadarn i atal hyn rhag digwydd, gan ei fod yn ddinistriol i'r bobl sy'n byw yno. Byddwch hefyd yn gwybod bod rhai pobl nad ydynt yn gallu meddiannu rhannau o'r cartrefi y maent yn byw ynddynt. Felly, a gaf i ofyn i chi: a fyddwch chi'n dweud yn awr yr hyn yr ydych yn ei wybod am hyn, ac a allwch chi ysgrifennu ataf a dweud wrthyf beth sy'n digwydd?

15:59

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your questions. Of course, the Member continues to pressurise me in terms of investment into her constituency—and she's right to do so—as well as many others too. I think the issues around the coastal flooding that the Member experienced and witnessed—. There was an element of luck there—I do recognise that—but we base our activity on a risk basis, and, of course, that does feature highly in terms of future investments. But we have ensured that the budgets we do have of £240 million—we've maintained that through this Government; it's a priority for this Government in terms of managing flood risk and it is something that, again, I will look at to see what more can be done in terms of her particular constituency. I did expect from Members today the wish list of activities around flooding schemes; I haven't been disappointed in that.

Diolch i chi am eich cwestiynau. Wrth gwrs, mae'r Aelod yn parhau i roi pwysau arnaf o ran buddsoddi yn ei hetholaeth—ac mae hi'n iawn i wneud hynny—yn ogystal â llawer o rai eraill hefyd. Rwy'n meddwl bod y materion sy'n ymwneud â llifogydd arfordirol a brofodd ac a dystiodd yr Aelod—. Roedd elfen o lwc yno—rwy'n cydnabod hynny—ond rydym yn seilio ein gweithgareddau ar sail risg, ac, wrth gwrs, mae hynny'n nodwedd amlwg o ran buddsoddiadau yn y dyfodol. Ond rydym wedi sicrhau bod y cyllidebau sydd gennym o £240 miliwn—rydym wedi cynnal hynny drwy'r Llywodraeth hon; mae'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon o ran rheoli perygl llifogydd ac mae'n rhywbeth, unwaith eto, y byddaf yn edrych arno i weld beth arall y gellir ei wneud o ran ei hetholaeth benodol. Roeddwn yn disgwyl y rhestr ddymuniadau o weithgareddau o amgylch cynlluniau llifogydd gan Aelodau heddiw; nid wyf wedi cael fy siomi yn hynny o beth.

The Member is also right to raise that the issue is not just about coastal flooding. Urban flooding is significant and, again, Mold, in her constituency, is somewhere I, again, have been personally witness to. This is currently with the local authority in terms of being dealt with in a partnership agreement with Welsh Government. I will write to the Member in detail in terms of where they are in that programme. I do believe it is quite a costly scheme, but, nevertheless, it should be based on risk and priorities, and it's something I will follow up with the Member directly in the near future.

Mae'r Aelod hefyd yn iawn i godi nad yw'r mater yn ymwneud yn unig â llifogydd arfordirol. Mae llifogydd trefol yn sylweddol ac, unwaith eto, mae'r Wyddgrug, yn ei hetholaeth, yn rhywle yr wyf i, unwaith eto, wedi bod yn dyst yn bersonol iddo. Ar hyn o bryd mae hyn gyda'r awdurdod lleol o ran cael ei drin mewn cytundeb partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod yn fanwl o ran lle maent yn y rhaglen honno. Rwy'n credu ei fod yn gynllun eithaf costus, ond, serch hynny, dylai fod yn seiliedig ar risg a blaenoriaethau, ac mae'n rhywbeth y byddaf yn ei ddilyn i fyny gyda'r Aelod yn uniongyrchol yn y dyfodol agos.

16:01

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf ddiolch i chi, Weinidog, am eich datganiad? Mae'n ddiweddariad defnyddiol ar yr ymrwymiadau sydd eisoes yn eu lle a'r gwaith sy'n mynd rhagddo. Rwy'n croesawu'n enwedig bod bron i 9,000 eiddo yn wynebu llai o risg o lifogydd diolch i'r defnydd o'r arian Ewropeaidd, sydd yn enghraifft arall o'r manteision rŷm ni'n eu mwynhau yng Nghymru o fod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n bwysig ein bod ni'n cofio hynny.

May I thank you, Minister, for your statement? It's a useful update on commitments already in place and the work that is ongoing. I particularly welcome that almost 9,000 properties are facing a reduced risk of flooding thanks to the use of the European funding, which is another example of the benefits that we enjoy in Wales of being members of the European Union, and it's important that we bear that in mind.

The UK climate projections for Wales suggest that, by 2050, temperatures are projected to increase by 2.3 degrees centigrade, which takes us over the threshold for catastrophic consequences. We know that rainfall is projected to increase in Wales, storm intensity will increase and, of course, larger waves will be hitting our shores, but the report, 'Future flooding in Wales', also estimates that, simply to maintain current levels of risk over the next 25 years—with one in six properties at risk of flooding in 2035—Wales might actually need to treble investment levels and, to reduce levels of risk even slightly, more funding would be required again. But, of course, we can't just throw money at this and we can't just keep mixing concrete, so tackling climate change has to be central to the long-term prospects of tackling flood and coastal erosion risk in Wales. Many of us, of course, have welcomed the prospect of statutory climate change targets in the Environment (Wales) Bill, but I would ask you, Minister, to consider inserting into the environment Bill the principle of keeping global warming under 2 degrees centigrade in the criteria that Ministers must consider when setting carbon targets and budgets. It would certainly focus minds and ensure that no Government in future takes its eye off that particular ball.

Mae rhagolygon hinsawdd yn y DU ar gyfer Cymru yn awgrymu, erbyn 2050, y rhagwelir cynnydd yn y tymheredd o 2.3 gradd canradd, sy'n mynd â ni dros y trothwy ar gyfer canlyniadau trychinebus. Rydym yn gwybod y rhagwelir mwy o law yng Nghymru, bydd dwysedd stormydd yn cynyddu ac, wrth gwrs, bydd tonnau mwy yn taro ein glannau, ond mae'r adroddiad, 'Llifogydd yng Nghymru yn y Dyfodol', hefyd yn amcangyfrif, dim ond er mwyn cynnal lefelau cyfredol o risg dros y 25 mlynedd nesaf—gydag un o bob chwe eiddo mewn perygl o lifogydd yn 2035—y gallai fod angen i Gymru mewn gwirionedd dreblu lefelau buddsoddi ac, er mwyn lleihau lefelau o risg hyd yn oed ychydig, byddai angen mwy o gyllid eto. Ond, wrth gwrs, ni allwn ddim ond taflu arian at hyn ac ni allwn ddim ond dal i gymysgu concrit, felly mae'n rhaid bod mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn ganolog i'r rhagolygon tymor hir o fynd i'r afael â pherygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae llawer ohonom, wrth gwrs, wedi croesawu'r posibilrwydd o dargedau newid yn yr hinsawdd statudol yn y Bil Amgylchedd (Cymru). Ond byddwn yn gofyn i chi, Weinidog, i ystyried mewnosod yn y Bil yr egwyddor o gadw cynhesu byd-eang amgylcheddol o dan 2 radd canradd yn y meini prawf y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth osod targedau carbon a chyllidebau. Byddai'n sicr yn canolbwyntio meddyliau a sicrhau nad oes unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol yn tynnu ei llygad oddi ar y bêl benodol honno.

Earlier this year, the Welsh Government consulted on proposals to establish a flood and coastal investment programme, involving creating a national flood-risk index to compare risk in different places. Concern was expressed as part of that consultation that an index combining sea, river and surface water flooding might skew investment towards areas where there is a potential risk from all three sources and inadvertently, maybe, disadvantage other areas that might face just as serious a risk of flooding but maybe only from one of those particular sources. So, I'd like to ask how you're addressing those concerns going forward. Also, respondents felt that the index should be able to take account of local knowledge because local knowledge, very often, can be just as valuable as any computer-generated scenario or any other sources of information. So, I'd ask you to explain to us how you will ensure that local knowledge is fed into that particular index.

Yn gynharach eleni, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i sefydlu rhaglen fuddsoddi llifogydd ac arfordirol, yn cynnwys creu mynegai risg llifogydd cenedlaethol i gymharu risg mewn gwahanol leoedd. Mynegwyd pryder fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw y gallai mynegai yn cyfuno llifogydd môr, afonydd a dŵr wyneb ogwyddo buddsoddiad tuag at ardaloedd lle mae risg bosibl o bob tair ffynhonnell. Ac yn anfwriadol, efallai, gallai roi ardaloedd eraill dan anfantais a allai wynebu risg yr un mor ddifrifol o lifogydd ond efallai dim ond o un o'r ffynonellau penodol hynny. Felly, hoffwn i ofyn sut yr ydych yn mynd i'r afael â'r pryderon hynny wrth symud ymlaen. Hefyd, teimlai ymatebwyr y dylai'r mynegai allu ystyried gwybodaeth leol gan fod gwybodaeth leol, yn aml iawn, yn gallu bod yr un mor werthfawr ag unrhyw senario cyfrifiadurol neu unrhyw ffynonellau eraill o wybodaeth. Felly, byddwn i'n gofyn i chi egluro i ni sut y byddwch yn sicrhau bod gwybodaeth leol yn cael ei bwydo i mewn i'r mynegai penodol hwnnw.

Natural Resources Wales, of course, has a central role to play in relation to the flood and coastal erosion-risk management programme here in Wales, but we also know that NRW is facing increased demands in terms of new duties and responsibilities being placed upon it by the Welsh Government and, at the same time, of course, it's facing a reduction in head count in terms of staff and decreasing resources, particularly financial resources. So, can you assure us this afternoon, Minister, that Natural Resources Wales will be given the resources it needs to fulfil this particular function effectively next year and, as much as you can, in years to come?

Mae gan Adnoddau Naturiol Cymru, wrth gwrs, ran ganolog i'w chwarae o ran y rhaglen rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol yma yng Nghymru. Ond rydym hefyd yn gwybod bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu galwadau cynyddol o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd yn cael eu gosod arno gan Lywodraeth Cymru. Ar yr un pryd, wrth gwrs, mae'n wynebu gostyngiad yn nifer y staff ac o ran adnoddau yn gostwng, yn arbennig adnoddau ariannol. Felly, a allwch chi ein sicrhau ni y prynhawn yma, Weinidog, y bydd Adnoddau Naturiol Cymru yn cael yr adnoddau y mae eu hangen arno i gyflawni'r swyddogaeth benodol hon yn effeithiol y flwyddyn nesaf ac, yn gymaint ag y gallwch, yn y blynyddoedd i ddod?

Finally, will you join me in criticising the makers of the computer game 'Call of Duty: Black Ops III', who, apparently, have used images of flood-hit Rhyl in a promotional video? The images were taken from the consequences of the storm surge in late 2013. It is regrettable that they've put the misery of, what was it, 400 people who were forced to leave their homes into a computer game.

Yn olaf, a wnewch chi ymuno â mi i feirniadu gwneuthurwyr y gêm gyfrifiadurol 'Call of Duty: Black Ops III', sydd, mae'n debyg, wedi defnyddio delweddau o Rhyl yn cael ei tharo gan lifogydd mewn fideo hyrwyddo? Cymerwyd y delweddau o ganlyniadau'r ymchwydd storm ar ddiwedd 2013. Mae'n anffodus eu bod wedi rhoi diflastod, beth oedd e, 400 o bobl a gafodd eu gorfodi i adael eu cartrefi i mewn i gêm gyfrifiadur.

16:05

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his questions. I also share his view that it is important to be part of the EU. Forty-seven million pounds invested in our communities across Wales is something of a contribution towards the £240 million that we just wouldn't have had if we weren't part of that membership. It's something that I will be campaigning for strongly, along with the Member, I hope.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau. Rwyf hefyd yn rhannu ei farn ei bod yn bwysig i fod yn rhan o'r UE. Mae pedwar deg saith miliwn o bunnoedd wedi'i fuddsoddi yn ein cymunedau ledled Cymru yn dipyn o gyfraniad tuag at y £240 miliwn na fyddem wedi ei gael pe na byddem yn rhan o'r aelodaeth honno. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ymgyrchu drosto yn gryf, ynghyd â'r Aelod, rwy'n gobeithio.

The Member is right, actually; this isn't just about throwing money at this programme. Funding is not just the answer to this. Clever engineering schemes: I've met, on several occasions, with the Institution of Civil Engineering to think about how we do development and what that means in terms of managing risk for new developments if we are to create them.

Mae'r Aelod yn iawn, mewn gwirionedd; nid yw hyn yn golygu taflu arian at y rhaglen hon. Nid cyllid yn unig yw'r ateb i hyn. Cynlluniau peirianneg clyfar: rwyf wedi cyfarfod, ar sawl achlysur, â'r Sefydliad Peirianneg Sifil i feddwl am sut yr ydym yn mynd ati i ddatblygu a beth mae hynny'n ei olygu o ran rheoli risg ar gyfer datblygiadau newydd os ydym i'w creu.

I also share the Member's view around climate change and the environment and, of course, that's the result of the Bill. I'm hopeful, with the inclusion of the targets in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, that we can have some support as the process of the environment Bill moves forward. He will be aware of the under 2 degrees memorandum of understanding that was signed by Wales and a number of countries, including a country in Germany—I think the Member visited there—and California. Again, we're trying to push, so that, in England, actually, they will also sign up to it, but I've not been assured of that just yet. But, you never know.

Rwyf hefyd o'r un farn â'r Aelod ynghylch newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd ac, wrth gwrs, dyna ganlyniad y Bil. Rwy'n obeithiol, gyda chynnwys y targedau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y gallwn gael rhywfaint o gefnogaeth wrth i broses y Bil amgylchedd symud yn ei blaen. Bydd yn ymwybodol o'r memorandwm o ddealltwriaeth o dan 2 radd a lofnodwyd gan Gymru a nifer o wledydd, gan gynnwys gwlad yn yr Almaen—credaf i'r Aelod ymweld â'r fan honno—a Chaliffornia. Unwaith eto, rydym yn ceisio gwthio, fel eu bod, yn Lloegr, mewn gwirionedd, hefyd yn ymrwymo iddo, ond nid wyf wedi cael sicrwydd o hynny eto. Ond, dydych chi byth yn gwybod.

With regard to local knowledge and the index, I think the Member raises an important point here. I would like to think—and I will look at this in more detail—that we listen very carefully to people's knowledge about what happens in the demography of their constituencies. But, I raise that with caution, because I am aware, and the Member will also be aware, of people who raise, sometimes, unfounded evidence of issues that should be taken into consideration during planning terms, and I think we've got to be very clear about how we balance that in terms of feeding that in, but I think it's an important point that the Member raises.

O ran gwybodaeth leol a'r mynegai, rwy'n meddwl bod yr Aelod yn codi pwynt pwysig yma. Byddwn yn hoffi meddwl—a byddaf yn edrych ar hyn yn fwy manwl—ein bod yn gwrando'n ofalus iawn ar wybodaeth pobl am yr hyn sy'n digwydd yn nemograffeg eu hetholaethau. Ond, rwy'n codi hynny gyda gofal, oherwydd rwy'n ymwybodol, a bydd yr Aelod hefyd yn ymwybodol, o bobl sy'n codi, weithiau, dystiolaeth ddi-sail o faterion y dylid eu hystyried yn ystod tymhorau cynllunio, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni fod yn glir iawn am sut yr ydym yn cydbwyso hynny o ran bwydo hynny i mewn. Ond rwy'n credu ei fod yn bwynt pwysig y mae'r Aelod yn ei godi.

The final point that the Member raised was regarding Natural Resources Wales. I'm very keen that Natural Resources Wales develops that new programme of operation, although, the Member raised the issues of new burdens on this authority. These are burdens—if the Member wishes to use that term—that the NRW were well aware of—[Interruption.] Sorry; 'duties'—I will correct my comments. They are duties that the organisation were well aware of. Indeed, the business model was about a long-term programme, a long-term business finance model that was reducing year on year; that should be no surprise to them or the Member. It's something that, when I do speak to NRW, we have regular conversations on finance and their capability of delivering on these issues, but of course we are, and will continue to be, under pressure from the UK Government as long as they keep reducing the central budget that is a consequence of that. But, I am committed, as I said earlier, to maintaining, as long as possible, our—. Managing around flood and coastal risk management is one of the priorities of this Government.

Roedd y pwynt olaf a godった yr Aelod yn ymwneud ag Adnoddau Naturiol Cymru. Rwy'n awyddus iawn bod Adnoddau Naturiol Cymru yn datblygu'r rhaglen newydd o weithredu, er, cododd yr Aelod y materion o feichiau newydd ar yr awdurdod hwn. Mae'r rhain yn feichiau—os yw'r Aelod yn dymuno defnyddio'r ymadrodd hwnnw—yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol iawn ohonynt — [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf; 'dyletswyddau'—byddaf yn cywiro fy sylwadau. Maent yn ddyletswyddau yr oedd y sefydliad yn ymwybodol iawn ohonynt. Yn wir, roedd y model busnes yn ymwneud â rhaglen hirdymor, model cyllid busnes hirdymor a oedd yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn; ni ddylai hynny fod yn syndod iddynt nac i'r Aelod. Mae'n rhywbeth, pan fyddaf yn siarad â Chyfoeth Naturiol Cymru, yr ydym yn cael sgyrsiau rheolaidd ar gyllid a'u gallu i gyflawni ar y materion hyn, ond wrth gwrs yr ydym, a byddwn yn parhau i fod, o dan bwysau gan Lywodraeth y DU cyn belled ag y maent yn dal i leihau'r gyllideb ganolog sy'n ganlyniad i hynny. Ond, rwyf wedi ymrwymo, fel y dywedais yn gynharach, i gynnal, cyn belled ag y bo modd, ein—. Mae rheoli o gwmpas perygl llifogydd ac arfordirol yn un o flaenoriaethau'r Llywodraeth hon.

16:08 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for your statement today, Minister. The programme is also known as the flood and coast investment programme, and investment is, indeed, paramount. Planning ahead; fixing the roof while the rain holds off, if you like. The Welsh Government has done that and you've mentioned the £245 million invested over the life of this Assembly and a further £150 million in key schemes from 2018. That is hugely important, because communities up and down the country, on the coast and inland have, indeed, benefited from that.

Rwy'n diolch i chi am eich datganiad heddiw, Weinidog. Mae'r rhaglen yn cael ei hadnabod hefyd fel y rhaglen fuddsoddi llifogydd a'r arfordir, ac mae buddsoddiad, yn wir, o'r pwys mwyaf. Cynllunio ymlaen llaw; trwsio'r to tra bod y glaw yn cadw draw, os mynnwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud hynny ac rydych wedi crybwyll y £245 miliwn a fuddsoddwyd yn ystod oes y Cynulliad hwn a £150 miliwn ychwanegol mewn cynlluniau allweddol o 2018 ymlaen. Mae hynny'n hynod o bwysig, gan fod cymunedau ar hyd a lled y wlad, ar yr arfordir ac ar y tir, yn wir, wedi elwa o hynny.

It is the case that more than 300 homes were flooded in the storms on the new year before last; however, NRW estimates that less than 1 per cent of properties at risk of flooding actually did so. Our resilience was down to years of investment in and maintenance of flood defences. But, of course, that's cold comfort to people and places that were affected by flooding. Some have already, early this autumn, been affected in my region. So, I do welcome the development of a national flood-risk index and I hope that it will ensure future investment reaches the places that need it most.

Mae'n wir bod mwy na 300 o gartrefi wedi dioddef llifogydd yn y stormydd a gafwyd adeg y flwyddyn newydd cyn diwethaf; fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif bod llai nag 1 y cant o eiddo mewn perygl o lifogydd mewn gwirionedd wedi dioddef. Roedd ein gwytnwch yn ganlyniad blynyddoedd o fuddsoddi mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd, eu cynnal a'u cadw. Ond, wrth gwrs, nid yw hynny fawr o gysur i'r bobl a'r lleoedd a gafodd eu heffeithio gan lifogydd. Mae rhai eisoes, ar ddechrau'r hydref hwn, wedi cael eu heffeithio yn fy rhanbarth i. Felly, rwy'n croesawu datblygiad mynegai risg llifogydd cenedlaethol a gobeithio y bydd yn sicrhau bod buddsoddiad yn y dyfodol yn cyrraedd y lleoedd sydd ei angen fwyaf.

But there is one point that I want to make and that is that water is a natural resource and one that we shouldn't waste. In May, we did discuss in this Chamber the water strategy for Wales and there is, in my opinion, scope to dovetail our policies to reserve water with those to prevent flooding. Instead of funnelling storm water away, for example, we could, perhaps, be creative and devise ways of using it where we can. Perhaps there is a way to build that sort of thinking into the new index, Minister.

Ond mae un pwynt yr wyf am ei wneud a hynny yw bod dŵr yn adnodd naturiol ac yn un na ddylem ei wastraffu. Ym mis Mai, gwnaethom drafod yn y Siambr hon y strategaeth dŵr ar gyfer Cymru ac, yn fy marn i, mae lle i ymblethu ein polisïau i gadw dŵr gyda'r rhai i atal llifogydd. Yn hytrach na sianelu dŵr storm i ffwrdd, er enghraifft, gallem, efallai, fod yn greadigol a dyfeisio ffyrdd o'i ddefnyddio lle y gallwn. Efallai bod modd adeiladu meddylfryd o'r math hwn o fewn y mynegai newydd, Weinidog.

Talking about building, I could hardly leave this debate, Minister, without asking you to look at surface water mitigation. You would only expect it of me, and I want to deliver what you do expect of me, because I do believe that, in this case, prevention is better than bailing out a property.

Wrth siarad am adeiladu, prin y gallwn i adael y ddadl hon, Weinidog, heb ofyn i chi edrych ar leihau dŵr wyneb. Byddech yn disgwyl hynny gennyf, ac rwyf gyflawni'r hyn yr ydych yn ei ddisgwyl gennyf gan fy mod yn credu, yn yr achos hwn, bod atal yn well na gwagio dŵr allan o eiddo.

16:11

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her question. Again, I thank the Member for bringing a delegation to visit me from Fairbourne, and, again, a useful meeting to understand exactly what happens in the constituency and how they feel about those implications. It was a really useful meeting. I hope that they got as much out of that meeting as I did.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Unwaith eto, rwy’n diolch i'r Aelod am ddod â dirprwyaeth i ymweld â mi o’r Friog, ac, unwaith eto, am gyfarfod defnyddiol i ddeall yn union beth sy'n digwydd yn yr etholaeth a sut maent yn teimlo am y goblygiadau hynny. Roedd yn gyfarfod defnyddiol iawn. Rwy’n gobeithio eu bod wedi cael cymaint allan o'r cyfarfod hwnnw ag y gwnes innau.

The Member raises the issue of surface water. Again, that was no surprise either. Of course, the Member continues to do that. It is something that I am conscious of and it links into her previous comments around water preservation. I think we have to be much more clever in the way we use our natural resources and not just expose it to the sea, but, actually ask: are there any clever solutions? There are many examples across the world, in fact, of how we could do things better, sometimes in housing and development design. I’ve seen underground storage facilities, et cetera, that could be used, so it’s something that’s not wasted on me in terms of your comments. It’s something, I think, we should think very carefully about for some of our developments for the future. Again, there is a flood scheme in the constituency of Keith Davies where Welsh Water have been involved in some water capture—a very innovative programme—and I think it’s something that we should think about replicating elsewhere across our communities in Wales.

Roedd yr Aelod yn codi'r mater o ddŵr wyneb. Unwaith eto, nid oedd hynny'n syndod chwaith. Wrth gwrs, mae’r Aelod yn parhau i wneud hynny. Mae'n rhywbeth rwy’n ymwybodol ohono ac mae'n cysylltu i mewn i'w sylwadau blaenorol o gwmpas cadwraeth dŵr. Rwy’n meddwl bod yn rhaid i ni fod yn llawer mwy clyfar yn y ffordd yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau naturiol ac nid dim ond ei wneud yn agored i'r môr, ond, mewn gwirionedd gofyn: a oes unrhyw atebion clyfar? Mae nifer o enghreifftiau ar draws y byd, mewn gwirionedd, o sut y gallem wneud pethau'n well, weithiau mewn dylunio tai a datblygiad. Rwyf wedi gweld cyfleusterau storio dan y ddaear, et cetera, y gellid eu defnyddio, felly mae'n rhywbeth nad yw wedi ei wastraffu arnaf o ran eich sylwadau. Mae'n rhywbeth, rwy'n credu, y dylem feddwl yn ofalus iawn amdano ar gyfer rhai o'n datblygiadau ar gyfer y dyfodol. Unwaith eto, mae cynllun llifogydd yn etholaeth Keith Davies lle mae Dŵr Cymru wedi bod yn ymwneud â rhywfaint o gadw dŵr—rhaglen arloesol iawn—ac rwy’n credu ei fod yn rhywbeth y dylem feddwl am ei ailadrodd mewn mannau eraill ar draws ein cymunedau yng Nghymru.

But, of course, this is all couched in the issue around the finances we have available at the time. We have to take that risk-based approach to where we make our investments so that they have the best value. I also recognise it’s little comfort to the people who are involved or protected in that arena. One person flooded is too many, but we are trying our best to encourage clever solutions to the small investment that we make, with nearly 9,000 properties being protected in Wales.

Ond, wrth gwrs, mae hyn yn cael ei fynegi i gyd yn y mater o amgylch y cyllid sydd ar gael ar y pryd. Mae'n rhaid i ni gymryd y dull seiliedig ar risg i ble yr ydym yn gwneud ein buddsoddiadau er mwyn iddynt gael y gwerth gorau. Rwyf hefyd yn cydnabod nad yw fawr o gysur i'r bobl sy'n ymwneud â neu sy’n cael eu hamddiffyn yn yr ardal honno. Mae un person yn dioddef llifogydd yn ormod, ond rydym yn ceisio ein gorau i annog atebion clyfar i'r buddsoddiad bach a wnawn, gyda bron i 9,000 o gartrefi yn cael eu hamddiffyn yng Nghymru.

16:12

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

Thank you, Minister, for the statement today.

I join others in welcoming the clear benefits that have been delivered through the flood and coastal erosion-risk management programme and, indeed, in joining others also in acknowledging the critical role of European Union funding in safeguarding communities the length and breadth of Wales from flood risk. It is important to emphasise just how wide-ranging the impacts of flooding and coastal erosion can be—too wide-ranging to be covered in any single statement. I’d like to highlight just a couple that have not been fully acknowledged so far today.

Ymunaf ag eraill i groesawu'r manteision amlwg sydd wedi cael eu cyflwyno drwy’r rhaglen rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol ac, yn wir, i ymuno ag eraill hefyd i gydnabod rôl hollbwysig cyllid yr Undeb Ewropeaidd i ddiogelu cymunedau ar hyd a lled Cymru rhag risg lifogydd. Mae'n bwysig pwysleisio pa mor eang y gall effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol fod—yn rhy-eang i gael eu cynnwys mewn unrhyw ddatganiad sengl. Hoffwn dynnu sylw at ddim ond cwpl sydd heb eu cydnabod yn llawn hyd yn hyn heddiw.

One is the benefit that the coastal risk management programme can have in reducing both road traffic and rail disruption. I'd be interested to know from the Minister the extent to which the programme has served to reduce the disruption that localised flooding can cause on our roads and railways. I would also like to know whether any assessment has been made of how it has impacted on the level of spending by Welsh Government, by local authorities, NRW and emergency services in such extreme instances.

Un yw'r fantais y gall y rhaglen rheoli risg arfordirol ei chael o ran lleihau traffig ar y ffyrdd a tharfu ar y rheilffyrdd. Byddai gennyf ddiddordeb i wybod gan y Gweinidog i ba raddau y mae'r rhaglen wedi gwasanaethu i leihau'r tarfu y gall llifogydd lleol ei achosi ar ein ffyrdd a'n rheilffyrdd. Byddwn hefyd yn hoffi gwybod a oes unrhyw asesiad wedi'i wneud o sut y mae wedi effeithio ar y lefel o wariant gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a gwasanaethau brys mewn achosion eithafol o'r fath.

Coastal erosion is, effectively, permanent and irreversible, generally meaning that future uses of that land or property are lost. Decisions, therefore, about investment versus no investment must stem from a realistic evaluation of the option as to whether or not to pursue active intervention. In this context, does the Minister feel that the correct balance is currently being struck between deciding to intervene or to do nothing, which, effectively, involves a strategic withdrawal from individual locations and small settlements that are at risk?

Mae erydu arfordirol, yn effeithiol, yn barhaol ac yn anghildroadwy, sy'n golygu yn gyffredinol bod defnydd y tir neu'r eiddo hwnnw yn y dyfodol yn cael ei golli. Rhaid i benderfyniadau, felly, ynghylch buddsoddiad yn erbyn dim buddsoddiad ddeillio o werthusiad realistig o'r opsiwn o ran p'un ai i fynd ar drywydd ymyrraeth weithredol ai peidio. Yn y cyd-destun hwn, a yw'r Gweinidog yn teimlo bod y cydbwysedd cywir yn cael ei daro ar hyn o bryd rhwng penderfynu i ymyrryd neu i wneud dim byd, sydd, yn effeithiol, yn cynnwys tynnu'n ôl yn strategol o leoliadau unigol ac aneddiadau bychain sydd mewn perygl?

I know that there were issues last year relating to the local flood-risk management strategies and the fact that some lead local flood authorities had not been able to meet the deadline for setting those local strategies. To what extent have these difficulties now been overcome and how well, Minister, do you feel that they are now working?

Gwn fod materion y llynedd yn ymwneud â strategaethau rheoli risg llifogydd lleol a'r ffaith nad oedd rhai awdurdodau llifogydd lleol arweiniol wedi gallu cwblhau mewn pryd ar gyfer pennu'r strategaethau lleol hynny. I ba raddau y mae'r anawsterau hyn wedi cael eu goresgyn yn awr a pha mor dda, Weinidog, yr ydych yn teimlo eu bod yn gweithio yn awr?

Given the level of clear felling of infected trees that has occurred over recent months, due to the Phytophthora outbreak across Wales, has the flood and coastal erosion-risk management programme looked at prioritising expanding forestry cover as a means of protecting against flooding? This particularly has been advocated by Coed Cadw.

O ystyried y lefel o gwympo coed heintiedig sydd wedi digwydd dros y misoedd diwethaf, yn sgil yr achosion o Phytophthora ar draws Cymru, a yw'r rhaglen rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol wedi edrych ar flaenoriaethu ehangu gorchudd coedwigaeth fel modd o amddiffyn rhag llifogydd? Mae hyn yn arbennig wedi cael ei argymell gan Coed Cadw.

Minister, shelter belts are also used for not only improving flood protection but also for enhancing biodiversity and, at the same time, affording shelter for livestock in inclement weather. With these multiple benefits in mind, is there scope for incentivising further farmers and landowners to develop such shelter belts?

Weinidog, mae lleiniau cysgodi hefyd yn cael eu defnyddio nid yn unig i wella amddiffyn rhag llifogydd, ond hefyd ar gyfer gwella bioamrywiaeth ac, ar yr un pryd, gan roi cysgod i dda byw mewn tywydd garw. Gyda'r manteision lluosog mewn golwg, a oes lle i gymell ffermwyr a thirfeddianwyr yn bellach i ddatblygu lleiniau cysgodi o'r fath?

Finally, I welcome the policy intention of the Environment (Wales) Bill in establishing a flood and coastal erosion committee. Given the concerns raised about the dual accountability of Natural Resources Wales and the existing committee, and the overlap in their respective remits, I believe that it is important to have a single body providing an independent voice for flood-risk management for Wales. In this context, can the Minister reassure this Chamber that the committee will be constituted in such a way as to advise Welsh Ministers on the wider risks and benefits in a truly independent fashion, focusing not just on the work of NRW but on the full range of flood management bodies in Wales, including taking full account of local knowledge?

Yn olaf, rwy'n croesawu bwriad polisi Bil Amgylchedd (Cymru) i sefydlu pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol. O ystyried y pryderon a godwyd ynghylch atebolrwydd deuol Adnoddau Naturiol Cymru a'r pwyllgor presennol, a'r gorgyffwrdd yn eu cylchoedd gwaith eu hunain, rwy'n credu ei bod yn bwysig cael un corff sy'n darparu llais annibynnol ar gyfer rheoli risg llifogydd ar gyfer Cymru. Yn y cyd-destun hwn, a all y Gweinidog roi sicrwydd i'r Siambr hon y bydd y pwyllgor yn cael ei gyfansoddi yn y fath fodd ag i gynghori Gweinidogion Cymru ar y risgiau a'r manteision ehangach mewn modd gwirioneddol annibynnol, gan ganolbwyntio nid yn unig ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru ond ar yr ystod lawn o gyrff rheoli llifogydd yng Nghymru, gan gynnwys cymryd ystyriaeth lawn o wybodaeth leol?

16:16 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his key points. The issue around coastal and rail disruption or significant infrastructure is something that we've had a discussion with the Minister for enterprise on with regard to planning considerations and future investments and risks already involved in that process. It's something that—. Many years ago we didn't consider that some of our rail infrastructure now runs through the heart of some floodplains—the main route for disruption in terms of flood management. But, if the rail line were struck by flooding—as we've seen, actually, in some areas where there are long-term devastating effects to the integrated transport programme. It is something that we are very mindful of.

Diolch i'r Aelod am ei bwyntiau allweddol. Mae'r mater o amgylch tarfu arfordirol a rheilffyrdd neu seilwaith o bwys yn rhywbeth yr ydym wedi cael trafodaeth arno gyda'r Gweinidog menter o ran ystyriaethau cynllunio a buddsoddiadau yn y dyfodol a'r risgiau sydd eisoes yn y broses honno. Mae'n rhywbeth sydd—. Flynyddoedd lawer yn ôl, ni wnaethom ystyried bod rhywfaint o'n seilwaith rheilffyrdd bellach yn rhedeg drwy ganol rhai gorlifdiroedd—y prif lwybr ar gyfer tarfu o ran rheoli llifogydd. Ond, pe byddai'r rheilffordd yn cael ei tharo gan lifogydd—fel yr ydym wedi gweld, mewn gwirionedd, mewn rhai ardaloedd lle mae effeithiau dinistriol yn y tymor hir i'r rhaglen drafnidiaeth integredig. Mae'n rhywbeth yr ydym yn ymwybodol iawn ohono.

It is with regret, though, that I cannot say that—. No matter how much money we have to invest in the programme, in some areas we just will not be able to hold back the sea or coastal erosion. That's why we are looking very carefully to the areas that do need managed retreat. That's an awful thing to suggest but, actually, some people will lose their homes, on the basis that we cannot stop the flood water coming in or coming underneath the property. It is something on which we are working sensitively with local authorities to try to mitigate these issues in the longer term. I think that the longer that you have this programme, the easier it could be for communities to reconsider what their boundaries should or shouldn't be for the future.

Rwy'n gofidio, fodd bynnag, na allaf ddweud bod—. Ni waeth faint o arian sydd gennym i'w fuddsoddi yn y rhaglen, mewn rhai ardaloedd ni fyddwn yn gallu atal y môr neu erydu arfordirol. Dyna pam yr ydym yn edrych yn ofalus iawn ar yr ardaloedd sydd angen cilio a reolir. Mae hynny'n beth ofnadwy i'w awgrymu, ond, mewn gwirionedd, bydd rhai pobl yn colli eu cartrefi, ar y sail na allwn atal y llifogydd rhag dod i mewn neu ddod o dan yr eiddo. Mae'n rhywbeth yr ydym yn gweithio'n sensitif arno gydag awdurdodau lleol i geisio lliniaru'r materion hyn yn y tymor hwy. Credaf po hiraf y mae'r rhaglen hon gennych, yr hawsaf y gallai fod i gymunedau ailystyried beth ddylai neu na ddylai eu ffiniau fod ar gyfer y dyfodol.

The Member raises a really important programme around forestry and shelter belts. I share his views around the opportunities that we have for making our investments—clever investments—about planting trees for the future. I think we've been chasing targets about investment, where we're just planting trees, and we should be using much more intelligent views on what we plant and where we plant for the reasons that the Member alluded to in terms of their multiple benefits.

Mae'r Aelod yn codi rhaglen wirioneddol bwysig ynghylch lleiniau coedwigaeth a chysgodi. Rwy'n rhannu ei farn ynghylch y cyfleoedd sydd gennym ar gyfer gwneud ein buddsoddiadau—buddsoddiadau clyfar—ynghylch plannu coed ar gyfer y dyfodol. Rwy'n credu ein bod wedi bod yn mynd ar drywydd targedau ynghylch buddsoddi, lle'r ydym yn plannu coed yn unig, a dylem fod yn defnyddio barn llawer mwy deallus ar yr hyn yr ydym yn ei blannu a lle yr ydym yn plannu am y rhesymau y soniodd yr Aelod amdanynt o ran eu buddion lluosog.

I'm grateful for the Member's views on the flood and coastal Wales committee. It is something that is going through scrutiny at the moment. I listened to his points very carefully, and we'll consider that as we go through the scrutiny process.

Rwy'n ddiolchgar am farn yr Aelodau ar y pwyllgor llifogydd ac arfordirol Cymru. Mae'n rhywbeth sy'n mynd drwy graffu ar hyn o bryd. Gwrandewais ar ei bwyntiau yn ofalus iawn, a byddwn yn ystyried hynny wrth inni fynd drwy'r broses graffu.

16:18 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, we visited Ilan in Rhydyfelin, in my constituency, earlier this week. You received a very, very warm welcome from residents there. I'm not sure it's a welcome that you get everywhere you go, but certainly the residents were very, very pleased to see you, and also to congratulate Welsh Government and thank Welsh Government for transforming the lives of their community. You heard from residents who actually said that they could now sleep peacefully. When it rained, the flooding in Ilan was periodic; it occurred every couple of years. It absolutely devastated that particular community. The particular type of flood alleviation programme, by means of creating pools, with a £3.5 million pot of money from European money, local council money from Rhondda Cynon Taf, and from Welsh Government, has transformed that particular community. Are there lessons to be learned about the way in which that was done, not only the model that is being used, but the actual partnership that was formed between Welsh Government, the council, local representatives and the local residents that has actually enabled that programme to go forward? Despite even heavier rain than we've had in the past that resulted in flooding, there's been no flooding in the Ilan area of Rhydyfelin since the Welsh Government completed that programme.

Weinidog, buom yn ymweld â Llan yn Rhydyfelin, yn fy etholaeth, yn gynharach yr wythnos hon. Derbynioch groeso cynnes iawn, iawn gan drigolion yno. Dwi ddim yn siŵr a yw'n groeso yr ydych yn ei gael ym mhobman, ond yn sicr roedd y trigolion yn falch iawn, iawn o'ch gweld chi, a hefyd i longyfarch Llywodraeth Cymru a diolch i Lywodraeth Cymru am drawsnewid bywydau eu cymuned. Clywsoch gan drigolion a ddywedodd mewn gwirionedd y gallent yn awr gysgu'n dawel. Pan oedd yn bwrw glaw, roedd y llifogydd yn Ilan yn gyfnodol; digwyddodd bob cwpl o flynyddoedd. Distrywiodd y gymuned arbennig honno. Mae'r math penodol o raglen lliniaru llifogydd, drwy greu pyllau, gyda phot gwerth £3.5 miliwn o arian o arian Ewropeaidd, arian y cyngor lleol gan Rhondda Cynon Taf, ac oddi wrth Lywodraeth Cymru, wedi trawsnewid y gymuned arbennig. A oes gwersi i'w dysgu am y ffordd y mae hynny yn cael ei wneud, nid yn unig y model sy'n cael ei ddefnyddio, ond y bartneriaeth wirioneddol a ffurfiwyd rhwng Llywodraeth Cymru, y cyngor, cynrychiolwyr lleol a'r trigolion lleol sydd mewn gwirionedd wedi galluogi i'r rhaglen honno fynd yn ei blaen? Er gwaethaf y glaw hyd yn oed yn drymach nag yr ydym wedi ei gael yn y gorffennol a arweiniodd at lifogydd, ni fu unrhyw lifogydd yn ardal Ilan Rhydyfelin ers i Lywodraeth Cymru gwblhau'r rhaglen honno.

16:19 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his questions, but also thank him for being present at the visit. He's a very popular Member, may I say, with the community of Ilan, and it wasn't set up, either—for Members who weren't able to attend. They were real people from his constituency that were now able to sleep at night, saying that, when the rain came of an evening, they'd be up and looking out the windows, wondering whether they were going to be evacuated, and that's a terrible situation for anybody to have to live with. But I'm very grateful that we were able to help, with partnership—and that was the key there, making sure all the agencies came together to look at what the proposals were. And the outcome has delivered a very positive programme for that community—actually, a relatively small investment with significant benefits for that flash flooding. We have learned some lessons around that, and I am looking at how we can spread that, through NRW and ourselves, with other communities, to make sure we get some positive benefits, as seen in the Member's constituency.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau, ond diolch hefyd iddo am fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad. Mae'n Aelod poblogaidd iawn, a gaf i ddweud, gyda chymuned Ilan, ac ni chafodd ei drefnu, ychwaith—ar gyfer Aelodau nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Roeddent yn bobl go iawn o'i etholaeth a oedd bellach yn gallu cysgu yn y nos, yn dweud, pan ddaeth y glaw gyda'r nos, byddent ar eu traed ac yn edrych allan drwy'r ffenestri, yn ansicr a fyddent yn mynd i gael eu symud oddi yno, ac mae hynny'n sefyllfa ofnadwy i unrhyw un orfod byw gyda hi. Ond rwy'n ddiolchgar iawn ein bod wedi gallu helpu, gyda phartneriaeth—a dyna oedd yr allwedd yno, gwneud yn siŵr y daeth yr holl asiantaethau at ei gilydd i edrych ar beth oedd y cynigion. Ac mae'r canlyniad wedi cyflwyno rhaglen gadarnhaol iawn ar gyfer y gymuned honno—mewn gwirionedd, buddsoddiad cymharol fach gyda manteision sylweddol ar gyfer y fflachlifoedd hynny. Rydym wedi dysgu rhai gwersi ynghylch hynny, ac rwy'n edrych ar sut y gallwn ledaenu hynny, drwy Gyfoeth Naturiol Cymru a ni'n hunain, gyda chymunedau eraill, i wneud yn siŵr ein bod yn cael rhai buddion cadarnhaol, fel y gwelir yn etholaeth yr Aelod.

16:21 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel un arall a oedd yn awyddus iawn i adolygiad yr arfordir ddigwydd yn gyflym ar ôl llifogydd difrifol 2013-14, a gaf i longyfarch Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ar eu llwyddiant yn sicrhau cyllid o'r Undeb Ewropeaidd ac yn gweithredu cymaint o'r argymhellion yn yr adroddiad yna? A gaf I hefyd ddiolch iddynt am y cydweithrediad effeithiol sydd wedi bod gyda Network Rail, a phwyso ar y Gweinidog I sicrhau bod hynny yn parhau nid yn unig ar arfodir rheilffyrdd y Cambria, ond hefyd, wrth gwrs, yn y gogledd, lle mae'r prif reilffordd rhwng de a gogledd yn allweddol?

As another who was very eager for the review of our coastal areas to happen swiftly after the very serious floods of 2013-14, may I congratulate NRW and the Welsh Government on their success in ensuring European funding and implementing so many of the recommendations made in that report? May I also give thanks to them for the effective collaboration that there's been with Network Rail, and urge the Minister to ensure that that continues not only on the coast of the Cambrian line but also, of course, in north Wales, where the main line between north and south is crucially important?

A gaf i ddiolch iddo hefyd am benodi ymchwilydd yn Fairbourne ac am gydweithio mor agos â'r awdurdod lleol? Mae Cyngor Gwynedd wedi dangos sensitifrwydd arbennig mewn ardaloedd sy'n cael eu heffeithio yn andwyol gan fygythiad llifogydd o'r môr, nid yn unig yn Fairbourne, ond ym Mhwllheli a llefydd eraill, ac rwy'n gobeithio y bydd y gwaith yna yn parhau. Ni fyddai'n iawn I mi anghofio llifogydd yn codi o afonydd. Rwyf wedi edmygu gweld y gwaith yn mynd yn ei flaen yn Nolgellau, fel un a ddioddefodd yn y gorffennol gan lifogydd o'r afon Wnion yn achlysurol, ac rwy'n falch iawn bod y gwaith yma yn llwyddiannus.

May I also thank him for appointing a researcher in Fairbourne and for working so closely with the local authority? Gwynedd Council has shown great sensitivity in areas detrimentally affected by the risk of coastal flooding, not only in Fairbourne, but in Pwllheli and elsewhere, and I hope that that work can continue. It wouldn't be right for me to forget fluvial flooding. I have admired the work ongoing in Dolgellau, as one who has suffered in the past as a result of flooding from the River Wnion occasionally, and I'm very pleased that this work is successful.

Ond rwyf am ofyn am un peth arall iddo, i sicrhau bod y gwaith sydd wedi ymddangos yn llwyddiannus nid jest ar yr afon yma, ond yr afon Conwy hefyd—bod y gwersi yn cael eu dysgu at y dyfodol o ran beth sydd yn bosib i'w wneud, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd o lifogydd anodd, lle mae'r gwaith o ddylunio'r cynllun yn un sydd yn effeithiol ac yn gallu cael canlyniadau.

But I do want to ask one further question to him, to ensure that the work that appears to have been successful not only on this river, but also the River Conwy—that the lessons are learned for the future in terms of what is possible, even in difficult flood situations, where the work of designing the plan is effective and can have real outcomes.

16:22

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his contribution also. He's right regarding the issue. I think Mick Antoniw's question was to the point, about the partnership deal with Network Rail, local authorities, Welsh Government and NRW all coming together to recognise the issue and how important the network is. Actually, with the power of natural resources, those forces upon us, we have to work collectively to ensure that we can get a common aim.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad hefyd. Roedd yn iawn ynghylch y mater hwn. Rwy'n credu fod cwestiwn Mick Antoniw yn berthnasol, am y fargen partneriaeth â Network Rail, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i gyd yn dod at ei gilydd i gydnabod y mater a pha mor bwysig yw'r rhwydwaith. Mewn gwirionedd, gyda grym adnoddau naturiol, y grymoedd hynny arnom, mae'n rhaid i ni gydweithio i sicrhau y gallwn gael nod cyffredin.

I must pay tribute to Gwynedd Council in the way they have acted with regard to Fairbourne. They're always seen to take forward a very difficult discussion with residents. Working in partnership, we're grateful for the opportunity to fund a programme to help that community moving forward.

Mae'n rhaid i mi dalu teyrnged i Gyngor Gwynedd yn y ffordd y maent wedi gweithredu mewn perthynas â'r Friog. Fe'u gwelir bob amser yn datblygu trafodaeth anodd iawn gyda thrigolion. Gan weithio mewn partneriaeth, rydym yn ddiolchgar am y cyfle i ariannu rhaglen i helpu'r gymuned symud ymlaen.

Dolgellau: the Member is right to raise the positive impact it's had, protecting around 300 properties; £5.6 million of investment welcomed by that community. Things that the Member raises about, for the future, we're doing things differently in Wales—that's a good thing. We are the only place in the UK where we have flood wardens—very popular with communities and very trusted elements of the community—whereby people can raise issues and share the information that's much needed by communities in their time of need.

Dolgellau: mae'r Aelod yn iawn i godi'r effaith gadarnhaol y mae wedi'i chael, gan ddiogelu tua 300 eiddo; £5.6 miliwn o fuddsoddiad wedi'i groesawu gan y gymuned honno. Pethau y mae'r Aelod yn eu codi am, ar gyfer y dyfodol, rydym yn gwneud pethau'n wahanol yng Nghymru—mae hynny'n beth da. Ni yw'r unig le yn y Deyrnas Unedig lle mae gennym wardeniaid llifogydd—poblogaidd iawn gyda chymunedau ac elfennau yr ymddiriedir yn fawr yn y gymuned—lle gall pobl godi materion a rhannu'r wybodaeth sydd ei hangen yn fawr gan gymunedau yn eu hamser o angen.

In terms of finances, our investment in flood and coastal erosion has increased by over 27 per cent in real terms between 2011-12 and 2013-14, and between 2011-12 and 2014-15 we've maintained our NRW flood revenue budget at nearly £20 million. In contrast, over the same period, the Department for Environment, Food and Rural Affairs in England has cut the Environment Agency budget by nearly 23 per cent. We are committed to maintaining that. Flooding is a priority for this Government, and will continue so as we move forward.

O ran cyllid, mae ein buddsoddiad mewn llifogydd ac erydu arfordirol wedi cynyddu dros 27 y cant mewn termau real rhwng 2011-12 a 2013-14, a rhwng 2011-12 a 2014-15 rydym wedi cynnal ein cyllideb refeniw llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar bron i £20 miliwn. Ar y llaw arall, dros yr un cyfnod, mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Lloegr wedi torri cyllideb Asiantaeth yr Amgylchedd gan bron i 23 y cant. Rydym yn ymrwymedig i gynnal hynny. Mae llifogydd yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, a bydd yn parhau felly wrth i ni symud ymlaen.

16:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And, finally, Jenny Rathbone.

Ac, yn olaf, Jenny Rathbone.

16:24 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, three questions: one is that one of the main electricity substations serving Cardiff is on a floodplain, on Newport Road, on the corner of Colchester Avenue, and I just wondered if the money you were spending in Cardiff in any way addressed the risks to that major electricity substation, as it would cost an absolute fortune to move it, I'm sure—beyond any of the resources we currently have.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, tri chwestiwn: un yw bod un o'r prif is-orsafoedd trydan sy'n gwasanaethu Caerdydd ar orlifdir, ar Heol Casnewydd, ar gornel Rhodfa Colchester, ac rwy'n meddwl tybed os yw'r arian yr ydych yn ei wario yng Nghaerdydd mewn unrhyw ffordd yn mynd i'r afael â'r risgiau i'r is-orsaf drydan fawr honno, gan y byddai'n costio ffortiwn i'w symud, rwy'n siŵr—y tu hwnt i unrhyw adnoddau sydd gennym ar hyn o bryd.

Secondly, what role does the planting of trees play in your strategy for increasing community resilience, particularly fruit trees—that's my preference? As we know that, as climate becomes more extreme, we're going to have more winter rain, more flooding possibilities, and drier summers, there's a certain urgency to actually plant trees now while the climate is less extreme.

Yn ail, pa rôl sydd gan blannu coed yn eich strategaeth ar gyfer cynyddu gwytnwch cymunedol, yn enwedig coed ffrwythau—dyna yw fy newis? Fel y gwyddom, wrth i'r hinsawdd ddod yn fwy eithafol, rydym yn mynd i gael mwy o law yn y gaeaf, mwy o bosibiliadau o lifogydd, a hafau sychach, mae brys penodol mewn gwirionedd i blannu coed yn awr tra bod yr hinsawdd yn llai eithafol.

Thirdly, what powers do you have to direct planners to insist that new housing developments include the sort of resilience measures that have been adopted by Grangetown in Cardiff and Llanelli to ensure that grey water is recycled and that the streetscape is made of absorbent materials?

Yn drydydd, pa bwerau sydd gennych i gyfeirio cynllunwyr i fynnu bod datblygiadau tai newydd yn cynnwys y math o fesurau gwytnwch sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Grangetown yng Nghaerdydd a Llanelli i sicrhau bod dŵr llwyd yn cael ei ailgylchu, a bod y strydlun yn cael ei wneud o ddeunyddiau amsugnol?

16:26 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her questions. The first question I don't know the answer to, but I will write to the Member with regard to the substation on Newport Road. The Member, as have others, has raised the issue of tree planting. I said earlier on that I think that for far too long we've been chasing the programme of just planting trees. We have to be much more intelligent in the way we do this now, and we have to look at targeted areas and specific species particularly. We've had some success in St Asaph, where we've planted certain species on the banks there, which I know help with the resilience of the flood banks but also in terms of the water uptake from these particular species.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiynau. Nid wyf yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn cyntaf, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod o ran yr is-orsaf ar Heol Casnewydd. Mae'r Aelod, fel y gwnaeth eraill, wedi codi mater plannu coed. Dywedais yn gynharach fy mod yn meddwl ein bod am lawer rhy hir wedi bod yn mynd ar drywydd y rhaglen o blannu coed. Mae'n rhaid i ni fod yn llawer mwy deallus yn y ffordd yr ydym yn gwneud hyn yn awr, ac mae'n rhaid i ni edrych ar ardaloedd penodol a rhywogaethau penodol yn arbennig. Rydym wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn Llanelwy, lle'r ydym wedi plannu rhai rhywogaethau ar y glannau yno, y gwn sy'n helpu gyda gwytnwch yr argloddiau llifogydd, ond hefyd o ran y dŵr a gymerir gan y rhywogaethau penodol hyn.

TAN 15, we believe, is the appropriate vehicle for the planning process, but I think the Member raised it specifically about design and build. It is something that I've asked my team to look at in more detail, about what we would expect developers to consider when they're building new communities. Flood alleviation and the use of environmentally friendly aspects of development are one thing, but there are many other aspects, too. It's something that I will keep abreast of, but I will also, perhaps, write to the Member in terms of details of where we're up to at the current position.

TAN 15, yn ein barn ni, yw'r cyfrwng priodol ar gyfer y broses gynllunio, ond rwy'n meddwl bod yr Aelod wedi'i godi'n benodol am ddylunio ac adeiladu. Mae'n rhywbeth yr wyf wedi gofyn i fy nhîm edrych arno yn fanylach, am yr hyn y byddem yn disgwyl i ddatblygwyr ei ystyried pan fyddant yn adeiladu cymunedau newydd. Mae lliniaru llifogydd a'r defnydd o agweddau datblygiad sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn un peth, ond mae llawer o agweddau eraill, hefyd. Mae'n rhywbeth y byddaf yn cadw'n gyfredol ag o, ond byddaf hefyd, efallai, yn ysgrifennu at yr Aelod o ran manylion am ble'r ydym yn y sefyllfa bresennol.

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

16:27

## 6. Datganiad: Yr Argyfwng Ffoaduriaid

## 6. Statement: The Refugee Crisis

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 6 is a statement by the Minister for Communities and Tackling Poverty on the refugee crisis; I call Lesley Griffiths.

Mae eitem 6 yn ddatganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar yr argyfwng ffoaduriaid; galwaf ar Lesley Griffiths.

16:27

### Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

The Syrian refugee crisis has dominated the news in the past few months, and, on 17 September, the First Minister chaired a summit. I also addressed the summit, as the relocation of refugees to Wales falls within my ministerial portfolio. Immigration policy is not, of course, devolved to the Welsh Government. However, as a Government and a nation, we stand ready to welcome and support the refugees we are asked to resettle in our communities.

Mae argyfwng ffoaduriaid Syria wedi dominyddu'r newyddion yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, ac, ar 17 Medi, cadeiriodd y Prif Weinidog uwchgynhadledd. Siaradais innau â'r uwchgynhadledd hefyd, gan fod adleoli ffoaduriaid i Gymru yn dod o fewn fy mhortffolio gweinidogol. Nid yw polisi mewnfudo, wrth gwrs, wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fel Llywodraeth ac fel cenedl, rydym yn barod i groesawu a chefnogi'r ffoaduriaid y gofynnir i ni eu hailsefydlu yn ein cymunedau.

We all remember the haunting image of young Aylan Kurdi lying motionless on a Turkish beach. That single photograph has connected so many more people in Wales to the human tragedy of the Syrian conflict and its consequences. I've been humbled by the outpouring of compassion and generosity, epitomised by local donation-collection points, offers of spare rooms and the Refugees Welcome campaign.

Rydym i gyd yn cofio'r ddelwedd hunllefus o Aylan Kurdi ifanc yn gorwedd yn llonydd ar draeth Twrcaidd. Mae'r un ffotograff hwnnw wedi cysylltu cymaint mwy o bobl yng Nghymru i drychineb dynol gwrthdaro Syria a'i ganlyniadau. Cefais fy narostwng gan y ffrwd tosturi a haelioni, a gynrychiolir gan bwyntiau rhoddi-casglu lleol, cynnigion o ystafelloedd sbâr a'r ymgyrch Croeso i Ffoaduriaid.

I'm pleased to say that this spirit of unity and empathy also characterised the summit. Representatives from key public services and the third sector attended and signalled a clear willingness to work together to provide a positive welcome and a safe haven to Syrian refugees relocating to their new homes in Wales. A joint communiqué was published shortly after the summit, with a commitment to establish a new Welsh Government-led Syrian refugee taskforce to co-ordinate efforts to ensure Wales is ready to play its full part in the resettlement programme.

Rwy'n falch o ddweud bod yr ysbryd hwn o undod ac empathi hefyd wedi nodweddu'r uwchgynhadledd. Roedd cynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus allweddol a'r trydydd sector yn bresennol ac yn dangos parodrwydd clir i weithio gyda'i gilydd i ddarparu croeso cadarnhaol a hafan ddiogel i ffoaduriaid Syria sy'n adleoli i'w cartrefi newydd yng Nghymru. Cyhoeddwyd communiqué ar y cyd yn fuan ar ôl yr uwchgynhadledd, gydag ymrwymiad i sefydlu tasglu newydd ffoaduriaid Syria a arweinir gan Lywodraeth Cymru i gydlynu ymdrechion i sicrhau bod Cymru'n barod i chwarae ei rhan lawn yn y rhaglen ailsefydlu.

The UK Government has committed to accepting 20,000 Syrian refugees over five years, though a specific number for resettlement to Wales has yet to be agreed. I am not going to set an arbitrary number today as to how many refugees I believe we should be welcoming. Instead, I want to give the taskforce the time to properly assess the capacity we have, and we will then urge the UK Government to relocate the most appropriate number as swiftly as possible. It is for the UK Government to explain how they will help to support those who've already arrived in Europe.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i dderbyn 20,000 o ffoaduriaid Syria dros bum mlynedd, er bod y nifer penodol ar gyfer ailsefydlu i Gymru eto i gael ei gytuno. Nid wyf yn mynd i osod rhif mympwyol heddiw ynghylch faint o ffoaduriaid yr wyf yn credu y dylem fod yn eu croesawu. Yn lle hynny, rwyf am roi'r amser i'r tasglu i asesu'r capasiti sydd gennym, a byddwn wedyn yn annog Llywodraeth y DU i adleoli'r rhif mwyaf priodol cyn gynted ag y bo modd. Mae'n fater i Lywodraeth y DU i esbonio sut y byddant yn helpu i gefnogi'r rhai sydd wedi cyrraedd eisoes yn Ewrop.

I will chair the first meeting of the taskforce next month, which will bring together senior officials from local government, health and social care, education and housing, along with representatives from the third sector and others who were involved in the summit. The taskforce itself will be supported by an operations board, which comprises leaders and decision-makers across public services and the third sector. This board is chaired by Sarah McGill, director for communities, housing and customer services at the City of Cardiff Council, and it met for the first time yesterday. It has been tasked with mapping the capacity, expertise and availability of required services to ensure the resettlement of refugees can be achieved sustainably. To accomplish this, it will call on the expertise of its members, who will provide feedback from their existing organisations and identify any issues that may need resolution at the national level.

Byddaf yn cadeirio cyfarfod cyntaf y tasglu mis nesaf, a fydd yn dwyn ynghyd uwch swyddogion o lywodraeth leol, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a thai, ynghyd â chynrychiolwyr o'r trydydd sector ac eraill a oedd yn cymryd rhan yn yr uwchgynhadledd. Bydd y tasglu ei hun yn cael ei gefnogi gan fwrdd gweithrediadau, sy'n cynnwys arweinwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r bwrdd yn cael ei gadeirio gan Sarah McGill, cyfarwyddwr cymunedau, tai a gwasanaethau cwsmeriaid yng Nghyngor Dinas Caerdydd, ac fe gyfarfu am y tro cyntaf ddoe. Mae wedi cael y dasg o fapio capasiti, arbenigedd ac argaeledd gwasanaethau sydd eu hangen i sicrhau y gellir cyflawni adsefydlu ffoaduriaid mewn modd cynaliadwy. I gyflawni hyn, bydd yn galw ar arbenigedd ei aelodau, a fydd yn darparu adborth gan eu sefydliadau presennol ac yn nodi unrhyw faterion a allai fod angen eu datrys ar y lefel genedlaethol.

This structure of a taskforce supported by an operations board will allow us to assess our capability as a nation to respond as quickly as possible to support the most vulnerable Syrians living in UN camps in Lebanon, Turkey and Jordan. It is important to recognise many of those who will be relocated to Wales under the vulnerable persons relocation scheme are likely to be severely disabled or suffering significant and ongoing trauma, and they will be provided with five years of humanitarian protection to allow them to start to rebuild their lives. Unfortunately, the long-term and substantial needs of these individuals will make it difficult for them to be accommodated in the spare rooms of the generous households who have already come forward offering their support. Nevertheless, I do want to recognise the goodwill shown by the public as this tragedy has unfolded. Therefore, I asked the operations board to consider, as one of its first items of business yesterday, how members of the public can support our response. The board has decided communication is one of its priorities and will be working to ensure clear messages are given to the public so there is a full understanding of how the vulnerable persons relocation scheme will be implemented.

Bydd y strwythur hwn o dasglu a gefnogir gan fwrdd gweithrediadau yn ein galluogi i asesu ein gallu fel cenedl i ymateb cyn gynted â phosibl i gefnogi'r Syriaid fwyaf agored i niwed sy'n byw mewn gwersylloedd y Cenhedloedd Unedig yn Libanus, Twrci a’r Iorddonen. Mae'n bwysig cydnabod y bydd llawer o'r rhai a fydd yn cael eu hadleoli i Gymru o dan y cynllun adleoli pobl agored i niwed yn debygol o fod yn ddifrifol anabl neu'n dioddef trawma sylweddol a pharhaus, a darperir pum mlynedd o amddiffyniad dyngarol iddynt i ganiatáu iddynt ddechrau ailadeiladu eu bywydau. Yn anffodus, bydd anghenion hir dymor a sylweddol yr unigolion hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt gael eu lletya yn ystafelloedd sbâr yr aelwydydd hael sydd eisoes wedi dod ymlaen yn cynnig eu cefnogaeth. Er hynny, rwy’n awyddus i gydnabod yr ewyllys da a ddangosir gan y cyhoedd wrth i’r trychineb hwn ddatblygu. Felly, gofynnais i'r bwrdd gweithrediadau ystyried, fel un o'i eitemau cyntaf o fusnes ddoe, sut y gall aelodau o'r cyhoedd gefnogi ein hymateb. Mae'r bwrdd wedi penderfynu fod cyfathrebu yn un o'i flaenoriaethau a bydd yn gweithio i sicrhau bod negeseuon clir yn cael eu rhoi i'r cyhoedd fel bod dealltwriaeth lawn o sut y bydd y cynllun adleoli pobl sy'n agored i niwed yn cael ei weithredu.

It is essential we build upon the co-operation we have already seen amongst public authorities and the third sector in Wales. To achieve this, we will endeavour to ensure as many organisations as possible with expertise in working with refugees are included in our efforts, going forward. Inevitably, local authorities, health boards and social care providers will be involved, but we will not overlook the vital role which organisations such as the Welsh Refugee Council, the British Red Cross and faith groups can play in supporting the effective implementation of this scheme. I intend to discuss the nature of this involvement further with faith groups at the next faith communities forum, chaired by the First Minister, on 2 November as I am aware of the positive statements that have been made by many faith groups and third sector groups in Wales. I look forward to exploring this in more detail with them as matters develop.

Mae'n hanfodol ein bod yn adeiladu ar y cydweithrediad yr ydym eisoes wedi’i weld ymhlith awdurdodau cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod cymaint o sefydliadau â phosibl ag arbenigedd mewn gweithio gyda ffoaduriaid yn cael eu cynnwys yn ein hymdrechion, wrth symud ymlaen. Yn anochel, bydd awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr gofal cymdeithasol yn cymryd rhan, ond ni fyddwn yn anghofio’r rôl hanfodol y gall sefydliadau megis Cyngor Ffoaduriaid Cymru, y Groes Goch Brydeinig a grwpiau ffydd ei chwarae wrth gefnogi gweithrediad effeithiol y cynllun hwn. Rwy’n bwriadu trafod natur y cyfranogiad hwn ymhellach â grwpiau ffydd yn y fforwm cymunedau ffydd nesaf, o dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, ar 2 Tachwedd gan fy mod yn ymwybodol o'r datganiadau cadarnhaol a wnaed gan lawer o grwpiau ffydd a grwpiau trydydd sector yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at archwilio hyn yn fanylach gyda hwy wrth i faterion ddatblygu.

I have also spoken with the UK Government's new Minister for Syrian refugees, Richard Harrington MP. I plan to remain in regular contact to ensure Welsh Government receive the clarification we need from the Home Office and other agencies. As has already been stated by the Welsh Local Government Association and others, we are still awaiting further details of the UK Government's new relocation scheme. Organisations need this clarity to adequately assess how many, and how quickly, refugees can be resettled within particular areas. I will continue to push for certainty on the issues to prevent obstacles to the full uptake of this scheme, as quickly as possible. I will provide Members with another update on the refugee crisis in November, after the first meeting of the taskforce.

Rwyf hefyd wedi siarad â Gweinidog newydd Llywodraeth y DU ar gyfer ffoaduriaid Syria, Richard Harrington AS. Rwy'n bwriadu cadw mewn cysylltiad rheolaidd er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr eglurhad sydd ei angen arnom gan y Swyddfa Gartref ac asiantaethau eraill. Fel y dywedwyd eisoes gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill, rydym yn dal i ddisgwyl rhagor o fanylion am gynllun adleoli newydd Llywodraeth y DU. Mae angen i sefydliadau gael yr eglurder hwn i asesu yn ddigonol faint, a pha mor gyflym, y gall ffoaduriaid gael eu hailsefydlu o fewn ardaloedd penodol. Byddaf yn parhau i bwyso am sicrwydd ar y materion i atal rhwystrau i'r defnydd llawn o'r cynllun hwn, cyn gynted ag y bo modd. Byddaf yn darparu diweddariad arall i Aelodau ar yr argyfwng ffoaduriaid ym mis Tachwedd, ar ôl y cyfarfod cyntaf y tasglu.

16:33

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I welcome this timely report. All the world at the moment is going through a serious crisis and the people of Syria are between the fire and the frying pan. So, there is an international obligation to help these refugees, and I admire the Minister for making this timely statement at this time and also I admire the way she is dealing with the vulnerable people in this report. But, five years' rehabilitation needs to be explored. How in five years people can readjust to this system; it must be much quicker, Minister, rather than taking much longer. Five years is a very long time for some people to adjust, especially the vulnerable people. They need quick adjustment to this country.

Weinidog, rwy'n croesawu'r adroddiad amserol hwn. Mae'r holl fyd ar hyn o bryd yn mynd drwy argyfwng difrifol ac mae pobl Syria rhwng y tân a'r badell ffrio. Felly, mae dyletswydd ryngwladol i helpu'r ffoaduriaid hyn, ac rwy'n edmygu'r Gweinidog am wneud y datganiad amserol hwn ar yr adeg hon a hefyd rwy'n edmygu'r ffordd y mae hi'n delio â phobl sy'n agored i niwed yn yr adroddiad hwn. Ond, mae angen archwilio adsefydlu pum mlynedd. Sut mewn pum mlynedd y gall pobl ail-addasu i'r system hon; rhaid iddo fod yn llawer cynt, Weinidog, yn hytrach na chymryd llawer mwy o amser. Mae pum mlynedd yn amser hir iawn i rai pobl i addasu, yn enwedig y bobl sy'n agored i niwed. Mae arnynt angen addasiad cyflym i'r wlad hon.

Minister, you've mentioned two points that also need clarification—the taskforce and operations board. It's just another tier of bureaucracy, or whatever it is, but Minister these people need quick settlement, quick comfort, and a quick easy life, wherever they come from. When things get better, I hope one day these people will go back, too, and there are some serious questions, which I will put forward one by one. How many Syrians do you think will be relocated in Wales? I know the UK Government is spending £1 billion—the biggest donor in this crisis in the world, and we should be proud of it. We also, as a Welsh community, like the Scottish and other nations—they're doing their share and we should not be leaving ourselves behind.

Weinidog, rydych wedi sôn am ddau bwynt sydd angen eglurhad hefyd—y tasglu a'r bwrdd gweithrediadau. Mae'n haen arall o fiwrocratiaeth, neu beth bynnag ydyw, ond Weinidog mae angen sefydlu cyflym, cysur cyflym, a bywyd hawdd cyflym ar y bobl hyn, o ble bynnag y maent yn dod. Pan fydd pethau'n mynd yn well, rwy'n gobeithio un diwrnod bydd y bobl hyn yn mynd yn ôl, hefyd, ac mae rhai cwestiynau difrifol, y byddaf yn eu cyflwyno o un i un. Faint o Syriaid ydych chi'n meddwl fydd yn cael eu hadleoli yng Nghymru? Rwy'n gwybod bod Llywodraeth y DU yn gwario £1 biliwn—y rhoddwr mwyaf yn yr argyfwng hwn yn y byd, a dylem fod yn falch ohoni. Rydym ni hefyd, fel cymuned Gymreig, fel yr Albanwyr a chenhedloedd eraill —maent hwy yn gwneud eu rhan ac ni ddylem fod yn gadael ein hunain ar ôl.

What period are we looking at in terms of these refugees being relocated in Wales? What period and timescale are you proposing? What proportion of these refugees will be settled in Newport, Swansea, Cardiff or Wrexham? Have you made any money available on that sort of—how are people going to be relocated in these areas? What action will the Government take to try to encourage other local authorities to share the burdens? What funding will be received from Westminster on this subject? I think the figure hasn't been mentioned, yet. I'm sure that you're meeting next month, Minister, but I'm sure some sort of number must be in the mind or at least in the pipeline for you to work out how much money will be given for that resettlement. Will the Minister issue guidance to help those local authorities, education authorities and housing services on how best to meet the needs of refugees? I know the third sector and the public sector are also involved in it. Charities are doing a great job and I am sure, Minister, we should not be behind on this.

Pa gyfnod sydd gennym mewn golwg o ran y ffoaduriaid hyn yn cael eu hadleoli yng Nghymru? Pa gyfnod ac amserlen ydych chi'n ei gynnig? Pa gyfran o'r ffoaduriaid hyn fydd yn cael eu sefydlu yng Nghasnewydd, Abertawe, Caerdydd neu Wrecsam? A ydych wedi sicrhau bod unrhyw arian ar gael ar y math hwnnw o—sut mae pobl yn mynd i gael eu hadleoli yn yr ardaloedd hyn? Pa gamau fydd y Llywodraeth yn eu cymryd i geisio annog awdurdodau lleol eraill i rannu beichiau? Pa gyllid fydd yn cael ei dderbyn gan San Steffan ar y pwnc hwn? Rwy'n credu nad yw'r ffigur wedi cael ei grybwyll, hyd yn hyn. Rwy'n siŵr eich bod yn cwrdd y mis nesaf, Weinidog, ond rwy'n siŵr bod yn rhaid bod rhyw fath o rif yn y meddwl neu o leiaf ar y gweill i chi weithio allan faint o arian fydd yn cael ei roi ar gyfer yr ailsefydlu. A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi canllawiau i helpu'r awdurdodau lleol, yr awdurdodau addysg a'r gwasanaethau tai hynny ar sut orau i ddiwallu anghenion ffoaduriaid? Rwy'n gwybod bod y trydydd sector a'r sector cyhoeddus hefyd yn cymryd rhan ynddo. Mae elusennau yn gwneud gwaith gwych, ac rwy'n siŵr, Weinidog, na ddylem fod ar ôl ar hyn.

16:36

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm slightly bemused by Mohammad Asghar's contribution. He clearly doesn't understand the scheme that's been put forward by the UK Government. This is a matter for the UK Government. The five years is what the UK Government has stated. They have said they're extending the vulnerable persons relocation scheme and, over the next five years, they are going to take 20,000. What we've done as a Government, which I think we should be praised for, and I think you did start by saying that, is say that we stand ready to take our share of those 20,000. I have to say there's not a great deal of information coming from the UK Government, unfortunately. My officials are in daily contact. I myself have spoken to the Minister several times. I spoke to Richard Harrington this morning. He was just about to fly off to Jordan for a couple of days and I will catch up again with him on Thursday. So, the five years is what the UK Government are saying. What we have said—and the First Minister has written to the Prime Minister—is they really need to get their act together a lot quicker and they need to be getting these people over to this country. So, I absolutely agree with you that we need to do it as quickly as possible. But, it is not an issue for us. We've said we stand ready to help as quickly as we can. It's a matter for the UK Government.

Rydw i'n synnu braidd gan gyfraniad Mohammad Asghar. Mae'n amlwg nad yw'n deall y cynllun sydd wedi cael ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU. Mae hwn yn fater i Lywodraeth y DU. Y pum mlynedd yw'r hyn y mae Llywodraeth y DU wedi'i ddatgan. Maent wedi dweud eu bod yn ymestyn y cynllun adleoli pobl agored i niwed a, dros y pum mlynedd nesaf, maent yn mynd i gymryd 20,000. Yr hyn yr ydym ni wedi'i wneud fel Llywodraeth, a chredaf y dylem gael ein canmol amdano, ac rwy'n meddwl eich bod wedi cychwyn drwy ddweud hynny, yw dweud ein bod yn barod i gymryd ein cyfran o'r 20,000 hynny. Rhaid i mi ddweud nad oes llawer iawn o wybodaeth yn dod gan Lywodraeth y DU, yn anffodus. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad yn ddyddiol. Rwyf i fy hun wedi siarad â'r Gweinidog sawl gwaith. Siaradais â Richard Harrington y bore yma. Roedd ar fin hedfan i ffwrdd i'r Iorddonen am gwpl o ddiwrnodau a byddaf yn dal i fyny eto gydag ef ar ddydd Iau. Felly, y pum mlynedd yw'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei ddweud. Yr hyn yr ydym ni wedi'i ddweud—ac mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog—yw bod angen iddynt mewn gwirionedd gael trefn ar bethau yn llawer cyflymach ac mae angen iddynt fod yn cael y bobl hyn drosodd i'r wlad hon. Felly, cytunaf yn llwyr â chi fod angen inni wneud hynny cyn gynted â phosibl. Ond, nid yw'n fater i ni. Rydym wedi dweud ein bod yn barod i helpu cyn gynted ag y gallwn. Mae'n fater i Lywodraeth y DU.

You asked me how many will be relocated to Wales and I said in my statement I can't pluck out a figure. What we're doing, what the summit did, what the operations board is doing and the taskforce, and I'll explain a bit more about that later, is now working with the local authorities to see what capacity we have. You asked about Newport, Swansea, Cardiff and Wrexham. Those are the four dispersal centres for asylum seekers in Wales. This is not about asylum seekers. The people coming from Syria will be given refugee status on humanitarian grounds. I'm very pleased to say that each of the 22 local authorities is happy to take Syrian refugees—all 22. When we had the summit last month, it was 17. It's now all 22. So, everybody right across Wales is happy to take some of the Syrian refugees under this extended scheme.

Gofynasoch imi faint fydd yn cael eu hadleoli i Gymru a dywedais yn fy natganiad na allaf dynnu ffigwr allan. Yr hyn yr ydym yn ei wneud, yr hyn a wnaeth yr uwchgynhadledd, yr hyn y mae'r bwrdd gweithrediadau yn ei wneud a'r tasglu, a byddaf yn esbonio ychydig mwy am hynny yn nes ymlaen, yn awr yw gweithio gyda'r awdurdodau lleol i weld pa gapasiti sydd gennym. Gofynasoch am Gasnewydd, Abertawe, Caerdydd a Wrecsam. Dyna'r pedair canolfan wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches yng Nghymru. Nid yw hyn yn ymwneud â cheiswyr lloches. Bydd y bobl sy'n dod o Syria yn cael statws ffoadur am resymau dyngarol. Rwy'n falch iawn o ddweud bod pob un o'r 22 awdurdod lleol yn barod i gymryd ffoaduriaid o Syria—pob un o'r 22. Pan gawsom yr uwchgynhadledd y mis diwethaf, roedd yn 17. Mae'n awr yn 22. Felly, mae pawb ar draws Cymru yn hapus i gymryd rhai o ffoaduriaid Syria dan y cynllun estynedig hwn.

Again, you ask about the funding. That's up to the UK Government. Those are the figures that we're currently working out and, as I say, not much information is, unfortunately, coming forward at the moment.

Unwaith eto, rydych yn gofyn am y cyllid. Mae hynny'n fater i Lywodraeth y DU. Dyna'r ffigurau yr ydym ar hyn o bryd yn eu hamcangyfrif ac, fel y dywedaf, nid oes llawer o wybodaeth, yn anffodus, ar gael ar hyn o bryd.

16:38

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Minister, for the statement. I wondered if she had any information about whether any of the refugees who will be coming to the UK and to Wales would be unaccompanied young refugees, because there have been a number of unaccompanied young refugees who have come here in the past and it has been, sometimes, difficult to get the appropriate placements and the appropriate treatment for them. So, I wondered if she had any information she could give us about that. She mentions how the people in Wales are generous and are ready to welcome refugees from Syria and other places, and I'd just like to draw her attention to and commend the efforts of one of my constituents: Sally Osborne who has, with friends, taken it upon herself to collect donations for refugees in Calais. She's even hired a driver and a van to take supplies of clothing and food to the camp, which I'm sure she will agree is vitally important now that the winter is coming. Although the refugees that will be coming to Wales will not be from Europe, I think we've still got that issue to deal with. So, I'd like to commend Sally Osborne's great efforts in this respect. And though, obviously, volunteers can only do so much, I appreciate the efforts that the Welsh Government is making with its taskforce.

Diolch yn fawr iawn, Weinidog, am y datganiad. Roeddwn yn meddwl tybed a oedd ganddi unrhyw wybodaeth am p'un a fydd unrhyw rai o'r ffoaduriaid a fydd yn dod i'r DU ac i Gymru yn ffoaduriaid ifanc ar eu pen eu hunain, oherwydd bu nifer o ffoaduriaid ifanc ar eu pen eu hunain sydd wedi dod yma yn y gorffennol ac mae wedi bod, weithiau, yn anodd i gael y lleoliadau priodol a'r driniaeth briodol ar eu cyfer. Felly, rwy'n meddwl tybed a oedd ganddi unrhyw wybodaeth y gallai hi ei rhoi i ni am hynny. Mae hi'n sôn am sut y mae pobl yng Nghymru yn hael ac yn barod i groesawu ffoaduriaid o Syria a mannau eraill, a hoffwn dynnu ei sylw at a chanmol ymdrechion un o fy etholwyr: Sally Osborne sydd, gyda ffrindiau, wedi mynd ati i gasglu rhoddion ar gyfer ffoaduriaid yn Calais. Mae hi hyd yn oed wedi llogi gyrrwr a fan i gymryd cyflenwadau o ddillad a bwyd i'r gwersyll, yr wy'n siŵr y bydd yn cytuno fydd yn hanfodol bwysig yn awr fod y gaeaf yn dod. Er na fydd y ffoaduriaid a fydd yn dod i Gymru yn dod o Ewrop, rwy'n credu bod y mater hwnnw yn dal gennym i ddelio ag o. Felly, hoffwn ganmol ymdrechion mawr Sally Osborne yn hyn o beth. Ac er, yn amlwg, mai dim ond hyn a hyn y gall gwirfoddolwyr ei wneud, rwy'n gwerthfawrogi ymdrechion y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'i thasglu.

16:40

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Julie Morgan. Absolutely; it's great to hear of these individual cases such as your constituent, Sally Osborne. As I say, right across Wales we've seen local collection points, for instance. And at the summit, we had the British Red Cross present and they were completely blown away by the amount of voluntary work and charity work that people were undertaking. So, I think it is fantastic to see right across Wales.

Diolch i Julie Morgan. Yn hollol; mae'n wych clywed am yr achosion unigol hyn, fel eich etholwr, Sally Osborne. Fel rwy'n dweud, ar hyd a lled Cymru, rydym wedi gweld mannau casglu lleol, er enghraifft. Ac yn yr uwchgynhadledd, roedd y Groes Goch Brydeinig yn bresennol ac roeddent wedi syfrdannu gyda faint o waith gwirfoddol a gwaith elusennol y mae pobl yn ei wneud. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn wych gweld hynny ledled Cymru.

Julie Morgan asked about unaccompanied refugee children and, clearly, we believe that there will be a significant number coming forward. And I know the UK Government have stated there'll be a separate scheme put in place for provision for Syrian refugee children but, again, we haven't got any specific details about it at the moment. So, that's another aspect that I will be pushing the Syrian refugee Minister on.

Gofynnodd Julie Morgan am blant ffoaduriaid ar eu pen eu hunain ac, yn amlwg, rydym yn credu y bydd nifer sylweddol yn dod ymlaen. Ac rwy'n gwybod bod Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd cynllun ar wahân ar waith ar gyfer darpariaeth i blant sy'n ffoaduriaid o Syria, ond, unwaith eto, nid ydym wedi cael unrhyw fanylion penodol am y peth ar hyn o bryd. Felly, dyna agwedd arall y byddaf yn gwthio Gweinidog ffoaduriaid Syria arno.

16:41 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw. Mae'n dda gan Blaid Cymru weld bod y cynnydd wedi'i arwain gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr wythnosau diwethaf yn arwain ymateb awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus i'r argyfwng hwn.

Thank you, Minister, for the statement today. Plaid Cymru is pleased to see that the progress that has been led by the Welsh Government over the last few weeks has led the response of local authorities and public bodies to this crisis.

Roeddech chi'n sôn am y gweithlu rydych chi wedi ei sefydlu, a'r ffaith eich bod yn cadeirio'r gweithlu. A fedrwch chi gadarnhau eich bod chi'n bwriadu parhau i gadeirio'r gweithlu hwnnw? Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod yr arweiniad sydd wedi cael ei ddangos eisoes gan y Llywodraeth yn parhau yn rhywbeth amlwg iawn, ac rwy'n credu bod hynny'n helpu gyda'r dasg rydych wedi ei chydnabod yn y datganiad o gyfathrebu gyda'r cyhoedd ar yr hyn mae'r Llywodraeth yn ei wneud, a'r rhesymau pam rydym yn gwneud hyn.

You mentioned the taskforce that you've set up, and the fact that you chair it. Could you confirm that you intend to continue to chair that taskforce? I think it is important that the leadership that has been shown already by the Government continues as something very prominent, and I think that that helps with the task that you've acknowledged in the statement of communicating to the public what the Government is doing, and the reasons why we are doing that.

Ac o sôn am gyfathrebu, roeddech chi yn y datganiad yn sôn llawer am gyfathrebu gyda chymunedau, ond pa gamau ydych chi'n bwriadu eu cymryd i gyfathrebu â'r ffoaduriaid eu hunain? Er enghraifft, a fydd unrhyw fath o becyn croeso, os liciwch chi, i ffoaduriaid sy'n dod yn benodol i Gymru sydd yn gallu sôn yn benodol am natur Cymru, natur addysg yng Nghymru, y gwasanaeth iechyd—mae'n wahanol i Loegr—ond hefyd sy'n sôn am eu hawliau nhw ond hefyd eu cyfrifoldebau nhw a beth rydym yn disgwyl ganddyn nhw hefyd? Achos rydym ni eisiau i'r broses yma arwain at gymdeithas sydd yn fwy unedig, ac at gymdeithas lle mae cyn lleied ag sy'n bosibl o ymdrech gan rai i chwalu'r gymdeithas, ac i osod un garfan yn erbyn y llall. Ac os yw pawb yn deall ei rôl yn hynny o beth, mae'n gallu helpu. Rwy'n credu hefyd y gallai sicrhau bod manteision setlo yng Nghymru a bod yn rhan o gymuned yng Nghymru yn cael ei gyfathrebu i ffoaduriaid eu hunain.

Talking of communication, in the statement you mentioned communication with communities, but what steps are you intending to take to communicate with the refugees themselves? For example, will there be any kind of welcome pack for refugees that come specifically to Wales that can mention the nature of Wales, education in Wales, and the health service—which is different to England—but also talks about their rights and responsibilities, and what we expect of them as well? Because we want that process to lead to a society that's more united, and a society where there's as little as possible of an effort by some people to destroy that society and to set people against each other. If everyone understands their role in that, then that can help. I also think that it could ensure that the advantages of settling in Wales and being part of the community in Wales can be communicated to those refugees themselves.

Yn y cyd-destun hwnnw, pa fath o gefnogaeth fedrwch chi ei rhoi fel Llywodraeth, dim o reidrwydd yn ariannol, ond cefnogaeth a chyfarwyddyd i fentrau eraill tu fas, efallai, i'r sector cyhoeddus fel y cyfryw, fel cymdeithasau tai, cymdeithasau fel undebau credyd, er enghraifft, a hyd yn oed prifysgolion? Achos rydym yn gobeithio'n fawr y bydd y ffoaduriaid yma yn ymgartrefu yng Nghymru, yn dod yn ddinasyddion Cymru ac yn dod yn rhan felly o'n cymdeithas ni a'i holl rinweddau.

In that context, what kind of support can you give as a Government, not necessarily financial support, but support and guidance for other bodies outside the public sector such as housing associations, credit unions and so forth, even universities? Because we greatly hope that the refugees will settle in Wales and will become citizens of Wales, and become part of all aspects of our society.

Rydych yn briodol iawn, wrth gwrs, yn dweud nad oes modd i chi sôn am yr arian sydd i'w gael, achos mater i San Steffan yw hwnnw. Ond, a ydych chi'n trafod o gwbl gyda'r awdurdodau lleol neu y tu fewn i'r Llywodraeth ynglŷn â pha system a all fod yn ei lle os oes yna oedi o ran trosglwyddo'r arian priodol i awdurdodau lleol? Hynny yw, a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon pontio unrhyw oedi sydd yn y system, unwaith rydym yn gwybod yn iawn beth yw'r cymorth a ddaw o San Steffan, neu roi arian ymlaen llaw wrth i'r arian lifo yn nes ymlaen? Byddai hynny efallai yn lleddfu rhai o'r poenau sydd gan ambell i awdurdod ar hyn o bryd ynglŷn â delio gyda hyn. Ac yn y cyd-destun yna, a ydych chi eisoes wedi gweld unrhyw arfer da yng Nghymru ynglŷn â chroesawu a darparu ar gyfer ffoaduriaid yr ydych chi'n meddwl sydd yn barod, felly, ac yn ffordd o'i ddefnyddio ar gyfer y dyfodol, er bod hwn, wrth gwrs, yn nifer fwy o bobl nag ydym wedi ei weld mewn un garfan yn dod o'r blaen?

Very appropriately, you say that you can't talk about the money that's available, because that's an issue for Westminster. However, are you in discussions at all with local authorities or within government around what system could be in place if there is any delay in terms of transferring the appropriate money to local authorities? Is the Welsh Government willing to bridge any gaps or delays in that system, once we know what the support from Westminster will be, or provide money beforehand, as the money flows later on? That might mitigate some of the concerns that some authorities have at the moment in terms of dealing with this issue. In that context, have you already seen any good practice in Wales in terms of welcoming and providing for the refugees that can be used in the future, even though this is a larger number of people than we've seen in one cohort coming before?

And a final point, Minister, if I can, is something about the tone of the debate that we can have on these things within Wales. It's quite something when the Institute of Directors today has condemned the Tory Minister for irresponsible rhetoric around the way that Theresa May has described asylum and migration. I have to say that her nasty and mendacious speech is so different to the tone of hundreds of constituents who have contacted me, seeking to offer help and support to Syrian refugees. One of those groups of constituents were some 130 people in the Hay, Talgarth and Brecon area, who have been talking about the concept of a city of sanctuary, and this voluntary sector-led concept is trying to bring people together to create policies and programmes to welcome refugees, and to turn away from that rhetoric that sets groups against other groups, and which seeks to divide society rather than bring us together. Is the city of sanctuary concept something that you are actively working with, within Welsh Government? Is it some way to deliver some of the communication problems and issues that you've already outlined? And two specific questions did emerge from Theresa May's speech to the Conservative conference today, because the old practice of not announcing Government policy in party conferences seems to have long passed. One was that we would have a register for accommodation. If that is going to be done in England, is there a way that we can co-operate? I appreciate this is only today, but it's something to flag up, I think. Is there going to be a register for accommodation that we can use in Wales, which, again, feeds into the city of sanctuary concept? And the final part of that, which again is part of the city of sanctuary—'dinas lloches'—concept, is how we can involve people in community sponsorship schemes directly for refugees. That's particularly, perhaps, valuable for those who Julie Morgan mentioned, under the age of 18. Diolch yn fawr.

A phwynt olaf, Weinidog, os gallaf, yw rhywbeth am dôn y ddadl y gallwn ei chael ar y pethau hyn yng Nghymru. Mae'n dipyn o beth pan fod Sefydliad y Cyfarwyddwyr heddiw wedi condemnio'r Gweinidog Torïaidd dros rethreg anghyfrifol ynghylch y ffordd y mae Theresa May wedi disgrifio lloches a mudo. Mae'n rhaid i mi ddweud bod ei haraith gas a chelwyddog mor wahanol i dôn cannoedd o etholwyr sydd wedi cysylltu â mi, gan geisio cynnig cymorth a chefnogaeth i ffoaduriaid Syria. Un o'r grwpiau hynny o etholwyr oedd rhyw 130 o bobl yn ardal Y Gelli, Talgarth ac Aberhonddu, sydd wedi bod yn siarad am y cysyniad o ddinas lloches, ac mae'r cysyniad hwn a arweinir gan y sector gwirfoddol yn ceisio dod â phobl ynghyd i greu polisïau a rhaglenni i groesawu ffoaduriaid, ac i droi i ffwrdd oddi wrth y rhethreg honno sy'n gosod grwpiau yn erbyn grwpiau eraill, ac sy'n ceisio rhannu cymdeithas yn hytrach na dod â ni at ein gilydd. A yw'r cysyniad o ddinas lloches yn rhywbeth yr ydych yn gweithio gydag o, o fewn Llywodraeth Cymru? A yw'n rhyw ffordd i gyflawni rhai o'r problemau a'r materion cyfathrebu yr ydych wedi'u hamlinellu'n barod? A daeth dau gwestiwn penodol i'r amlwg o araith Theresa May i gynhadledd y Ceidwadwyr heddiw, oherwydd ymddengys bod yr hen arfer o beidio â chyhoeddi polisi'r Llywodraeth mewn cynadleddau pleidiau wedi hen fynd heibio. Un oedd y byddai gennym gofrestr ar gyfer llety. Os yw hynny'n mynd i gael ei wneud yn Lloegr, a oes ffordd y gallwn gydweithio? Rwy'n sylweddoli mai heddiw yn unig yw hwn, ond mae'n rhywbeth i dynnu sylw ato, rwy'n meddwl. A fydd cofrestr ar gyfer llety y gallwn ei ddefnyddio yng Nghymru, sydd, unwaith eto, yn bwydo i mewn i'r cysyniad o ddinas lloches? A'r rhan olaf o hynny, sydd eto yn rhan o'r cysyniad o ddinas lloches—'dinas lloches'—yw sut y gallwn gynnwys pobl mewn cynlluniau nawdd cymunedol yn uniongyrchol i ffoaduriaid. Mae hynny'n arbennig, efallai, o werthfawr i'r rhai a grybwyllwyd gan Julie Morgan, o dan 18 oed. Diolch fawr.

16:46 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Simon Thomas. I think the point that Simon makes around the tone of the debate is really important, and we have seen such an outpouring of support, right across Wales, that I think I'm very confident that we'll be able to carry that on. But communication is very important; that's why I asked the operations board, which met for the first time yesterday, to focus on how we can use the offers of support that have come in. You know, we've had so many people who are offering a spare room, but as I said in my statement, because we don't know the vulnerability of the refugees, and we don't know their health, although they will be assessed in the camps before they come here, we don't know how we can place people. So, I think it's very important that those two things are looked at urgently. I will be chairing the taskforce; that will meet for the first time next month. As I mentioned, the operations board met yesterday. That's very important—that we have all the officials working together right across Welsh Government and with the local authorities.

Diolch, Simon Thomas. Rwy'n meddwl bod y pwynt y mae Simon yn ei wneud ynghylch tôn y ddadl hon yn bwysig iawn, ac rydym wedi gweld cymaint o gefnogaeth, ar hyd a lled Cymru, fel fy mod yn credu fy mod i'n hyderus iawn y byddwn yn gallu cynnal hynny. Ond mae cyfathrebu yn bwysig iawn; dyna pam rwy'n gofyn i'r bwrdd gweithrediadau, a gyfarfu am y tro cyntaf ddoe, i ganolbwyntio ar sut y gallwn ddefnyddio'r cynigion o gefnogaeth sydd wedi dod i mewn. Rydych yn gwybod, rydym wedi cael cymaint o bobl sy'n cynnig ystafell sbâr, ond fel y dywedais yn fy natganiad, oherwydd nad ydym yn gwybod pa mor agored i niwed yw'r ffoaduriaid, ac nid ydym yn gwybod eu hiechyd, er y byddant yn cael eu hasesu yn y gwersylloedd cyn iddynt ddod yma, nid ydym yn gwybod sut y gallwn leoli pobl. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod y ddau beth hynny'n cael eu hystyried ar frys. Byddaf yn cadeirio'r tasglu; a fydd yn cyfarfod am y tro cyntaf y mis nesaf. Fel y soniais, cyfarfu'r bwrdd gweithrediadau ddoe. Mae hynny'n bwysig iawn—ein bod yn cael yr holl swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd ar draws Llywodraeth Cymru a gyda'r awdurdodau lleol.

You asked about the funding: I don't think there will be a delay once the UK Government have decided how the refugees will be placed and where they will be placed—as, you know, all the UK countries are on board with this. But it's something that we will need to look at, because if there is, obviously the local authorities will need funding to assist. But I really don't think there will be a delay once the numbers are decided. We just, really, need more information to come out much quicker from the UK Government. As I said, the First Minister has written to the Prime Minister to say, 'We really need to be looking at pace about this now'.

Roeddech yn gofyn am y cyllid: nid wyf yn credu y bydd oedi unwaith y bydd Llywodraeth y DU wedi penderfynu sut y bydd y ffoaduriaid yn cael eu lleoli a lle y byddant yn cael eu lleoli—gan fod, chi'n gwybod, holl wledydd y DU yn gefnogol gyda hyn. Ond mae'n rhywbeth y bydd angen i ni edrych arno, oherwydd os bydd, yn amlwg bydd angen cyllid ar yr awdurdodau lleol i gynorthwyo. Ond nid wyf wir yn meddwl y bydd oedi unwaith y bydd y niferoedd yn cael eu penderfynu. Mewn gwirionedd, mae angen mwy o wybodaeth i ddod allan yn llawer cyflymach gan Lywodraeth y DU. Fel y dywedais, mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog i ddweud, 'Mae gwir angen inni fod yn edrych ar gyflymder ynghylch hyn yn awr'.

In relation to support packages, the day before the summit, the Minister for Public Services and I met with five Syrian refugees, one of whom had been in the country, in Wales, for many, many years, and four who'd been here for less than a year. We asked them what they needed, and what they felt that we could have done more to help them settle. I specifically asked about, you know, rights et cetera; they didn't seem to think that was a problem. There were two things they raised with us, and that was additional English lessons. So, that was something that was raised at the summit, and I'm very pleased the universities have come forward, as well as the third sector—I think the Red Cross do English lessons, and they are very happy to roll out more. But the universities also came forward and said they will help us, so, again, that's something the operations board looked at and the taskforce will take forward. The second was housing, and certainly, at the summit, the Welsh Local Government Association believed that we can manage the housing within what we have now.

Mewn perthynas â phecynnau cefnogi, y diwrnod cyn yr uwchgynhadledd, cyfarfu'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a minnau gyda phum ffoadur o Syria, un ohonynt wedi bod yn y wlad, yng Nghymru, am flynyddoedd lawer iawn, a phedwar oedd wedi bod yma am lai na blwyddyn. Gofynnwyd iddynt beth y maent ei angen, a'r hyn y maent yn teimlo y gallem fod wedi gwneud mwy i'w helpu i ymgartrefu. Gofynnais yn benodol am, chi'n gwybod, hawliau et cetera; nid oedd yn ymddangos eu bod yn meddwl bod hynny'n broblem. Roedd dau beth y gwnaethant eu codi gyda ni, a hynny oedd gwersi Saesneg ychwanegol. Felly, roedd hynny'n rhywbeth a godwyd yn yr uwchgynhadledd, ac rwy'n falch iawn bod y prifysgolion wedi dod ymlaen, yn ogystal â'r trydydd sector—rwy'n meddwl bod y Groes Goch yn gwneud gwersi Saesneg, ac maent yn barod iawn i gyflwyno mwy. Ond hefyd daeth y prifysgolion ymlaen a dweud y byddant yn ein helpu, felly, unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth yr edrychodd y bwrdd gweithrediadau arno ac y bydd y tasglu yn ei ddatblygu. Yr ail oedd tai, ac yn sicr, yn yr uwchgynhadledd, credai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gallwn reoli'r tai o fewn yr hyn sydd gennym yn awr.

Your suggestion about the city of sanctuary and the register for accommodation is certainly something we can look at, and I'm afraid—I think I'm afraid, anyway—that I haven't caught up with Theresa May's speech yet, but certainly I will be doing that later.

Mae eich awgrym am y ddinas lloches a'r gofrestr ar gyfer llety yn sicr yn rhywbeth y gallwn edrych arno, ac rwy'n ofni—credaf fy mod i'n ofni, beth bynnag—nad wyf wedi dal i fyny gydag araith Theresa May eto, ond yn sicr byddaf yn gwneud hynny yn nes ymlaen.

16:49 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for her statement today. We all know that the refugee crisis has dominated the news headlines over the summer months, and it continues unabated and remains at the very top of the political agenda, as we see from both sides. However, I do agree with you it's important that Wales does its bit, however small a country we may be. Can I also add my commendation of the Welsh public's response to the immediate needs of the refugees? It's been magnificent by any standards. Individuals and voluntary groups have certainly gone that extra mile, largely through spontaneous action. I know of—although she's not my constituent—the work of Sally Osborne, who Julie Morgan referred to. I certainly encourage others to follow that type of example.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw. Rydym i gyd yn gwybod fod yr argyfwng ffoaduriaid wedi dominyddu'r penawdau newyddion dros fisoedd yr haf, ac mae'n parhau yn ddi-baid ac yn parhau i fod ar frig yr agenda wleidyddol, fel y gwelwn o'r ddwy ochr. Fodd bynnag, rwy'n cytuno â chi ei bod yn bwysig bod Cymru yn gwneud ei rhan, waeth pa mor fach ydym fel gwlad efallai. A gaf i hefyd ychwanegu fy nghanmoliaeth o ymateb cyhoedd Cymru i anghenion uniongyrchol y ffoaduriaid? Mae wedi bod yn wych yn ôl unrhyw safonau. Mae unigolion a grwpiau gwirfoddol yn sicr wedi mynd y filltir ychwanegol, yn bennaf drwy weithredu digymell. Gwn—er nad yw'n etholwraig i mi—am waith Sally Osborne, y cyfeiriodd Julie Morgan ato. Rwy'n sicr yn annog eraill i ddilyn y math hwnnw o esiampl.

I know, Minister, that the Welsh Government will do all that it can to provide essential services, as refugees arrive here safely in Wales, following their difficult journey. Will the Minister tell us what level of partnerships exists across Wales between statutory services and the third sector as well as more informal groups, such as faith groups? You have made it quite clear that you have not received the necessary information yet from the UK Government to enable you to plan proper provision of public services, which is essential. I know, from my time as the Minister, it was very difficult to get information from the UK Government; we could wait a long time. Do you have any indication whatsoever from the UK Government about when they are likely to give you sufficient information to enable the plans to be properly prepared?

Rwy'n gwybod, Weinidog, y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i ddarparu gwasanaethau hanfodol, wrth i ffoaduriaid gyrraedd yma yn ddiogel yng Nghymru, yn dilyn eu taith anodd. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym pa lefel o bartneriaethau sy'n bodoli ledled Cymru rhwng gwasanaethau statudol a'r trydydd sector yn ogystal â grwpiau mwy anffurfiol, megis grwpiau ffydd? Rydych wedi dweud yn gwbl glir nad ydych wedi derbyn y wybodaeth angenrheidiol eto gan Lywodraeth y DU er mwyn eich galluogi i gynllunio darpariaeth briodol o wasanaethau cyhoeddus, sy'n hanfodol. Rwy'n gwybod, o fy nghyfnod fel Gweinidog, ei bod yn anodd iawn cael gwybodaeth gan Lywodraeth y DU; gallem aros am amser hir. A oes gennych unrhyw syniad o gwbl gan Lywodraeth y DU ynglŷn â phryd y maent yn debygol o roi digon o wybodaeth i chi i alluogi'r cynlluniau i gael eu paratoi'n briodol?

16:51 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Jeff Cuthbert for those comments. I think you're absolutely right, it has been magnificent and it has been spontaneous. I think that photograph that I referred to—. As I say, it opened up so many more people about the crisis in Syria. I mentioned that I'd spoken very briefly this morning to Richard Harrington, and I'm going to speak to him again on Thursday afternoon. I'm hoping we will then have some more information. He did say that things have moved a bit quicker this week. So, I think it is important that we know what funding we've got, so local authorities know what provision they have. What we're doing now is preparing the ground to welcome the refugees and, certainly, the fact that all 22 local authorities are happy to participate in the scheme is very good and it means that we are now working with all public services to ensure that we have the provision in place.

Hoffwn ddiolch i Jeff Cuthbert am y sylwadau hynny. Rwy'n meddwl eich bod yn hollol gywir, mae wedi bod yn wych ac mae wedi bod yn ddigymell. Credaf fod y llun y cyfeiriais ato—. Fel rwy'n dweud, agorodd gymaint mwy o bobl am yr argyfwng yn Syria. Soniais fy mod i wedi siarad yn fyr iawn y bore yma gyda Richard Harrington, ac rwy'n mynd i siarad ag ef eto brynhawn dydd Iau. Rwy'n gobeithio y byddwn wedyn yn cael rhywfaint mwy o wybodaeth. Dywedodd bod pethau wedi symud ychydig yn gyflymach yr wythnos hon. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn gwybod pa gyllid sydd gennym, fel bod awdurdodau lleol yn gwybod pa ddarpariaeth sydd ganddynt. Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn awr yw paratoi'r tir i groesawu'r ffoaduriaid ac, yn sicr, mae'r ffaith bod pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn hapus i gymryd rhan yn y cynllun yn dda iawn ac mae'n golygu ein bod bellach yn gweithio gyda'r holl wasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gennym y ddarpariaeth ar waith.

I think the faith groups have a really important role to play. Again, they were represented at the summit, they're on the operations board, and they will be on the taskforce too. Certainly, the very positive statements they've come out with have helped create the tone with the general public. I remember when I worked in the NHS back in the 1980s that we had some Syrian refugees who were relocated to Wrexham, three of whom were doctors and were then working in the Maelor hospital. I think that's another aspect that we need to really look at—perhaps do some sort of skills audit to see what skills the refugees will bring with them also, because, certainly, the five refugees the Minister for Public Services and I met with the day before the summit—. Four of them were educated to Master's level and were very keen to work in Wales and ensure that they integrated into the community.

Rwy'n meddwl bod gan y grwpiau ffydd rôl bwysig iawn i'w chwarae. Unwaith eto, roeddent yn cael eu cynrychioli yn yr uwchgynhadledd, maen nhw ar y bwrdd gweithrediadau, a byddant ar y tasglu hefyd. Yn sicr, mae'r datganiadau cadarnhaol iawn y maent wedi eu gwneud wedi helpu i greu'r naws gyda'r cyhoedd. Rwy'n cofio pan oeddwn yn gweithio yn y GIG yn ôl yn y 1980au bod gennym rai ffoaduriaid o Syria a gafodd eu hadleoli i Wrecsam, tri ohonynt yn feddygon ac oedd yn gweithio yn ysbyty Maelor. Rwy'n credu bod honno'n agwedd arall y mae angen i ni wir edrych arni—efallai gwneud rhyw fath o archwiliad sgiliau i weld pa sgiliau y bydd y ffoaduriaid yn dod gyda hwy hefyd, oherwydd, yn sicr, roedd y pum ffoadur y cyfarfu'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a minnau ar y diwrnod cyn yr uwchgynhadledd—. Roedd pedwar ohonynt wedi cael eu haddysgu hyd at lefel Meistr ac yn awyddus iawn i weithio yng Nghymru a sicrhau eu bod yn integreiddio i'r gymuned.

16:53 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I also commend the many volunteers and individuals throughout Wales who have worked so hard to try, not just to make the refugees welcome, but also to try to assist those who are in France and elsewhere in terms of the materials they've collected? Swansea, of course, is a city of sanctuary, and I'm very proud of that and I'm also very proud of the reaction and the strength of feeling in that city in terms of gathering together materials, which are effectively overflowing in the YMCA because of the amount collected. Of course, there have been similar reactions in Bridgend as well and in Neath Port Talbot. I think it is to be commended that such generosity of spirit has been evident in terms of the response to this crisis amongst the people of Wales and particularly in the region I represent. I think that is a contrast to some of the things that were said today in the Welsh Conservative conference.

A gaf i hefyd ganmol y nifer o wirfoddolwyr ac unigolion ledled Cymru sydd wedi gweithio mor galed i geisio, nid yn unig i groesawu'r ffoaduriaid, ond hefyd i geisio cynorthwyo'r rhai sydd yn Ffrainc ac mewn mannau eraill o ran y deunyddiau y maent wedi eu casglu? Mae Abertawe, wrth gwrs, yn ddinas lloches, ac rwy'n falch iawn o hynny ac rwy'n falch iawn o'r ymateb a chryfder y teimlad yn y ddinas honno o ran casglu deunyddiau at ei gilydd, sy'n gorlifo i bob pwrpas yn y YMCA oherwydd faint a gasglwyd. Wrth gwrs, bu adweithiau tebyg ym Mhen-y-bont ar Ogwr , yn ogystal ag yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rwy'n credu ei fod i'w ganmol bod y fath ysbryd o haelioni wedi bod yn amlwg o ran yr ymateb i'r argyfwng hwn ymhlith pobl Cymru ac yn enwedig yn y rhanbarth rwy'n ei gynrychioli. Credaf fod hynny'n wahanol i rai o'r pethau a ddywedwyd heddiw yng nghynhadledd y Ceidwadwyr Cymreig.

Many of the questions I wanted to ask, Minister, have been asked, so I'm just going to concentrate on a couple, therefore. I think, in terms of health boards and local councils, very clearly, you've got those on board and they're part of your taskforce. I'm just interested in a bit more detail on the state of preparedness of those bodies in terms of the conditions they may be facing as the refugees arrive. You referred yourself to the fact that a number of those refugees may well be unwell or have injuries or other problems that need to be addressed. Clearly, that's going to be an issue for the health service and for social services in particular, but also housing and other services. So, what sort of state of preparedness are we in in terms of that, given that we have so little information about how many refugees are going to be coming here, and also what condition they will be in when they arrive?

Mae nifer o'r cwestiynau yr oeddwn am eu gofyn, Weinidog, wedi cael eu gofyn, felly rwy'n mynd i ganolbwyntio ar un neu ddau, gan hynny. Rwy'n meddwl, o ran byrddau iechyd a chynghorau lleol, yn amlwg iawn, mae'r rheini'n gefnogol ac maen nhw'n rhan o'ch tasglu. Mae gen i ddiddordeb mewn ychydig mwy o fanylion am barodrwydd y cyrff hynny o ran yr amodau sy'n eu hwynebu wrth i'r ffoaduriaid gyrraedd. Cyfeiriasoch eich hun at y ffaith y gall nifer o'r ffoaduriaid hynny fod yn sâl neu gael anafiadau neu broblemau eraill y mae angen rhoi sylw iddynt. Yn amlwg, mae hynny'n mynd i fod yn broblem ar gyfer y gwasanaeth iechyd ac ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig, ond hefyd tai a gwasanaethau eraill. Felly, pa mor barod ydym ni o ran hynny, o gofio bod gennym cyn lleied o wybodaeth am faint o ffoaduriaid sy'n mynd i fod yn dod yma, a hefyd pa gyflwr y byddant ynddo pan fyddant yn cyrraedd?

Just to pick up on an issue that Simon Thomas mentioned, Theresa May did, of course, refer to the register of people and organisations able to accommodate refugees, which she said she's setting up for the whole of the UK. I notice in your statement you effectively contradicted that, because you said:

Dim ond i godi mater a grybwyllwyd gan Simon Thomas, gwnaeth Theresa May, wrth gwrs, gyfeirio at y gofrestr o bobl a sefydliadau sy'n gallu darparu ar gyfer ffoaduriaid, y dywedodd hi y mae'n ei sefydlu ar gyfer y cyfan o'r DU. Rwy'n sylwi yn eich datganiad eich bod yn gwrth-ddweud hynny i bob pwrpas, oherwydd dywedasoch:

'the long-term and substantial needs of these individuals will make it difficult for them to be accommodated in the spare rooms of the generous households who have already come forward offering their support.'

bydd anghenion hir dymor a sylweddol yr unigolion hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt gael eu lletya yn ystafelloedd sbâr yr aelwydydd hael sydd eisoes wedi dod ymlaen yn cynnig eu cefnogaeth.

So, I think, already, there is a contrast in terms of your assessment of the situation and that of the Home Secretary. So, I'm just interested in what communication is going on between the Welsh Government and the UK Government about this particular issue and the understanding of what can be done to accommodate these refugees when they arrive.

Felly, rwy'n meddwl, eisoes, mae cyferbyniad o ran eich asesiad o'r sefyllfa, ac asesiad yr Ysgrifennydd Cartref. Felly, mae gen i ddiddordeb o ran pa gyfathrebu sy'n digwydd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y mater penodol hwn a'r ddealltwriaeth o'r hyn y gellir ei wneud i ddarparu ar gyfer y ffoaduriaid hyn pan fyddant yn cyrraedd.

16:56 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. I think you're quite right to say we've certainly seen donations coming in and many of these storage spaces that we've seen have been overflowing. Certainly, the British Red Cross was saying at the summit—and this was probably three weeks ago—that, perhaps, people could help more by donating money, now. That would be something that would be needed, going forward, when the refugees arrive.

Diolch. Rwy'n meddwl eich bod yn hollol iawn i ddweud yn sicr ein bod wedi gweld rhoddion yn dod i mewn ac mae llawer o'r mannau storio hyn yr ydym wedi'u gweld wedi bod yn gorlifo. Yn sicr, roedd y Groes Goch Brydeinig yn dweud yn yr uwchgynhadledd—ac roedd hyn yn ôl pob tebyg dair wythnos yn ôl—efallai, y gallai pobl helpu mwy drwy roi arian, yn awr. Byddai hynny'n rhywbeth y byddai ei angen, wrth symud ymlaen, pan fydd y ffoaduriaid yn cyrraedd.

You're quite right: the health boards are looking at what provision they can provide and this is part of the operations board prior to the taskforce next week, and that's officers looking at provision with the health boards, with the local authorities, with housing, and with education as well, because we're going to have young children. Again, we're very well used to it, so it's about making sure we've got that provision there.

Rydych chi'n hollol iawn: mae'r byrddau iechyd yn edrych ar ba ddarpariaeth y gallant ei ddarparu ac mae hyn yn rhan o'r bwrdd gweithrediadau cyn y tasglu yr wythnos nesaf, a hynny yw swyddogion yn edrych ar y ddarpariaeth gyda'r byrddau iechyd, gyda'r awdurdodau lleol, gyda thai, a gydag addysg yn ogystal, gan ein bod yn mynd i gael plant ifanc. Unwaith eto, rydym wedi hen arfer ag ef, felly mae'n ymwneud â sicrhau bod gennym y ddarpariaeth honno yno.

I mentioned that the health needs of the refugees will be assessed before they leave the refugee camps, so we will have that information, and then the healthcare that they receive will be based on their clinical needs, just as it would be with any Welsh resident.

Soniais y bydd anghenion iechyd y ffoaduriaid yn cael eu hasesu cyn iddynt adael y gwersylloedd ffoaduriaid, felly bydd gennym y wybodaeth honno, ac yna bydd y gofal iechyd y maent yn ei dderbyn yn seiliedig ar eu hanghenion clinigol, yn union fel y byddai gydag unrhyw breswylydd yng Nghymru .

It's up to local authorities to volunteer how many refugees they will take. We can't dictate to them, the UK Government can't dictate to them, but certainly the WLGA and the conversations I've had—. On Friday, in north Wales, I met with the housing members of the WLGA from all local authorities across Wales, and, again, they were very keen to tell me that they are very happy to participate. Clearly, they are doing some background work prior to getting the information that we need from the UK Government.

Mae'n fater i awdurdodau lleol i wirfoddoli faint o ffoaduriaid y byddant yn eu cymryd. Ni allwn eu gorchymyn, ni all Llywodraeth y Deyrnas Unedig eu gorchymyn, ond yn sicr mae CLlLC a'r sgyrsiau rwyf wedi eu cael—. Ar ddydd Gwener, yn y Gogledd, cefais gyfarfod gydag aelodau tai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o bob awdurdod lleol ledled Cymru, ac, unwaith eto, roeddent yn awyddus iawn i ddweud wrthyf eu bod yn hapus iawn i gymryd rhan. Yn amlwg, maent yn gwneud rhywfaint o waith cefndirol cyn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnom gan Lywodraeth y DU.

I mentioned that my officials are speaking daily—this afternoon, there's another telephone conference—and that is something that we can look at. I do want to—. Where people have come forward offering accommodation, if it can be used—. Until we know the health needs and the vulnerability of the refugees, it's very hard to say whether those people can be placed. It's something that I asked the operations board, as one of their first items of business yesterday, to look at: how we can really build on the fantastic support given by so many individuals right across Wales.

Soniais fod fy swyddogion yn siarad bob dydd—y prynhawn yma, mae cynhadledd ffôn arall—ac mae hynny'n rhywbeth y gallwn edrych arno. Rwyf eisiau—. Lle gall pobl ddod ymlaen yn cynnig llety, os gellir ei ddefnyddio—. Hyd nes y byddwn yn gwybod anghenion iechyd a pha mor agored i niwed yw'r ffoaduriaid, mae'n anodd iawn dweud a ellir lleoli'r bobl hyn. Mae'n rhywbeth y gofynnais i'r bwrdd gweithrediadau, fel un o'u heitemau cyntaf o fusnes ddoe, edrych arno: sut allwn ni wir adeiladu ar y gefnogaeth wych a roddwyd gan gymaint o unigolion ledled Cymru.

16:58 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rwy’n croesawu’r datganiad heddiw, sydd, unwaith eto, yn dangos ac yn ymfalchïo yn yr agweddau gwahanol ar yr argyfwng ledled y Deyrnas Unedig. Mae ein setliad datganoli wastad yn un cymhleth, ond mae’n siŵr bod sawl agwedd ar liferi polisi gennym ni yn y Cynulliad—tai, addysg, iechyd, ac yn y blaen.

Minister, I welcome today’s statement, which, once again, demonstrates and takes pride in the various attitudes on the crisis throughout the United Kingdom. Our devolution settlement is always complex, but I am sure that there are many aspects of policy levers that we have here in the Assembly—housing, education, health, and so on.

Rwy’n croesawu’r ffaith ein bod ni yng Nghymru wedi bwrw ymlaen gyda’r agwedd bolisi, sef sefydlu’r tasglu ac adnewyddu ein cynllun gwaith. Yn yr etholaeth yn Llanelli, mae’r agwedd yn adlewyrchu hyn. Ar y cyd â phapur newydd y ‘Llanelli Star’, rydym wedi lansio apêl rhoddion i’r bobl sy’n wynebu caledi. Mae dros 200 o focsys o’r gymuned leol wedi dod i mewn atom ni’n barod, yn cynnwys arian, deunyddiau ymolchi, dillad ac un babell. Fel rŷch chi’n gwybod, yn ystod eich ymweliad ddoe, fe welsoch chi agwedd gynnes pobl yr etholaeth.

I welcome the fact that we in Wales have proceeded with the policy aspect, namely establishing the taskforce and renewing the work programme. In the constituency in Llanelli, the attitude reflects this. Jointly with the ‘Llanelli Star’ newspaper, we have launched a gift appeal for the people facing hardship. More than 200 boxes have come in from the local community already, including money, washing materials, clothes and one tent. As you know, during your visit yesterday you saw the warm response of the people of the constituency.

Ar yr un diwrnod, mae Theresa May, fel y mae pobl wedi’i ddweud, wedi datgan i gynhadledd y Torïaid:

On the same day, Theresa May, as people have already mentioned, has stated to the Tory conference:

High levels of immigration make it impossible to build a cohesive society.

Mae lefelau uchel o fewnfudo yn ei gwneud yn amhosibl i adeiladu cymdeithas gydlynol.

Peth ofnadwy. A ydych chi’n cytuno, Weinidog, bod agweddau cwbl wahanol rhyngom ni a nhw? Beth yw’ch barn ar sut i gymryd y tasglu ymlaen i sicrhau bod agwedd cynhwysol ar y blaen?

A terrible thing. Do you agree, Minister, that there are totally different attitudes between us and them? What’s your view in taking the taskforce forward to ensure that an inclusive approach is at the forefront?

16:59 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, it’s very important that we take an inclusive approach and I think it’s very important the language that we use. It’s disappointing. As I said, I’ve not caught up with her speech, but I will certainly have a look at it, and it’s very disappointing to hear that.

Ydy, mae'n bwysig iawn ein bod yn cymryd ymagwedd gynhwysol ac rwy’n credu bod yr iaith a ddefnyddiwn yn bwysig iawn. Mae'n siomedig. Fel y dywedais, nid wyf i wedi dal i fyny gyda’i haraith, ond byddaf yn sicr yn edrych ar hynny, ac mae'n siomedig iawn o glywed hynny.

It was very clear in Llanelli yesterday that the people of Llanelli are very keen to do their bit. I think it was very important that the First Minister set out straight away, when this crisis really started to unfold, that Wales would play its full part. Immigration policy isn’t devolved, as I said, it is reserved, but I think it’s really important that, as the UK Government announced the extension of the vulnerable persons relocation scheme, Wales stands ready, as are Scotland and Northern Ireland, to play its part. You know, it’s really been heartwarming to see the support offered by so many people. I mean, I’ve had some fantastic e-mails—literally, people offering their spare bedroom. It’s absolutely amazing.

Roedd yn amlwg iawn yn Llanelli ddoe bod pobl Llanelli yn awyddus iawn i wneud eu rhan. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod y Prif Weinidog wedi nodi ar unwaith, pan oedd yr argyfwng hwn mewn gwirionedd yn dechrau, y byddai Cymru yn chwarae ei rhan yn llawn. Nid yw polisi mewnfudo wedi'i ddatganoli, fel y dywedais, mae'n cael ei gadw, ond rwy’n credu ei bod hi'n bwysig, fel y cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymestyn y cynllun adleoli pobl sy'n agored i niwed, bod Cymru yn barod, fel y mae'r Alban a Gogledd Iwerddon, i chwarae ei rhan. Rydych yn gwybod, mae wir wedi codi calon rhywun i weld y cymorth a gynigir gan gymaint o bobl. Hynny yw, rwyf wedi cael rhai negeseuon e-bost ffantastig—yn llythrennol, mae pobl yn cynnig eu hystafell wely sbâr. Mae'n hollol anhygoel.

17:00 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thanks for your statement. The UK and, obviously, very much, Wales have long been a sanctuary, a safe haven, for victims of war, persecution and ethnic cleansing from overseas. I think it is encouraging the UK Government has been the second biggest global donor to the Syrian refugee camps, recognising that the 20,000 or whatever number Wales takes are only a drop in the ocean compared to the actual numbers of refugees from conflict in Syria and, of course, other parts of the world. The UK has already given protection to some 5,000 Syrian refugees, the first arriving on 25 March 2014. In fact, the first of the 20,000 who are going to be accepted in the UK over the term of this UK Parliament from Syria—Syrian refugees—arrived in the UK about a fortnight ago. Has Wales, therefore, already received any Syrian refugees from that first 5,000 and from the first arrivals under the 20,000 a fortnight ago?

Diolch am eich datganiad. Mae'r DU ac, yn amlwg, yn fawr iawn, mae Cymru wedi bod yn noddfa ers amser, yn hafan ddiogel, i ddioddefwyr rhyfel, erledigaeth a glanhau ethnig o dramor. Rwy'n credu ei fod yn galonogol fod Llywodraeth y DU wedi bod y rhoddwr byd-eang ail fwyaf i wersylloedd ffoaduriaid Syria, gan gydnabod bod y 20,000 neu faint bynnag fydd Cymru yn ei gymryd ddim ond yn ddiferyn yn y môr o'i gymharu â'r niferoedd gwirioneddol o ffoaduriaid o wrthdaro yn Syria ac, wrth gwrs, rhannau eraill o'r byd. Mae'r DU eisoes wedi rhoi amddiffyniad i ryw 5,000 o ffoaduriaid Syria, cyrhaeddodd y rhai cyntaf ar 25 Mawrth, 2014. Yn wir, cyrhaeddodd y cyntaf o'r 20,000 sy'n mynd i gael eu derbyn yn y DU dros y cyfnod hwn o Senedd y DU o Syria— ffoaduriaid Syria— y DU tua phythefnos yn ôl. A yw Cymru, felly, eisoes wedi derbyn unrhyw ffoaduriaid Syria o'r 5,000 cyntaf ac o'r dyfodiaid cyntaf dan y 20,000 bythefnos yn ôl?

What action is the Welsh Government taking to better help public understanding of the difference between refugees or asylum seekers and 'immigrants' or 'economic migrants', where, clearly, although they come from overseas, they represent different categories of need and motivation?

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu dealltwriaeth well y cyhoedd o'r gwahaniaeth rhwng ffoaduriaid neu geiswyr lloches a 'mewnfudwyr' neu 'ymfudwyr economaidd', lle, yn amlwg, er eu bod yn dod o dramor, maent yn cynrychioli categorïau gwahanol o angen a chymhelliant?

You talk about the arbitrary numbers and that you're not going to set arbitrary numbers as to how many Wales will be welcoming; we need to properly assess capacity with the Welsh Government-led Syrian refugee taskforce. The Welsh Refugee Council estimated Wales could give sanctuary to about 1,600 civilians. The First Minister has previously said that Wales could accept 500 to 600 Syrians. Do you agree that that suggests a ballpark figure probably somewhere in the middle, and approximately equating to Wales's share of the UK population?

Rydych yn sôn am y niferoedd mympwyol ac nad ydych yn mynd i osod niferoedd mympwyol o ran faint y bydd Cymru yn eu croesawu; mae angen i ni asesu capasiti yn iawn gyda'r tasglu ffoaduriaid Syria a arweinir gan Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru y gallai Cymru roi noddfa i tua 1,600 o sifiliaid. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud o'r blaen y gallai Cymru dderbyn 500-600 o Syriaid. A ydych yn cytuno bod hynny'n awgrymu ffigur bras yn ôl pob tebyg rhywle yn y canol, ac yn lled gyfystyr â chyfran Cymru o boblogaeth y DU?

Finally, do you agree with the UK Government that by not taking part in the EU's relocation scheme and instead taking refugees directly from camps in the region, we can ensure we're helping the most vulnerable, dissuading others from making this dangerous journey and helping to crack down on the criminal gangs of people smugglers, and that we need, urgently, to set up registration centres in Europe so that people can be properly registered when they arrive?

Yn olaf, a gytunwch gyda Llywodraeth y DU, trwy beidio â chymryd rhan yng nghynllun adleoli'r UE ac yn lle hynny cymryd ffoaduriaid yn uniongyrchol o wersylloedd yn y rhanbarth, gallwn sicrhau ein bod yn helpu'r rhai mwyaf agored i niwed, darbwyllo eraill i beidio â gwneud y daith beryglus hon a helpu i fynd i'r afael â'r gangiau troseddol o smyglwyr pobl, a bod angen inni, ar frys, sefydlu canolfannau cofrestru yn Ewrop fel y gall pobl gael eu cofrestru yn iawn pan fyddant yn cyrraedd?

17:03 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. Mark Isherwood is quite right; Wales has provided sanctuary to many people fleeing war-torn countries in the past. I just clarify again: the UK Government are extending the scheme, and it's 20,000 people over five years, not 20,000 people to Wales, which I think is what you said. So, it's 20,000. I'm not going to set an arbitrary figure, and that goes for ballpark figures as well. I'm not going to pluck a figure out of thin air. But what we've said is we stand ready to accept refugees and we are just awaiting more information from the UK Government.

Diolch. Mae Mark Isherwood yn llygad ei le; mae Cymru wedi darparu noddfa i lawer o bobl sy'n ffoi o wledydd a rwygwyd gan ryfel yn y gorffennol. Rwy'n egluro eto: mae Llywodraeth y DU yn ymestyn y cynllun, ac mae'n 20,000 o bobl dros bum mlynedd, nid yw'n 20,000 o bobl i Gymru, sef yr hyn rwy'n meddwl a ddywedasoch. Felly, mae'n 20,000. Dydw i ddim yn mynd i osod ffigwr mympwyol, ac mae hynny'n wir am ffigurau bras hefyd. Dydw i ddim yn mynd i dynnu ffigur allan o'r awyr. Ond yr hyn yr ydym wedi ei ddweud yw ein bod yn barod i dderbyn ffoaduriaid ac rydym yn aros am fwy o wybodaeth gan Lywodraeth y DU.

I think you make a point about asylum seekers, refugees and migrant workers, and I think that that work has been undertaken over many years. We have very good community cohesion in Wales, and the difference between asylum seekers, refugees and migrant workers is very well known amongst the public. That's the thing about refugees: we don't know how many refugees we have in Wales, because, by their very nature, they can work and they can move around, so refugees are not the same as asylum seekers.

Rwy'n meddwl eich bod yn gwneud pwynt ynghylch ceiswyr lloches, ffoaduriaid a gweithwyr mudol, a chredaf fod y gwaith hwnnw wedi ei wneud dros nifer o flynyddoedd. Mae gennym gydlyniad cymunedol da iawn yng Nghymru, ac mae'r gwahaniaeth rhwng ceiswyr lloches, ffoaduriaid a gweithwyr mudol yn hysbys iawn ymhlith y cyhoedd. Dyna'r peth am ffoaduriaid: nid ydym yn gwybod faint o ffoaduriaid sydd gennym yng Nghymru, oherwydd, yn ôl eu natur, gallant weithio a gallant symud o gwmpas, felly nid yw ffoaduriaid yr un fath â cheiswyr lloches.

We've got the four dispersal areas for asylum seekers. Those four local authorities, along with the other 18 local authorities, have all said that they will take some of the Syrian refugees over the coming months.

Mae gennym bedair ardal wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches. Mae'r pedwar awdurdod lleol hynny, ynghyd â'r 18 o awdurdodau lleol eraill, i gyd wedi dweud y byddant yn cymryd rhai o ffoaduriaid Syria dros y misoedd nesaf.

17:04

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for her update, and I am pleased, as everybody else is here today, to be able to say that there is a welcome for refugees in Wales and that we are a nation known, actually, to welcome those people in need, having suffered plenty of need over the years and throughout history ourselves. It is the case, quite clearly, that those coming here will not only need help now, but they will need continued help into their futures so that they actually might have a future, because not all of those people will be able to return.

Rwy'n diolch i'r Gweinidog am roi'r diweddaraf i ni, ac rwy'n falch, fel pawb arall sydd yma heddiw, i allu dweud bod croeso i ffoaduriaid yng Nghymru a'n bod yn genedl sy'n adnabyddus, mewn gwirionedd, am groesawu'r bobl hynny sydd mewn angen, ar ôl dioddef digon o angen dros y blynyddoedd a thrwy gydol hanes ein hunain. Mae'n wir, yn eithaf clir, bod y rhai sy'n dod yma nid yn unig angen help yn awr, ond bydd angen help parhaus arnynt yn eu dyfodol fel y gallant gael dyfodol mewn gwirionedd, gan nad yw pob un o'r bobl hynny yn gallu dychwelyd.

So, they will need some dedicated support. That support will have to be continual. I'm really, really pleased to hear that there is an operations board that has been set up, where all those agencies will be inputting into solutions to help those individuals. But I have to express concerns—and it was somewhat alluded to—about unaccompanied minors. Not all unaccompanied minors will have come through this process in the way that they ought to. Many of them will already be victims of trafficking. There is no doubt that in any case where you have mass movement of people, traffickers move in. It happens every single time.

Felly, bydd angen rhywfaint o gymorth pwrpasol. Bydd yn rhaid i'r cymorth hwnnw fod yn barhaus. Rwy'n hynod, hynod o falch o glywed bod bwrdd gweithrediadau sydd wedi cael ei sefydlu, lle y bydd yr holl asiantaethau hynny yn mewnbynnu i mewn i atebion i helpu'r unigolion hynny. Ond rhaid i mi fynegi pryderon—ac fe gyfeiriwyd ato i raddau—am blant dan oed ar eu pen eu hunain. Ni fydd pob plentyn dan oed ar ei ben ei hun wedi dod drwy'r broses hon yn y ffordd y dylent. Bydd llawer ohonynt eisoes yn ddioddefwyr masnachu mewn pobl. Nid oes amheuaeth mewn unrhyw achos lle mae gennych symudiad torfol o bobl, mae masnachwyr yn symud i mewn. Mae'n digwydd bob tro.

There are already—and I'm reiterating what I said last week—instances that the BBC have highlighted in Italy where young males, mostly, are being used as prostitutes and are being used to run drugs for very evil predators. They will be here in Wales if we don't watch what we're doing, if we don't protect those most vulnerable young people and ensure that, when we place them, they are guarded and protected, and that their voices are heard. On this very point, I want to ask you if you will consider rolling out in Wales some of the trials where we will provide specialist advocates for those children, which have already happened as a consequence of the modern slavery Bill in England. I would like also to ask if we can at least dovetail some of those advocates with the Gwent missing persons Breaking the Cycle project, as an example. It cannot be, and none of us want to be here, and we will be if we're not careful, in a very short time, listening to the stories about those young people who have fallen foul and become the victims of slavery. They will already be in Europe. They are here; there is no question about it. Once they've reached the borders, the movement and transportation—everything that we know—will happen.

Mae eisoes—ac rwy'n ailadrodd yr hyn a ddywedais yr wythnos diwethaf—achosion y mae'r BBC wedi tynnu sylw atynt yn yr Eidal lle mae dynion ifanc, yn bennaf, yn cael eu defnyddio fel puteiniaid ac yn cael eu defnyddio i smyglo cyffuriau ar gyfer ysglyfaethwyr drwg iawn. Byddant yma yng Nghymru os nad ydym yn ofalus beth yr ydym yn ei wneud, os nad ydym yn amddiffyn y bobl ifanc hynny sydd fwyaf agored i niwed a sicrhau, pan fyddwn yn eu lleoli, eu bod yn cael eu gwarchod a'u diogelu, a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Ar yr union bwynt hwn, rwyf am ofyn i chi os byddwch yn ystyried cyflwyno yng Nghymru rai o'r treialon lle byddwn yn darparu eiriolwyr arbenigol ar gyfer y plant hynny, sydd eisoes wedi digwydd o ganlyniad i'r Bil caethwasiaeth modern yn Lloegr. Hoffwn hefyd ofyn a allwn o leiaf ymblethu rhai o'r eiriolwyr hynny gyda phrosiect Torri'r Cylch pobl ar goll Gwent, fel enghraifft. Ni all fod, ac nid oes yr un ohonom eisiau bod yma, a byddwn yma os nad ydym yn ofalus, mewn amser byr iawn, yn gwrando ar y storïau am bobl ifanc hynny sydd wedi ennyn llid a dod yn ddioddefwyr caethwasiaeth. Byddant eisoes yn Ewrop. Maent yma; nid oes amheuaeth am hynny. Unwaith y byddant wedi cyrraedd y ffiniau, bydd y symudiad a chludiant—popeth yr ydym yn ei wybod—yn digwydd.

17:08 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Joyce Watson raises some very important points, particularly around slavery. You referred to their vulnerability, and I think that you're quite right: this is going to be a very long-term situation. The initial announcement from the UK Government was that they would fund this for the first year. They're now saying that it will probably be two years. I know that my officials are pushing very much to have that funding extended for the whole five years in the first instance. But we're talking beyond five years, obviously. So, those discussions are ongoing.

Diolch. Mae Joyce Watson yn codi rhai pwyntiau pwysig iawn, yn arbennig o amgylch caethwasiaeth. Cyfeiriasoch at eu natur agored i niwed, ac rwy'n meddwl eich bod yn hollol iawn: mae hon yn mynd i fod yn sefyllfa hynod o hirdymor. Y cyhoeddiad cychwynnol gan Lywodraeth y DU oedd y byddent yn ariannu hyn ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Maent yn awr yn dweud y bydd yn fwy na thebyg yn ddwy flynedd. Gwn fod fy swyddogion yn gwthio yn galed iawn at gael y cyllid wedi ei ymestyn ar gyfer y pum mlynedd i gyd yn y lle cyntaf. Ond rydym yn sôn y tu hwnt i bum mlynedd, yn amlwg. Felly, mae'r trafodaethau hynny'n parhau.

Just to say a bit about the process. The refugees in this extended scheme will be selected from camps in Turkey, Lebanon and Jordan. Vulnerable children and orphans will be prioritised. This will be done by the United Nations High Commissioner for Refugees. He'll be the one responsible for identifying those most in need. Everyone considered for resettlement will be subject to security checks, but they will travel in a different way. But you're quite right: we need to be aware of trafficking issues.

Dim ond i ddweud ychydig am y broses. Bydd y ffoaduriaid yn y cynllun estynedig hwn yn cael eu dewis o wersylloedd yn Nhwrci, Libanus a'r Iorddonen. Bydd plant a phlant amddifad sy'n agored i niwed yn cael eu blaenoriaethu. Bydd hyn yn cael ei wneud gan Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ffoaduriaid. Ef fydd yr un sy'n gyfrifol am nodi'r rhai mwyaf anghenus. Bydd pawb gaiff eu hystyried ar gyfer adsefydlu yn destun gwiriadau diogelwch, ond byddant yn teithio mewn ffordd wahanol. Ond rydych yn hollol iawn: mae angen i ni fod yn ymwybodol o faterion masnachu mewn pobl.

I think the point that you make about advocates is really important and that's something that certainly the operations board and the taskforce can look at, going forward.

Rwy'n meddwl bod y pwynt a wnewch am eiriolwyr yn bwysig iawn ac mae hynny'n rhywbeth yn sicr y gall y bwrdd gweithrediadau a'r tasglu edrych arno, yn y dyfodol.

I mentioned that the UK Government had stated that there'd be a separate scheme put in place for provision for Syrian refugee children, but no details have been released to date. This comes on the back—. The Home Office provided funding for a dedicated children's panel in England, but not in Wales, to support unaccompanied asylum-seeking children. It has taken months to get a response. I wrote, I think, for the first time in March to the immigration Minister. I didn't have a reply and chased it up. I think the last letter that I sent was in August, and I did have a response on 21 September. He has now agreed that the children's panel in England will provide support to UASC in Wales on a sessional basis. But, I've gone back to James Brokenshire to seek some more clarification around that, because I do think you have raised a very important point.

Soniais fod Llywodraeth y DU wedi dweud y byddai cynllun ar wahân ar waith ar gyfer darpariaeth i blant sy'n ffoaduriaid o Syria, ond nid oes manylion wedi cael eu rhyddhau hyd yn hyn. Daw hyn yn sgil—. Darparodd y Swyddfa Gartref gyllid ar gyfer panel penodol i blant yn Lloegr, ond nid yng Nghymru, i gefnogi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Mae wedi cymryd misoedd i gael ymateb. Ysgrifennais, rwy'n meddwl, am y tro cyntaf ym mis Mawrth at y Gweinidog mewnfudo. Ni chefais ateb ac euthum ar drywydd hynny. Rwy'n meddwl bod y llythyr olaf a anfonais ym mis Awst, ac fe gefais ymateb ar 21 Medi. Mae bellach wedi cytuno y bydd panel y plant yn Lloegr yn rhoi cymorth i UASC yng Nghymru ar sail sesiynol. Ond, rydw i wedi mynd yn ôl at James Brokenshire i geisio mwy o eglurhad ynghylch hynny, oherwydd rwy'n meddwl eich bod wedi codi pwynt pwysig iawn.

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

17:10

## 7. Datganiad: Rhoi Organau: Rhoi Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 ar Waith

## 7. Statement: Organ Donation: Implementing the Human Transplantation (Wales) Act 2013

Y Senedd.tv
Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 7 is a statement by the Minister for Health and Social Services on organ donation—implementing the Human Transplantation (Wales) Act 2013. I call the Minister, Mark Drakeford.

Eitem 7 yw datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar roi organau— sy'n gweithredu Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013. Galwaf ar y Gweinidog, Mark Drakeford.

17:10

### Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Dwy flynedd a thri mis yn ôl, wedi cryn ystyried a thrafod, pasiodd y Siambr hon yr hyn a ddaeth i fod yn Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013. Ymhen 56 diwrnod, bydd y Ddeddf honno'n dod i rym yn llawn ac yn gweddnewid y drefn rhoi organau yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system newydd o gymryd yn ganiataol fod pobl yn cydsynio i roi organau. Rydym ni'n rhagweld y bydd y system honno'n helpu i greu'r hyn y mae Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol wedi ei alw'n chwyldro yn y drefn o gydsynio i roi organau. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi gobaith i dros 200 o bobl ledled Cymru sy'n methu symud ymlaen â'u bywydau am eu bod yn aros am organ newydd.

Two years and three months ago, after great consideration and debate, this Chamber passed what would become the Human Transplantation (Wales) Act 2013. In 56 days, that Act will fully come into force and reform the system of organ donation in Wales. The new system of deemed consent introduced by the Act will, we anticipate, help create what the NHS Blood and Transplant Service has called a revolution in consent. This Act offers hope to over 200 people across Wales whose lives are on hold whilst they await a new organ.

Dirprwy Lywydd, during the passage of the Bill, it was agreed that two years would be set aside to inform the public about the new system and make all the necessary arrangements to implement the Act. Today, I will outline what has taken place over that period to ensure that Wales is prepared to become the first country in the UK to introduce deemed consent for organ donation, and to set in context the regulations that the National Assembly will be asked to vote upon later this afternoon.

Ddirprwy Lywydd, yn ystod taith y Bil, cytunwyd y byddai dwy flynedd yn cael eu neilltuo i hysbysu'r cyhoedd am y system newydd a gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Heddiw, byddaf yn amlinellu yr hyn sydd wedi digwydd dros y cyfnod hwnnw i sicrhau bod Cymru yn barod i fod y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno cydsyniad tybiedig ar gyfer rhoi organau, ac i osod mewn cyd-destun y rheoliadau y gofynnir i'r Cynulliad Cenedlaethol bleidleisio arnynt yn ddiweddarach y prynhawn yma.

Since the Act was passed a great deal of work has gone on to prepare for this fundamental change. People in Wales have been informed about the new system through a multi-faceted campaign that has progressively born fruit as awareness levels have risen. Working with NHS Blood and Transplant and the other UK countries, the new organ donor register has been developed and implemented. The Human Tissue Authority has drawn up, consulted upon and finalised a code of practice that will ensure deemed consent is operated in the way this Chamber intended. We have also drafted and consulted on the regulations that are to be considered by Members later today, and attended to the training needs of clinical staff in the NHS. A robust evaluation plan for the performance of the new system has been established and will run alongside its implementation.

Gwnaed llawer iawn o waith ers i'r Ddeddf gael ei phasio i baratoi ar gyfer y newid sylfaenol hwn. Mae pobl yng Nghymru wedi cael gwybod am y system newydd drwy ymgyrch amlweddog sydd wedi dwyn ffrwyth yn raddol wrth i lefelau ymwybyddiaeth godi. Gan weithio gyda Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG a gwledydd eraill yn y DU, mae'r gofrestr rhoddwyr organau newydd wedi'i datblygu a'i gweithredu. Mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol wedi llunio, ymgynghori a chwblhau cod ymarfer a fydd yn sicrhau bod cydsyniad tybiedig yn cael ei weithredu yn y ffordd a fwriadwyd gan y Siambr hon. Rydym ni hefyd wedi drafftio ac ymgynghori ar y rheoliadau sydd i'w hystyried gan yr Aelodau yn ddiweddarach heddiw, ac wedi rhoi sylw i anghenion hyfforddi staff clinigol y GIG. Mae cynllun gwerthuso cadarn ar gyfer perfformiad y system newydd wedi ei sefydlu a bydd yn rhedeg ochr yn ochr â'i weithrediad.

Dirprwy Lywydd, from that long list, ensuring that the public know about the forthcoming change has been the first priority. As a result, we have undertaken the largest and most diverse public health campaign in the history of devolution. I wrote to Members last week with a more detailed update of the communications work undertaken. I hope you will agree that it has included some very high-quality creative advertising, as well as events, face-to-face engagement, and direct communication by post with every household in Wales. Advertisements have appeared on television, radio, online, in the press and outdoors in discrete phases, each aimed at building up awareness. An active social media presence has made contact with that increasing number of Welsh citizens who receive and absorb information in that way. All of this has been supplemented by organising and attending a wide range and variety of face-to-face events, exhibitions in busy public areas, and other direct engagement work. Well over 100 separate such events have engaged thousands of members of the public on the topic of organ donation and the new law. These events range from a large-scale events, such as the gala concert held in Rhyl to launch the Lap of Wales Challenge, to talks given to individual groups and organisations in all parts of Wales.

Ddirprwy Lywydd, o'r rhestr hir honno, y flaenoriaeth gyntaf oedd sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod am y newid sydd ar ddod. O ganlyniad, rydym ni wedi ymgymryd â'r ymgyrch iechyd cyhoeddus mwyaf a mwyaf amrywiol yn hanes datganoli. Ysgrifennais at yr Aelodau yr wythnos diwethaf gyda diweddariad manylach am y gwaith cyfathrebu a wnaed. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn cytuno ei fod wedi cynnwys rhywfaint o hysbysebu creadigol sydd o ansawdd uchel iawn, yn ogystal â digwyddiadau, ymgysylltu wyneb yn wyneb, a chyfathrebu uniongyrchol drwy'r post gyda phob cartref yng Nghymru. Mae hysbysebion wedi ymddangos ar y teledu, radio, ar-lein, yn y wasg ac yn gyhoeddus mewn camau pwyllog, a phob un ohonynt â'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth. Mae presenoldeb gweithgar ar y cyfryngau cymdeithasol wedi cysylltu â'r nifer cynyddol o ddinasyddion Cymru sy'n derbyn ac yn nodi gwybodaeth yn y ffordd honno. Mae hyn i gyd wedi ei ategu drwy drefnu a mynychu ystod eang ac amrywiaeth o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, arddangosfeydd mewn mannau cyhoeddus prysur, a gwaith ymgysylltu uniongyrchol arall. Mae ymhell dros 100 o wahanol ddigwyddiadau o'r fath wedi tynnu sylw miloedd o aelodau'r cyhoedd at y pwnc o roi organau a'r gyfraith newydd. Mae'r digwyddiadau hyn yn amrywio o ddigwyddiadau ar raddfa fawr, megis y cyngerdd gala a gynhaliwyd yn Y Rhyl i lansio Her Cylchdaith Cymru, i areithiau sy'n cael eu rhoi i grwpiau a sefydliadau unigol ym mhob rhan o Gymru.

The two-year effort has also included a wide range of actions to reach those who need additional support to understand the law and how it relates to them. Literature has been published in a variety of formats, including Braille, large print, easy read and those languages that are spoken widely in Wales in addition to Welsh and English. Specific work has also been undertaken to target those whom the law affects slightly differently because of their residence: for instance, students and members of the armed forces.

Mae'r ymdrech ddwy flynedd hefyd wedi cynnwys amrywiaeth eang o gamau i gyrraedd y rhai sydd angen cymorth ychwanegol i ddeall y gyfraith a sut y mae'n berthnasol iddyn nhw. Cyhoeddwyd llenyddiaeth mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys Braille, print bras, print hawdd ei ddarllen a'r ieithoedd a siaredir yn eang yng Nghymru yn ogystal â'r Gymraeg a'r Saesneg. Gwnaed gwaith penodol hefyd i dargedu'r rhai yr effeithir arnynt mewn modd ychydig yn wahanol gan y gyfraith oherwydd ble y maent yn byw: er enghraifft, myfyrwyr ac aelodau o'r lluoedd arfog.

Members will recall that, during the passage of the Bill, faith communities raised concerns about the operation of deemed consent and how the new system would work in practice. A specialist agency was appointed, which has built strong relationships with faith leaders across Wales and worked with them to raise awareness about the new law in particular communities. In the summer, I was especially pleased to spend time myself on the organ donation stand at the Riverside festival here in Cardiff, at the heart of the largest Bangladeshi and Pakistani communities in Wales, and to see there the very rich engagement on this issue that took place throughout that afternoon.

Bydd yr Aelodau'n cofio, yn ystod taith y Bil, bod cymunedau ffydd wedi codi pryderon ynghylch gweithredu cydsyniad tybiedig a sut y byddai'r system newydd yn gweithio yn ymarferol. Penodwyd asiantaeth arbenigol sydd wedi adeiladu perthnasau cadarnhaol gydag arweinwyr ffydd ledled Cymru ac sydd wedi gweithio gyda nhw i godi ymwybyddiaeth o'r gyfraith newydd mewn cymunedau penodol. Yn yr haf, roeddwn i'n hynod falch o dreulio amser fy hun ar y stondin rhoi organau yng ngŵyl Glan-yr-afon yma yng Nghaerdydd, yng nghalon y cymunedau Bangladeshaidd a Phacistanaidd mwyaf yng Nghymru, ac i weld yno ymgysylltiad cyfoethog iawn mewn cyswllt â'r mater hwn a ddigwyddodd trwy gydol y prynhawn hwnnw.

More generally, the support received over the two years from communities and civil society organisations across Wales has been wide and varied. We have been given enormous support from medical and voluntary organisations, such as Kidney Wales, the British Heart Foundation and the cystic fibrosis society, but also wider bodies, too, including women's institutes and major employers here in Wales.

Yn fwy cyffredinol, mae'r gefnogaeth a dderbyniwyd dros y ddwy flynedd gan gymunedau a mudiadau cymdeithas sifil ledled Cymru wedi bod yn eang ac yn amrywiol. Rydym ni wedi cael cefnogaeth anferth gan sefydliadau meddygol a gwirfoddol, megis Sefydliad Aren Cymru, Sefydliad Prydeinig y Galon a'r gymdeithas ffeibrosis systig, yn ogystal â chefnogaeth gan gyrff ehangach, hefyd, gan gynnwys sefydliad merched a chyflogwyr mawr yma yng Nghymru.

Alongside that public-facing activity, much effort has also gone into updating and preparing systems and procedures to support the new legislation. In June, the new organ donor register was launched. It had been designed and delivered alongside the other UK countries and NHS Blood and Transplant, and we took the opportunity of that launch to deliver a leaflet about the new law to all households in Wales. The new organ donor register is more resilient, it's more user friendly and, importantly, for the very first time, it can be used to record people's decisions not to become a donor. As a result, for the first time, anyone in Wales—anyone in the UK—who does not want to be a donor can securely record that decision. Staff who work directly within organ donation have already been trained on, and are confidently operating, the new register.

Ochr yn ochr â'r gweithgareddau hynny sy'n cysylltu â'r cyhoedd, mae llawer o ymdrech hefyd wedi mynd i mewn i ddiweddaru a pharatoi systemau a gweithdrefnau i gefnogi'r ddeddfwriaeth newydd. Ym mis Mehefin, lansiwyd y gofrestr rhoddwyr organau newydd. Cafodd ei dylunio a'i chyflwyno ochr yn ochr â gwledydd eraill y DU a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, ac fe wnaethom ni achub ar y cyfle a gynigiwyd gan y lansiad hwnnw i ddanfon taflen am y gyfraith newydd i bob cartref yng Nghymru. Mae'r gofrestr rhoddwyr organau newydd yn fwy cadarn, yn haws i'w defnyddio ac, yn bwysig, am y tro cyntaf erioed, gellir ei defnyddio i gofnodi penderfyniadau bobl i beidio â bod yn rhoddwr. O ganlyniad, am y tro cyntaf, bydd unrhyw un yng Nghymru—unrhyw un yn y DU—nad yw'n dymuno bod yn rhoddwr yn gallu cofnodi'r penderfyniad hwnnw yn ddiogel. Mae staff sy'n gweithio'n uniongyrchol ym maes rhoi organau eisoes wedi eu hyfforddi, ac yn gweithredu'r gofrestr newydd yn hyderus.

NHSBT, as the responsible body, is currently rolling out specific training on the Welsh legislation for specialist nurses in organ donation. Those specialist nurses will then communicate the information onwards to clinical staff in intensive care and emergency units across Wales. Wider staff groups have been informed by using a dedicated fact sheet and raising awareness via medical directors, and that whole process of preparing staff for the new law will be completed by 1 December.

Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, sef y corff sydd â chyfrifoldeb, ar hyn o bryd yn cyflwyno hyfforddiant penodol ar ddeddfwriaeth Cymru ar gyfer nyrsys arbenigol rhoi organau. Bydd y nyrsys arbenigol hynny wedyn yn rhannu'r wybodaeth â'r staff clinigol mewn unedau gofal dwys ac unedau brys ledled Cymru. Mae grwpiau staff ehangach wedi eu hysbysu drwy daflen ffeithiau benodedig a chodi ymwybyddiaeth trwy gyfarwyddwyr meddygol, a bydd yr holl broses honno o baratoi staff ar gyfer y ddeddf newydd wedi ei chwblhau erbyn 1 Rhagfyr.

Dirprwy Lywydd, at the beginning of September, a package of subordinate legislation was laid before the Assembly, and that legislation will be debated and voted on later this afternoon. It contains three sets of regulations drafted by the Welsh Government and a code of practice developed by the Human Tissue Authority, the UK regulator for the use of human tissues and organs.

Ddirprwy Lywydd, ddechrau mis Medi, gosodwyd pecyn o is-ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad, a byddwn yn trafod ac yn pleidleisio ar y ddeddfwriaeth honno yn ddiweddarach y prynhawn yma. Mae'n cynnwys tair cyfres o reoliadau a ddrafftiwyd gan Lywodraeth Cymru a chod ymarfer a ddatblygwyd gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, sef rheoleiddiwr y DU ar gyfer defnyddio meinweoedd dynol ac organau.

Over the last two years, a great deal of research has been undertaken into public attitudes and the operation of the current system and awareness of how the new system will operate, but work on organ donation and deemed consent will not simply stop on 1 December. Independent researchers, led by Professor Roy Carr-Hill of York university, have been commissioned to undertake a detailed analysis of the new system and to report on its operation. The Welsh Government will also continue in our commitment to ensure that the Welsh public understand organ donation and the opt-out system. We will run annual campaigns, we will write to all Welsh teenagers as they approach their eighteenth birthday, and we will continue the active engagement work we have undertaken with students and other groups where questions about residence can arise.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, gwnaed llawer o ymchwil ynglŷn â barn y cyhoedd a gweithrediad y system bresennol a'r ymwybyddiaeth o sut y bydd y system newydd yn gweithredu, ond ni fydd y gwaith ar roi organau a chydsyniad tybiedig yn dod i ben yn syml ar 1 Rhagfyr. Mae ymchwilwyr annibynnol, dan arweiniad yr Athro Roy Carr-Hill o Brifysgol Caerefrog, wedi eu comisiynu i ymgymryd â dadansoddiad manwl o'r system newydd ac i adrodd ar ei weithrediad. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau yn ein hymrwymiad i sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn deall y system rhoi organau a'r system o optio allan. Byddwn yn cynnal ymgyrchoedd blynyddol, byddwn yn ysgrifennu at yr holl blant yn eu harddegau yng Nghymru wrth iddynt agosáu at eu pen-blwydd yn ddeunaw oed, a byddwn yn parhau â'r gwaith ymgysylltu gweithredol yr ydym ni wedi ymgymryd ag ef gyda myfyrwyr a grwpiau eraill lle y gall cwestiynau am godi ynglŷn â ble maent yn byw.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau wedi eu sicrhau ein bod wedi gwneud defnydd llawn o'r ddwy flynedd diwethaf I wella ymwybyddiaeth a pharatoi ar gyfer agweddau ymarferol ar y ddeddfwriaeth newydd. Rwy'n edrych ymlaen at 1 Rhagfyr, pan fydd yn cael ei gweithredu. Diolch yn fawr.

Deputy Presiding Officer, I hope Members will be assured that we have made full use of the past two years in raising awareness and in preparing for the practical aspects of the new legislation. I look forward very much to 1 December, when it will be implemented. Thank you very much.

17:20 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's a pleasure to be able to respond to this statement. Many Members in this Chamber will recall that, during the debate on this particular issue, there was an issue of conscience that I had on this particular matter and, because of that, of course, and the varying views amongst the public, the Welsh Conservatives will have a free vote on the regulations that will be discussed later on this afternoon.

Mae'n bleser cael ymateb i'r datganiad hwn. Bydd llawer o'r Aelodau yn y Siambr hon yn cofio, yn ystod y ddadl am y mater penodol hwn, roedd gennyf deimlad o gydwybod ynglŷn â'r mater penodol hwn, ac oherwydd hynny, wrth gwrs, yn ogystal â'r farn amrywiol ymhlith y cyhoedd, bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cael pleidlais rydd ar y rheoliadau a fydd yn cael eu trafod yn ddiweddarach y prynhawn yma.

Can I thank you, Minister, for your statement? I think it is important that the Assembly receives these important updates, particularly given the pending date of 1 December, when the new system of organ donation will begin to operate in Wales. That's just, of course, eight weeks away, and that time will fly by, as any shopper will know as they prepare for Christmas. I acknowledge the efforts—the great efforts—that have been made by the Welsh Government, the national health service, and its partners in Wales, to communicate about the change in the system to members of the public. The Minister will recall that we were both together at St David's hospice in Cardiff earlier this year at a promotional event and, like the Minister, I commend all of those organisations, like the Lap of Wales Challenge, the British Heart Foundation, Kidney Wales, and others, who've been involved in promoting the changes so that people can be aware of what is taking place.

A gaf i ddiolch i chi, Weinidog, am eich datganiad? Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod y Cynulliad yn derbyn y diweddariadau pwysig hyn, yn arbennig o ystyried y dyddiad arfaethedig sef Rhagfyr 1, pan fydd y system newydd o roi organau yn dechrau gweithredu yng Nghymru. Dim ond wyth wythnos i ffwrdd, wrth gwrs, yw hynny, a bydd yr amser hwnnw yn hedfan, fel y bydd unrhyw siopwr yn gwybod wrth iddo baratoi ar gyfer y Nadolig. Rwyf yn cydnabod yr ymdrechion—yr ymdrechion sylweddol—a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru, y gwasanaeth iechyd gwladol, a'i bartneriaid yng Nghymru, i egluro'r newid yn y system i aelodau o'r cyhoedd. Bydd y Gweinidog yn cofio ein bod ni'n dau gyda'n gilydd yn hosbis Dewi Sant yng Nghaerdydd yn gynharach eleni mewn digwyddiad hyrwyddo ac, fel y Gweinidog, cymeradwyaf yr holl sefydliadau hynny, fel Her Cylchdaith Cymru, Sefydliad Prydeinig y Galon, Sefydliad Aren Cymru, ac eraill, sydd wedi bod yn cymryd rhan wrth hyrwyddo'r newidiadau er mwyn i bobl fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd.

I think also that it's been good to see the variety of communication methods that have been used—direct mail, tv and radio advertising. All of these, of course, are useful tools, but, you know, Minister, there's a great deal of difference between promoting awareness of change and actually understanding the changes that are going to take place. What concerns me is that, whilst many people are aware that something is changing, not everybody is aware of the specifics of the change and what it will mean for them and their families, and how important it is to get people to register their decision and to have these discussions with their loved ones about their intentions and about their decision in terms of organ donation.

Rwy'n credu hefyd ei bod hi wedi bod yn dda gweld yr amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd—postio uniongyrchol a hysbysebu ar y teledu ac ar y radio. Mae'r rhain i gyd, wrth gwrs, yn ddulliau defnyddiol, ond, wyddoch chi, Weinidog, mae yna wahaniaeth mawr rhwng hybu ymwybyddiaeth o newid a deall mewn gwirionedd y newidiadau sy'n mynd i ddigwydd. Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw, er bod llawer o bobl yn ymwybodol bod rhywbeth yn newid, nid yw pawb yn ymwybodol o'r manylion penodol sy'n rhan o'r newid a'r hyn y bydd yn ei olygu iddyn nhw a'u teuluoedd, a pha mor bwysig yw hi i gael pobl i gofrestru eu penderfyniad ac i gael y trafodaethau hyn gyda'u hanwyliaid am eu bwriadau ac am eu penderfyniad o ran rhoi organau.

I think, just in general terms, across the UK, it's been very welcome indeed to see the significant rise in the number of people donating their organs over the past few years. I was looking at some research earlier today. It suggested that there were 809 organ donors in 2007 in the UK, and that had increased, by 2013, by 63 per cent to more than 1,300. These are phenomenal increases, and these are in spite of no change elsewhere in the United Kingdom. So, I think there is a lot of work going on elsewhere in the UK to promote organ donation, which has been successful, and no doubt we can also piggyback on that work here in Wales and see those numbers of people registering actively to give their express consent being increased.

Rwyf yn credu, mewn termau cyffredinol, ledled y DU, bod y cynnydd sylweddol a welwyd yn nifer y bobl sydd wedi rhoi eu horganau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn rhywbeth a groesawyd yn fawr iawn. Roeddwn i'n edrych ar ychydig o waith ymchwil yn gynharach heddiw. Awgrymwyd bod 809 o roddwyr organau yn 2007 yn y DU, a bod hynny wedi cynyddu, erbyn 2013, gan 63 y cant i fwy na 1,300. Mae hwn yn gynnydd anhygoel, ac mae hyn er gwaethaf y ffaith na fu unrhyw newid ym mannau eraill y Deyrnas Unedig. Felly, rwyf yn credu bod llawer o waith yn cael ei wneud mewn mannau eraill o'r DU i hyrwyddo rhoi organau, sydd wedi bod yn llwyddiannus, ac nid oes amheuaeth, y gallwn ninnau elwa ar y gwaith hwnnw yma yng Nghymru, a gweld cynnydd yn niferoedd y bobl sy'n cofrestru yn weithredol i roi eu c datganedig.

Can I just ask some specific questions in relation to the communication activity? You referred, obviously, to the need to have an annual refreshing of the campaign so that those who perhaps have moved into Wales, and those who might be here for temporary periods, also are aware of the changes to the law. I wonder, Minister, whether you can tell us at what time of the year you intend to conduct those campaigns? Are we looking at a communications strategy that is for one week of the year, or is this a drip-feed campaign that will take place across a rolling 12-month period? What concerns me is that, obviously, there are times, particularly for people like students, for example, when they're not always going to be present in Wales, and I think it is important to reach those communities when they are here with the message about the change in the law and what it means for them.

A gaf i ofyn rhai cwestiynau penodol ynglŷn â'r gweithgaredd cyfathrebu? Cyfeiriasoch, yn amlwg, at yr angen i ddiweddaru'r ymgyrch yn flynyddol fel bod y rhai sydd efallai wedi symud i mewn i Gymru, a'r rhai a allai fod yma ddim ond am gyfnodau dros dro, hefyd yn ymwybodol o'r newidiadau yn y gyfraith. Tybed, Weinidog, a ydych chi'n gallu dweud wrthym ar ba adeg o'r flwyddyn yr ydych yn bwriadu cynnal yr ymgyrchoedd hynny? A ydym ni'n edrych ar strategaeth gyfathrebu a fydd yn parhau dros gyfnod o un wythnos yn y flwyddyn, neu a yw hon yn ymgyrch raddol a fydd yn digwydd dros gyfnod o 12 mis? Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw, yn amlwg, yw y ceir adegau, yn enwedig i bobl fel myfyrwyr, er enghraifft, pan nad ydynt bob amser yn mynd i fod yn bresennol yng Nghymru, ac rwyf yn meddwl ei bod hi'n bwysig cyrraedd y cymunedau hynny pan eu bod yma gyda'r neges am y newid yn y gyfraith a'r hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw.

You made specific reference, and I welcomed it, to faith groups and the engagement that you've had with faith groups and those other hard-to-reach ethnic groups as well in Wales who perhaps haven't been as receptive to the proposed changes as others. I'm a member of a faith group, and many other Members of this Chamber are too; I have to say this engagement has completely passed me by. I'd be very grateful to know precisely who are the individual members of the diversity agency that are doing this outreach work, and which faith groups they have engaged with, because I have to say they certainly have not engaged with those faith groups with which I have had contact. I know that that, having discussed it with some other members of my group who are members of faith groups, is certainly the case for them too.

Cyfeiriasoch yn benodol, ac roeddwn i yn ei groesawu, at grwpiau ffydd a'r ymgysylltiad a gawsoch chi gyda grwpiau ffydd a'r grwpiau ethnig eraill yng Nghymru sy'n anodd eu cyrraedd ac efallai nad ydynt wedi bod mor barod ag eraill i dderbyn y newidiadau arfaethedig. Rwyf i'n aelod o grŵp ffydd, fel ag y mae llawer o Aelodau eraill o'r Siambr hon; mae'n rhaid i mi ddweud nad oeddwn i'n ymwybodol o gwbl o'r ymgysylltiad hwn. Byddwn yn ddiolchgar iawn o gael gwybod pwy yn union yw aelodau unigol yr asiantaeth amrywiaeth sy'n gwneud y gwaith allgymorth hwn, a pha grwpiau ffydd y maent wedi ymgysylltu â hwy, oherwydd mae'n rhaid imi ddweud ei bod hi'n sicr nad ydyn nhw wedi ymgysylltu â'r grwpiau ffydd hynny yr wyf i wedi bod mewn cyswllt â hwy. Gwn fod hynny, ar ôl trafod y mater gyda rhai aelodau eraill yn fy ngrŵp i sydd yn aelodau o grwpiau ffydd, yn wir o'u rhan hwythau hefyd.

Can you also tell us, Minister—? I know that some work has been done on awareness, trying to establish what the awareness levels are; as I said earlier, awareness doesn't equal understanding, and I think it's important to distinguish between the two. What work has been done to test people's understanding of the new arrangements—not their awareness, but their understanding of the new arrangements, so that they can be fully aware of what they are doing by not registering a decision either way in terms of organ donation before their death? Because I'm not convinced that everybody in Wales truly appreciates the implications of not actually registering a decision. I think it is important that that happens. And, finally, perhaps you can give us the most recent information that you have on levels of awareness as opposed to understanding across Wales. I know that recent research by ITV Wales, for example, that was done suggested that there was quite a high level of awareness that things were changing, but it would be helpful to know whether that has increased, whether it continues to nudge upwards or whether that is in direct response to particular campaigns. Thank you.

A wnewch chi ddweud wrthym hefyd, Weinidog—? Gwn fod rhywfaint o waith wedi ei wneud ar ymwybyddiaeth, a cheisio sefydlu beth yw lefelau'r ymwybyddiaeth; fel y dywedais yn gynharach, nid yw ymwybyddiaeth yn golygu dealltwriaeth, ac rwyf yn credu ei bod yn bwysig gwahaniaethu rhwng y ddau. Pa waith sydd wedi'i wneud i brofi dealltwriaeth pobl o'r trefniadau newydd—nid eu hymwybyddiaeth, ond eu dealltwriaeth o'r trefniadau newydd, fel y gallant fod yn gwbl ymwybodol o'r hyn y maent yn ei wneud drwy beidio â chofrestru penderfyniad y naill ffordd na'r llall o ran rhoi organau cyn iddynt farw? Oherwydd nid wyf yn argyhoeddedig bod pawb yng Nghymru mewn gwirionedd yn gwerthfawrogi'r goblygiadau o beidio â chofrestru penderfyniad. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod hynny'n digwydd. Ac, yn olaf, efallai y gallwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gennych i ni ynghylch y lefelau o ymwybyddiaeth, yn hytrach na'r ddealltwriaeth ledled Cymru. Gwn fod gwaith ymchwil a wnaethpwyd yn ddiweddar gan ITV Cymru, er enghraifft, wedi awgrymu bod lefel eithaf uchel o ymwybyddiaeth o ran bod pethau yn newid, ond y byddai'n ddefnyddiol cael gwybod a yw hynny wedi cynyddu, a yw'n parhau i wthio tuag at i fyny neu a yw hynny mewn ymateb uniongyrchol i ymgyrchoedd penodol. Diolch.

17:26 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Darren Millar for both the things that he said earlier about the effort that's been made to try and raise awareness and understanding. I entirely agree with what he said about the importance of discussion. If there's been a message going through the whole campaign it is to try to persuade people to let others, and, particularly, people who are close to them, know what their views would be, and, through discussion, to develop their views and to sometimes change their minds about what they think would be right for them.

Diolch i Darren Millar am y ddau beth a ddywedodd yn gynharach am yr ymdrech a wnaed i geisio codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd am bwysigrwydd trafodaeth. Os oes un neges wedi parhau drwy gydol yr ymgyrch hon, y neges honno yw ceisio perswadio pobl i roi gwybod i eraill, ac, yn enwedig y bobl sy'n agos atynt, am eu barn, a, thrwy drafodaeth, datblygu eu barn ac weithiau newid eu meddwl am yr hyn y maent yn ei gredu y byddai'n iawn iddyn nhw.

In relation to the specific questions that he raised, in terms of the work that we will do beyond the implementation of the Act, I see that as happening throughout the year in different ways. It won't be just a one-off event. There will be very specific things we will do in addition to that—continue to do. In relation, for example, to students, we've had some fantastic cooperation with the higher education sector in Wales in making sure that anybody who's coming into Wales as a student for the first time gets, as part of the information that they would receive about everything else they need to know, information about the fact that the law in Wales will be different in relation to organ donation. We'll want to continue to make sure that that happens.

O ran y cwestiynau penodol a gododd ef, o ran y gwaith y byddwn yn ei wneud y tu hwnt i weithredu'r Ddeddf, rwyf yn gweld hynny yn digwydd trwy gydol y flwyddyn mewn gwahanol ffyrdd. Nid ddigwyddiad untro yn unig fydd hwn. Bydd yna bethau penodol iawn y byddwn ni yn eu gwneud yn ogystal â hynny—a byddwn yn parhau i'w gwneud. O ran, er enghraifft, myfyrwyr, rydym ni wedi cael rhywfaint o gydweithrediad gwych gyda'r sector addysg uwch yng Nghymru wrth sicrhau bod unrhyw un sy'n dod i mewn i Gymru fel myfyriwr am y tro cyntaf yn cael, yn rhan o'r wybodaeth y byddai'n ei derbyn am yr holl bethau eraill y mae angen iddo wybod, gwybodaeth am y ffaith y bydd y gyfraith yng Nghymru yn wahanol ynglŷn â rhoi organau. Byddwn ni'n awyddus i barhau i wneud yn siŵr bod hynny'n digwydd.

In relation to faith groups, the work has focused on engaging with the Muslim community because there is both a higher need for receiving organs among people of a Muslim heritage and the lowest levels of being on the organ donor register. So, a lot of work has gone on with that community. But we have also worked closely with the Hindu community, the Sikh community and with the Evangelical church alliance. So, it's been a broader spread of activity than simply the Muslim faith.

O ran grwpiau ffydd, mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned Fwslimaidd oherwydd bod yr angen am organau yn uwch ymhlith pobl sydd â threftadaeth Fwslimaidd ond yn eu plith hwy hefyd y ceir y lefelau isaf o roddwyr ar y gofrestr rhoi organau. Felly, gwnaed llawer o waith yn y gymuned honno. Ond rydym ni hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r gymuned Hindŵaidd, y gymuned Sikh a gyda chynghrair yr eglwys Efengylaidd. Felly, mae'r gwaith wedi bod yn ehangach na gyda'r ffydd Fwslimaidd yn unig.

In relation to the point that Darren Millar makes about the difference between awareness and understanding, the ITV opinion poll that he referred to showed an awareness level of the fact that the law was changing in Wales of 89 per cent. I think that it is a pretty remarkable figure for anything that is new and in the public domain. Does that mean that people know exactly what is going to happen and how exactly that will affect them in their lives? Well, I'm sure he's right to say that there's a gap between understanding that something is happening and knowing the detail of it. The Beaufort research that the Welsh Government has commissioned provides a lot more detail of the extent to which people's general understanding translates into some more specific grasp of the detail of the law. We will publish in September, hopefully on 1 September—sorry, in December—the latest iteration of that survey. It has shown, as Darren Millar suggested, an incremental rise, quarter on quarter, in both the number of people who are aware of the change in the law and the depth of public understanding of what that law will mean.

O ran y pwynt y mae Darren Millar yn ei wneud am y gwahaniaeth rhwng ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, roedd yr arolwg barn gan ITV y cyfeiriodd ato yn dangos lefel o ymwybyddiaeth o 89 y cant o ran y ffaith fod y gyfraith yn newid yng Nghymru. Rwyf yn credu bod hwn yn ffigur eithaf sylweddol ar gyfer unrhyw beth sy'n newydd ac ar gael yn gyhoeddus. A yw hynny'n golygu bod pobl yn gwybod yn union beth sy'n mynd i ddigwydd a sut yn union y bydd yn effeithio arnyn nhw yn eu bywydau? Wel, rwyf yn siŵr ei fod ef yn iawn wrth ddweud bod yna wahaniaeth rhwng deall bod rhywbeth yn digwydd a gwybod y manylion amdano. Mae ymchwil Beaufort a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn darparu llawer mwy o fanylion ynghylch sut y mae lefel dealltwriaeth gyffredinol pobl yn trosi i ddirnadaeth mwy penodol o fanylion y gyfraith. Byddwn ni yn cyhoeddi ym mis Medi, gobeithio ar 1 Medi—mae'n ddrwg gennyf, yn Rhagfyr—yr adroddiad diweddaraf o'r arolwg hwnnw. Mae wedi dangos, fel yr awgrymodd Darren Millar, gynnydd fesul cam, chwarter ar chwarter, yn nifer y bobl sy'n ymwybodol o'r newid yn y gyfraith a dyfnder dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y bydd y gyfraith yn ei olygu.

17:29 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad a'r diweddariad. Mae'n anhygoel meddwl bod dros ddwy flynedd erbyn hyn ers cymeradwyo'r Ddeddf trawsblannu dynol yma, ac fe oedd y sgrwtini o'r ddeddfwriaeth yna yn ddiddorol ac yn werthfawr iawn, rwy'n meddwl, wrth gwblhau'r broses ddeddfwriaethol. Rwy'n cymeradwyo'n fawr yr hyn rydych chi wedi ei nodi eisoes, a'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni o ran hysbysu pobl Cymru am y newid sydd yn mynd i ddigwydd ar 1 Rhagfyr i'r gyfundrefn ar gydsyniad tybiedig. Rwy'n meddwl bod hynny wedi bod yn llwyddiannus iawn—mae'r ffigurau rydych chi wedi eu nodi o'r pôl piniwn yn adlewyrchiad o hynny hefyd—ac mae'n hollbwysig bod gymaint o bobl â phosibl yn gwybod am y newid. Dim ond rhyw gymaint y gall unrhyw Lywodraeth neu unrhyw raglen gyhoeddusrwydd ei wneud ynglŷn â dealltwriaeth pobl a thrafodaeth pobl, ond mae'r wybodaeth gychwynnol yn hollbwysig. Ac yn hynny o beth, rwy'n credu fod yr ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn arbennig o fywiog ac wedi cysylltu'n dda gyda phobl sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

I thank the Minister for his statement and update. It's incredible to think that two years have passed since we approved the human transplantation Act, and the scrutiny of the legislation was interesting and very valuable, I think, as we completed the legislative process. I highly commend what you've already noted and what's already been achieved in terms of informing the people of Wales of the change that is to take place on 1 December in terms of the system of presumed consent. I think that has been most successful—the figures that you have mentioned from an opinion poll are a reflection of that—and it is crucially important that as many people as possible are aware of this change. There's only so much that any Government or any advertisement campaign can do in terms of people's understanding, but that initial information is so important. In that regard, I do think that the campaign on social media has been particularly vibrant and has engaged well with people who use social media.

Un peth arall i'w nodi—roeddech yn gwneud hynny i ryw raddau yn eich datganiad y prynhawn yma—yw'r rôl werthfawr iawn mae pobl sydd, drwy anffawd a thrwy golli ffrindiau, cyfeillion a theulu, wedi ymwneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf yma a hyrwyddo ymysg eu cymunedau nhw eu hunain yr angen i hyrwyddo rhoi organau, ond hefyd y newid yn y gyfundrefn. Ac rwy'n meddwl fan hyn yn benodol iawn am Teresa ac Alan Wilkin ym Mhenparcau a'r ardd goffa ar gyfer eu merch nhw, Claire, a roddodd ei horganau. Mae sefydlu'r ardd goffa yna wedi bod yn rhan o'u cyfraniad nhw tuag at hyrwyddo'r newid yn y ddeddfwriaeth yng Nghymru, a hefyd i gofio am gyfraniad eu merch nhw. Ac mae yna nifer o bobl sydd yn llysgenhadon gwych iawn ar gyfer y newid yma ar hyd a lled Cymru.

One other thing that I should note—you did so to a certain extent in your statement—that's the important role that people, through misfortune or through the loss of friends or family, who have been involved over the past two years in promoting this issue in their own communities in terms of the need for organ donation, but also in terms of the change to the regime here in Wales. I'm thinking particularly here about Teresa and Alan Wilkin in Penparcau and the memorial garden for their daughter, Claire, who donated her organs. The establishment of that memorial garden has been part of their contribution to promoting this change of legislation in Wales, and it is also a memorial to the contribution of their daughter. And there are many people who are superb ambassadors for this change the length and breadth of Wales.

Mae'r rheoliadau y prynhawn yma sydd o'n blaenau ni—ac ni wnaf siarad wrth gyflwyno'r rheini bellach, dim ond i nodi ar gyfer y record y byddwn ni yn eu cefnogi nhw y prynhawn yma. Rwy'n arbennig o blês o ddarllen y rheoliadau penodol ar yr eithriadau. Fe ddatblygodd hi'n drafodaeth ddiddorol iawn yn ystod y sgrwtini ar y newidiadau parhaus sydd yn y wyddoniaeth o gwmpas trawsblannu. Nid yr organau arbed bywyd arferol yn unig y gellid ystyried eu trawsblannu. Roedd angen dwy gyfundrefn wahanol ar gyfer cydsyniad tybiedig, felly mae'r rhestr o eithriadau sydd i'r gyfundrefn newydd yn bwysig iawn i bawb fod yn ymwybodol ohonyn nhw, ac mae'r broses ymgynghori wedi dod lan â hynny yn dda iawn.

The regulations before us this afternoon—I won't speak to those regulations now, but I did want to note for the record that we will be supporting them this afternoon. I am particularly pleased to read the specific legislation on the exemptions. It developed into a very interesting debate during the scrutiny process on the continuous changes in the science surrounding transplantation. It's not just the usual life-saving organs that should be taken into account when we talk about transplantation. We needed two separate systems for presumed consent in these areas, and therefore it's very important for people to be aware of the exclusions listed in the regulations, and the consultation process has highlighted that most effectively.

Dim ond dau gwestiwn penodol, gan fod y rhan fwyaf o bethau wedi cael eu hateb eisoes gennych chi. Yn gyntaf, o ran diddordeb, a oes yna ffigurau eto ynglŷn â faint o bobl sydd wedi cofrestru nad ydyn nhw'n moyn bod ar y gofrestr rhoi organau? Wedyn, yn eich trafodaethau chi gyda Gweinidogion iechyd o Loegr a'r Alban, mae ganddynt, siŵr o fod, rhyw gymaint o ddiddordeb yn y maes yma. A ydych chi yn credu y byddan nhw ar ryw bwynt yn symud tuag at gyflwyno cyfundrefn debyg arloesol fel rydym ni yn ei wneud yng Nghymru, a bod hynny yn datblygu ymhellach yn Lloegr a'r Alban i ddilyn?

Just two specific questions, as most of the issues have already been addressed. First of all, as a point of interest, do you have any figures as of yet on how many people have registered that they do not want to be included on the organ donation register? In your discussions with health Ministers from England and Scotland, I'm sure they are taking some interest in this particular area. Do you believe that they at some point will move towards introducing a similar system, an innovative system, as we are doing in Wales, and that we see that developing further afield in England and Scotland in due course?

17:33 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr i Elin Jones am ei sylwadau hi. Jest i ddweud un peth yn gyffredinol cyn dod at y cwestiynau penodol.

Thank you to Elin Jones for her comments. Just to make one general point before coming to the specific questions.

Can I just say how much I agree with what Elin Jones about the way in which, during this two-year period, the families of people who have been organ donors have done so much to publicise their support for this change in the law? I've been lucky enough to go to quite a number of different events where their contribution has been marked, and they never cease to be anything other than deeply moving occasions. And what people tell you without fail, I think, are two key things. One is that when they knew what their loved one wanted, the decision they made was an easy one for them to make, even in those most incredibly difficult circumstances. And, that discussion that we've talked about, and that people have had, turns out to be really, really important to them. The second thing that they say, in my experience, without fail, is that having made that incredibly difficult decision, they are confirmed in the rightness of that decision every single year, and as every year goes on, they become more and more sure that they did the right thing. That feeling that out of something awful, something good might still have come from somebody else, becomes an increasing comfort to them—it's not a diminishing feeling, it's an increasing feeling—and their ability to communicate that to others makes them ambassadors in exactly the way that Elin Jones described.

A gaf i ddweud cymaint yr wyf yn cytuno ag Elin Jones am y ffordd, yn ystod y cyfnod hwn o ddwy flynedd, mae teuluoedd pobl sydd wedi bod yn rhoddwyr organau wedi gwneud cymaint i roi cyhoeddusrwydd i'w cefnogaeth i'r newid hwn yn y gyfraith? Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i fynd i nifer helaeth o wahanol ddigwyddiadau lle y nodwyd eu cyfraniad, ac mae'r digwyddiadau hyn bob amser yn achlysuron emosiynol iawn. Ac mae dau beth allweddol y mae pobl yn ei ddweud wrthych chi yn ddi-ffael, rwy'n credu. Un yw bod y penderfyniad a wnaethant yn un hawdd iddynt ei wneud, ar ôl iddynt gael gwybod beth oedd dymuniad eu hanwylyd, hyd yn oed o dan yr amgylchiadau anhygoel o anodd hynny. A, bod y drafodaeth yr ydym ni wedi sôn amdani, a'r drafodaeth y mae pobl wedi ei chael, yn y pen draw, yn hynod, hynod bwysig iddyn nhw. Yr ail beth y maent yn ei ddweud, yn fy mhrofiad i, yn ddi-ffael, ar ôl gwneud y penderfyniad anodd iawn hwnnw, yw eu bod yn cael cadarnhâd o gywirdeb y penderfyniad hwnnw bob un flwyddyn, ac wrth i'r blynyddoedd fynd yn eu blaenau, maent yn dod yn fwyfwy sicr eu bod wedi gwneud y peth iawn. Mae'r teimlad hwnnw y gallai rywbeth da fod wedi deillio i rywun arall yn dilyn digwyddiad mor ofnadwy, yn dod yn gysur cynyddol iddyn nhw—nid yw'n deimlad sy'n lleihau, mae'n deimlad sy'n cynyddu—ac mae eu gallu i gyfleu hynny i bobl eraill yn eu gwneud nhw yn genhadon yn yr union ffordd a ddisgrifiodd Elin Jones.

In terms of her two specific questions: yes, 1.5 per cent of the Welsh population have registered as not wanting to be organ donors. That's about 50,000 people; that's about 1 million fewer than the people who have positively registered their wish to be organ donors. I'll just say, again, as I said during the passage of the Bill: to know that organ donation is not right for you—to have come to that decision and to have recorded it—is not a failure of this piece of legislation. It is a success of the legislation that people have had that discussion, and if it's right for them, then that's not a decision to be critical of or to regret; it's the right decision for them, and this Act allows them to record that decision for the very first time.

O ran ei dau gwestiwn penodol: ie, mae 1.5 y cant o boblogaeth Cymru wedi cofrestru nad ydynt yn dymuno bod yn rhoddwyr organau. Mae hynny oddeutu 50,000 o bobl; tua 1 filiwn yn llai na'r bobl sydd wedi cofrestru yn gadarnhaol eu dymuniad i fod yn rhoddwyr organau. Rwyf am ddweud, unwaith eto, fel y dywedais yn ystod hynt y Bil: mae gwybod nad yw rhoi organau yn addas i chi—o fod wedi dod i'r penderfyniad hwnnw ac o fod wedi'i gofnodi—nid yw hynny'n fethiant o ran y darn hwn o ddeddfwriaeth . Mae llwyddiant o ran y ddeddfwriaeth bod pobl wedi cael y drafodaeth honno, ac os yw'n iawn iddyn nhw, nid yw hynny'n benderfyniad i fod yn feirniadol ohono, na'i ddifaru; dyna yw'r penderfyniad sy'n iawn iddyn nhw, ac mae'r Ddeddf hon yn eu galluogi i gofnodi'r penderfyniad hwnnw am y tro cyntaf erioed.

In relation to interest elsewhere, I have myself given evidence to a Scottish Parliament committee in relation to our legislation, and I've spoken at the Northern Ireland Parliament about it as well. I meet regularly with the Northern Irish and Scottish health Ministers, and they ask at each of those meetings for an update on how the law is going, and I think they look, in a very positive way, to see what can be learnt from Wales. I always make it clear when I speak that all I am doing is sharing our experience with them, for them to make the right decision for them to make. I don't go as a missionary, trying to persuade other people of what we have done, but I do think we have something very valuable to contribute to any other legislature that is thinking about going down the same route that we have successfully concluded.

O ran diddordeb mewn mannau eraill, rwyf i fy hun wedi rhoi tystiolaeth i bwyllgor Senedd yr Alban o ran ein deddfwriaeth ni, ac rwyf wedi siarad am hyn hefyd yn Senedd Gogledd Iwerddon. Rwyf yn cwrdd yn rheolaidd â Gweinidogion iechyd Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac maent yn gofyn ym mhob un o'r cyfarfodydd hynny am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut y mae'r gyfraith yn mynd, ac rwyf yn credu eu bod nhw'n edrych i weld beth y gellir ei ddysgu gan Gymru, mewn ffordd gadarnhaol iawn. Rwyf bob amser yn ei wneud yn glir pan fyddaf yn siarad mai'r unig beth yr wyf i'n ei wneud yw rhannu ein profiad ni gyda nhw, er mwyn iddyn nhw allu gwneud y penderfyniad sy'n iawn iddyn nhw. Nid wyf yn mynd fel cenhadwr, yn ceisio perswadio pobl eraill i wneud yr hyn yr ydym ni wedi'i wneud, ond rwyf yn credu bod gennym rywbeth gwerthfawr iawn i gyfrannu at unrhyw ddeddfwrfa arall sydd yn meddwl am ddilyn yr un llwybr yr ydym ni wedi cyrraedd ei ben draw yn llwyddiannus.

17:37 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could I thank the Minister for his statement this afternoon? Like Elin Jones said, it seems hard to believe that those two years have passed; they seem to have gone incredibly quickly. But, in those two years, I certainly have been aware of the huge amounts of effort that have gone into publicising the forthcoming change in the law, and like you, Minister, I do think that it has prompted many families to have discussions about a subject that, perhaps they would have avoided talking about previously. That in itself, I think, is a success of the legislation.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma? Fel y dywedodd Elin Jones, mae'n ymddangos yn anodd credu bod y ddwy flynedd hynny wedi mynd heibio; mae'n ymddangos eu bod wedi mynd heibio yn gyflym iawn. Ond, yn y ddwy flynedd hynny, rwyf yn sicr wedi bod yn ymwybodol o nifer enfawr yr ymdrechion sydd wedi mynd i mewn i roi cyhoeddusrwydd i'r newid yn y gyfraith sydd ar ddod, ac fel chithau, Weinidog, rwyf yn meddwl bod hyn wedi ysgogi llawer o deuluoedd i gynnal trafodaethau ar destun, efallai y byddent wedi osgoi siarad amdano yn y gorffennol. Mae hynny ynddo'i hun, yn fy marn i, yn llwyddiant o ran y ddeddfwriaeth.

Could I commend the new website that goes with the organ donor register? I think it’s an exemplar in terms of easy-to-understand information and ease of ability for people to make a choice, whatever that choice may be. I think it is important, like you said, Minister, not to castigate people if, at the end of consideration, they have decided, for whatever reason—the whole host of reasons—why donation is not right for them, and we shouldn’t castigate or cast aspersions. But, the website does make it very easy for people to make a decision not to donate if they feel that that is most appropriate for them. I think the myth-busting section of the website is particularly helpful in explaining to people, in very simple language, some of the issues that they may have.

A gaf i gymeradwyo’r wefan newydd sy'n cyd-redeg â'r gofrestr rhoddwyr organau? Rwy'n credu ei bod yn gosod esiampl dda o ran gwybodaeth sy’n hawdd ei deall ac yn hawdd ei defnyddio er mwyn i bobl allu gwneud penderfyniad, beth bynnag bydd y penderfyniad hwnnw. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, fel y dywedasoch, Weinidog, i beidio â gweld bai ar bobl os, yn dilyn eu hystyriaeth, eu bod wedi penderfynu, am ba reswm bynnag—o’r llu o resymau—pam nad yw rhoi organnau yn addas iddyn nhw, ac ni ddylem weld bai na lladd ar rywun. Ond, mae'r wefan yn ei gwneud yn hawdd iawn i bobl wneud y penderfyniad i beidio â rhoi organau os ydynt yn teimlo mai hynny sy'n fwyaf priodol iddyn nhw. Rwy'n meddwl bod y rhan o'r wefan sy'n chwalu camargraffiadau yn arbennig o ddefnyddiol wrth esbonio i bobl, mewn iaith syml iawn, rai o'r problemau a allai fod ganddynt.

You will be aware, Minister, throughout the consideration of this legislation, of my preoccupation with the issue of consent, and at what stage it is possible for the state to be able to deem consent on behalf of individual members of that country. At the time, we were given quite extensive and detailed legal advice on what steps the Government would need to take to establish the principle of deemed consent on behalf of a population. I take it as read, but are you satisfied that those legal hurdles and those legal barriers have been achieved by the information that the Government has put out to date?

Byddwch yn ymwybodol, Weinidog, drwy gydol yr ystyriaeth o'r ddeddfwriaeth hon, o fy mhryderon o ran y mater o gydsyniad, ac ar ba gam y mae'n bosibl i'r wladwriaeth allu barnu ar gydsyniad ar ran aelodau unigol o'r wlad honno. Ar yr adeg honno, cawsom gyngor cyfreithiol eithaf helaeth a manwl am y camau y byddai angen i'r Llywodraeth eu cymryd i sefydlu egwyddor cydsyniad tybiedig ar ran y boblogaeth. Rwyf yn cymryd yn ganiataol eich bod, ond a ydych chi’n fodlon bod y materion cyfreithiol hynny a’r rhwystrau cyfreithiol hynny wedi eu goresgyn gan y wybodaeth y mae’r Llywodraeth wedi ei chyhoeddi hyd yn hyn?

The other issue, which has not been touched on today at all, Minister, is the very practical constraints on organ donation that we have within the country. They haven't been mentioned today, but I think it's only right to say that you will be aware that, in receiving evidence, we were told that potential organs were being lost to donation because of an issue of critical care beds and intensive care beds within Wales. My concern at the time was that, having gone through this legal process, we will not be able to reap the benefits of the changes in the law unless we have both the staffing capacity and the bed capacity to be able to facilitate organ donation in Wales. Perhaps you will be able to give us an update on whether critical care and intensive care bed numbers have increased or whether the capacity of the beds that we already have has been increased by better utilisation of those beds, i.e. being able to move people in and out of those beds, if we haven't increased the numbers. Also, to ensure that we have adequate staff, especially the specialist nurses, who we know are absolutely critical in the conversations that need to be had with family at what is a very, very difficult time for them. So, I would appreciate it if the Minister could give an update on some of the practical constraints within the NHS itself so that we can reap the benefits of this legislation.

Y mater arall, na chafodd ei grybwyll heddiw o gwbl, Weinidog, yw y cyfyngiadau ymarferol iawn ar roi organau sydd gennym o fewn y wlad. Nid ydynt wedi eu crybwyll heddiw, ond rwy'n credu ei bod ond yn iawn i ddweud eich bod yn ymwybodol, wrth dderbyn tystiolaeth, y dywedwyd wrthym ni bod organau dichonadwy yn cael eu colli o'r broses rhoi organau oherwydd problem o ran gwelyau gofal critigol a gwelyau gofal dwys yng Nghymru. Fy mhryder i ar y pryd oedd, ar ôl mynd drwy'r broses gyfreithiol hon, na fyddwn yn gallu elwa ar fanteision y newidiadau yn y gyfraith oni bai bod gennym ddigon o aelodau staff a digon o welyau i allu hwyluso rhoi organau yng Nghymru. Efallai y byddwch yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch pa un a yw niferoedd y gwelyau gofal critigol a gofal dwys wedi cynyddu neu a yw nifer y gwelyau sydd gennym eisoes wedi ei gynyddu o ganlyniad i well defnydd o'r gwelyau hynny, h.y. ein bod yn gallu symud pobl i'r gwelyau hynny ac allan ohonynt, os nad ydym wedi cynyddu'r niferoedd. Hefyd, er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o aelodau staff, yn enwedig y nyrsys arbenigol, yr ydym yn gwybod sy'n hollol hanfodol yn y sgyrsiau y mae angen eu cael gyda'r teulu ar adeg sy'n anodd iawn, iawn iddynt. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch rhai o'r cyfyngiadau ymarferol o fewn y GIG ei hun fel y gallwn ni elwa ar fanteision y ddeddfwriaeth hon.

17:41

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Kirsty Williams for those important questions, and I thank her as well for what she said about the new register and its website. Thinking about Elin Jones's question, that new register was only possible because all four UK nations contributed to it and contributed financially to it as well. So, it's been a genuine co-operative effort, and it has allowed that opportunity, not simply to have a new register but to have a better register with an up-to-date set of arrangements all around it. Am I satisfied that we have done everything that we need to do to allow those people in Wales who wish to be aware of the change in the law to be made aware? I think we have. I echo what Elin Jones said earlier. Governments are in a position to make sure that all that information is available. Governments can never be responsible for guaranteeing that individuals will develop a depth of understanding of a sort that we in this Chamber, who have gone through the whole process, might have, but that figure of nine out of 10 people in Wales being aware of the change in the law and everything that has been done to contact every single household in Wales, I think, puts us in a position where we can say that the change in the law has been adequately communicated to people.

Diolch i Kirsty Williams am y cwestiynau pwysig yna, a diolchaf iddi hefyd am yr hyn a ddywedodd am y gofrestr newydd a'i gwefan. Wrth feddwl am gwestiwn Elin Jones, roedd y gofrestr newydd honno ddim ond yn bosibl oherwydd bod pedair gwlad y DU wedi cyfrannu ati a'u bod wedi cyfrannu'n ariannol ati hefyd. Felly, mae wedi bod yn ymdrech wirioneddol gydweithredol, ac mae wedi caniatáu y cyfle hwnnw, nid yn unig i gael cofrestr newydd, ond i gael cofrestr well gyda chyfres o drefniadau yn ei hategu. Ydw i'n fodlon ein bod ni wedi gwneud popeth y mae angen i ni ei wneud i ganiatáu i'r bobl hynny yng Nghymru sy'n dymuno bod yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith i fod yn ymwybodol o hynny? Rwy'n credu ein bod ni wedi gwneud hynny. Ategaf yr hyn a ddywedodd Elin Jones yn gynharach. Mae llywodraethau mewn sefyllfa i wneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth honno ar gael. Ni all llywodraethau fod yn gyfrifol am warantu y bydd unigolion yn datblygu dealltwriaeth ddofn o'r fath sydd efallai gennym ni, yn y Siambr hon, sydd wedi mynd drwy'r broses gyfan, ond mae'r ffigur hwnnw o naw o bob 10 o bobl yng Nghymru sy'n ymwybodol o'r newid yn y gyfraith a phopeth sydd wedi cael ei wneud i gysylltu â phob un cartref yng Nghymru, rwyf yn credu, yn ein rhoi ni mewn sefyllfa lle y gallwn ddweud bod y newid yn y gyfraith wedi ei gyfathrebu yn ddigonol i bobl.

I understand entirely the points that are made about the practical constraints, and work to make sure that our critical care capacity is sufficient in order to take advantage of—. And let's not forget what this law is hoping to achieve: fifteen extra donors in any 12 months here in Wales. I think that takes us back to an important point that Darren Millar made that the change in the law is just one strand in a much wider set of things that are going on in other parts of the United Kingdom and that we want to do too. NHSBT said that what we need is an evolution in practice and a revolution in consent. I think we are ahead of other places in the revolution in consent arrangements, but we have to work with everybody else on the evolution of practice, which means we can do more in other ways too.

Rwyf yn deall yn llwyr y pwyntiau sy'n cael eu gwneud am y cyfyngiadau ymarferol, a'r gwaith i sicrhau bod ein gallu gofal critigol yn ddigonol er mwyn manteisio ar—. A gadewch i ni beidio ag anghofio yr hyn y mae'r gyfraith hon yn gobeithio ei gyflawni: pymtheg o roddwyr ychwanegol mewn unrhyw gyfnod o 12 mis yma yng Nghymru. Credaf fod hyn yn mynd â ni yn ôl at bwynt pwysig a wnaeth Darren Millar bod y newid yn y gyfraith yn un llinyn mewn cyfres ehangach o lawer o bethau sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac yr ydym ninnau'n dymuno eu gwneud hefyd. Dywedodd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mai'r hyn yr ydym ei angen yw esblygiad o ran ymarfer a chwyldro o ran cydsyniad. Rwy'n credu ein bod ni ar y blaen o'I gymharu â lleoedd eraill yn y chwyldro o ran trefniadau cydsyniad, ond mae'n rhaid I ni weithio gyda phawb arall ar esblygu arfer, sy'n golygu y gallwn ni wneud mwy mewn ffyrdd eraill hefyd.

Some things have been well achieved in critical care capacity in Wales during these two years. Readmissions to critical care are now very low; less than 1 per cent of people who are discharged from critical care are back there within 24 hours because we've been able to strengthen the capacity at ward-based care level to look after people with a higher level of need. Survival rates are improving in critical care as well, with 83 per cent of patients discharged from critical care to another ward in the last financial year. There is more to do in making sure that we make the very best use of the critical care capacity that we have. The £1 million that's been made available to all delivery plans in Wales—. The critical care delivery plan board are using part of their money to introduce a new electronic information management system, which they say will drive out new efficiencies in the way that the system is currently working and therefore make us better able to make sure we are geared up for those fifteen new donors that we hope this law, by itself, will achieve.

Mae rhai pethau wedi eu cyflawni yn dda o ran capasiti gofal critigol yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd hyn. Mae aildderbyniadau i ofal critigol yn isel iawn erbyn hyn; mae llai nag 1 y cant o'r bobl sy'n cael eu rhyddhau o ofal critigol yn dychwelyd yno o fewn 24 awr oherwydd ein bod ni wedi llwyddo I gryfhau'r capasiti ar lefel gofal ar y ward I ofalu am bobl sydd â lefel uwch o angen. Mae cyfraddau goroesi yn gwella mewn gofal critigol hefyd, ac mae 83 y cant o gleifion wedi eu rhyddhau o ofal critigol I ward arall dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae mwy I'w wneud wrth sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau posibl o'r capasiti gofal critigol sydd gennym. Mae'r £1 filiwn sydd bellach ar gael I bob cynllun cyflenwi yng Nghymru—. Mae bwrdd y cynllun cyflenwi gofal critigol yn defnyddio rhan o'I arian I gyflwyno system rheoli gwybodaeth electronig newydd, y maent yn dweud y bydd yn dod ag effeithlonrwydd newydd i'r ffordd y mae'r system yn gweithio ar hyn o bryd ac felly bydd gennym well gallu I sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y pymtheg rhoddwr newydd yr ydym yn gobeithio y bydd y gyfraith hon, ar ei phen ei hun, yn ei gyflawni.

Specialist nurses are absolutely critical, to come to Kirsty's final point. Right across the United Kingdom, the figures continue to show that if a family is approached by a specialist nurse in organ donation, with all the training that they will have had, with all the familiarisation they will have had for those very difficult conversations, then people's willingness to give consent to organ donation is of a very different order. Even a consultant who is involved in the same business, but doesn't have those conversations, doesn't have the ability to approach them in the same way. So, we are very lucky in Wales; we have both a solid complement of specialist nurses, but some very longstanding, experienced and committed staff, and we're very determined to hang on to them.

Mae nyrsys arbenigol yn gwbl hanfodol, i ddod at bwynt olaf Kirsty. Ledled y Deyrnas Unedig, mae'r ffigurau yn dal i ddangos, os yw nyrs rhoi organau arbenigol yn cysylltu â theulu, gyda'r holl hyfforddiant y bydd wedi ei gael, gyda'r holl ymgyfarwyddo y bydd wedi ei gael ar gyfer y sgyrsiau anodd iawn hynny, yna mae parodrwydd pobl i roi caniatâd ar gyfer rhoi organau yn rhywbeth tra gwahanol. Nid oes gan ymgynghorydd sy'n rhan o'r un busnes hyd yn oed, ond nad yw'n cael y sgyrsiau hynny, y gallu i fynd atynt yn yr un modd. Felly, rydym ni'n ffodus iawn yng Nghymru; mae gennym garfan gadarn o nyrsys arbenigol, a rhai staff hirsefydlog iawn, sy'n brofiadol ac yn ymroddedig, ac rydym yn benderfynol iawn o ddal gafael arnynt.

17:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

17:46

# 8. Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Deunydd Perthnasol a Eithrir) (Cymru) 2015—i'w Gwneud o dan Adran 7 o'r Ddeddf

# 8. The Human Transplantation (Excluded Relevant Material) (Wales) Regulations 2015—to be Made under Section 7 of the Act

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 8 is the Human Transplantation (Excluded Relevant Material) (Wales) Regulations 2015, and these are to be made under section 7 of the Act. I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Eitem 8 yw Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Deunydd perthnasol a Eithrir)(Cymru) 2015, ac mae'r rhain i'w gwneud o dan adran 7 y Ddeddf. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5833 Jane Hutt

Motion NDM5833 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Trawsblannu Dynol (Deunydd Perthnasol a Eithrir) (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Medi 2015.

Approves that the draft The Human Transplantation (Excluded Relevant Material) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 11 September 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:47

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Ddirprwy Lywydd, diolch yn fawr. Rwy'n falch i osod gerbron y Cynulliad y fframwaith a fydd yn helpu i roi Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 ar waith. Mae hon yn ddeddfwriaeth nodedig a basiwyd gan Aelodau yn 2013 a fydd yn cyflwyno system newydd i optio allan ar gyfer caniatâd i roi organau yng Nghymru.

Deputy Presiding Officer, thank you very much. I'm pleased to lay before the Assembly the framework that will help to implement the Human Transplantation (Wales) Act 2013. This is notable legislation that was passed by Members in 2013 and that will introduce a new system of opting out for consent to donate organs in Wales.

Dirprwy Lywydd, I'm very pleased to be able to lay before the Assembly this framework. It supports that landmark piece of legislation that we have just been discussing and that will come into place in Wales from 1 December.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n falch iawn o gael gosod y fframwaith hwn gerbron y Cynulliad. Mae'n cefnogi'r darn arloesol o ddeddfwriaeth yr ydym newydd ei drafod a bydd hwnnw'n dod i rym yng Nghymru o 1 Rhagfyr.

There are three sets of regulations and a code, which, if approved by the Assembly this afternoon, will ensure the deemed consent system is carried out in the manner intended and directly reflects those issues raised by Members during the scrutiny of the Bill. All three sets of regulations and the draft code of practice were subject to public consultation, and the codes in front of you today are not the codes that were originally drafted, because amendments have been made to them and, indeed, to the regulations—both have been amended to reflect the feedback given.

Mae tair cyfres o reoliadau a chod, a fydd, os caiff ei gymeradwyo gan y Cynulliad y prynhawn yma, yn sicrhau bod y system cydsyniad tybiedig yn cael ei gweithredu yn y modd y bwriadwyd a'i bod yn adlewyrchu'n uniongyrchol y materion hynny a godwyd gan Aelodau yn ystod y craffu ar y Bil. Roedd y tair cyfres o reoliadau a'r cod ymarfer drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, ac nid y codau sydd o'ch blaen chi heddiw yw'r codau a ddrafftiwyd yn wreiddiol, gan fod gwelliannau wedi eu gwneud iddynt, ac yn wir, i'r rheoliadau— mae'r ddau ohonynt wedi'u gwella i adlewyrchu'r adborth a roddwyd.

If I may speak, first of all, Dirprwy Lywydd, on the first of the regulations—the excluded relevant material regulations. The power to regulate on this was included in the Bill as a result of the scrutiny undertaken of it, and this particular issue was very much led by Elin Jones during that scrutiny process. This set of regulations creates a list of organs and tissues that will be exempt from deemed consent. Anyone wishing to donate organs on the excluded list will still be able to do so, but they will have to provide express consent either themselves, through the register, or by communicating that to their families. The draft regulations ensure that deemed consent will only apply to those organs and tissues that one might ordinarily be expected to donate. That list includes heart, lungs, kidneys, liver, pancreas, corneas, small bowel and tissue such as skin, bone and tendon. Beyond that, the regulations specifically prevent the deeming of consent for recognisable composite tissues such as limbs and face, as well as reproductive organs.

Os caf i siarad, yn gyntaf oll, Ddirprwy Lywydd, ynghylch y cyntaf o'r rheoliadau—y rheoliadau deunydd perthnasol sydd wedi'u heithrio. Cynhwyswyd y grym i reoleiddio hyn yn y Bil yn sgil y craffu a wnaed arno, ac arweiniwyd y mater penodol hwn i raddau helaeth gan Elin Jones yn ystod y broses graffu honno. Mae'r gyfres o reoliadau yn creu rhestr o organau a meinweoedd a fydd yn cael eu heithrio rhag cydsyniad tybiedig. Bydd unrhyw un sydd yn dymuno rhoi organau sydd ar y rhestr eithrio yn parhau i allu gwneud hynny, ond bydd yn rhaid iddynt roi caniatâd penodol naill ai eu hunain, drwy'r gofrestr, neu drwy gyfathrebu hynny i'w teuluoedd. Mae'r rheoliadau drafft yn sicrhau y bydd cydsyniad tybiedig ond yn berthnasol i'r organau a meinweoedd hynny y byddai disgwyl i unigolyn eu rhoi fel rheol.  Mae'r rhestr honno yn cynnwys y galon, yr ysgyfaint, yr arennau, yr afu, y pancreas, cornbilennau, y coluddyn bach a meinwe, megis croen, esgyrn a thendon. Y tu hwnt i hynny, mae'r rheoliadau yn atal yn benodol y cydsyniad tybiedig ar gyfer meinweoedd cyfansawdd sy'n adnabyddadwy fel aelodau a'r wyneb, yn ogystal ag organau atgenhedlu.

Dirprwy Lywydd, I'm not certain whether you want me to proceed, or whether you want to give Members an opportunity to comment on each regulation in turn.

Ddirprwy Lywydd, nid wyf yn sicr a ydych chi am i mi fwrw ymlaen, neu a ydych chi am roi cyfle i Aelodau gyfrannu sylwadau am bob rheoliad yn ei dro.

17:49

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are going to debate each set of regulations separately, so I would've thought it better just to pause there. Can I say these are very important regulations, so I shan't strictly enforce the five-minute rule? It is there as an indicator, but I know Members will not abuse it and they will stick to relevant facts. Similarly, Minister, if you need to take a little more than two minutes to reply, that's fine. We need a full debate on these regulations, as is appropriate. Darren Millar.

Rydym yn mynd i drafod pob cyfres o reoliadau ar wahân, felly byddwn i'n meddwl ei bod yn well i gael seibiant yn y fan yna. A gaf i ddweud bod y rhain yn rheoliadau bwysig iawn, felly ni fyddaf yn gorfodi'r rheol pum munud yn llym? Mae yno fel dangosydd, ond rwyf yn gwybod na fydd yr Aelodau yn ei gamddefnyddio ac y byddant yn cadw at y ffeithiau perthnasol. Yn yr un modd, Weinidog, os oes arnoch angen cymryd ychydig yn fwy na dau funud i ateb, mae hynny'n iawn. Mae arnom angen dadl lawn ar y rheoliadau hyn, fel sy'n briodol. Darren Millar.

17:49

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'll keep my comments very brief on this issue, but I would like them to be on the record. I'm going to support these particular regulations on excluded material. I think it's important that there is express consent given for the items on the list, and that all novel transplantations in the future are also subject to express consent, rather than deemed consent. But I am a little perplexed at why some items are included on the list and why others are specifically excluded. So, I note the comments around face transplants, which, of course, are becoming more frequent these days, but are still regarded as novel. Whilst I can see that a nose and a mouth are excluded specifically on the list, ears, for example, are not, and I would be grateful, Minister, if, in responding to this debate, you could just clarify why ears were not deemed to be suitable for inclusion on this list of excepted organs.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Byddaf yn cadw fy sylwadau yn fyr iawn ar y mater hwn, ond hoffwn iddynt fod ar y cofnod. Rwyf yn mynd i gefnogi'r rheoliadau penodol yma ynghylch deunydd sydd wedi'i eithrio. Rwy'n credu ei fod yn bwysig bod caniatâd datganedig yn cael ei roi ar gyfer yr eitemau ar y rhestr, a bod yr holl drawsblaniadau newydd yn y dyfodol hefyd yn ddarostyngedig i ganiatâd datganedig, yn hytrach na chydsyniad tybiedig. Ond rwyf i mewn ychydig o benbleth ynghylch pam y mae rhai eitemau wedi eu cynnwys ar y rhestr a pham y mae eraill wedi eu heithrio'n benodol. Felly, rwyf yn nodi'r sylwadau ynglŷn â thrawsblaniadau'r wyneb, sydd, wrth gwrs, yn digwydd yn amlach y dyddiau hyn, ond maent yn dal i gael eu hystyried fel rhywbeth newydd. Er y gallaf weld bod y trwyn a'r geg yn cael eu heithrio'n benodol o'r rhestr, nid yw'r clustiau, er enghraifft, wedi eu heithrio, a byddwn i'n ddiolchgar, Weinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon, pe gallech chi egluro pam nad ystyriwyd y clustiau yn addas i'w cynnwys ar y rhestr hon o organau sydd wedi'u heithrio.

I also note that it says that legs are excluded, but then specific reference is made to the lower leg and the upper leg. Does that mean that the middle part of the leg is included? I mean, I don't know. It just doesn't seem sensible to me; likewise with the arm as well.

Rwyf hefyd yn nodi ei fod yn dweud bod coesau wedi eu heithrio, ac yna mae'n cyfeirio'n benodol at y goes isaf a'r goes uchaf. A yw hynny'n golygu bod y rhan ganol o'r goes wedi ei chynnwys? Hynny yw, nid wyf yn gwybod. Nid yw'n ymddangos yn synhwyrol i mi; yr un modd gyda'r fraich hefyd.

I note the exclusion of spinal cord tissue, but the inclusion of nervous tissue, of which, of course, the spinal cord is part. So, just a little bit of clarity on why some specific items are included and excluded would be really helpful to me, and, I'm sure, lots of people listening to this debate. But I will be supporting these particular regulations. I think it's important, though, to get on the record precisely why certain parts of the body have been listed and others haven't.

Nodaf fod y meinwe llinyn asgwrn y cefn wedi'i eithrio, ond nid yw'r meinwe nerfol wedi ei eithrio, ac mae'r llinyn asgwrn y cefn, wrth gwrs, yn rhan ohono. Felly, byddai dim ond ychydig o eglurder ynghylch pam mae rhai eitemau penodol wedi eu cynnwys a'u heithrio yn ddefnyddiol iawn i mi, ac, rwy'n siŵr, y byddai'n ddefnyddiol i lawer o bobl sy'n gwrando ar y ddadl hon. Ond byddaf yn cefnogi'r rheoliadau penodol hyn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, fodd bynnag, i gofnodi'n union pam mae rhannau penodol o'r corff wedi eu rhestru ac eraill ddim.

17:51

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, could you give an explanation as to how this legislation will be reviewed and kept up to date? It seems to me that the lists that have been included are based on what is currently regarded as novel transplantation and transplantation procedures that perhaps would be regarded as commonplace. But, as you're aware, technology and medicine are improving all the time, and one would hope that there are some novel transplants, as currently stated, that actually would move into the category where they would become more routine and, therefore, people would benefit from that. I'm wondering what the Welsh Government will do to review the suitability of the lists as they are currently stated and whether there will be a procedure coming back to this Assembly if, at a later stage, because of medical innovation and changes in technology, some of those tissues that are excluded at present would come on the included list.

Weinidog, a wnewch chi roi esboniad ynghylch sut y bydd y ddeddfwriaeth hon yn cael ei hadolygu a'i chadw'n gyfredol? Mae'n ymddangos i mi bod y rhestrau sydd wedi eu cynnwys yn seiliedig ar yr hyn a ystyrir ar hyn o bryd fel trawsblannu newydd a gweithdrefnau trawsblannu efallai y byddent yn cael eu hystyried fel bod yn gyffredin. Ond, fel y gwyddoch, mae technoleg a meddygaeth yn gwella drwy'r amser, a byddwn yn gobeithio y bydd rhai trawsblaniadau newydd, fel y nodir ar hyn o bryd, a fyddai mewn gwirionedd yn symud i mewn i'r categori lle y byddant yn dod yn fwy o fater o drefn ac, felly, byddai pobl yn elwa ar hynny. Rwyf yn meddwl tybed beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i adolygu addasrwydd y rhestrau fel y'u nodir ar hyn o bryd ac a fydd gweithdrefn yn dod yn ôl i'r Cynulliad hwn os, yn nes ymlaen, o ganlyniad i arloesedd meddygol a newidiadau mewn technoleg, y byddai rhai o'r meinweoedd hynny sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd yn dod ar y rhestr cynnwys.

17:52

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, before I start, may I put on record my grateful thanks to you for our multiple conversations and letters between us on this subject? As you are very well aware, the Welsh Conservatives have a free vote and I feel that, for my part, I have, hopefully, challenged you, and you have responded robustly to my questions, which I've put forward to you on behalf of not only myself, but people who have approached me—not just constituents, but just people throughout Wales who've written, I'm sure, to most Assembly Members on this.

Weinidog, cyn i mi ddechrau, a gaf i gofnodi fy niolch ichi am ein sgyrsiau niferus a'r llythyrau rhyngom ni ynglŷn â'r pwnc hwn? Fel y gwyddoch yn iawn, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cael pleidlais rydd ac rwyf yn credu, o'm rhan i, fy mod wedi, gobeithio, eich herio chi, ac rydych chi wedi ymateb yn gadarn i fy nghwestiynau, a gyflwynwyd gennyf nid yn unig ar fy rhan fy hun, ond ar ran y bobl sydd wedi cysylltu â mi—nid yn unig etholwyr, ond pobl ledled Cymru sydd wedi ysgrifennu, rwy'n siŵr, i'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad ynghylch hyn.

On the excluded items list, I simply wanted a little bit of clarity about the issue over embryos and gametes. Now, I did take note of your letter to me of 20 December. I am really pleased to see that embryos, for example, are on the excluded material list, and I think that that will very much please the people who've raised this issue with me. I would like to clarify whether or not fallopian tubes are part of the uterus/embryo element of exclusion. I'm afraid my biology's not too hot on which bits get classified as belonging to which other bits.

O ran y rhestr eitemau sydd wedi'u heithrio, roeddwn arnaf eisiau dim ond ychydig o eglurder ynghylch y mater hwn yn ymwneud ag embryonau a gametau. Nawr, fe wnes i dalu sylw i'ch llythyr i mi ar 20 Rhagfyr. Rwyf yn falch iawn o weld bod embryonau, er enghraifft, ar y rhestr deunydd sy'n cael ei eithrio, ac rwyf yn meddwl y bydd hynny'n plesio'r bobl sydd wedi codi'r mater hwn gyda mi yn fawr iawn. Hoffwn ddarganfod a yw tiwbiau ffalopaidd yn rhan o'r elfen groth / embryo sydd wedi'i heithrio. Mae arnaf ofn nad yw fy mioleg yn rhy dda ynghylch pa ddarnau sy'n cael eu dynodi fel bod yn perthyn i ba ddarnau eraill.

But, I think, probably more importantly, in your letter of the twentieth, you said that embryos and gametes were dealt with under the Act. Could you clarify whether you mean the Act here that they're going to be dealt with or the Human Fertilisation and Embryology Act 2008, which is obviously UK-wide? Could you clarify for me, simply, why, although you've put embryos in here, you haven't done the gametes, when my understanding of the human embryology Act is it includes embryos and gametes as well? So, in other words, if you feel it worth repeating in our Act, I wonder if you might feel it worth repeating the gametes element, because I think a lot of people do have quite strong views on that. Thank you.

Ond, yn bwysicach yn eich llythyr ar yr ugeinfed, rwy'n credu, dywedasoch chi yr ymdriniwyd ag embryonau a gametau o dan y Ddeddf. A wnewch chi egluro a ydych chi'n golygu mai'r Ddeddf hon sydd yn mynd i ymdrin â nhw neu Ddeddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 2008, sydd yn amlwg yn berthnasol i'r DU gyfan? A fedrwch chi egluro i mi, yn syml, pam, er eich bod chi wedi cynnwys embryonau yn y fan yma, nad ydych wedi cynnwys y gametau, ond, fy nealltwriaeth i o'r Ddeddf embryoleg dynol yw ei bod yn cynnwys embryonau a gametau hefyd? Felly, mewn geiriau eraill, os ydych chi'n teimlo ei fod yn werth eu hailadrodd yn ein Deddf ni, tybed a ydych yn teimlo ei bod yn werth ailadrodd yr elfen gametau, oherwydd rwyf yn credu bod gan lawer o bobl farn eithaf cryf ar hynny. Diolch.

17:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

17:55

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. There may be one or two very specific points that I would need to make sure I was writing to people on to give them the entirely correct answer, but I can reply to most of the points that have been raised, I hope.

Kirsty Williams expressed the principle that lies behind these regulations. The consultation was all about trying to arrive at an agreed list on those things that were novel and contentious, and those things that were already part of the mainstream system of transplantation. That's the dividing principle that lies behind the lists that you will have seen in the regulations. Kirsty asks how we will keep it up to date. Well, that is why we decided to use regulations rather than the face of a Bill in order to develop these lists. The lists will undoubtedly need to be updated as things that are novel today become mainstream tomorrow, and things that have never been thought of today become part of the way that transplantation will be organised in the future. Those will require new regulations to be put in front of the Assembly, and just as these regulations were subject to the affirmative procedure, any new regulations would have to go through the same process of being prepared in draft, consulted upon, brought back here for Assembly Members to debate and, if they are convinced by them, to approve of them.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Efallai y bydd un neu ddau bwynt penodol iawn y bydd angen i mi wneud yn siwr fy mod i'n ysgrifennu at bobl yn eu cylch er mwyn rhoi ateb sy'n gwbl gywir iddynt, ond gallaf ateb y rhan fwyaf o'r pwyntiau sydd wedi codi, rwyf yn gobeithio.

Mynegodd Kirsty Williams yr egwyddor sy'n gorwedd y tu ôl i'r rheoliadau hyn. Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â cheisio cyrraedd rhestr y cytunwyd arni am y pethau hynny a oedd yn newydd ac yn ddadleuol, a'r pethau hynny a oedd eisoes yn rhan o'r system prif ffrwd trawsblannu. Dyna'r egwyddor wahanu sydd y tu cefn i'r rhestrau y byddwch chi wedi eu gweld yn y rheoliadau. Mae Kirsty yn gofyn sut y byddwn ni yn eu cadw'n gyfoes. Wel, dyna pam yr ydym ni wedi penderfynu defnyddio rheoliadau yn hytrach na wyneb y Bil ar gyfer datblygu'r rhestrau hyn. Bydd y rhestrau yn sicr angen cael eu diweddaru wrth i bethau sy'n newydd heddiw ddod yn rhan o'r brif ffrwd yfory, a phethau nad ydynt erioed wedi eu hystyried o'r blaen yn dod yn rhan o'r ffordd y bydd trawsblannu yn cael ei drefnu yn y dyfodol. Bydd y rhain ei gwneud yn ofynnol i reoliadau newydd gael eu gosod gerbron y Cynulliad, ac yn union fel yr oedd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, byddai'n rhaid i unrhyw reoliadau newydd fynd drwy'r un broses o gael eu paratoi ar ffurf drafft, ymgynghori arnynt, ac yna ddod yn ôl yma er mwyn i Aelodau'r Cynulliad eu trafod, ac os ydynt wedi eu hargyhoeddi ganddynt, eu cymeradwyo.

17:56

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister give way?

A wnaiff y Gweinidog ildio?

17:56

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course.

Wrth gwrs.

17:56 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I understand the process. What I was trying to get at—and I obviously failed miserably to do so—is actually what procedures the Government will undertake to keep that list up to date. I understand that they'll come back here, but what is the Government going to do to keep abreast of those developments and actively review the legislation? Governments will have lots of legislation to look at. How is this one going to be kept under review?

Rwyf yn deall y broses. Yr hyn yr oeddwn yn ceisio'i egluro—ac mae'n amlwg fy mod wedi methu'n druenus â gwneud hynny—mewn gwirionedd oedd pa weithdrefnau y bydd y Llywodraeth yn eu cynnal i gadw'r rhestr honno yn gyfredol. Deallaf y byddant yn dod yn ôl yma, ond beth mae'r Llywodraeth yn mynd i'w wneud i gadw'n gyfredol â'r datblygiadau hynny ac adolygu'r ddeddfwriaeth yn ymarferol? Bydd gan Lywodraethau lawer o ddeddfwriaeth i edrych arni. Sut mae yr un yma yn mynd i gael ei hadolygu yn barhaus?

17:57 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Sorry; that is, of course, a very fair question. We will rely on the advisory mechanisms that we have in this field. We have some very distinguished clinicians in Wales, who are part of UK-wide arrangements too. There's been an example just in the last couple of weeks where, in England, there are now to be 10 procedures of womb transplantation. Those will clearly fall within the novel and contentious. There are only 10 of them that will have been funded. Our advisory mechanisms will keep us up to date and let us know whether we need to come back in front of the Assembly to move fresh regulations as those new developments come into being.

Diolch. Mae'n ddrwg gennyf; mae hwnna, wrth gwrs, yn gwestiwn teg iawn. Byddwn yn dibynnu ar y mecanweithiau ymgynghorol sydd gennym yn y maes hwn. Mae gennym rai clinigwyr nodedig iawn yng Nghymru, sy'n rhan o drefniadau ledled y DU hefyd. Cafwyd enghraifft, dim ond yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf ble, yn Lloegr, y bydd 10 o weithdrefnau ar gyfer trawsblannu'r groth. Bydd y rheiny yn amlwg yn rhan o'r categori newydd a dadleuol. Dim ond 10 ohonyn nhw fydd wedi eu hariannu. Bydd ein mecanweithiau ymgynghorol yn ein cadw ni'n gyfredol ac yn rhoi gwybod i ni os oes angen i ni ddod yn ôl gerbron y Cynulliad i gynnig rheoliadau newydd wrth i'r datblygiadau newydd hynny ddod i fodolaeth.

Darren Millar asked me the question about why nerves were not being excluded. This was raised in the consultation and thrashed out during it. The difficulty is that almost every other standard form of transplantation also involves some nerves being transplanted as part of the kidney, the liver or whatever it might be. So, to put nerves on the excluded list would, in effect and inadvertently, have the effect of ruling out all sorts of other things that are relatively mainstream.

Gofynnodd Darren Millar y cwestiwn imi ynglŷn â pham nad oedd y nerfau yn cael eu heithrio. Codwyd hyn yn yr ymgynghoriad a chafwyd trafodaeth ddwys yn ei gylch. Yr anhawster yw bod bron pob ffurf safonol arall o gludiant hefyd yn gofyn bod rhai o'r nerfau yn cael eu trawsblannu yn rhan o'r aren, yr afu neu beth bynnag y bo. Felly, byddai rhoi nerfau ar y rhestr o organnau sydd wedi'u heithrio, i bob pwrpas ac yn anfwriadol, yn cael yr effaith o ddiystyru pob math o bethau eraill sydd yn gymharol brif ffrwd.

Can I thank Angela Burns? We had a series of conversations during the passage of the Bill at its various stages, but we've continued to have correspondence and discussions during the two years that have followed. My understanding is that fallopian tubes are part of excluded material, but I will confirm that with you directly. The legislation that I referred to in my correspondence with you was UK legislation, not this Act. I'll pick up the specific point about embryos and gametes as well in the reply that I provide.

A gaf i ddiolch i Angela Burns? Cawsom gyfres o sgyrsiau yn ystod taith y Bil yn ystod ei wahanol gyfnodau, ond rydym ni wedi parhau i gael gohebiaeth a thrafodaethau yn ystod y ddwy flynedd ers hynny. Fy nealltwriaeth i yw bod tiwbiau ffalopaidd yn rhan o'r deunydd sydd wedi'i eithrio, ond byddaf yn cadarnhau hynny â chi yn uniongyrchol. Y ddeddfwriaeth y cyfeiriais i ati yn fy ngohebiaeth â chi oedd deddfwriaeth y DU, nid y Ddeddf hon. Byddaf yn codi'r pwynt penodol am embryonau a gametau hefyd yn yr ymateb y byddaf yn ei ddarparu.

17:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:59

## 9. Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Cynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2015—i'w Gwneud o dan Adran 8 o'r Ddeddf

## 9. The Human Transplantation (Appointed Representatives) (Wales) Regulations 2015—to be Made under Section 8 of the Act

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 9 is the Human Transplantation (Appointed Representatives) (Wales) Regulations 2015. These are to be made under section 8 of the Act. I call on the Minister to move the motion.

Eitem 9 yw Rheoliadau (Cymru) Trawsblannu Dynol (Cynrychiolwyr Penodedig) 2015. Mae'r rhain i'w gwneud o dan adran 8 y Ddeddf. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5834 Jane Hutt

Motion NDM5834 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Trawsblannu Dynol (Cynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Medi 2015.

Approves that the draft The Human Transplantation (Appointed Representatives) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 11 September 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:59

### Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Thank you, Dirprwy Lywydd. So, this is the second set of regulations, and these regulations set out the persons who may not act as an appointed representative for the purposes of giving consent to organ donation.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Felly, dyma'r ail gyfres o reoliadau, ac mae'r rheoliadau hyn yn nodi'r personau na chânt weithredu fel cynrychiolydd penodedig at ddibenion rhoi caniatâd i roi organau.

The requirement is only that the person should themselves be competent to understand the role being asked of them. The consultation rehearsed the issue of when that test of competence would be applied, and I think the results were quite decisive in advising us that competence should be tested not at the time that the appointment is made, but is something that would be evaluated should the time ever come for that person to be asked to exercise the appointment that they have been made.

Yr unig ofyniad yw y dylai'r person ei hunan fod yn gymwys i ddeall y swyddogaeth y gofynnir iddo ei chyflawni. Trafododd yr ymgynghoriad y mater o bryd y byddai'r prawf cymhwysedd hwnnw yn cael ei ddefnyddio, ac rwy'n credu bod y canlyniadau yn eithaf pendant wrth ein cynghori y dylid profi cymhwysedd nid ar yr adeg pan wneir y penodiad, ond ei fod yn rhywbeth a fyddai'n cael ei werthuso pe byddai'r adeg byth yn dod pryd y gofynnid i'r person hwnnw i weithredu'r penodiad a roddwyd iddynt.

I was asked by Elin Jones earlier this afternoon how many people had exercised the new right to have their opt-out decision registered. We know now the number of people who are appointing representatives and, so far, five individuals have used the new facility that the Act provides to make such an appointment.

Gofynnodd Elin Jones imi yn gynharach y prynhawn yma faint o bobl a oedd wedi gweithredu'r hawl newydd i gofnodi eu penderfyniad i optio allan. Rydym yn gwybod beth yw nifer y bobl sy'n penodi cynrychiolwyr erbyn hyn a, hyd yn hyn, mae pum unigolyn wedi defnyddio'r cyfleuster newydd y mae'r Ddeddf yn ei ddarparu i wneud penodiad o'r fath.

18:00

### Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Again, just a brief contribution. I'll be supporting these particular regulations. I think it's important that people have mental capacity when they're making decisions, either on behalf of themselves or other people, and, frankly, it is entirely appropriate that they can understand the decision that they're making, the implications of it, and retain that knowledge, and it's appropriate also to test it at the time of the transplantation activity being imminent, rather than just at the time that an appointment is made.

Unwaith eto, dim ond cyfraniad byr. Byddaf yn cefnogi'r rheoliadau penodol hyn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod gan bobl y gallu meddyliol pan eu bod yn gwneud penderfyniadau, naill ai ar eu rhan eu hunain neu ar ran eraill, ac, a dweud y gwir, mae'n gwbl briodol eu bod nhw yn gallu deall y penderfyniad y maent yn ei wneud, a goblygiadau hynny, ac yn dal gafael ar y wybodaeth honno, ac mae'n briodol hefyd i gynnal prawf pan fydd y weithred o drawsblannu ar ddigwydd, yn hytrach na dim ond ar yr adeg pan y gwneir penodiad.

I think there is something quite unusual in this appointment, though. It does allow children to appoint a nominated representative, and that of course is not the case in other parts of the UK. I think it is important, when a child makes an appointment, that the child's competency to make that appointment might also need to be tested. I wonder, Minister, whether, in responding to this debate, although I will be supporting the regulations, you can just give us some assurances around testing the competency of children who are making an appointment to give us some assurance that they're doing so in the full knowledge of the implications of that appointment.

Rwyf yn meddwl bod rhywbeth eithaf anarferol yn yr apwyntiad hwn, er hynny. Mae'n caniatáu i blant benodi cynrychiolydd enwebedig, ac nid yw hynny, wrth gwrs, yn wir mewn rhannau eraill o'r DU. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, pan fydd plentyn yn gwneud penodiad, efallai y bydd angen rhoi prawf ar allu'r plentyn i wneud y penodiad hwnnw hefyd. Tybed, Weinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon, er y byddaf yn cefnogi'r rheoliadau, a allwch chi roi rhywfaint o sicrwydd inni ynghylch profi gallu'r plant sydd yn gwneud penodiad er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd inni eu bod nhw'n gwneud hynny gan wybod yn llawn beth yw goblygiadau'r penodiad hwnnw.

18:02

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I'm grateful to Darren Millar for those comments. He's absolutely right that the point at which someone's competence to be a representative should be tested should be the point where that role is being exercised. Competence comes and goes, and people can go through different points in their life where they are more or less able to discharge that, so a decision at any other point really would make no sense. Under our legislation, children are deemed to be competent to make those decisions. There is no further test required of them.

Rwy'n ddiolchgar i Darren Millar am y sylwadau yna. Mae o yn llygad ei le y dylai'r adeg ble y mae gallu rhywun i fod yn gynrychiolydd gael ei brofi ar yr adeg pan fo'r swyddogaeth honno'n cael ei gweithredu. Mae cymhwysedd yn mynd a dod, a gall pobl fynd drwy wahanol adegau yn eu bywydau lle maent fwy neu lai yn abl i gyflawni hynny, felly byddai penderfyniad ar unrhyw adeg arall wir yn gwneud dim synnwyr o gwbl. O dan ein deddfwriaeth, ystyrir bod plant yn gymwys i wneud y penderfyniadau hynny. Nid oes prawf pellach yn ofynnol ar eu cyfer.

18:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

18:02

# 10. Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Personau nad yw'r Galluedd ganddynt i Gydsynio) (Cymru) 2015—i'w Gwneud o dan Adran 9 o'r Ddeddf

# 10. The Human Transplantation (Persons who Lack Capacity to Consent) (Wales) Regulations 2015—to be Made under Section 9 of the Act

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 10 is the Human Transplantation (Persons who Lack Capacity to Consent) (Wales) Regulations. These to be made under section 9 of the Act. I call the Minister to move the motion.

Eitem 10 yw Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Personau nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio) (Cymru). Mae'r rhain i'w gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5835 Jane Hutt

Motion NDM5835 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Trawsblannu Dynol (Personau nad yw'r Galluedd ganddynt i Gydsynio) (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Medi 2015.

Approves that the draft The Human Transplantation (Persons who Lack Capacity to Consent) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 11 September 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

18:03 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. This issue was one of the most contentious during the passage of the Bill, and I'm very glad to be able to bring the specific regulations in front of the Assembly this afternoon. These are the regulations that describe the process for deeming the consent for living donation from people who lack the capacity to consent for themselves. The key point for me to make is that these regulations are all about ensuring that that person who lacks the capacity—that their best interests are safeguarded. Without these regulations, those people would be far more open to exploitation, which was the issue, absolutely rightly, that preoccupied Assembly Members during the passage of the Bill. So, just to remind Members, the situation only applies to living donors. For deceased donation, people who lack the capacity to understand organ donation or the notion of deemed consent are treated as accepted adults and are therefore exempted from deemed consent altogether.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Roedd y mater hwn yn un o'r rhai mwyaf dadleuol yn ystod hynt y Bil, ac rwy'n falch iawn o allu dod â'r rheoliadau penodol gerbron y Cynulliad y prynhawn yma. Y rhain yw'r rheoliadau sy'n disgrifio'r broses ar gyfer cael caniatâd tybiedig i roi organau byw gan bobl nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio drostynt eu hunain. Y pwynt allweddol i mi ei wneud yw bod y rheoliadau hyn yn ymwneud â sicrhau bod y person hwnnw nad yw'r gallu ganddo—bod ei les gorau yn cael ei ddiogelu. Heb y rheoliadau hyn, byddai'r bobl hynny yn llawer mwy agored i gamfanteisio, ac roedd hwn yn fater, yn hollol briodol, a oedd yn brif sylw i Aelodau'r Cynulliad yn ystod hynt y Bil. Felly, i atgoffa'r Aelodau, mae'r sefyllfa yn berthnasol dim ond i roddwyr byw. Ar gyfer rhodd ar ôl marwolaeth, caiff pobl nad oes ganddynt y gallu i ddeall rhoi organau na'r syniad o ganiatâd tybiedig eu trin fel oedolion a eithrir, ac felly maent yn cael eu heithrio o ganiatâd tybiedig yn gyfan gwbl.

These regulations replicate the effect of the current regulations. We've not moved away from them at all, and those current regulations are made under the Human Tissue Act 2004, and that sets out the system for deeming the consent of living adults who lack capacity to consent. They are, as I said, a vital component of safeguarding for those living adults who lack that capacity. They provide protection to vulnerable adults by ensuring that no donation could take place unless it can be demonstrated that it was in their best interests.

Mae'r rheoliadau hyn yn ailadrodd effaith y rheoliadau presennol. Nid ydym wedi symud i ffwrdd oddi wrthynt o gwbl, a gwneir y rheoliadau presennol hynny o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, ac mae honno yn nodi'r system ar gyfer caniatâd tybiedig oedolion byw nad oes ganddynt y gallu i gydsynio. Mae'r rheoliadau, fel y dywedais, yn elfen hanfodol o ddiogelu ar gyfer yr oedolion byw hynny nad oes ganddynt y galluedd. Maent yn diogelu oedolion sy'n agored i niwed drwy sicrhau na allai unrhyw rodd ddigwydd oni bai y gellid dangos bod hynny er eu lles gorau.

Once again, I reassure Members that the best-interests test involves a rigorous process. If someone was ever in that position, then the first thing that happens is that an application to deem the consent of a living adult who lacks capacity has got to be made to a court of law. The court then has to be persuaded that it is, indeed, in that person's interest that their consent could be deemed. Even when the court approves that application, the case has then got to be put in front of a panel of independent advisers, overseen by the Human Tissue Authority, and that panel provides a further check in the system to decide whether or not it is in that individual's best interests to donate or not. It's only when all those checks and balances have been exhausted that donation could go ahead in these circumstances, and our code of practice under these regulations provides those essential safeguards for those vulnerable individuals.

Unwaith eto, rwyf yn rhoi sicrwydd i'r Aelodau bod y prawf lles gorau yn cynnwys proses drwyadl. Pe byddai rhywun yn y sefyllfa honno byth, yna'r peth cyntaf sy'n digwydd yw bod angen gwneud cais ar gyfer cydsyniad tybiedig oedolyn byw nad oes ganddo'r gallu i gydsynio, mewn llys barn. Yna, mae'n rhaid argyhoeddi'r llys ei bod, mewn gwirionedd, er lles gorau'r person hwnnw y gellid tybio ei gydsyniad. Hyd yn oed pan fydd y llys yn cymeradwyo'r cais hwnnw, mae'n rhad cyflwyno'r achos o flaen panel o gynghorwyr annibynnol, a oruchwylir gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, a bydd y panel hwnnw yn darparu gwiriad arall yn y system i benderfynu a yw er lles gorau'r unigolyn hwnnw i roi neu beidio. Dim ond pan fydd yr holl wiriadau a'r gwrthbwyso hynny wedi eu cynnal y gallai rhodd fynd yn ei flaen o dan yr amgylchiadau hyn, ac mae ein cod ymarfer dan y rheoliadau hyn yn darparu'r mesurau diogelu hanfodol hynny ar gyfer yr unigolion hynny sy'n agored i niwed.

18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren Millar.

Darren Millar.

18:06 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you, Minister, as well, for the clarification that these regulations relate just to consent for living individuals rather than those who may have already passed away.

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i chithau, Weinidog, hefyd, am egluro bod y rheoliadau hyn yn ymwneud â chydsyniad unigolion byw yn unig yn hytrach na'r rhai hynny a allai fod wedi marw eisoes.

I can see the sense behind the best-interests test. I can understand and appreciate that there will be times when consent cannot be deemed from an individual because of their mental capacity, but it may be in their interests, for example, for them to be in receipt of a donor organ for their own health, or, for example, when it may be appropriate for them to be an organ donor to a primary carer—a kidney, for example.

Gallaf weld y synnwyr y tu ôl i'r prawf lles gorau. Gallaf ddeall a gwerthfawrogi y bydd adegau pan na ellir tybio cydsyniad unigolyn oherwydd ei allu meddyliol, ond gallai fod er ei les ef, er enghraifft, er mwyn iddo dderbyn organ gan roddwr er lles ei iechyd ei hun, neu, er enghraifft, pan fyddai'n briodol iddo roi organ i brif ofalwr —aren, er enghraifft.

So, I can see situations where these regulations may apply and which may meet the best-interests test, but I don't think that there's sufficient clarity, either in the guidance—in the code of practice—or in the regulations in respect of those individuals who may lose capacity and have had capacity before, have lost mental capacity and whose consent is then being deemed, particularly if they have a history whereby it can be easily assumed that they would not consent to an organ being donated. In those peculiar circumstances, which may well be rare, I think it's important for some safeguards to be put into the system in order to protect against transplantation activity commencing. So, for those reasons, I can't support the regulations that are before the Assembly, but I do agree with the principle of a best-interests test.

Felly, gallaf weld sefyllfaoedd lle gallai'r rheoliadau hyn fod yn berthnasol ac a allai fodloni'r prawf lles gorau, ond nid wyf o'r farn ei bod yn ddigon eglur, naill ai yn y canllawiau—yn y cod ymarfer—nac yn y rheoliadau o ran yr unigolion hynny a allai golli galluedd sydd wedi bod â'r gallu yn flaenorol, sydd wedi colli galluedd meddyliol ac y mae eu cydsyniad wedyn yn cael ei dybio, yn enwedig os oes ganddynt hanes lle gellir tybio'n rhwydd na fyddent yn cydsynio i organ gael ei rhoi. O dan yr amgylchiadau penodol hynny, a allai'n wir fod yn anaml iawn, rwyf o'r farn ei bod yn bwysig i rai mesurau diogelwch gael eu gosod yn y system er mwyn diogelu rhag dechrau gweithgarwch trawsblannu. Felly, am y rhesymau hynny, ni allaf gefnogi'r rheoliadau sydd gerbron y Cynulliad, ond rwyf yn cytuno â'r egwyddor o brawf lles gorau.

18:08

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, this is the one that I really have a sticky problem with, as you well know. I was very disappointed that the last Parliament in Westminster did not have the time to review the Human Tissue Act 2004, because I know a lot of this stems from the current Human Tissue Act 2004 rules. My problem is this: if you have capacity, there is nowhere—nothing—that can force any single one of us to donate a bit of our body—none of us here; there are 60 of us here, plus staff. But, it seems that this allows—I appreciate that it's not just you, but it's the Westminster Parliament as well—this extraordinary second-class citizenship where, if you do not have capacity, you can have a bit of your body removed from you. I'm perfectly accepting of the best-interests tests, in terms of giving something—giving somebody who has mental incapacity a new kidney, or more of this or more of that, to prolong their life.

Weinidog, dyma'r un y mae gennyf innau broblem fawr â hi, fel y gwyddoch yn iawn. Roeddwn yn siomedig iawn nad oedd gan y Senedd ddiwethaf yn San Steffan yr amser i adolygu Deddf Meinweoedd Dynol 2004, gan fy mod yn gwybod bod llawer o hyn yn deillio o reolau cyfredol y Ddeddf Meinweoedd Dynol 2014 bresennol. Fy mhroblem i yw hyn: os oes gennych y gallu i gydsynio, nid oes unman—dim byd—a all orfodi unrhyw un ohonom i roi darn o'n corff—dim un ohonom ni yma; mae 60 ohonom ni yma, yn ogystal â staff. Ond, mae'n ymddangos bod hyn yn caniatáu—rwy'n sylweddoli nad dim ond chi, ond Senedd San Steffan hefyd—y ddinasyddiaeth ail ddosbarth rhyfeddol hwn lle, os nad oes gennych y gallu i gydsynio, gallwch gael darn o'ch corff wedi'i dynnu oddi wrthych . Rwy'n derbyn yn llawn y profion lles gorau, o ran rhoi rhywbeth—rhoi aren newydd i rywun sydd ag anallu meddyliol, neu fwy o hyn neu fwy o'r llall, i ymestyn ei fywyd.

The example that I used in the Stage 2 or 3 debate—forgive me, I can't remember quickly which one—was the issue of where you would have, I think, a woman who was cared for by her sister, her sister needed a new kidney, and there is a precedent being set where, actually, the judges and those who make the decisions can say it is in the best interests of that disabled person to sacrifice their kidney for their primary carer because they would find life without their primary carer extremely upsetting. But I cannot in all conscience support this because, if you're that severely incapacitated, then I would suggest to you that you would find the whole process of being operated on and not understanding what on earth was happening to you, of being drugged and taken into hospital—that would all be so alien to you that it would actually give you an enormous amount of stress.

Yr enghraifft a ddefnyddiais yn y ddadl Cyfnod 2 neu 3—maddeuwch imi, ni allaf gofio yn gyflym pa un—oedd y mater o bryd y byddai gennych, rwy'n meddwl, menyw yr oedd ei chwaer yn gofalu amdani, ac angen aren newydd ar ei chwaer, a bod cynsail yn cael ei osod lle, mewn gwirionedd, y gall y barnwyr a'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau ddweud ei bod er lles gorau y person anabl i aberthu ei aren er lles ei brif ofalwr oherwydd y byddai'n canfod bywyd heb ei brif ofalwr yn hynod o anodd. Ond ni all fy nghydwybod gefnogi hyn oherwydd, os oes gennych chi analluedd mor ddifrifol â hynny, yna rwy'n awgrymu i chi y byddech yn canfod yr holl broses o gael llawdriniaeth ac heb fod yn deall beth ar y ddaear oedd yn digwydd i chi, o gael cyffuriau a mynd a chi i'r ysbyty—y byddai hynny mor estron i chi, y byddai mewn gwirionedd yn achosi llawer iawn o straen i chi.

And it is just this one area where, you know, it's okay for all of us because, hey, you know, we're all right, we can think; we've got what it takes so we can make these decisions. And that's my problem with this one area. For me, it is a point of absolute principle because I think—and it's what I was lobbying you for and what I was lobbying, as you know, the Westminster Government for and I know that I'm probably a very lone voice on this, but I want to be absolutely clear to everyone and on the record that I cannot support this particular regulation and for no other reason than that one negative effect. I do accept that there are probably very few instances in the United Kingdom, even fewer instances in Wales, where it will ever be used, but it is the absolute principle to me that, somehow, we define the people who have this capacity issue as being able to be harvested without their understanding or knowledge, and there are the concomitant effects that that will have on them. Saving their lives is one thing; taking them and using their organs for somebody, no matter what the best interests or intentions are, I think, is a step that I, personally, cannot support.

Ac yn yr un maes hwn yn unig, wyddoch chi, y mae'n iawn i bob un ohonom ni oherwydd, hei, wyddoch chi, rydym ni i gyd yn iawn, gallwn ni feddwl; mae gennym ni yr hyn sydd ei angen i wneud y penderfyniadau hyn. A dyna fy mhroblem i gyda'r un maes hwn. I mi, mae'n bwynt o egwyddor absoliwt oherwydd rwy'n credu—a dyma beth yr oeddwn yn eich lobïo chi amdano a beth yr oeddwn yn lobïo, fel y gwyddoch, Llywodraeth San Steffan amdano ac rwy'n gwybod fy mod yn ôl pob tebyg yn un llais unig iawn ar hyn, ond rwyf am fod yn hollol glir â phawb a hynny ar y cofnod na allaf gefnogi'r rheoliad penodol hwn a hynny a ddim am unrhyw reswm heblaw am yr un effaith negyddol honno. Rwyf yn derbyn ei bod yn debygol mai ychydig iawn o achosion fydd yn y Deyrnas Unedig, hyd yn oed llai o achosion yng Nghymru, pryd y caiff ei ddefnyddio fyth, ond yr egwyddor absoliwt i mi, rywsut, yw ein bod yn diffinio'r bobl sydd â'r broblem galluedd hon yn bobl y gellir eu cynaeafu heb iddynt fod yn deall nac yn gwybod hynny, ac mae effeithiau cydredol y bydd hynny'n ei achosi iddynt. Mae achub eu bywydau yn un peth; ond mae eu cymryd a defnyddio eu horganau ar gyfer rhywun, ni waeth beth yw'r lles gorau neu'r bwriadau gorau, rwy'n credu, yn gam na allaf i, yn bersonol, ei gefnogi.

18:12

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, Members, it was my concerns about section 9 of the Act that made me vote against a Bill that I think I would otherwise have supported. It seemed to me then that deceased people who had lacked capacity in their lifetime had more protection from the Bill on the issue of deemed consent than putative living donors who lacked capacity. At the time, the Minister sought to reassure me by saying that the interests of living donors were protected by the UK Human Tissue Act 2004 and the related regulations of 2006, under which consent to certain activities can be deemed, if, amongst other considerations, they are, as we've heard, in the best interests of the living person who lacks capacity. I thought it was a defect in our Bill that it did not reiterate those protections in the UK Act in our Bill, in the Bill itself. The Bill itself was not clear as to the position of deemed consent for living donors without capacity. Today's regulations, in my view, go no further in clarifying the position. Section 9 of the Human Transplantation (Wales) Act 2013, our Act, states that consent for storage or use of relevant material may be deemed for a living donor without capacity

Ie, Aelodau, fy mhryderon i am adran 9 y Ddeddf a wnaeth i mi bleidleisio yn erbyn Bil y byddwn, rwy'n credu, wedi'i gefnogi fel arall. Yr oedd yn ymddangos i mi bryd hynny bod gan bobl sydd wedi marw nad oedd ganddynt y gallu i gydsynio yn ystod eu hoes fwy o ddiogelwch rhag y Bil ar y mater o ganiatâd tybiedig na rhoddwyr byw nad oedd ganddynt y gallu i gydsynio. Ar y pryd, ceisiodd y Gweinidog roi sicrwydd i mi trwy ddweud bod lles rhoddwyr byw wedi'i diogelu gan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 y DU a rheoliadau cysylltiedig 2006, y ceir tybio caniatâd i weithgareddau penodol oddi tanynt, os, ymhlith ystyriaethau eraill, y maent, fel yr ydym wedi clywed, er lles gorau y person byw nad oes ganddo'r gallu i gydsynio. Roeddwn o'r farn ei fod yn ddiffyg yn ein Bil nad oedd yn ailadrodd y diogellwch hwnnw yn Neddf y DU yn ein Bil ni, yn y Bil ei hun. Nid oedd y Bil ei hun yn glir ynghylch sefyllfa'r cydsyniad tybiedig ar gyfer rhoddwyr byw nad oes ganddynt y gallu i gydsynio. Nid yw rheoliadau heddiw, yn fy marn i, yn mynd dim pellach tuag at egluro'r sefyllfa. Mae Adran 9 y Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, ein Deddf ni, yn nodi y gellid tybio caniatâd ar gyfer storio neu ddefnyddio deunydd perthnasol ar gyfer rhoddwr byw nad oes ganddo alluedd i gydsynio

'in circumstances of a kind specified by regulations'.

'mewn amgylchiadau o fath a bennir gan reoliadau'.

Those circumstances and now specified in these regulations. Those circumstances are merely where storage or use of material is done by a person who is acting in what they reasonably believe to be the best interests of the individual without capacity. What person? The explanatory memorandum is no help. Does this mean a surgeon, a Court of Protection receiver, or the Public Guardian? Does it mean a carer? Does it mean a carer who's likely also to be a Court of Protection receiver or guardian, and what might be the best interests of a living donor without capacity? I appreciate, Minister, in your opening remarks that you mentioned the test that's in the UK legislation, but that test is not set out in the Welsh legislation, and there is no link or reference between the two Acts to say that the best-interests test under the UK legislation is the same as in the Welsh legislation.

Mae'r amgylchiadau hynny erbyn hyn wedi eu pennu yn y rheoliadau hyn. Mae'r amgylchiadau hynny ond ar gyfer pan gaiff deunydd ei storio neu ei ddefnyddio gan berson sy'n gweithredu yn yr hyn sydd, yn ei farn resymol ef, er lles gorau yr unigolyn nad oes ganddo alluedd i gydsynio. Pa berson? Nid yw'r memorandwm esboniadol o unrhyw gymorth. A yw hyn yn golygu llawfeddyg, derbynydd y Llys Gwarchod, neu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus? A yw'n golygu gofalwr? A yw'n golygu gofalwr sy'n debygol hefyd o fod yn dderbynnydd neu warcheidwad y Llys Gwarchod, a'r hyn a allai fod er lles gorau rhoddwr byw nad oes ganddo alluedd i gydsynio? Rwy'n sylweddoli, Weinidog, yn eich sylwadau agoriadol, eich bod wedi crybwyll y prawf sydd yn neddfwriaeth y DU, ond nid yw'r prawf hwnnw wedi'i nodi yn neddfwriaeth Cymru, ac nid oes cyswllt na chyfeiriad rhwng y ddwy Ddeddf i ddweud bod y prawf lles gorau o dan ddeddfwriaeth y DU yr un fath ag yn neddfwriaeth Cymru.

The example that has illustrated my own dilemma, of course, is that of the carer who needs a transplant and the person for whom they are caring is the perfect match. Is it a clear choice because the survival of the carer is in the best interests of the cared-for or is it the most colossal conflict of interest? I don't think these regulations offer any clarity on what does and does not constitute best interests. Nor do they offer clarity on who should be making those decisions. There are no amendments or additions to the UK legislation referencing our Act, as far as I know, and I'm more than happy, Minister, for you to correct me on that. But, more importantly, the rigorous test, as I mentioned, and to which you referred earlier, is not mentioned in our legislation or in our regulations.

Yr enghraifft sydd wedi dangos fy mhenbleth fy hun, wrth gwrs, yw sefyllfa pan fo gofalwr y mae angen trawsblaniad arno a'r person y mae'n gofalu amdano yn cydweddu i'r dim. A yw'n ddewis clir oherwydd bod sicrhau bod y gofalwr yn goroesi er lles gorau y person sy'n derbyn gofal neu a yw'n wrthdaro mwyaf anferthol o fuddiannau? Nid wyf yn credu bod y rheoliadau hyn yn cynnig unrhyw eglurder ynghylch yr hyn sy'n cynrychioli lles gorau a'r hyn nad yw'n cynrychioli lles gorau. Nid ydynt ychwaith yn cynnig eglurder ynghylch pwy ddylai fod yn gwneud y penderfyniadau hynny. Nid oes unrhyw welliannau nac ychwanegiadau i ddeddfwriaeth y DU yn cyfeirio at ein Deddf ni, hyd y gwn i, ac rwy'n fwy na pharod, Weinidog, ichi fy nghywiro ar hynny. Ond, yn bwysicach na hyn, nid yw'r prawf trwyadl, y soniais i amdano, ac y cyfeiriasoch chi ato yn gynharach, yn cael ei nodi yn ein deddfwriaeth ni nac yn ein rheoliadau ni.

Now, we're often told by Ministers in the Constitutional and Legislative Affairs Committee that they omit information from the face of a Bill as subordinate legislation is the better place to set out that detail. It may add meat, for example, to the statement of principle in a piece of primary legislation. But I think neither the principle nor the detail is apparent from these regulations; and as drafted, these regulations will be sending those relying on them to the lawyers and the courts at a time when transplantation, of necessity, is likely to need a quick decision. Thank you.

Nawr, mae Gweinidogion yn aml yn dweud wrthym yn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol eu bod yn hepgor gwybodaeth oddi ar wyneb Bil gan fod is-ddeddfwriaeth yn lle gwell i nodi'r manylion. Efallai ei fod yn ychwanegu manylion, er enghraifft, i'r datganiad o egwyddor mewn darn o ddeddfwriaeth sylfaenol. Ond, yn fy marn i, nid yw'r egwyddor na'r manylion yn amlwg yn y rheoliadau hyn; ac fel y maent wedi'u drafftio, bydd y rheoliadau hyn yn gyrru'r bobl hynny sy'n dibynnu arnynt at y cyfreithwyr a'r llysoedd ar adeg pan fo angen gwneud penderfyniad cyflym ynglŷn â thrawsblannu, o reidrwydd. Diolch.

18:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

18:15 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Well, I think that we've heard in the contributions this afternoon some of the complexity that lies behind these regulations and the debates that were important to Assembly Members during the passage of the Bill.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Wel, rwy'n credu ein bod wedi clywed yn y cyfraniadau y prynhawn yma rai o'r cymlethdodau sydd y tu ôl i'r rheoliadau hyn a'r dadleuon a oedd yn bwysig i Aelodau'r Cynulliad yn ystod hynt y Bil.

Angela Burns's position is one, straightforwardly, of principle. It's a perfectly proper principle, which you can sign up to or not. Angela's position, as I've always understood it, is that she simply does not believe that it is right and proper that the consent of someone without capacity should ever be deemed. You can come to that conclusion. I have every respect for the position that Angela outlined and it will explain why she will vote the way that she will vote this afternoon.

Mae safbwynt Angela Burns yn un, yn syml, o egwyddor. Mae'n egwyddor gwbl briodol, y gallwch gytuno ag ef neu beidio. Safbwynt Angela, fel yr wyf i wastad wedi ei ddeall, yw nad yw'n credu ei bod yn iawn nac yn briodol byth i dybio cydsyniad rhywun nad oes ganddo alluedd i gydsynio. Gallwch ddod i'r casgliad hwnnw. Mae gennyf bob parch at y safbwynt a amlinellwyd gan Angela a bydd yn egluro pam y bydd hi'n pleidleisio y ffordd y bydd hi'n pleidleisio y prynhawn yma.

Darren Millar and Suzy Davies, I think, are in slightly different positions. Darren explained that the principle is one that he can understand, but that he believes that the safeguards set out in these regulations don't go far enough for him to be able to support them. Again, I understand why he's come to that conclusion. I hope that I can reassure him on just one narrow point. I'm sure that it won't be enough to move the position that he's come to, but just on the one narrow point that he raised: if somebody had capacity, and during the period that they had capacity they were able to make clear their wishes not to be a donor, those views would continue to prevail at the point where they didn't have capacity. So, if it was clear, when someone was able to make their own mind up, that they wouldn't want this to have happened, their consent could not be deemed at a point where they no longer had capacity. So on that point I think I can reassure him. I know that he would have wanted to see the code strengthened in other ways.

Mae Darren Millar a Suzy Davies, rwy'n meddwl, mewn sefyllfa ychydig yn wahanol. Esboniodd Darren fod yr egwyddor yn un y mae'n gallu ei deall, ond ei fod yn credu nad yw'r mesurau diogelwch a nodir yn y rheoliadau hyn yn mynd yn ddigon pell iddo allu eu cefnogi. Unwaith eto, rwy'n deall pam y mae wedi dod i'r casgliad hwnnw. Rwy'n gobeithio y gallaf dawelu ei feddwl ef ar un pwynt cul. Rwy'n siwr na fydd yn ddigon i newid y safbwynt y mae wedi ei gyrraedd, ond dim ond ar yr un pwynt cul a gododd: pe byddai gan rywun y galluedd i gydsynio, ac yn ystod y cyfnod pan yr oedd ganddo'r galluedd i gydsynio ei fod yn gallu gwneud ei ddymuniadau yn glir i beidio â bod yn rhoddwr, byddai'r safbwyntiau hynny yn parhau yn ddilys ar y pwynt pan nad oedd ganddo'r galluedd i gydsynio. Felly, os oedd yn glir, pan oedd rhywun yn gallu gwneud ei benderfyniad ei hun na fyddai'n dymuno i hyn ddigwydd, ni cheir tybio ei gydsyniad ar bwynt pan nad oedd ganddo'r gallu i gydsynio mwyach. Felly ar y pwynt hwn rwy'n meddwl y gallaf roi sicrwydd iddo. Gwn y byddai wedi bod eisiau gweld y cod yn cael ei gryfhau mewn ffyrdd eraill.

As far as Suzy Davies's question is concerned, I think I gave an answer. I know that it's not an answer that will satisfy her. The answer to her question, 'Who is the person?', is this: our regulations set out every safeguard that has been there in this system up until this point in time. Everything that has been in the law before is now in the law here in Wales. The answer to the question, 'Who is the person?', is not to try and list a set of categories of who that person may be. That person has to be someone who will have satisfied a court of law that deeming consent in the circumstances is in the best interests of the person and should go ahead. Then, that person has to be a person who, having taken that agreement from the court of law, is able to go to an independent panel of advisers of the Human Tissue Authority and persuade them as well over and above the agreement that they have already secured from a court of law that this is genuinely in the best interests of that person. That is the system that lies behind these regulations. It would have been very good had that system been able to be reviewed in the last Parliament before it was unable to do so. I think it would have gone some way to answering some of Angela Burns's concerns when the views of that very small number of people who have had this happen in their lives could have been explored and the impact on them could have been set out for the rest of us to understand.

O ran cwestiwn Suzy Davies, rwy'n credu fy mod wedi rhoi'r ateb. Gwn nad yw'n ateb a fydd yn ei bodloni hi. Yr ateb i'w chwestiwn, 'Pwy yw'r person', yw hwn: mae ein rheoliadau yn nodi pob mesur diogelu sydd wedi bod yn y system hon hyd yn hyn. Mae popeth sydd wedi bod yn y gyfraith o'r blaen nawr yn y gyfraith yma yng Nghymru. Yr ateb i'r cwestiwn, 'Pwy yw'r person?', yw peidio â cheisio rhestru set o gategorïau o bwy y gallai'r person hwnnw fod. Mae'n rhaid i'r person hwnnw fod yn rhywun a fydd wedi bodloni llys barn bod tybio caniatâd o dan yr amgylchiadau er lles gorau y person ac y dylai fynd yn ei flaen. Yna, mae'n rhaid i'r person hwnnw fod yn berson sydd, ar ôl mynd â'r cytundeb hwnnw o'r llys barn, yn gallu mynd at banel annibynnol o ymgynghorwyr yr Awdurdod Meinweoedd Dynol a'u darbwyllo hwythau ymhellach i'r cytundeb y mae eisoes wedi'i gael gan lys barn bod hyn yn wirioneddol er lles gorau y person hwnnw. Dyna'r system sydd y tu ôl y rheoliadau hyn. Byddai wedi bod yn dda iawn pe byddai'r system honno wedi gallu cael ei hadolygu yn y Senedd ddiwethaf cyn iddi fethu â gwneud hynny. Rwy'n credu y byddai wedi mynd ran o'r ffordd i ateb rhai o bryderon Angela Burns pe gallai barn y nifer fach iawn o bobl hynny y mae hyn wedi digwydd iddynt yn eu bywydau fod wedi gallu cael ei harchwilio ac y gallai'r effaith arnynt fod wedi cael ei nodi er mwyn i'r gweddill ohonom ddeall.

*Suzy Davies a gododd—*

*Suzy Davies rose—*

18:19 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry, Suzy. Of course.

Mae'n ddrwg gennyf, Suzy. Wrth gwrs.

18:19

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful to you. Bearing in mind what you said about your disappointment about what's happening at the UK end of the thought on this, would this not have been an opportunity to actually improve the law on which you're relying upon by introducing it into Welsh legislation?

Rwy'n ddiolchgar iawn i chi. O gofio'r hyn a ddywedasoch am eich siom am yr hyn sy'n digwydd ym mhen y DU o ran y farn ar hyn, oni fyddai hwn wedi bod yn gyfle i wella'r gyfraith yr ydych yn dibynnu arni drwy ei gyflwyno i ddeddfwriaeth Cymru?

18:19

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, my disappointment was simply that time ran out. I'm not making a critical point about the UK Government. It was their clear intention to carry out such a review. We were, to a certain extent, expecting to benefit from that review in these regulations. The UK Government, as I understand it, intends to return to that issue; and because these are regulations, we will be able to return to them again if that work throws up any issues that would lead us to the conclusion that our regulations could be further strengthened in this area. But, with those arguments in place, and with, I believe, the safeguards that this set of regulations puts into law, I hope that the Assembly as a whole will feel able to support them this afternoon.

Wel, fy siom yn syml oedd nad oedd amser ar ôl. Dydw i ddim yn gwneud pwynt beirniadol am Lywodraeth y DU. Ei bwriad clir oedd cynnal adolygiad o'r fath. Roeddem, i ryw raddau, yn disgwyl elwa ar yr adolygiad hwnnw yn y rheoliadau hyn. Mae Llywodraeth y DU, yn ôl yr hyn a ddeallaf, yn bwriadu dychwelyd at y mater hwnnw; ac oherwydd mai rheoliadau yw'r rhain, byddwn yn gallu dychwelyd atynt eto os bydd y gwaith hwnnw yn amlygu unrhyw faterion a fyddai'n ein harwain at y casgliad y gallai ein rheoliadau gael eu cryfhau ymhellach yn y maes hwn. Ond, gyda'r dadleuon hynny ar waith, a chyda, yn fy marn i, y mesurau diogelwch y mae'r gyfres hon o reoliadau yn eu cyflwyno i'r gyfraith, yr wyf yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn ei gyfanrwydd o'r farn y gall eu cefnogi y prynhawn yma.

18:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I'll defer voting on item 10 until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] 'Rwyf yn gohirio'r bleidlais ar eitem 10 tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:20

# 11. Cod Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol

# 11. The Human Tissue Authority's Code of Practice

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 11 is the Human Tissue Authority's code of practice, and I call the Minister to move the motion.

Eitem 11 yw cod ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, a galwaf ar y Gweinidog i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5836 Jane Hutt

Motion NDM5836 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o God Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol 2015 ar Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Medi 2015.

Approves that the draft The Human Tissue Authority Code of Practice 2015 on the Human Transplantation (Wales) Act 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 11 September 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

18:20 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

This is the final part of this package of issues in front of the Assembly this afternoon. It's a matter that we discussed in a great deal of detail during the passage of the Bill. The Human Tissue Authority's code of practice is a very important companion piece to our regulations and to the Act itself, because this is where clinicians receive practical guidance on the operation of the Human Transplantation (Wales) Act 2013, and particularly the circumstances in which consent can be deemed under section 4 of the Act.

Dyma ran olaf y pecyn hwn o faterion gerbron y Cynulliad y prynhawn yma. Mae'n fater a drafodwyd gennym yn fanwl iawn yn ystod hynt y Bil. Mae cod ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yn ddarn pwysig iawn i gyd-fynd â'n rheoliadau a'r Ddeddf ei hun, oherwydd dyma lle y mae clinigwyr yn derbyn cyfarwyddyd ymarferol ar weithredu Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, ac yn enwedig yr amgylchiadau lle y ceir tybio cydsyniad o dan adran 4 y Ddeddf.

I'm very grateful indeed to the Human Tissue Authority for the seriousness with which they have gone about the development of the code, the extent to which they involved clinicians in it and the process of consultation with the public that they embarked upon once the first draft of that code was available. So, they consulted from 1 October 2013 to 23 December 2013. They hosted a series of events in Wales and beyond which were attended by a range of stakeholders, both individuals and organisations. They held meetings here in Cardiff, in mid Wales and in north Wales. And whereas the number of individual responses to the regulations was relatively modest, 85 different responses from individuals and organisations were received to the code. The overall response to it was positive, but there were also several useful suggestions which were made for improvements to it, which the Human Tissue Authority has acted upon. The code which the Assembly is asked to approve this afternoon is therefore different and better than the one which was originally embarked upon.

Rwy'n ddiolchgar iawn yn wir i'r Awdurdod Meinweoedd Dynol am y modd o ddifrif y maent wedi mynd ati i ddatblygu'r cod, y graddau y maent wedi cynnwys clinigwyr yn eu gwaith a'r broses o ymgynghori gyda'r cyhoedd a ddechreuwyd ar unwaith pan yr oedd y drafft cyntaf o'r cod hwnnw ar gael. Felly, cynhaliwyd ymgynghoriad o 1 Hydref 2013 tan 23 Rhagfyr 2013. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau yng Nghymru a thu hwnt a daeth ystod o randdeiliaid iddynt, yn unigolion ac yn sefydliadau. Cynhaliwyd cyfarfodydd yma yng Nghaerdydd, yn y canolbarth ac yn y gogledd. Ac er bod nifer yr ymatebion unigol i'r rheoliadau yn gymharol fach, derbyniwyd 85 o wahanol ymatebion gan unigolion a sefydliadau i'r cod. Roedd yr ymateb cyffredinol iddo yn gadarnhaol, ond nodwyd nifer o awgrymiadau defnyddiol er mwyn ei wella, ac mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol wedi gweithredu arnynt. Mae'r cod y gofynnir i'r Cynulliad ei gymeradwyo y prynhawn yma, felly, yn wahanol ac yn well na'r un y dechreuwyd arno'n wreiddiol.

I know, speaking to clinicians, that the additional case studies which the code now contains to assist practitioners in applying the law to different sets of clinical circumstances have been particularly useful to them. I believe the code now has the confidence of the clinical community, and I hope it will have the support of the Assembly this afternoon.

Rwy'n gwybod, o siarad â chlinigwyr, bod yr astudiaethau achos ychwanegol y mae'r cod erbyn hyn yn eu cynnwys, i gynorthwyo ymarferwyr wrth gymhwyso'r gyfraith i wahanol fathau o amgylchiadau clinigol, wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol iddynt. Rwy'n credu bod gan y gymuned glinigol ffydd yn y cod bellach, ac rwy'n gobeithio y caiff gefnogaeth y Cynulliad y prynhawn yma.

18:22 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm afraid that I won't be able to endorse the code this afternoon. There are a number of concerns which I have in relation to the contents of the code. Whilst there's lots of excellent material in here in terms of supporting decisions, particularly by clinicians, when wanting to proceed with a transplant activity, I think that there are some issues which still require some further work in order to afford some protections to those individuals who may not want their consent to be deemed.

Rwy'n ofni na fyddaf yn gallu cymeradwyo'r cod y prynhawn yma. Mae gennyf nifer o bryderon ynglŷn â chynnwys y cod. Er bod llawer o ddeunydd rhagorol ynddo o ran cefnogi penderfyniadau, yn enwedig gan glinigwyr, pan fyddant yn dymuno bwrw ymlaen â gweithgaredd trawsblannu, rwyf o'r farn bod rhai materion y mae angen rhywfaint o waith pellach arnynt o hyd er mwyn darparu rhywfaint o fesurau diogelu i'r unigolion hynny nad ydynt o bosibl am i'w cysyniad gael ei dybio.

If I can just touch on a few areas, if I may. The first is in relation to residency. The qualification criteria in terms of being able to deem someone's consent, of course, express the need for somebody to be ordinarily resident in Wales for 12 months or more. We know that there are some people who, through their work circumstances, may work in Wales for a number of days each week before returning to another place for the weekend, or may indeed work weekends in Wales and return to other places midweek. There may be situations where students, as well, may spend long periods of time in Wales, and yet do not regard it as their home. And yet, the information in the code seems to allow a judgment to be taken on whether somebody meets the residency criteria simply by virtue of a specialist nurse taking a judgment call. I cannot see how that can give any confidence to the system, and I think that it needs to be much more robust and much more prescriptive in the way that it approaches the residency criteria, particularly for those who may work for periods of the week in Wales and go elsewhere, and those individual students. I know there are a couple of examples in the code in relation to this, but unfortunately those examples are insufficiently exhaustive to be able to deliver consistent, I believe, decisions by specialist nurses in organ donation when they are touching on these issues. Secondly, in relation to mental capacity, of course, the Act requires that someone must have lost capacity for a significant period prior to their consent having to be given by another person or to be deemed. But, again, the judgment on this is being left to the specialist nurses, in terms of what constitutes—and whether that significant period has been met. I would have thought it better, Minister, for more clarity to be in the code to define a very specific period over which capacity must have been lost in order for that criteria to be met.

Rwyf am sôn am ychydig o feysydd, os caf i. Mae'r cyntaf ynglŷn â phreswylio. Mae'r meini prawf cymhwyster o ran bod yn gallu tybio cydsyniad rhywun, wrth gwrs, yn nodi bod angen i rywun fod wedi preswylio yng Nghymru ers 12 mis neu fwy fel arfer. Rydym yn gwybod bod rhai pobl sydd, trwy eu hamgylchiadau gwaith, efallai yn gweithio yng Nghymru am nifer o ddiwrnodau bob wythnos cyn dychwelyd i fan arall ar gyfer y penwythnos, neu efallai yn wir yn gweithio penwythnosau yng Nghymru ac yn dychwelyd i leoedd eraill ganol yr wythnos. Efallai y bydd sefyllfaoedd lle y mae myfyrwyr, yn ogystal, o bosibl yn treulio cyfnodau hir o amser yng Nghymru, ac eto nid ydynt yn ei ystyried yn gartref iddynt. Ac eto, mae'n ymddangos bod y wybodaeth yn y cod yn caniatáu i farn gael ei nodi ynglŷn â pha un a yw rhywun yn bodloni'r meini prawf preswylio dim ond trwy fod nyrs arbenigol yn gwneud penderfyniad. Ni allaf weld sut y gall hynny roi unrhyw hyder i'r system, ac rwy'n meddwl bod angen iddi fod yn llawer mwy cadarn a llawer mwy rhagnodol yn y ffordd y mae'n ymdrin â'r meini prawf preswylio, yn enwedig ar gyfer y rhai a allai fod yn gweithio am gyfnodau o'r wythnos yng Nghymru ac yna'n mynd i rywle arall, a'r myfyrwyr unigol hynny. Rwy'n gwybod bod un neu ddau o enghreifftiau yn y cod ynglŷn â hyn, ond yn anffodus nid yw'r enghreifftiau hynny'n ddigon cynhwysfawr, yn fy marn i, i allu sicrhau penderfyniadau cyson gan nyrsys arbenigol ym maes rhoi organau pan fyddant yn ymwneud â'r materion hyn. Yn ail, o ran gallu meddyliol, wrth gwrs, mae'r Ddeddf yn mynnu ei bod yn ofynnol i rywun fod wedi colli galluedd am gyfnod sylweddol cyn i'w caniatâd orfod cael ei roi gan berson arall neu i gael ei dybio. Ond, unwaith eto, mae'r farn ar hyn yn cael ei gadael i'r nyrsys arbenigol, o ran yr hyn sy'n golygu—a pha un a yw'r cyfnod sylweddol hwnnw wedi'i fodloni. Rwyf yn meddwl y byddai'n well, Weinidog, bod mwy o eglurder yn y cod i ddiffinio cyfnod penodol iawn pan fo'r gallu i gydsynio wedi ei golli er mwyn i'r r meini prawf hynny gael eu bodloni'.

My third concern relates to jointly appointed representatives, where there is a disagreement. So, for example, there may be someone who, before they pass away, appoint their parents to act on their behalf in making decisions about organ donation, and yet, the code is very explicit, in that, even though they will have been appointed equally to make a decision, because they're not jointly able to make that decision, sometimes, if there's a disagreement, it will always be the person who approves whose decision is taken to proceed with a transplantation activity. I think that that is inappropriate, and that where joint appointments have been made by individuals to make these decisions on somebody else's behalf, then we ought to be more cautious if one of those appointed representatives says no to a procedure, rather than giving a green light because one of them may say yes. And, of course, some people may appoint more than two. They may appoint more than their parents; three, four or five people to make a decision in the event of their death. I just think we need to be very careful about having this presumption always in favour of moving forward with an organ donation activity.

Mae fy nhrydydd pryder yn ymwneud â phenodi cynrychiolwyr ar y cyd, pan fo anghytundeb. Felly, er enghraifft, efallai y bydd rhywun, cyn iddo farw, yn penodi ei rieni i weithredu ar ei ran wrth wneud penderfyniadau am roi organau, ond eto, mae'r cod yn eglur iawn, o ran, er y byddant wedi eu penodi'n gyfartal i wneud penderfyniad, am nad ydynt yn gallu gwneud y penderfyniad hwnnw ar y cyd, weithiau, os oes anghytuno, penderfyniad yr unigolyn sy'n caniatáu a dderbynir bob amser er mwyn bwrw ymlaen â gweithgaredd trawsblannu. Rwy'n meddwl bod hynny'n amhriodol, a phan fo penodiadau ar y cyd wedi eu gwneud gan unigolion i wneud y penderfyniadau hyn ar ran rhywun arall, yna dylem fod yn fwy gofalus os yw un o'r cynrychiolwyr penodedig hynny yn dweud na i weithdrefn, yn hytrach na rhoi golau gwyrdd oherwydd bod un ohonynt efallai yn dweud ie. Ac, wrth gwrs, efallai y bydd rhai pobl yn penodi mwy na dau. Efallai y byddant yn penodi mwy na'u rhieni; tri, pedwar neu bump o bobl i wneud penderfyniad pe byddent yn marw. Rwy'n meddwl bod angen i ni fod yn ofalus iawn o ran rhagdybio bob amser o blaid symud ymlaen gyda gweithgaredd rhoi organau.

I raise this issue again in terms of the competency of a child to be able to make a decision. We've talked about mental capacity issues for adults. We have to ask a question as to when a child can be deemed competent to be making these decisions about whether to donate their organs or not, and how we can test their understanding of the organ donation system and test whether they're properly informed and equipped to be able to make that decision. There's no guidance whatsoever in the code on how to judge that. In fact, it seems to me as though a child is always competent, regardless of their age, regardless of their level of understanding, and to me, that just seems to be very, very wrong indeed.

Rwy'n codi'r mater hwn eto o ran cymhwysedd plentyn i allu gwneud penderfyniad. Rydym wedi siarad am faterion galluedd meddyliol oedolion. Mae'n rhaid i ni ofyn cwestiwn ynghylch pryd y gellir tybio bod plentyn yn gymwys i fod yn gwneud y penderfyniadau hyn ynghylch rhoi ei organau neu beidio, a sut y gallwn brofi ei ddealltwriaeth o'r system rhoi organau a phrofi pa un a oes ganddynt y wybodaeth briodol ac a oes ganddynt yr adnoddau priodol i allu gwneud y penderfyniad hwnnw. Does dim canllawiau o gwbl yn y cod ar sut i farnu hynny. Mewn gwirionedd, mae'n ymddangos i mi fel petai plentyn bob amser yn gymwys, ni waeth beth yw ei oedran, ni waeth beth yw lefel ei ddealltwriaeth, ac i mi, mae'n ymddangos i mi nad yw hynny'n iawn o gwbl.

Fourthly, I'm concerned about the list and the hierarchy that we have in terms of families and friends when they are being spoken to or consulted by someone who wants to proceed with an organ donation activity. There is a clearly ranked system in the code; I think that a rank system is something which is a useful tool, and I know that there was lots of decision on this during the Bill's progression through the Assembly. But, I notice that partners are right at the top of that list, and it simply says that someone must have an enduring family relationship before they can be considered to be a partner who has a say in this process. Again, there's absolutely no definition of what an enduring family relationship is. How long a period of time is that? Is it a week? Is it a month? Is it six months? Two years? Three years? There's no guidance whatsoever; there's no information for people to be able to interpret what an enduring family relationship actually is, and it concerns me again that this is thrown back on to the specialist nurses to make a judgment call on whether they regard the partnership between the two individuals as being one which was enduring. I think, again, that the code is insufficiently prescriptive about what that actually means.

Yn bedwerydd, rwy'n pryderu am y rhestr a'r hierarchaeth sydd gennym o ran teuluoedd a ffrindiau pan siaredir â nhw neu yr ymgynghorir â nhw gan rywun sydd eisiau symud ymlaen â gweithgaredd rhoi organau. Mae system â threfn eglur yn y cod; credaf fod system raddio yn offeryn defnyddiol, ac rwy'n gwybod bod llawer o benderfyniad wedi ei wneud ynglŷn â hyn yn ystod hynt y Bil drwy'r Cynulliad. Ond, rwy'n sylwi bod partneriaid ar frig y rhestr honno, ac mae'n dweud yn syml bod yn rhaid i rywun fod â pherthynas deuluol barhaus cyn y gellir ei ystyried fel partner sydd â hawl i leisio barn yn y broses hon. Unwaith eto, nid oes unrhyw ddiffiniad o beth yw perthynas deuluol barhaus o gwbl. Pa mor hir o ran cyfnod o amser yw hynny? A yw'n wythnos? A yw'n fis? A yw'n chwe mis? Dwy flynedd? Tair blynedd? Does dim canllawiau o gwbl; does dim gwybodaeth i bobl allu dehongli'r hyn sy'n berthynas deuluol barhaus mewn gwirionedd, ac mae'n peri pryder imi eto fod hyn yn cael ei daflu yn ôl at y nyrsys arbenigol i benderfynu a ydynt yn ystyried y bartneriaeth rhwng y ddau unigolyn yn un a oedd yn barhaus. Yn fy marn i, unwaith eto, nid yw'r cod yn ddigon rhagnodol am yr hyn y mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd.

I know that there is this reasonable person test; in the view of a reasonable person, would they conclude that consent had been deemed or not? Frankly, where are we going to find out what a reasonable person would conclude if those matters go to court? It concerns me that we may end up in court unnecessarily as a result of the lack of detail in the code on how to address some of these complex issues. Just in relation to families, as well, Minister, we were told very clearly as an Assembly—I think the public were also told—that whilst there was no veto in law for family members to prevent a transplantation activity from going ahead against their will, there would be a veto in practice. Now, there's no reference to a veto in practice here. I see no way that any of the provisions in the code provide for a veto in practice for family members, or loved ones to be able to prevent a transplantation activity from going ahead. In fact, quite the opposite is the case—it all rests on the SNOD. At the end of the day, the specialist nurse in organ donation will be the person making these decisions, and I think that that is absolutely fundamentally wrong, and I have a big issue with that.

Gwn fod y prawf person rhesymol hwn ar gael; ym marn unigolyn rhesymol, a fyddai'n dod i'r casgliad bod caniatâd wedi ei dybio ai peidio? A dweud y gwir, ble rydym ni'n mynd i ganfod bet fyddai casgliad person rhesymol pe byddai'r materion hynny yn mynd i'r llys? Mae'n peri pryder imi y byddwn yn y pen draw yn y llys yn ddiangen o ganlyniad i'r diffyg manylion yn y cod ar sut i fynd i'r afael â rhai o'r materion cymhleth hyn. Dim ond o ran teuluoedd, hefyd, Weinidog, dywedwyd wrthym yn glir iawn fel Cynulliad—credaf y dywedwyd wrth y cyhoedd hefyd— er nad oedd unrhyw feto yn y gyfraith ar gyfer aelodau o'r teulu i atal gweithgaredd trawsblannu rhag mynd yn ei flaen yn erbyn eu hewyllys, y byddai feto mewn gwirionedd. Nawr, does dim cyfeiriad at feto ymarferol yma. Ni welaf unrhyw ffordd y bydd unrhyw un o'r darpariaethau yn y cod yn darparu ar gyfer feto yn ymarferol ar gyfer aelodau o'r teulu, neu anwyliaid er mwyn gallu atal gweithgaredd trawsblannu rhag mynd yn ei flaen. Yn wir, i'r gwrthwyneb —mae'r cyfan yn dibynnu ar y nyrs arbenigol rhoi organau. Ar ddiwedd y dydd, y nyrs arbenigol rhoi organau fydd y person sy'n gwneud y penderfyniadau hyn, a chredaf fod hynny'n gwbl sylfaenol anghywir, ac mae gen i broblem fawr gyda hynny.

And, finally, if I can also say this: I think it would be useful if express consent, where it's given by someone who has passed away, for their organs to be donated—. I don't think, frankly, that family members, or loved ones, should stand in the way of those organs being donated, if it's suitable for a transplantation activity to go ahead. And, again, the code is absolutely silent on that matter, and I can see that cropping up fairly frequently, actually, in the future. We know it happens fairly regularly now, where somebody is signed up to the organ donation register, but their families don't want those organs to be donated. It's very rare that organ donation activity takes place as a result, in those sorts of circumstances, but, again, the code is silent on it. These are things that I think are important to clarify in the code. They're not clarified, and therefore I cannot support the approval of this particular code. I would welcome further work on it before the Assembly approves it, and I would urge all Members to think carefully about those particular issues.

Ac, yn olaf, os caf ddweud hyn hefyd: rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe byddai cydsyniad datganedig, pan gaiff ei roi gan rywun sydd wedi marw, i'w horganau gael eu rhoi—. Nid wyf yn credu, a dweud y gwir, y dylai aelodau o'r teulu, nac anwyliaid, rwystro'r organau hynny rhag cael eu rhoi, os yw'n addas i weithgaredd trawsblannu fynd yn ei flaen. Ac, unwaith eto, mae'r cod yn gwbl dawel ar y mater hwnnw, a gallaf weld hynny'n codi yn eithaf aml, mewn gwirionedd, yn y dyfodol. Rydym yn gwybod ei fod yn digwydd yn weddol gyson nawr, lle mae rhywun yn ymuno â'r gofrestr rhoi organau, ond nid yw ei deulu yn dymuno i'r organau hynny gael eu rhoi. Mae'n anghyffredin iawn i weithgarwch rhoi organau ddigwydd o ganlyniad, o dan y mathau hynny o amgylchiadau, ond, unwaith eto, nid yw'r cod yn dweud dim ynghylch hynny. Mae'r rhain yn bethau yr wyf o'r farn ei bod yn bwysig eu hegluro yn y cod. Nid ydynt wedi'u hegluro, ac felly ni allaf gefnogi cymeradwyaeth y cod arbennig hwn. Byddwn yn croesawu rhagor o waith arno cyn i'r Cynulliad ei gymeradwyo, a byddwn yn annog pob Aelod i feddwl yn ofalus am y materion penodol hynny.

18:31

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm basically seeking some assurances, Minister, and making a final plea on one particular point. I understand the code of practice seeks to walk a delicate line, at a difficult time. However, when talking of organ transplant, I am concerned that we are not emotionally engaging with the fact that we are talking about death and bereavement, and I would like assurances that specialist nurses in organ donations bear in mind that we must have balance.

Yn y bôn, rwy'n ceisio cael rhywfaint o sicrwydd, Weinidog, ac yn gwneud ple terfynol ar un pwynt penodol. Rwyf yn deall bod y cod ymarfer yn ceisio cael cydbwysedd sensitif, ar adeg anodd. Fodd bynnag, wrth siarad am drawsblannu organau, rwy'n bryderus nad ydym yn ymgysylltu'n emosiynol â'r ffaith ein bod yn sôn am farwolaeth a phrofedigaeth, a hoffwn gael sicrwydd bod nyrsys arbenigol rhoi organau yn cofio bod yn rhaid inni gael cydbwysedd.

This Bill cannot just be about the harvesting of organs, but also about the care and compassion, and ongoing support required for the living, particularly for people who have lost a loved one, who may have challenged and lost in the decision-making process with a specialist nurse, because their grief will be so much harder to bear. And I do want to make the comment that, earlier this year, I almost died, and if my family unit had had to make these kinds of choices, at the point when they were talking about putting me into the high dependency unit, I suspect they would have fallen apart, and would have found it very difficult to take it forward.

Ni all y Bil hwn fod ynghylch cynaeafu organau yn unig, ond hefyd am y gofal a'r trugaredd, a'r gefnogaeth barhaus sy'n ofynnol ar gyfer y byw, yn enwedig pobl sydd wedi colli rhywun annwyl, a allai fod wedi herio ac wedi colli yn y broses o wneud penderfyniadau gyda nyrs arbenigol, oherwydd bydd eu galar yn llawer anoddach iddynt. Ac rwyf am wneud y sylw, y bu bron i minnau â marw, yn gynharach eleni, a phe byddai fy uned deuluol wedi gorfod gwneud y mathau hyn o ddewisiadau, ar yr adeg pan yr oeddynt yn trafod fy rhoi yn yr uned dibyniaeth uchel, rwy'n amau na fyddent wedi gallu ymdopi a byddent wedi'i chael yn anodd iawn i symud ymlaen â hynny.

Now, I've not mention anything that's happened to me, and I reluctantly raise it now, because what I'm trying to do is make us remember this is about people. It's very easy to talk about Acts and Bills and regulations, and forget that what we need to ensure is that the people who are going to deal with this on the front line—those specialist nurses—really do understand that, and understand that not everybody goes into hospital and has, you know, a card in their back pocket, it's not all going to be prepped, and that there will be instances where people are either just overwhelmed with the situation, and simply mentally cannot catch up with it, let alone make a rational, clear-sighted argument for or against whatever they want to do with their loved one's organs. The same would apply, perhaps, to somebody who'd been involved in a road traffic accident. You simply don't expect to leave here and have that happen to you.

Nawr, nid wyf wedi sôn am unrhyw beth sydd wedi digwydd i mi, ac rwyf yn ei godi yn amharod yn awr, oherwydd yr hyn yr wyf i'n ceisio ei wneud yw gwneud i ni gofio bod hyn yn ymwneud â phobl. Mae'n hawdd iawn siarad am Ddeddfau a Biliau ac anghofio mai'r hyn y mae angen i ni ei sicrhau yw bod y bobl a fydd yn ymdrin â hyn ar y rheng flaen—y nyrsys arbenigol hyn—wir yn deall hynny, ac yn deall nad yw pawb yn mynd i'r ysbyty, wyddoch chi, â cherdyn yn eu poced gefn, nid yw popeth yn mynd i fod wedi'i baratoi, a bydd achosion lle y bydd pobl wedi'u llethu gan y sefyllfa, ac yn feddyliol yn methu ag ymdopi â'r penderfyniad, heb sôn am allu llunio dadl resymegol a chlir o blaid neu yn erbyn beth bynnag y maent am ei wneud ag organau eu hanwylyd. Byddai yr un peth yn berthnasol, efallai, i rywun a fyddai wedi bod mewn damwain ffordd.  Dydych chi ddim yn disgwyl gadael y fan yma chael hynny'n digwydd i chi.

So, we do need to make sure that we understand that it's not just about trying to get organs to help people who desperately need them, but it's also about managing the situation with the people who are being asked to donate those organs. I would like assurances about the training and support, and I'd like you to consider, perhaps, what ongoing support might be given to the families where they said 'no', but, for whatever reason, the decision has gone against their wishes, because they will really, I think, struggle for this. Because I think that we do want to increase the number of organ donors, and we mustn't be seen as authoritarian about it, but, rather, compassionate.

Felly, mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn deall nad dim ond am geisio cael organau er mwyn helpu pobl sydd wir eu hangen yw hyn, ond mae hefyd yn ymwneud â rheoli'r sefyllfa gyda'r bobl y gofynnir iddynt roi yr organau hynny. Hoffwn sicrwydd ynghylch yr hyfforddiant a'r cymorth, ac fe hoffwn i chi ystyried, o bosibl, pa gefnogaeth barhaus y gellid ei rhoi i deuluoedd pan eu bod yn dweud 'na', ond, am ba reswm bynnag, bod y penderfyniad wedi mynd yn groes i'w dymuniadau, oherwydd byddant yn wir, yn fy marn i, yn ei chael hi'n anodd iawn. Oherwydd fy mod yn credu ein bod yn awyddus i gynyddu nifer y rhoddwyr organau, ac na ddylem gael ein gweld fel bod yn awdurdodol am hynny, ond, yn hytrach, yn drugarog.

I'm also a bit concerned over how long the entire process could take, because the code talks about what we might have to do if we have to involved legal professional people for determination. It can take 12 hours plus to make some of these decisions. And I would like to make sure that these specialist organ donation nurses do not put people under undue pressure and people are not made to feel demonised if they were to say 'no', and that they are given a chance to get to that decision on their own.

Rwy'n bryderus braidd ynghylch pa mor hir y gallai'r broses gyfan gymryd hefyd, gan fod y cod yn sôn am yr hyn y gallai fod yn rhaid i ni ei wneud os oes rhaid i ni gynnwys pobl broffesiynol gyfreithiol i gael penderfyniad. Gallai gymryd 12 awr a mwy i wneud rhai o'r penderfyniadau hyn. A hoffwn i wneud yn siŵr nad yw'r nyrsys arbenigol rhoi organau yn rhoi pobl dan ormod o bwysau ac nad yw pobl yn cael eu gwneud i deimlo eu bod yn cael eu demoneiddio pe byddent yn dweud 'na', a'u bod yn cael cyfle i wneud y penderfyniad hwnnw ar eu pennau eu hunain.

I can't find where in the code of practice you've dealt with the matter of organ donation from a child where the local authority has either parental responsibility or shared responsibilities for the parenting of that child. We did talk about it, you did say you would be looking at it and you would be talking to the staff who are putting this together, and I am perfectly prepared to accept that I've missed it, but I would be grateful for your clarity on that.

Ni allaf weld ble yn y cod ymarfer yr ydych wedi ymdrin â'r mater o roi organau gan blentyn pan fydd gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant neu gyfrifoldebau a rennir ar gyfer rhianta y plentyn hwnnw. Gwnaethom siarad am y peth, dywedasoch y byddech yn ystyried hyn ac y byddech yn siarad â'r staff sy'n rhoi hwn at ei gilydd, ac yr wyf yn berffaith barod i dderbyn nad wyf wedi sylwi arno, ond byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn egluro hynny.

Finally, I think my final plea is: I did ask you, Minister, in Stages 2 and 3, to consider a full review of the system within five years. I'm asking you again—and, again, I don't see that anywhere in regulations or intent—because I don't think anyone can put their hand on their heart and say that the NHS does not make mistakes. There is evidence aplenty, and we're talking about individual people. You only need one person who hasn't perhaps understood their role very well and they are a little bit brusque or abrupt, and I would like to ask you, Minister, to perhaps update us on what your views are on how you're going to measure how this is working, how you're going to measure the application of the process, not just whether we've got more organ donors on board, whether we've had more success in attracting people. Because I will be supporting this, the regulations, I do want this to go forward, I do think it's vitally important that we have more organ donors, but I also do not want this just to be a 'job done, and we'll leave it now to carry on' without somebody really monitoring and evaluating, not just the quantity, but actually the qualitative experience that people go through when they're going through this very difficult situation. Because the more we can reassure people that they can have trust in this particular element, then, hopefully, the more people will come forward willingly to donate their organs. Thank you.

Yn olaf, fy mhle olaf rwy'n credu yw: gofynais i chi, Weinidog, yng Nghyfnodau 2 a 3, i ystyried adolygiad llawn o'r system o fewn pum mlynedd. Rwy'n gofyn i chi eto—ac, unwaith eto, nid wyf yn gweld bod hynny mewn unrhyw le yn y rheoliadau neu bod bwriad—oherwydd nid wyf yn credu y gall unrhyw un roi ei law ar ei galon a dweud nad yw'r GIG yn gwneud camgymeriadau. Mae digon o dystiolaeth, ac rydym yn siarad am bobl unigol. Dim ond un person y mae'n rhaid ei gael, nad yw o bosibl wedi deall ei swyddogaeth yn dda iawn a'i fod ychydig yn blwmp ac yn blaen neu'n swta, a hoffwn ofyn i chi, Weinidog, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am eich safbwyntiau chi ynghylch sut yr ydych yn mynd i fesur sut mae hyn yn gweithio, sut yr ydych yn mynd i fesur y modd o gymhwyo'r broses, nid dim ond a ydym wedi llwyddo i gael mwy o roddwyr organau, pa un a ydym wedi cael mwy o lwyddiant wrth ddenu pobl. Oherwydd byddaf i'n cefnogi hyn, y rheoliadau, rwyf am i hyn fynd yn ei flaen, rwy'n credu ei bod yn hanfodol bwysig bod gennym fwy o roddwyr organau, ond hefyd nid wyf am i hyn fod yn rhywbeth sydd wedi ei orffen a'i adael a chario ymlaen heb i rywun fonitro a gwerthuso, nid dim ond o ran y niferoedd, ond ansawdd y profiad i bobl pan fyddant yn y sefyllfa anodd iawn hon. Oherwydd y mwyaf y gallwn sicrhau pobl eu bod yn gallu ymddiried yn yr elfen arbennig hon, yna, gobeithio, y mwyaf o bobl fydd yn barod i roi eu horganau. Diolch.

18:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

18:37

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank those Members who have spoken for the care with which they've looked at the code, for the thought they've given to the very serious issues that they've raised? I just need to be clear with Members here that the Act comes into force on 1 December. It comes into force whether there is a code or not. So, the choice in front of us is not whether or not to stop the Act or not, it's whether the Act comes into being with the support of the code we have, capable of being improved, as it certainly may be, or whether we have no code at all. And I think it's certainly better that we have this code and that we listen carefully to what people have said about it and, where we can improve it, we work to improve it, because the code—

A gaf i ddiolch i'r Aelodau hynny sydd wedi siarad, am y gofal y maent wedi ei ddangos wrth edrych ar y cod, am yr ystyriaeth y maen nhw wedi ei rhoi i'r materion difrifol iawn y maent wedi eu codi? Mae angen i mi fod yn glir gyda'r Aelodau yma bod y Ddeddf yn dod i rym ar 1 Rhagfyr. Mae'n dod i rym pa un a oes cod ai peidio. Felly, nid a ddylid atal y Ddeddf ai peidio yw'r dewis sydd o'n blaenau, ond a yw'r Ddeddf yn dod i fodolaeth gyda chefnogaeth y cod sydd gennym, y gellir ei wella, ac yn sicr gall hynny fod yn wir, neu a ydym am beidio â chael cod o gwbl. Ac rwy'n meddwl ei bod yn sicr yn well bod gennym y cod hwn a'n bod yn gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae pobl wedi ei ddweud amdano, lle y gallwn ei wella, ein bod yn gweithio i'w wella, gan fod y cod—

18:38

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention, Minister?

A wnewch chi dderbyn ymyriad, Weinidog?

18:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren Miller.

Darren Miller.

18:38

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sorry for interrupting your flow there, but what you seem to be suggesting is, even though it may be bad as a code in the view of some people, certainly from my perspective and the perspective of some others, I'm sure, we should proceed with it because it's all we've got. That appears to be your defence in seeking to have this code approved right now. Surely, you should accept some responsibility for bringing it to the Assembly so late in the day, so soon to this deadline, which is now just eight weeks away. If you're giving a clear commitment, perhaps, to review the code, I may well review my position, but I think we need some clarity on where you stand and whether you acknowledge that perhaps it's taken too long to bring this code before the Assembly for discussion.

Mae'n ddrwg gen i am dorri ar draws eich llif, ond mae'n ymddangos eich bod yn awgrymu y dylem fwrw ymlaen ag ef, er y gall fod yn wael fel cod ym marn rhai pobl, yn sicr o fy safbwynt i a safbwynt rhai pobl eraill, rwy'n siŵr, oherwydd dyna'i gyd sydd gennym. Mae'n ymddangos mai dyna yw eich amddiffyniad o ran ceisio cael y cod hwn wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd. Does bosib na ddylech dderbyn peth cyfrifoldeb am ddod ag ef i'r Cynulliad mor hwyr, mor agos i'r dyddiad cau hwn, sydd bellach dim ond wyth wythnos i ffwrdd. Os ydych chi'n rhoi ymrwymiad clir, efallai, i adolygu'r cod, efallai y byddaf yn ailystyried fy safbwynt, ond rwy'n credu ein bod angen rhywfaint o eglurder ynglŷn â ble rydych chi'n sefyll ac a ydych yn cydnabod ei bod efallai wedi cymryd gormod o amser i ddod â'r cod hwn gerbron y Cynulliad ar gyfer ei drafod.

18:39

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I don't accept both of the main points I think were being made there. That was not the point I was making; I'm simply saying to Members that I believe that this is a good code. I think it has the support of the clinical community. That does not mean that I think that it could not be improved, and I think the discussion we've had this afternoon will be very useful in pointing to some places where it could still be improved. I see the code as something that is always under review, where we are always learning from this new experience and looking to see where it can be strengthened. But if you're asking me whether I think it is better that this Act proceeds with this code or without a code at all, then I'm very clear in my proposal to you that this code is one worth supporting, and I hope you will support it this afternoon.

Wel, nid wyf yn derbyn yr un o'r ddau brif bwynt a oedd yn cael eu gwneud yn y fan yna. Nid dyna'r pwynt roeddwn i'n ei wneud; dweud ydw i wrth yr Aelodau fy mod yn credu bod hwn yn god da. Rwy'n credu bod ganddo gefnogaeth y gymuned glinigol. Nid yw hynny'n golygu fy mod yn credu na ellid ei wella, ac rwy'n credu y bydd y drafodaeth a gawsom y prynhawn yma yn ddefnyddiol iawn wrth dynnu sylw at rhai mannau lle y gellid ei wella eto. Rwy'n gweld y cod yn rhywbeth a fydd yn cael ei adolygu'n barhaus, lle rydym bob amser yn dysgu o brofiad newydd ac yn edrych i weld lle y gellir ei gryfhau. Ond os ydych yn gofyn imi a ydw i'n meddwl ei bod yn well bod y Ddeddf hon yn bwrw ymlaen gyda'r cod hwn neu heb god o gwbl, yna rwy'n glir iawn yn fy nghynnig i chi bod y cod hwn yn un sy'n werth ei gefnogi, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn ei gefnogi y prynhawn yma.

In Darren's contribution, I felt he was making two rather different points. There are some aspects of the code where I think he doesn't agree with the position that the code sets out, and, of course, that's fine; there will be things in the code that people will take a different view of—so, jointly appointed representatives, the way that children are conceptualised in the code. I think he just has a different view to the people who have drawn up the code, and there's a proper discussion to be had about that. But his larger number of points, I think, take us to the heart of a discussion that we, as people who make the law, need to think about. Because it is the extent to which we think we, as legislators, ought to be standing in the room where these decisions are being made, making those decisions ourselves through the way that we make the law, and how far we think that, actually, that isn't a job that the law can set out in such detail, and where we come to a point where we have to say the law stands back and we rely on the judgment that has to be made. In these circumstances, there will always be really difficult judgments to be made as to whether or not somebody has been 'ordinarily resident'. 'Ordinarily resident' is defined in case law; we changed this part of the Bill as it went through the Assembly to make someone have to be ordinarily resident for 12 months rather than six months, as part of the law. But how do you make that judgment? Is that something a legislature can so define that it removes the possibility that someone, on the spot, will have to work through the dilemmas that Darren mentioned?

Yng nghyfraniad Darren, roeddwn i'n teimlo ei fod yn gwneud dau bwynt braidd yn wahanol. Mae rhai agweddau ar y cod lle rwy'n credu nad yw'n cytuno â'r safbwynt y mae'r cod yn ei nodi, ac, wrth gwrs, mae hynny'n iawn; bydd pethau yn y cod y bydd gan bobl wahanol farn arnynt—fel cynrychiolwyr a benodwyd ar y cyd, y ffordd y mae plant yn cael eu hystyried yn y cod. Rwy'n credu bod ganddo farn wahanol i'r bobl sydd wedi llunio'r cod, ac mae trafodaeth briodol i'w chael am hynny. Ond mae'r rhan fwyaf o'i bwyntiau, rwy'n meddwl, yn mynd â ni i galon trafodaeth y mae'n rhaid i ni, fel pobl sy'n gwneud y gyfraith, feddwl amdani. Oherwydd y graddau yr ydym yn meddwl y dylem ni, fel deddfwyr, fod yn sefyll yn yr ystafell lle y gwneir y penderfyniadau hyn, yn gwneud y penderfyniadau hynny ein hunain drwy'r ffordd yr ydym yn gwneud y gyfraith, a pha mor bell yr ydym yn credu, mewn gwirionedd, nad yw honno'n swyddogaeth y gall y gyfraith ei nodi mor fanwl â hynny, a lle rydym yn dod i bwynt lle mae'n rhaid i ni ddweud bod y gyfraith yn sefyll yn ôl a'n bod yn dibynnu ar y penderfyniad y mae'n rhaid ei wneud. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd bob amser benderfyniadau anodd iawn eu gwneud ynghylch pa un a yw rhywun wedi bod yn 'preswylio fel arfer' ai peidio. 'Caiff 'Preswylio fel arfer' ei ddiffinio mewn cyfraith achos; rydym wedi newid y rhan hon o'r Bil wrth iddo fynd drwy'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i rywun fod wedi preswylio fel arfer am 12 mis yn hytrach na chwe mis, yn rhan o'r gyfraith. Ond sut ydych chi'n gwneud y penderfyniad hwnnw? A yw hynny'n rhywbeth y gall deddfwriaeth ei ddiffinio er mwyn atal y posibilrwydd y bydd rhywun, yn y fan a'r lle, yn gorfod gweithio drwy'r sefyllfaoedd anodd y soniodd Darren amdanynt?

In terms of capacity and a 'significant period', can we define, here, what a 'significant period' would mean in every possible eventuality, or do we rely on the judgment of those people who do this job all the time? An 'enduring family relationship'—can we define 'enduring' here, sufficiently, to remove all the room for doubt that Darren raised? I don't think we can, and so I'm in just a slightly different place than he is—

O ran gallu i gydsynio a 'chyfnod sylweddol', a allwn ni ddiffinio, yma, beth y byddai 'cyfnod sylweddol' yn ei olygu ym mhob sefyllfa bosibl, neu a ydym yn dibynnu ar farn y bobl hynny sy'n gwneud y swydd hon drwy'r amser? 'Perthynas deuluol barhaus'—a allwn ni ddiffinio 'parhaus' yma, yn ddigonol, i atal yr holl amheuaeth a gododd Darren? Nid wyf yn credu y gallwn ni, ac felly mae fy safbwynt ychydig yn wahanol i'w safbwynt ef—

*Darren Millar a gododd—*

*Darren Millar rose—*

18:42

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—from where I think the legislature ends and the professional judgment of the person on the spot has to begin.

[Yn parhau.] - o ran ble y mae deddfwriaeth yn dod i ben, yn fy marn i, a'r lle y mae'n rhaid i farn broffesiynol y person yn y fan a'r lle ddechrau.

18:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren Millar.

Darren Millar.

18:42 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don’t disagree that there are contexts to every situation that need to be considered on an individual, case-by-case basis. I’m simply saying that, because the code is silent on some of these issues, further guidance, I’m sure, would be welcomed on what would typically, for example, constitute ordinary residence, or someone being ordinarily resident, or typically would describe an enduring relationship, or typically describe a ‘significant period’. I think those sorts of things would be very useful for specialist nurses when they are seeking to implement this new law, when they’re seeking to determine whether somebody has deemed their consent or not.

Nid wyf yn anghytuno bod cyd-destunau i bob sefyllfa y mae angen eu hystyried ar sail unigol, fesul achos. Y cyfan rwy’n ei ddweud yw y byddai mwy o ganllawiau yn cael eu croesawu, rwy’n siwr, gan fod y cod yn dawel ar rai o'r materion hyn, ynglŷn â’r hyn a fyddai fel arfer, er enghraifft, yn gyfystyr â phreswylio arferol, neu rywun sy'n preswylio fel arfer, neu'n a fyddai’n nodweddiadol yn disgrifio perthynas barhaus, neu fel arfer yn disgrifio 'cyfnod sylweddol'. Rwy'n credu y byddai'r mathau hynny o bethau yn ddefnyddiol iawn ar gyfer nyrsys arbenigol pan eu bod yn ceisio gweithredu'r gyfraith newydd hon, pan fyddant yn ceisio penderfynu a yw rhywun wedi rhoi ei ganiatâd ai peidio.

18:43 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, put like that, I think the point is very well made. I’m very happy to take those ideas to the people responsible for the code, see if there are ways in which further guidance could be usefully drawn up. Wherever guidance ends, there will come a point where the professional judgment of the person on the spot—and we’ve spoken very warmly about our specialist nurses in this field, this afternoon, for very good reason—we will have to rely on and their ability to sum up all those competing pressures in the unique set of circumstances that they find themselves in.

Wel, o'i roi fel yna, rwy'n meddwl bod y pwynt yn cael ei wneud yn dda iawn. Rwy'n hapus iawn i fynd â’r syniadau hynny at y bobl sy'n gyfrifol am y cod, i weld a oes ffyrdd y gallai canllawiau pellach a fyddai'n ddefnyddiol gael eu llunio. Lle bynnag y bydd y canllawiau yn dod i ben, fe ddaw pwynt lle mae barn broffesiynol y person yn y fan a'r lle—ac rydym wedi siarad yn gynnes iawn am ein nyrsys arbenigol yn y maes hwn, y prynhawn yma, am reswm da iawn—bydd yn rhaid i ni ddibynnu ar eu gallu nhw i grynhoi’r holl bwysau hynny sy’n cystadlu yn y gyfres unigryw o amgylchiadau y maent yn canfod eu hunain ynddynt.

Now, in fact, I find myself, I think, closer to Angela Burns's position on some of these things, probably, than Darren Millar's, because what Angela Burns was asking for was assurance that those people who will be making those judgments and who will be discharging those responsibilities, will do it in a way that is sensitive, that they will do it in a way that has been properly trained and supported, and that they will do it in a way that is compassionate to all those people who are involved in that room. Darren's position, as he outlined it again today, as he did during the passage of the Bill, actually would not be like that in the case of people who have opted to be organ donors, because his position would be, if you did have a card in your pocket, no matter how distressed your family might be, and no matter how long they may have to wait, and no matter how much it might interfere with their grieving process, the law would be the law, and organ donation would go ahead. The system that we have introduced, in this Chamber, is not that system. We have said that there will always be a balance of interests that the clinician has to attend to. If a person is known to be in favour of organ donation, a family cannot simply say, 'Well, we don't like it, so you mustn't go ahead'; it's the wish of the person that comes first. But if that family were to be so distressed—. I remember very well hearing an account during the passage of the Bill of a family who have been in that hospital room for four days by now, on that rollercoaster of thinking that that person might have recovered, and finally finding that they can't. They've not been home, they haven't had a wash, they haven't eaten, they are in a very distressed condition themselves, and now they are told that, although it is all over for their loved one, they may have to wait another 12 hours while an organ donation process goes ahead. And they say to the clinician, even though that person wanted to be an organ donor, 'We can't survive that experience'. And, in our law, the clinician has a duty of care to those people as well as to the potential donor, and that's the point at which, even though the donor themselves had a view, the clinician can still decide that donation should not go ahead in those circumstances. I think that we have framed the legislation very carefully around the things that Angela Burns has raised, and I am confident that it does strike that compassionate balance.

Nawr, mewn gwirionedd, rwy'n meddwl fy mod yn nes at safbwynt Angela Burns ar rai o'r pethau hyn, yn ôl pob tebyg, na Darren Millar, oherwydd yr hyn yr oedd Angela Burns yn gofyn amdano oedd sicrwydd y bydd y bobl hynny a fydd yn gwneud y penderfyniadau hynny ac a fydd yn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny, yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n sensitif, y byddant yn gwneud hynny mewn ffordd sydd yn dilyn hyfforddiant a chefnogaeth briodol, ac y byddant yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n drugarog i'r holl bobl hynny sy'n ymwneud â'r achos yn yr ystafell honno. Ni fyddai safbwynt Darren, fel y'i hamlinellodd eto heddiw, fel y gwnaeth yn ystod hynt y Bil, felly, mewn gwirionedd, yn achos pobl sydd wedi dewis bod yn rhoddwyr organau, oherwydd ei safbwynt ef fyddai, pe byddai gennych gerdyn yn eich poced, ni waeth pa mor ofidus y gallai eich teulu fod, ac ni waeth pa mor hir y byddai'n rhaid iddynt aros, ac ni waeth faint y gallai hynny ymyrryd ar eu proses o alaru, y gyfraith fyddai'r gyfraith, a byddai'r organau'n cael eu rhoi. Nid y system honno yw'r system yr ydym ni wedi'i chyflwyno, yn y Siambr hon. Rydym wedi dweud y bydd bob amser gydbwysedd mewn buddiannau y bydd yn ofynnol i'r clinigydd ymdrin â nhw. Os yw'n wybyddus fod person o blaid rhoi organau, ni all teulu ddweud, 'Wel, nid ydym yn hoffi hynny, felly ni chaiff hynny fynd yn ei flaen'; dymuniad y person sy'n dod yn gyntaf. Ond os byddai'r teulu hwnnw'n ofidus iawn—. Rwy'n cofio clywed yn ystod hynt y Bil am deulu oedd wedi bod yn yr ystafell honno yn yr ysbyty am bedwar diwrnod erbyn hynny, ac yn meddwl pob mathau o bethau gan gynnwys y gallai'r person fod wedi gwella, ond yn y diwedd yn cael gwybod nad oedd yn gallu gwella. Nid oeddent wedi bod gartref, nid oeddent wedi ymolchi, nid oeddent wedi bwyta, roeddent mewn cyflwr trallodus iawn eu hunain, ac maent yn cael gwybod yn y diwedd, er bod eu hanwylyd wedi cyrraedd pen y daith, y gallai fod angen iddynt aros am 12 awr arall tra bod y broses o roi organau yn mynd yn ei blaen. Ac maent yn dweud wrth y clinigwr, er bod y person hwnnw eisiau bod yn rhoddwr organau, 'Ni allwn ddioddef y profiad hwnnw'. Ac, yn ein cyfraith ni, mae gan y clinigydd ddyletswydd gofal i'r bobl hynny yn ogystal ag i'r rhoddwr posibl, a dyna'r pwynt lle, er bod gan y rhoddwr ei hun safbwynt, y gall y clinigwr benderfynu na ddylai'r rhodd fynd yn ei flaen dan yr amgylchiadau hynny. Rwy'n meddwl ein bod wedi llunio'r ddeddfwriaeth yn ofalus iawn ar y pethau y mae Angela Burns wedi eu codi, ac rwy'n hyderus bod hynny'n gydbwysedd trugarog.

Let me finally just assure her, if I can, that, in terms of the review of this legislation, we have an agreement with Professor Roy Carr-Hill of the Carr-Hill formula, so a person who is very eminent indeed in the field of medical ethics and the way that clinicians operate. He and his team will carry out a full review, an independent evaluation, of this law. They will report at the end of two years; they will report beyond that as well. Whatever conclusions they come to will be published, and their review is not simply one of numbers; it is qualitative as well as quantitative. It will look at the experience of all those people who now have new responsibilities and new possibilities within this law. Just as we will learn things for the code of practice, we will learn things for the law itself, and the law is framed in a way that is sufficiently flexible for a future legislature to return to these issues, make fresh regulations, amend the code, and attend to the issues that, inevitably, doing something for the first time in this way, will throw up for us all.

Gadewch i mi, yn olaf, roi sicrwydd iddi, os gallaf, o ran yr adolygiad o'r ddeddfwriaeth hon, fod gennym gytundeb gyda'r Athro Roy Carr-Hill a luniodd y fformiwla Carr-Hill, person sydd felly yn amlwg iawn yn wir yn y maes moeseg feddygol a'r ffordd y mae clinigwyr yn gweithredu. Bydd ef a'i dîm yn cynnal adolygiad llawn, gwerthusiad annibynnol, o'r gyfraith hon. Byddant yn cyflwyno adroddiad ar ddiwedd y ddwy flynedd; byddant yn cyflwyno adroddiadau wedi hynny hefyd. Bydd pa bynnag gasgliadau y maent yn dod iddynt yn cael eu cyhoeddi, ac nid adolygiad o niferoedd yn unig fydd hwnnw; bydd yn ansoddol yn ogystal â meintiol. Bydd yn edrych ar brofiad yr holl bobl hynny sydd bellach â chyfrifoldebau newydd a phosibiliadau newydd o fewn y gyfraith hon. Yn union fel y byddwn ni'n dysgu pethau am y cod ymarfer, byddwn ni'n dysgu pethau am y gyfraith ei hun, ac mae'r gyfraith yn cael ei llunio mewn ffordd sy'n ddigon hyblyg i ddeddfwrfa yn y dyfodol ddychwelyd at y materion hyn, gwneud rheoliadau newydd, diwygio'r cod ac ymdrin â'r materion hynny y bydd gwneud rhywbeth am y tro cyntaf yn y modd hwn, yn anochel, yn ei achosi i ni i gyd.

18:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:47

## 12. Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

## 12. Stage 4 Debate on the Local Government (Wales) Bill

Y — Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Item 12 has been withdrawn.

Mae Eitem 12 wedi cael ei thynnu'n ôl.

18:47

## 13. Cyfnod Pleidleisio

## 13. Voting Time

Y — Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

We now move to voting time. Before I conduct the votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we'll now vote on the Human Transplantation (Persons who Lack Capacity to Consent) (Wales) Regulations 2015. I call for a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38. There were 10 votes against. There was one abstention. Therefore, the regulations are approved.

Symudwn nawr at y cyfnod pleidleisio. Cyn i mi gynnal y pleidleisiau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, byddwn yn pleidleisio yn awr ar Reoliadau Trawsblannu Dynol (Personau nad yw'r gallu edd ganddynt i gydsynio) (Cymru) 2015. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 38 wedi pleidleisio o blaid. Roedd 10 pleidlais yn erbyn. Roedd un wedi ymatal. Felly, mae'r rheoliadau wedi'u cymeradwyo.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 38, Yn erbyn 10, Ymatal 1.*

*Motion agreed: For 38, Against 10, Abstain 1.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5835

Result of the vote on motion NDM5835

18:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now vote on the Human Tissue Authority's code of practice, and I call for a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 39. There were nine votes against. There was one abstention. Therefore the motion is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar god ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, ac rwy'n galw am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 39 wedi pleidleisio o blaid. Roedd naw o bleidleisiau yn erbyn. Roedd un wedi ymatal. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 39, Yn erbyn 9, Ymatal 1.*

*Motion agreed: For 39, Against 9, Abstain 1.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5836

Result of the vote on motion NDM5836

18:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:49.*

*The meeting ended at 18:49.*